Gwybodaeth i Rieni

# Llyfryn Derbyn i Ysgolion 2024-2025





Gwnewch gais ar-lein yn
**www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion**

## Y DYDDIADAU CAU AR GYFER GWNEUD CAIS YW:

**DECHRAU YSGOL UWCHRADD (BLWYDDYN 7)** ym mis Medi 2024: **DYDD LLUN 20 TACHWEDD 2023**

**DECHRAU YSGOL GYNRADD (DOSBARTH DERBYN)** ym mis Medi 2024: **DYDD LLUN 8 IONAWR 2024**

**DECHRAU YSGOL FEITHRIN** ym mis Medi 2024: **DYDD LLUN 26 CHWEFROR 2024**

**DECHRAU YSGOL FEITHRIN** yng NGWANWYN/HAF 2025: **DYDD LLUN 1 GORFFENNAF 2024**



CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Llythyr croeso** | **3** |
| **CYFLWYNIAD** | **4** |
| **Gwneud cais am le mewn ysgol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2024/2025 – Crynodeb Hanfodol** | **5** |
| • Grwpiau blwyddyn ysgol | 7 |
| • Mathau o ysgolion | 8 |
| • Addysg Gymraeg | 8 |
| **GWNEUD CAIS** | **12** |
| **Y broses Dderbyn Flynyddol** | **13** |
| • Camau'r broses | 13 |
| • Amserlen gwneud cais | 13 |
| • Sut mae gwneud cais | 14 |
| • Ceisiadau hwyr | 14 |
| **Cael Cynnig Lle mewn Ysgol** | **14** |
| • Amserlen cynigion | 15 |
| • Rowndiau dyrannu diweddarach | 15 |
| • Derbyn lle mewn ysgol | 16 |
| • Os na fydd lle mewn ysgol yn cael ei dderbyn erbyn mis Medi 2024 | 16 |
| • Sut caiff lleoedd mewn ysgolion eu dyrannu | 17 |
| • Eglurhad ar dermau | 18 |
| **Lle gallwch gael help – Cyfeiriadur Hybiau Cymunedol Caerdydd** | **22** |
| **Cynghorion ac Awgrymiadau** | **24** |
| • Dewis eich ysgolion | 25 |
| • Ffeithiau Derbyn i Ysgolion | 27 |
| **DECHRAU'R YSGOL FEITHRIN** | **28** |
| • Dyddiadau cymhwyso ar gyfer derbyn | 29 |
| • Meini prawf derbyn ar gyfer Ysgolion a dosbarthiadau Meithrin cymunedol | 29 |
| • Gwybodaeth bwysig i'w hystyried wrth wneud cais am le Meithrin | 29 |
| • Cyllid Blynyddoedd Cynnar | 31 |
| • Darparwyr addysg feithrin sydd wedi'u cymeradwyo | 31 |

| | Tudalen |
|---|---|
| **DECHRAU'R YSGOL GYNRADD** | **34** |
| • Gwybodaeth bwysig i'w hystyried wrth wneud cais am le mewn ysgol gynradd | 35 |
| • Meini prawf derbyn i Ysgolion Cynradd cymunedol | 35 |
| • Y sail y cynigiwyd lleoedd ysgol arni ar gyfer blwyddyn ysgol 2023/2024 | 38 |
| **DECHRAU'R YSGOL UWCHRADD** | **44** |
| • Gwybodaeth bwysig i'w hystyried wrth wneud cais am le mewn ysgol uwchradd | 45 |
| • Meini prawf derbyn i Ysgolion Uwchradd Cymunedol | 45 |
| • Nosweithiau agored ysgolion | 47 |
| • Y sail y cynigiwyd lleoedd ysgol arni ar gyfer blwyddyn ysgol 2023/2024 | 48 |
| **SYMUD YSGOL YN YSTOD Y FLWYDDYN** | **50** |
| • Symud i Ysgol arall o fewn y ddinas | 52 |
| • Gwybodaeth bwysig i'w hystyried cyn cyflwyno cais | 53 |
| • Sut caiff lleoedd mewn ysgolion eu dyrannu | 55 |
| **APELIADAU DERBYN I YSGOLION** | **56** |
| • Y broses apelio | 57 |
| • Canlyniadau apeliadau ar gyfer blwyddyn ysgol 2023/2024 | 61 |
| **GWYBODAETH ARALL** | **62** |
| • Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd | 63 |
| • Cynnig Gofal Plant Cymru | 63 |
| • Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol | 64 |
| • Gwasanaeth Lles Addysg | 64 |
| • Prydau Ysgol Am Ddim | 64 |
| • Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 65 |
| • Grant Datblygu Disgyblion | 66 |
| • Teithio i'r ysgol | 66 |
| • Dyddiadau tymor ysgol | 69 |
| **CYFEIRIADUR YSGOLION** | **70** |
| **POLISÏAU DERBYN** | **86** |

**Annwyl Rieni,**

## Blwyddyn Ysgol 2024-25

Mae cychwyn ysgol feithrin, ysgol gynradd neu symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn amser cyffrous i blant a rhieni. Mae pob rhiant am i'w blentyn ffynnu a chyflawni yn yr ysgol a byddwn yn ceisio eich cefnogi yn y broses hon gymaint â phosibl.

Mae'r canllawiau yn y llyfryn hwn wedi'u cynllunio i wneud y broses ymgeisio mor hawdd â phosibl. Mae'n rhoi gwybodaeth a fydd yn eich helpu i wneud penderfyniad gwybodus am yr ysgolion yr hoffech ymgeisio amdanynt. Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus fel eich bod yn deall sut y caiff cais eich plentyn ei brosesu.

Gall gwneud cais am le mewn ysgol i'ch plentyn beri straen. Mae gennym bedwar awgrym hawdd i'ch helpu drwy'r broses hon:

1. Ewch i ymweld ag ysgolion cyn gwneud cais i sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch pan fyddwch yn gwneud eich cais. Mae pob un o'n hysgolion uwchradd yn cynnal nosweithiau agored (gweler tudalen 47).

2. Cyflwynwch eich cais erbyn y dyddiad cau. Mae bron i 70% o'n hysgolion yn llenwi yn y rownd gyntaf. Mae ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried yn yr ail, 3ydd a'r 4ydd rownd.

3. Defnyddiwch eich holl ddewisiadau. Byddwn yn ceisio cynnig eich dewis cyntaf i chi, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Drwy roi mwy nag un dewis rydych yn fwy tebygol o gael lle mewn ysgol yr ydych ei heisiau. Gwnewch gais am hyd at:
    a) 5 dewis (Trosglwyddo i Addysg Uwchradd)
    b) 5 dewis (Trosglwyddo i Addysg Gynradd)
    c) 3 dewis (Meithrin)
    d) 3 dewis (Newid ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd)

4. Darllenwch yr adran ffeithiau derbyn i ysgolion cyn cyflwyno'ch cais. Gellir dod o hyd iddi iddynt ar dudalennau 26-27.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno pob hwyl i'ch plentyn ar gyfer y dyfodol.

*Cyngor Caerdydd sy'n cyhoeddi'r llyfryn hwn, ac mae'n cynnwys y wybodaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor ei chyhoeddi dan Adran 92 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011. Mae'r holl gyfeiriadau at rieni yn cynnwys gwarcheidwaid cyfreithiol hefyd.*

*Roedd y wybodaeth a roddir yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylech nodi, felly, y gallai gwybodaeth megis nifer y disgyblion mewn ysgol newid rhwng y dyddiad y mae'r llyfryn hwn yn cael ei gyhoeddi a'r dyddiad y mae'r disgybl yn dechrau yn yr ysgol. Yn yr un modd, mae'n bosibl y gallai materion deddfwriaethol, polisi neu ad-drefnu effeithio ar y wybodaeth a roddir yn y ddogfen hon.*

*Os hoffech gael y llyfryn hwn mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'r Gwasanaeth Derbyn i Ysgolion drwy e-bostio (derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk) neu ffonio 02920 872088*

DARLLENWCH Y CANLLAW HWN YN OFALUS A SICRHEWCH EICH BOD YN DEALL SUT Y CAIFF EICH CAIS EI DRIN

# Cyflwyniad



# GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2024/2025 - CRYNODEB HANFODOL

**YSGOLION**

Mae gan Gaerdydd 127 o ysgolion, gan gynnwys ysgolion Meithrin, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig. Ceir rhestr lawn o'r ysgolion hyn ynghyd â'u manylion cyswllt yn y prosbectws hwn ar dudalennau 70 i 85.

**SUT MAE GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL**

Caiff y mwyafrif o leoedd ysgol eu dyrannu gan y Cyngor. Mae manylion yr Ysgolion Cymunedol a'r Ysgolion Gwirfoddol a Reolir hyn i'w gweld ar dudalennau 70 - 85. Mae'r Cyngor hefyd yn trin ceisiadau ar gyfer lleoedd ysgol ar gyfer dosbarthiadau derbyn a Blwyddyn 7 i bob ysgol ffydd yng Nghaerdydd ac eithrio Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf, Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd, Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant, Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog ac Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant. Os hoffech wneud cais i un o'r ysgolion hyn bydd angen i chi wneud cais i'r ysgol yn uniongyrchol, mae manylion cyswllt ar dudalennau 80 - 82.

Os hoffech i'ch plentyn fynychu ysgol y mae'r Cyngor yn trin ceisiadau ar ei chyfer, bydd angen i chi wneud cais i'r tîm Derbyn i Ysgolion yn uniongyrchol.

**GWNEWCH GAIS AR-LEIN YN: www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion**

**OS OES ANGEN HELP ARNOCH i wneud eich cais EWCH I UN O HYBIAU'R CYNGOR (www.caerdydd.gov.uk/hybiau)**

**Os na allwch wneud cais ar-lein, dylech gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion am gyngor drwy ffonio: 02920 872088**

**DYDDIADAU ALLWEDDOL**


| YSGOL | Y SYSTEM GWNEUD CAIS YN AGOR | DYDDIAD CAU GWNEUD CAIS | DYDDIADAU CAEL CYNIGION | DYDDIAD CAU YMATEB I GYNNIG | DYDDIAD CAU APELIO |
|---|---|---|---|---|---|
| **Meithrin** Plant a aned rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021 | Dydd Llun 29 Ionawr 2024 | Dydd Llun 26 Chwefror 2024 | Dydd Mawrth 7 Mai 2024 | Dydd Mawrth 21 Mai 2024 | Dd/b |
| **Meithrin** Plant a aned rhwng Medi 2021 a Mawrth 2022 | Dydd Llun 3 Mehefin 2024 | Dydd Llun 1 Gorffennaf 2024 | Dydd Llun 7 Hydref 2024 | Dydd Llun 21 Hydref 2024 | Dd/b |
| **Cynradd** | Dydd Llun 13 Tachwedd 2023 | Dydd Llun 8 Ionawr 2024 | Dydd Mawrth 16 Ebrill 2023 | Dydd Mawrth 30 Ebrill 2024 | Dydd Mawrth 30 Ebrill 2024 |
| **Uwchradd** | Dydd Llun 25 Medi 2023 | Dydd Llun 20 Tachwedd 2023 | Dydd Gwener 1 Mawrth 2024 | Dydd Gwener 15 Mawrth 2024 | Dydd Gwener 15 Mawrth 2024 |

## CEISIADAU HWYR

Dylid cyflwyno ceisiadau hwyr ar ffurflen bapur sydd ar gael mewn Hyb neu drwy ei lawrlwytho o'r wefan uchod. **Gallai colli'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais effeithio'n sylweddol ar eich cyfle i gael y lle rydych yn ei ddymuno.**

## PAN FYDD YSGOLION YN LLAWN

Rydym yn dyrannu lleoedd yn unol â'n **meini prawf gordanysgrifio** – gwnewch yn siŵr eich bod yn eu darllen ac yn darparu digon o wybodaeth i'n helpu ni i asesu eich cais yn gywir. Tudalennau 32, 36, a 46.



# GRWPIAU BLWYDDYN Y CWRICWLWM CENEDLAETHOL

## ADDYSG FEITHRIN

Mae lleoedd meithrin ar gael i blant yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.
Ar gyfer blwyddyn 2024/25, bydd plant a aned rhwng 1 Medi 2020 a 31 Mawrth 2022 yn cael eu hystyried.

## ADDYSG GYNRADD AC UWCHRADD

Ar ôl addysg feithrin, caiff plant eu derbyn i addysg statudol yn Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd yn y grwpiau blwyddyn ysgol canlynol, yn ôl eu dyddiad geni.

### YSGOLION CYNRADD 2024/25

| Grŵp Blwyddyn | Dyddiad Geni |
|---|---|
| Dosbarth Derbyn | 01/09/2019 – 31/08/2020 |
| Blwyddyn 1 | 01/09/2018 – 31/08/2019 |
| Blwyddyn 2 | 01/09/2017 – 31/08/2018 |
| Blwyddyn 3 | 01/09/2016 – 31/08/2017 |
| Blwyddyn 4 | 01/09/2015 – 31/08/2016 |
| Blwyddyn 5 | 01/09/2014 – 31/08/2015 |
| Blwyddyn 6 | 01/09/2013 – 31/08/2014 |

### YSGOLION UWCHRADD 2024/25

| Grŵp Blwyddyn | Dyddiad Geni |
|---|---|
| Blwyddyn 7 | 01/09/2012 – 31/08/2013 |
| Blwyddyn 8 | 01/09/2011 – 31/08/2012 |
| Blwyddyn 9 | 01/09/2010 – 31/08/2011 |
| Blwyddyn 10 | 01/09/2009 – 31/08/2010 |
| Blwyddyn 11 | 01/09/2008 – 31/08/2009 |

## ADDYSG ÔL-16

Dylai ceisiadau am dderbyn i Chweched Dosbarth neu golegau, ôl-16, gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r ysgol neu'r coleg ar gyfer y grwpiau blwyddyn canlynol:

| Grŵp Blwyddyn | Dyddiad Geni |
|---|---|
| Blwyddyn 12 | 01/09/2007 – 31/08/2008 |
| Blwyddyn 13 | 01/09/2006 – 31/08/2007 |
| Blwyddyn 14 | 01/09/2005 – 31/08/2006 |

# MATHAU O YSGOLION YNG NGHAERDYDD

Mae gan Gaerdydd 127 o ysgolion, yn rhoi addysg i blant a phobl ifanc rhwng 3 a 18 oed, fel a ganlyn:

| Math o Ysgol | Ystod Oedran | Nifer yr Ysgolion |
|---|---|---|
| **Meithrin** | 3 - 4 | 3 |
| **Cynradd** | 3-11<br>4 - 11 | 85<br>15 |
| **Uwchradd** | 11 – 16<br>11 – 18 | 2<br>16 |
| **Arbennig** | Oedrannau amrywiol | 7 |
| **Uned Atgyfeirio Disgyblion** | 11-16 | 1 |

Caiff ysgolion eu dosbarthu'n Ysgolion Cymunedol, Sefydledig, Gwirfoddol a Reolir a Gwirfoddol a Gynorthwyir.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion Caerdydd yn ysgolion cymunedol. Mae:
- 18 ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg (15 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd)
- 67 ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg (58 ysgol gynradd a 9 ysgol uwchradd)
- 2 ffrwd ddeuol (ysgolion cynradd cymunedol Cymraeg a Saesneg
- 1 model iaith ddeuol gyda ffrwd cyfrwng Cymraeg a ffrwd iaith ddeuol (ffrwd iaith ddeuol lle mae 50% o'r addysgu a'r dysgu drwy'r Gymraeg a'r 50% arall drwy'r Saesneg)
- 7 Ysgol Arbennig a 15 o Ganolfannau Adnoddau Arbenigol, ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd wedi'u cysylltu ag ysgolion prif ffrwd.

Caiff addysg enwadol ei darparu mewn 28 ysgol.
- Mae 12 ohonynt yn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru (10 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd)
- Mae 16 yn ysgolion Catholig (13 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd)

Mae'r cyfeirlyfr ysgolion i'w weld ar dudalennau 70 - 85.

# ADDYSG GYMRAEG

Fel arfer, bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg yn symud i Ysgol Uwchradd Gymraeg yn unol â'r trefniadau a nodir ar dudalennau 44 - 47.

**Unedau Trochi Cymraeg**
Oeddech chi'n gwybod nad yw hi'n rhy hwyr i chi ystyried Addysg Gymraeg i'ch plentyn hyd yn oed os na fynychodd Feithrinfa/Ysgol Gynradd Gymraeg ar ddechrau ei addysg?

Mae Cyngor Caerdydd wedi sefydlu Uned Drochi Gymraeg gynradd ac uwchradd sy'n darparu addysg iaith Gymraeg ddwys i alluogi plant i ddod yn ddigon rhugl i drosglwyddo i addysg mewn Ysgol Gymraeg. Os hoffech ystyried y dewis hwn ar gyfer eich plentyn, cysylltwch ag yr athro/athrawes arweiniol drwy ffonio 029 2062 6650 (mae'r ddarpariaeth gynradd ar hyn o bryd yn Ysgol Glan Ceubal).

**Defnydd o'r Gymraeg mewn Ysgolion Cynradd**
Mewn Ysgolion Cynradd Cymraeg, addysgir pob maes dysgu o fewn y Cwricwlwm i Gymru o'r dosbarth Meithrin / Derbyn hyd at ddiwedd Blwyddyn 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y Saesneg ei chyflwyno'n ffurfiol ym Mlwyddyn 3 ac mae pob maes dysgu ar wahân i'r Saesneg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o Flwyddyn 3 i 6.   Ar ddiwedd Blwyddyn 6, mae disgwyl i blant sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg fod yn ddwyieithog yn y ddwy iaith. Mae hyn yn golygu bod eu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn gyfartal.  O ran y model iaith ddeuol, dim ond un sydd gan Gaerdydd ar hyn o bryd (Ysgol Gynradd Groes-wen). Mae'r disgwyliad yn wahanol i ysgol cyfrwng Cymraeg. Ar ddiwedd Blwyddyn 6 bydd plant yn rhugl o ran eu sgiliau llafaredd yn y ddwy iaith ond pe bai rhiant yn penderfynu y byddent yn hoffi i'w plentyn barhau i gael addysg Gymraeg a throsglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg,  bydd y plant hynny sydd wedi bod yn y ffrwd iaith ddeuol yn gallu cael mynediad at gymorth ychwanegol o fewn y lleoliad at y diben hwn.

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae Cymraeg ail iaith yn statudol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.

**Defnydd o'r Gymraeg mewn Ysgolion Uwchradd**
Bydd holl ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yng Nghymru o fis Medi 2024 yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru.  Bydd disgyblion blwyddyn 10 ac uwch yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Mewn Ysgolion Uwchradd cyfrwng Cymraeg, caiff pob pwnc, heblaw am Saesneg, eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
Mewn Ysgolion Uwchradd cyfrwng Saesneg, mae Cymraeg fel ail iaith yn ofyniad statudol i'r holl ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 i 11.

Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988 mae Cymraeg yn bwnc craidd ym mhob ysgol Gymraeg.

## BETH YW MANTEISION ADDYSG GYMRAEG?

**Waeth beth yw eich iaith yn y cartref, gall Addysg Cyfrwng Cymraeg roi cyfleoedd, profiadau a sgiliau ychwanegol i'ch plentyn.  Dyma rai cwestiynau cyffredin a allai eich helpu chi i benderfynu a hoffech fanteisio ar yr hyn y mae Addysg Gymraeg yn ei gynnig.**

**'Felly beth mae addysg Gymraeg yn ei wneud?'**
Mae yna nod syml iawn i addysg Gymraeg – galluogi plant i ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg tra'n derbyn addysg yn y pynciau eraill i gyd ar draws y cwricwlwm.

Mae plant ifanc yn dysgu ieithoedd yn hynod rwydd – trwy wneud y gorau o'r potensial hwn y daeth addysg Gymraeg mor boblogaidd.

**'Pam fod pobl yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg?'**
Mae ymchwil yn dangos mai dyma'r ffordd orau o bell ffordd sydd gennym o wneud plant yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae nifer o fanteision i ddwyieithrwydd. Mae'n ddefnyddiol iawn fel sgil yn y gweithle: mae siarad Cymraeg naill ai yn sgil hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer nifer gynyddol o swyddi. Mae llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru ddwyieithog yn unol â'i strategaeth 'Cymraeg 2050' sydd a gweledigaeth o gael miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae mwy o alw heddiw nag erioed o'r blaen am sgiliau dwyieithog mewn amrywiaeth o feysydd megis iechyd, addysg, hamdden, gofal plant, manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus.

**'Unrhyw reswm arall?'**
Gall siarad Cymraeg helpu plant i gael dealltwriaeth lawnach o'u cymuned ehangach a'u lle nhw ynddi. Mae'r Gymraeg yn rhoi mynediad i ddiwylliant, gan gynnwys llenyddiaeth, cerddoriaeth, cyfryngau digidol

ac arlwy o bethau eraill - na fyddai ar gael iddynt efallai fel arall. Mae rhai yn dewis addysg Gymraeg ar sail profiadau personol: maen nhw'n adnabod pobl ddwyieithog neu sydd â phlant dwyieithog ac mae'r rheiny felly am i'w plant hwythau fod yn rhan o'r gymuned Gymraeg a bod hefyd yn gwbl gyfforddus yn y Saesneg.

**'A yw teuluoedd fel fy nheulu i'n dewis addysg Gymraeg?'**
Mae pob teulu - a phob plentyn - yn unigryw, wrth gwrs. Ond mae teuluoedd o bob math yn elwa ar addysg Gymraeg: teuluoedd nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg a rhai sydd yn ei siarad hi; teuluoedd o bob math o gefndir ethnig a chrefyddol; teuluoedd o Gymru a'r rhai sydd wedi symud yma o rywle arall. Rydym yn gweld mwy a mwy o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel mamiaith, yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae eu plant yn ffynnu gan eu bod eisoes yn amlieithog.

**'Dydyn ni ddim yn siarad Cymraeg gartref – fydd fy mhlentyn yn sefyll allan?'**
Ddim o gwbl. Mewn gwirionedd, dydy rhan helaeth, dros 70%, y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ddim yn siarad Cymraeg gartref. Ac i rai o'r rheiny, iaith arall heblaw am Saesneg yw prif iaith y cartref. Felly mae dod o gefndir di-Gymraeg yn gwbl arferol ac mae'r meysydd dysgu o fewn Cwricwlwm i Gymru wedi ei lunio gyda hynny dan sylw. Nid yw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn disgwyl i'r plant siarad Cymraeg wrth ddechrau yn yr ysgol, ond caiff y plant hynny help i ddod yn rhugl cyn diwedd y flwyddyn gyntaf.

**'Nid Cymry ydyn ni – oni fyddai'n rhyfedd i ni ddewis addysg Gymraeg?'**
Ddim o gwbl. Does dim rhaid i chi fod yn Gymry i siarad Cymraeg. Mae rhieni plant mewn ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd yn dod o bedwar ban byd: Cymru, gweddill y DG, Ewrop, Asia, Affrica, Gogledd a De America … Tra bo rhai yn ystyried eu hunain efallai yn Gymry, mae'n bosib na fydd eraill - y pwynt allweddol yw fod dysgu Cymraeg yn agored i bawb.

**'A oes safonau Saesneg is gan addysg Gymraeg?'**
Yn sicr ddim. Mae disgwyl i blant sy'n gadael ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gyrraedd yn union yr un safonau Saesneg â'r rhai sydd mewn ysgolion cynradd Saesneg. Ac mewn ysgolion uwchradd, mae'r plant yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sefyll yn union yr un arholiadau TGAU a Safon Uwch â'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. (Ni yw'r gwrthwyneb yn wir: nid yw plant mewn addysg cyfrwng Saesneg yn cyrraedd yr un safonau nac yn sefyll yr un arholiadau Cymraeg â phlant yr ysgolion Cymraeg.)

**'Sut gallaf i helpu fy mhlentyn gyda'i waith cartref os nad ydw i'n siarad Cymraeg?'**
Gan nad yw'r rhan fwyaf o blant yn siarad Cymraeg gartref, mae'r ysgolion Cymraeg yn brofiadol iawn wrth gynorthwyo disgyblion a rheini. Rhoddir cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer y gwaith cartref yn Gymraeg a Saesneg i'r disgyblion iau. Ar oed hŷn, bydd y plant eu hunain yn gallu egluro eu gwaith wrth eu rhieni. Mewn gwirionedd, mae canlyniadau gwaith ymchwil yn dangos bod trin eu gwaith mewn dwy iaith yn helpu'r plant i ddeall y pwnc maen nhw'n ei astudio. Mae'r wefan addysg, Hwb (http://hwb.cymru.gov.uk) hefyd yn cynnig ystod o adnoddau dysgu ac adnoddau digidol sydd ar gael yn genedlaethol.

**'A fydd dysgu Cymraeg yn ei gwneud yn anodd i'r plant ddysgu iaith arall?'**
Ddim o gwbl. Does bron dim pen draw ar allu plentyn i ddysgu ieithoedd. Yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, mae'n gyffredin i blant ifanc siarad dwy neu dair iaith. Gall siarad un iaith helpu i atgyfnerthu'r llall, gan ei gwneud yn haws i'r plentyn ddysgu rhagor o ieithoedd yn nes ymlaen.

**'Fydd hi'n anodd i fy mhlentyn gael ei dderbyn i addysg cyfrwng Cymraeg?'**
Mae'r holl ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd yn ysgolion cymunedol. Felly, mae'r broses o gyflwyno cais yn union yr un peth ag ar gyfer ysgolion cymunedol Saesneg – nid ystyrir iaith cartref y plentyn, ei grefydd na'i genedligrwydd yn y broses ymgeisio.

**'Petai fy mhlentyn mewn ysgol Gymraeg, a fyddai ganddo gyfoedion o'i ddosbarth yn ein hardal?'**
Mae nifer yr ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol. Bellach mae dwy ysgol gynradd ar bymtheg a thair ysgol uwchradd yn y ddinas. Golyga hyn y bydd gan eich cymuned ysgol Gymraeg a bydd plant yr ysgol honno yn dod o'ch ardal leol a gallant gyfarfod y tu allan i'r ysgol os ydynt yn dymuno.

**'Beth am eu haddysg ar ôl gadael yr ysgol?'**
Gan fod disgyblion ysgolion Cymraeg yn gwbl ddwyieithog, gallant ddewis dilyn cyrsiau coleg neu brifysgol trwy gyfrwng y naill iaith (neu'r ddwy). Yn ddiweddar, mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sicrhau bod rhagor o raddau prifysgol ar gael (yn rhannol neu i gyd) drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer gynyddol o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael mewn Addysg Bellach hefyd. Er hyn, mae disgyblion o ysgolion Cymraeg yn aml yn gwneud cyrsiau drwy'r Saesneg yn y coleg neu brifysgol, yng Nghymru a thu hwnt.

**'Ga' i ddysgu Cymraeg gyda fy mhlentyn?'**
Mae rhai rhieni yn penderfynu dysgu Cymraeg hefyd ar ôl dewis ysgol Gymraeg i'w plentyn. Mae'n gyfle gwych i ddysgu gyda'ch gilydd, ymarfer sgiliau iaith gyda'ch gilydd a threulio amser gwerthfawr gyda'ch gilydd. Mae cyrsiau Cymraeg i oedolion ar gael ledled Caerdydd, ac maent yn addas i ddysgwyr o bob gallu. Am ragor o wybodaeth, ewch i https://dysgucymraeg.cymru/

Mae manylion llawn yr holl Ysgolion Cymraeg sydd ar gael ar dudalennau 71-72 (cynradd) a thudalennau 78 (uwchradd). Am ragor o wybodaeth am addysg Gymraeg, ewch i https://llyw.cymru/y-gymraeg

## Cefnogaeth Bellach

Y man cychwyn ar gyfer gwybodaeth a chyngor am addysg Gymraeg, yn ogystal â sut i Fyw, Dysgu a Mwynhau yn Gymraeg. **llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-addysg**

Mae Cymraeg i Blant yn cynnig ystod eang o weithgareddau llawn hwyl i gefnogi rhieni ar hyd y daith ddwyieithog, fel tylino babanod, ioga babi, hwiangerddi Cymraeg a grwpiau arwyddo, a sesiwn rhannu gwybodaeth ar-lein ar gyfer rhieni newydd. **I Rieni - Meithrin**

Mae Mudiad Meithrin yn trefnu Cylchoedd 'Ti a Fi' ar gyfer babanod a Chylchoedd Meithrin ar gyfer plant o ddwy oed hyd at ddosbarth derbyn cynradd ar draws Cymru. **www.meithrin.cymru**

Mae'r ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref yn cynnig amrywiaeth o adnoddau ardderchog a llawer o awgrymiadau syml a chyngor i rieni a gofalwyr. **https://en-gb.facebook.com/beginsathome/**

Digon o gemau a rhaglenni Cymraeg i ddiddanu plant cyn ysgol gan S4C - ar gael fel gwefan symudol, app neu ar BBC iPlayer. **www.s4c.cymru/cyw**

Os oes gennych chi blant hŷn mae app yr Urdd yn cynnig digon o syniadau am weithgareddau sydd ar gael yn eich ardal chi yn Gymraeg. **www.urdd.cymru**

Mae Menter Caerdydd yn cynnig rhaglen amrywiol o glybiau celf a chwaraeon, gweithgareddau yn ystod y gwyliau a gweithdai ar gyfer babis a phlant o bob oed ar draws Caerdydd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu sgiliau newydd wrth ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd llawn hwyl. **www.mentercaerdydd.cymru**

# Gwneud Cais



EICH CYFRIFOLDEB CHI YW GWNEUD CAIS AR AMSER.

NI FYDD CEISIADAU A THYSTIOLAETH SY'N DOD I LAW AR ÔL Y DYDDIADAU CAU YN CAEL EU HYSTYRIED YN Y ROWND GYNTAF O DDYRANIADAU.

# DERBYNIADAU BLYNYDDOL

Mae'r broses derbyniadau blynyddol ar gyfer unrhyw blentyn sy'n gwneud cais i ddechrau mewn Ysgol Feithrin, Dosbarth Derbyn yn yr Ysgol Gynradd (4/5 oed) neu Ysgol Uwchradd ym Mlwyddyn 7 (11 oed), am y tro cyntaf.

## CAMAU YN Y BROSES

**Cyn gwneud cais**

Dylai rhieni **ymchwilio i'r ysgolion** sydd o ddiddordeb iddynt. Mae gwybodaeth ar gael ar wefannau unigol yr ysgolion a hefyd yn - https://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy ac mewn Diwrnodau Agored ar gyfer Ysgolion Uwchradd – gweler tudalen 47.
Dylech ystyried sut bydd eich plentyn yn mynd i'r ysgol hefyd.

**Cyflwyno eich cais**

Dylech **gyflwyno eich cais** yn unol â'r amserlen isod.
Dylech restru'r ysgolion o'ch dewis yn nhrefn blaenoriaeth – rhowch eich hoff dewis yn gyntaf.
Byddwn yn ceisio cynnig lle i chi yn eich dewis uchaf, ond ni allwn warantu hynny.
Gwnewch yn siwr eich bod yn dewis:
3 ysgol ar gyfer Derbyn i Addysg **Feithrin**
5 ysgol ar gyfer Derbyn i Addysg **Gynradd**
5 ysgol ar gyfer derbyn i Addysg **Uwchradd**

| Amserlen gwneud cais | | |
|---|---|---|
| **Meithrin** | **Cynradd** | **Uwchradd** |
| **Dydd Llun 29 Ionawr 2024 neu Ddydd Llun 3 Mehefin 2024** Mae'r gwasanaeth gwneud cais ar-lein yn agor. Gwnewch gais ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaumeithrin | **Dydd Llun 13 Tachwedd 2023** Mae'r gwasanaeth gwneud cais ar-lein yn agor. Gwnewch gais ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/derbyniadaucynradd | **Dydd Llun 25 Medi 2023** Mae'r gwasanaeth gwneud cais ar-lein yn agor. Gwnewch gais ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/derbyniadauuwchradd |
| **Dydd Llun 26 Chwefror 2024 neu Ddydd Llun 1 Gorffennaf 2024** Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ysgol Feithrin | **Dydd Llun 8 Ionawr 2024** Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ysgol gynradd | **Dydd Llun 20 Tachwedd 2023** Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ysgol uwchradd |

Gallwch ymweld â Hybiau'r Cyngor am gymorth i gwblhau'r cais.
**Rhaid i chi gynnwys yr holl wybodaeth ategol er mwyn i ni allu ystyried eich cais.**

**Cyfeiriwch at y canllawiau ar gyfer ysgolion Meithrin, Cynradd ac Uwchradd yn y llyfryn hwn – ac ystyriwch y dystiolaeth sydd ei hangen yn ofalus ar gyfer ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio.**

# SUT MAE GWNEUD CAIS

**GWNEWCH GAIS AR-LEIN DRWY WASANAETH GWNEUD CAIS AR-LEIN Y CYNGOR**
**www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion**


Rhaid i chi wneud cais i roi gwybod i ni pa ysgol rydych am i'ch plentyn fynd iddi. Os na fyddwch yn cyflwyno cais, ni fyddwch yn cael cynnig lle mewn ysgol.

- Bydd angen cyfeiriad e-bost dilys arnoch i wneud cais ar-lein.
- Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r un cyfeiriad e-bost drwy gydol y broses ac yn cofio eich cyfrinair. Cadwch hwn yn ddiogel.
- Cofiwch ail-gyflwyno eich cais os ydych chi'n gwneud unrhyw newidiadau.
- Byddwch yn ymwybodol na fyddwn yn derbyn eich cais tan i chi ei **gyflwyno**.

**<u>Gwneud Cais yn Hwyr</u>**
Os byddwch yn colli'r dyddiad cau, gallwch wneud cais o hyd. Fodd bynnag, ni fydd ceisiadau ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyraniadau. Bydd llawer o ysgolion yn llawn ar ôl y rownd gyntaf. Gall gwneud cais ar ôl y dyddiad cau effeithio'n sylweddol ar y tebygrwydd o gael lle yn yr ysgolion o'ch dewis.

**Ni allwch gyflwyno cais hwyr ar-lein.**

Ewch i Hyb i gael ffurflen gais hwyr neu gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan.




**<u>Derbyn Cynnig am Le</u>**
Byddwch yn derbyn cynnig o le mewn ysgol (os yn gymwys) yn unol â'r amserlen.
Os na fyddwch yn derbyn cynnig mewn ysgol o ddewis uwch, byddwch yn aros ar y rhestr aros ar gyfer eich ysgol ddewis. Os daw lle ar gael i'ch plentyn yn eich prif ysgol ddewis byddwn yn rhoi gwybod i chi.

| Amserlen ar gyfer Cynigion | | |
|---|---|---|
| **Meithrin** | **Cynradd** | **Uwchradd** |
| **Dydd Mawrth 7 Mai 2024 neu Dydd Mawrth 7 Hydref 2024** Byddwn yn rhoi gwybod i rieni am y cynnig sydd wedi'i wneud ar gyfer eu plentyn. | **Dydd Llun 16 Ebrill 2024** Byddwn yn rhoi gwybod i rieni am y cynnig sydd wedi'i wneud ar gyfer eu plentyn. | **Dydd Gwener 1 Mawrth 2024** Byddwn yn rhoi gwybod i rieni am y cynnig sydd wedi'i wneud ar gyfer eu plentyn. |
| **Dydd Mawrth 7 Mai 2024 neu Ddydd Llun 21 Hydref 2024** Rhaid i rieni rhoi gwybod i ni os ydynt am dderbyn neu wrthod y cynnig a wnaed. Os nad ydym wedi clywed gan rieni erbyn y dyddiad hwn efallai y byddwn yn tynnu'r cynnig yn ôl fel y gallwn gynnig y lle hwnnw i blentyn arall. Os ydych chi'n gwrthod cynnig, rhowch wybod i ni am unrhyw drefniadau eraill | **Dydd Mawrth 30 Ebrill 2024** Rhaid i rieni rhoi gwybod i ni a ydynt am dderbyn neu wrthod y cynnig a wnaed. Os nad ydym wedi clywed gan rieni erbyn y dyddiad hwn efallai y byddwn yn tynnu'r cynnig yn ôl fel y gallwn gynnig y lle hwnnw i blentyn arall. Os ydych chi'n gwrthod cynnig, rhowch wybod i ni am unrhyw drefniadau eraill | **Dydd Gwener 15 Mawrth 2024** Rhaid i rieni rhoi gwybod i ni a ydynt am dderbyn neu wrthod y cynnig a wnaed. Os nad ydym wedi clywed gan rieni erbyn y dyddiad hwn efallai y byddwn yn tynnu'r cynnig yn ôl fel y gallwn gynnig y lle hwnnw i blentyn arall. Os ydych chi'n gwrthod cynnig, rhowch wybod i ni am unrhyw drefniadau eraill |

## ROWNDIAU DYRANNU DIWEDDARACH

Caiff ceisiadau hwyr eu prosesu'n fisol ar ôl y rownd gychwynnol.

**Caiff ceisiadau aflwyddiannus o'r rownd gyntaf ac unrhyw geisiadau hwyr dilynol eu hystyried gyda'i gilydd ar gyfer unrhyw leoedd a allai godi.**

Bydd y Cyngor ond yn ysgrifennu atoch mewn dyraniad diweddarach os:
- Na wnaethoch gyflwyno cais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig felly mae angen i ni roi gwybod i chi am ganlyniad eich cais.
- Rydym yn gallu cynnig lle mewn ysgol y gwnaethoch ei rhestru fel dewis uwch.
- Nad ydych wedi derbyn cynnig ac mae lle wedi dod ar gael yn un o'ch dewisiadau.
- Gwnaethoch gyflwyno dewis amgen i'r Cyngor ei ystyried ac rydych yn aros am y canlyniad.

**Derbyn Cynigion**

**EICH CYFRIFOLDEB CHI YW DERBYN CYNNIG O LE MEWN YSGOL**

**Os hoffech wrthod y cynnig am le mewn ysgol, mae'n hollbwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn gynnig y lle i blentyn arall. Dylech roi gwybod i ni hefyd am eich trefniadau o ran darpariaeth amgen.**

**Beth fydd yn digwydd os na fyddwch wedi derbyn lle mewn ysgol erbyn mis Medi 2024?**
Os na fu modd i'r Cyngor gynnig lle i'ch plentyn yn unrhyw un o'ch dewis o ysgolion, byddwch yn cael manylion ysgolion â lleoedd gwag ar yr adeg honno, cyn belled nad ydych chi wedi rhoi gwybod i'r Cyngor eich bod wedi sicrhau cynnig am le i'ch plentyn mewn ysgol arall.

Os bydd cofnodion y Cyngor yn nodi nad ydych chi wedi derbyn lle i'ch plentyn i ddechrau ysgol o fis Medi 2024 ac nad ydych chi wedi gwneud trefniadau eraill, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cysylltu â chi.

Dan Adran 7 Deddf Addysg 1996, mae dyletswydd cyfreithiol ar rieni i sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg sy'n addas i'w oedran, gallu, dawn ac unrhyw anghenion arbennig. Os na fyddwch yn cofrestru eich plentyn mewn ysgol nac yn gwneud trefniadau addas eraill ar gyfer ei addysg, yna mae'n bosibl y bydd Cyngor Caerdydd yn gorfod ystyried cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.



# SUT CAIFF LLEOEDD MEWN YSGOLION EU DYRANNU



## Mae'r siart llif hwn yn dangos sut mae'ch cais yn cael ei brosesu

**CAM 1**
Ar ôl y dyddiad cau, caiff yr holl geisiadau a dderbyniwyd ar amser eu hystyried gyda'i gilydd. Dyma'r rownd gyntaf.

↓

**CAM 2**
Mae enw eich plentyn yn cael ei roi ar restr ar gyfer pob ysgol rydych wedi'i henwi fel dewis. Mae pob dewis yn cael ei ystyried yn annibynnol. Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i ofyn am ragor o dystiolaeth. Eich cyfrifoldeb chi yw ymateb yn brydlon ac anfon y dystiolaeth y gofynnwyd amdani.

↓

**CAM 3**
Caiff lleoedd eu dyrannu hyd at y Nifer Derbyn ar gyfer pob ysgol. Y Nifer Derbyn yw nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i'r ysgol. Cytunir ar y nifer hwn yn unol â'r Canllaw Mesur Capasiti Ysgolion a bennir gan Lywodraeth Cymru.

↓

**CAM 4**
Os nad oes digon o le ar gyfer pawb sy'n gwneud cais, mae'r ysgol wedi'i gordanysgrifio. Byddwn yn asesu'r ceisiadau yn ôl y Meini Prawf Gordanysgrifio. Caiff ei seilio ar yr amgylchiadau unigol a nodwyd a'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

↓

**CAM 5**
Dim ond y dewis uchaf y gellir ei ddyrannu fydd yn cael ei gynnig. Bydd ysgolion sydd wedi'u rhestru fel dewis is yn cael eu cynnig i blant eraill.

↓

**CAM 6**
Ar y diwrnod cynnig rydym yn rhoi gwybod i chi pa le ysgol y gallwn ei gynnig i'ch plentyn. Os na fu'n bosibl cynnig lle yn un o'ch ysgolion dewis, byddwn yn rhoi rhestr i chi o'r ysgolion sydd â lleoedd o hyd.

↓

**CAM 7**
Os ydych chi wedi derbyn cynnig am le gennym, dylech chi gadarnhau yr hoffech ei dderbyn erbyn y dyddiad a nodir. Gallai eich lle gael ei dynnu'n ôl os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni beth yw eich penderfyniad. Caiff unrhyw leoedd a gaiff eu gwrthod mewn Ysgolion Cymunedol eu hailddyrannu i blant eraill.

↓

**CAM 8**
Bydd y Tîm Derbyn yn prosesu ceisiadau hwyr yn fisol ar ôl y dyddiad cynnig. Bydd yr un meini prawf gordanysgrifio yn cael eu gweithredu. Bydd plant yn **aros ar y rhestr aros tan 30 Medi 2024.** Byddwn yn eich hysbysu os oes newid i'r cynigion.

Ar ôl 30 Medi 2024, os ydych am ymgeisio, rhaid i chi gwblhau cais i newid ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Erbyn yr adeg hon o'r flwyddyn, dim ond ychydig iawn o leoedd fydd ar gael mewn ysgolion.

# ESBONIAD O DERMAU

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Gweler yr adran ADY (tudalen 65)

**Dalgylch**
Mae plant sy'n byw yn yr ardal hon yn cael blaenoriaeth uwch o ran lle yn eu hysgol ddalgylch. Nid yr ysgol sydd agosaf at gartref y plentyn yw'r ysgol ddalgylch bob tro. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich ysgolion dalgylch drwy wirio ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/mapiauarlein Nid yw byw yn nalgylch ysgol yn gwarantu lle i chi yn yr ysgol honno.

**Newid mewn amgylchiadau**
Gallai amgylchiadau'r teulu newid ar ôl cyhoeddi canlyniad y cais cychwynnol (er enghraifft, newid cyfeiriad). Gallai'r newid hwn olygu nad yw'r cais yn bodloni'r seiliau y cafodd ei asesu arnynt mwyach. **Mewn sefyllfa o'r fath, caiff y cais ei ailasesu ac o dan rai amgylchiadau gallai'ch cynnig gwreiddiol o le gael ei dynnu'n ôl.** Dylid ystyried newid cyfeiriad yn ofalus felly. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os ydych yn symud tŷ ar ôl i chi wneud cais.

**Newid cyfeiriad**
Ar gyfer Derbyniadau Blynyddol, os byddwch yn symud rhwng dyddiad y cais a dechrau tymor yr hydref (Dydd Llun 2 Medi 2024) ni chaiff eich cais ei asesu ar sail y cyfeiriad newydd tan ar ôl y dyraniad cychwynnol o leoedd.

Os yw eich cyfeiriad yn newid ar ôl i chi wneud eich cais ond cyn i'ch plentyn gael ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol, ni ellir defnyddio'r cyfeiriad newydd tan ar ôl i'r Cyngor allu gwirio bod y symud wedi digwydd. Bydd y cyfeiriad newydd wedyn yn cael ei ddefnyddio ym mhob rownd ganlynol o fynediad, os bydd llefydd ar gael yn yr ysgol. Os yw eich cyfeiriad yn newid ar ôl i chi dderbyn cynnig o le, ond cyn i'ch plentyn gael ei ddiwrnod cyntaf o'r ysgol, bydd y Cyngor yn tynnu'r cynnig hwn yn ôl os yw eich newid cyfeiriad yn gwneud eich plentyn yn llai cymwys na phlant a wrthodwyd yn yr un rownd o ddyraniadau.

**Preswylfa'r plentyn**
Ar eich cais, rhaid i chi nodi preswylfa eich plentyn. Dyma lle mae'r plentyn yn byw gan amlaf ac yn ystod y mwyafrif yr wythnos ysgol (o leiaf 3 diwrnod ysgol allan o 5). Dyma lle mae'ch plentyn yn byw ar adeg gwneud y cais a hyd at gychwyn y flwyddyn ysgol. Dyma lle rydych chi a'ch plentyn yn byw gyda'ch gilydd, oni bai y gallwch ddangos ei fod yn byw yn rhywle arall gyda rhywun â gofal a rheolaeth gyfreithiol dros eich plentyn. At ddibenion derbyn, rhaid i hwn fod yn eiddo preswyl sy'n unig breswylfa neu brif breswylfa i'ch plentyn.

Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio, cynhelir gwiriadau preswylio llym. Sylwch ein bod yn cynnal gwiriadau preswylio ar hap. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o dystiolaeth y gallai fod angen i chi ei darparu:
- Gwybodaeth am y dreth gyngor
- Biliau cyfleustodau diweddar
- Trwydded yrru
- Gwybodaeth am fudd-daliadau plant
- Cyfriflen banc
- Cytundeb tenantiaeth.

Gallwn wrthod derbyn y cyfeiriad a nodwyd os nad oes digon o wybodaeth, neu os daw gwybodaeth i law sy'n awgrymu eich bod wedi rhoi cyfeiriad ffug. Os oes gennym bryderon ynglŷn â'r cyfeiriad a roddwyd, byddwn yn gofyn am ragor o dystiolaeth i gadarnhau lle rydych chi a'ch plentyn yn byw. Os na chawn dystiolaeth foddhaol, ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei gynnig ar sail preswyliad.

**GALLWN DYNNU LLE MEWN YSGOL YN ÔL OS DAW GWYBODAETH I LAW SY'N AWGRYMU NAD YDYCH CHI'N BYW YN Y CYFEIRIAD A RODDWYD YN EICH CAIS.**

**Plant Aelodau o Luoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys Diplomyddion)**
Lluoedd Arfog y DU os caiff y ffurflen gais ei hanfon gyda llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

Bydd ceisiadau ar gyfer plant i gynaelodau o'r lluoedd neu Weision y Goron eraill eu trin fel pob cais arall.

**Anghenion Meddygol neu Gymdeithasol Cymhellol**
Efallai eich bod yn teimlo bod yn rhaid i'r plentyn fynd i ysgol benodol am resymau meddygol neu gymdeithasol. Mewn achosion o'r fath, rhaid bod gennych argymhellion ysgrifenedig gan ymgynghorydd meddygol (nid Meddyg Teulu) neu weithiwr cymdeithasol. Rhaid i'r llythyr fod wedi ei ddyddio dim llai na chwe mis cyn y dyddiad y gwnewch gais am ysgol, a chynnwys rhesymau manwl i egluro pam ei bod yn angenrheidiol i'ch plentyn gael ei dderbyn i ysgol a enwir yn benodol. Mae'n bwysig bod y llythyr yn nodi pam y byddai'r ysgol benodol yn bodloni anghenion y plentyn yn well nag ysgolion eraill. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r wybodaeth hon gyda'ch cais erbyn y dyddiad cau.

Cysylltwch â'r Tîm Derbyn i Ysgolion os oes angen eglurhad pellach arnoch – **cyn** i chi gyflwyno eich cais.

**Derbyniadau Cydlynol**
Derbyniadau cydlynol yw'r broses lle mae ceisiadau ar gyfer yr holl ysgolion sy'n cymryd rhan ar gyfer mynediad i'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Bydd trefniadau derbyniadau cydlynol ar waith ar gyfer POB Ysgol Gynradd Ffydd ar wahân i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf, Ysgol Gynradd Gatholig St John Lloyd ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig. Bydd hyn yn parhau ar gyfer proses dderbyn mis Medi 2024.

Mae trefniadau derbyniadau cydlynol ar waith ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a PHOB Ysgol Uwchradd Ffydd, ac eithrio Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtud.

Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer pob ysgol sy'n rhan o'r trefniadau derbyniadau cydlynol i'r awdurdod lleol. Os ydych yn gwneud cais i Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Ysgol Uwchradd Gatholig Mair Ddihalog neu Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant mae'n rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen atodol sydd ar gael o'r ysgol neu eu gwefan. I wneud cais i ysgol nad yw'n rhan o'r trefniadau derbyniadau cydlynol mae'n rhaid i chi wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol.

**System Wybodaeth Ddaearyddol**
Mae'r Cyngor wedi datblygu System Wybodaeth Ddaearyddol y cyfeirir ati fel 'Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig' a gaiff ei gyflunio yn unol â meini prawf pennu llwybr Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 a Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio Dysgwyr 2014. Cyfrifir y llwybr byrraf diogel sydd ar gael (fel y diffinnir gan Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredu Teithio Dysgwyr Lywodraeth Cymru Mehefin 2014) (i bedwar lle degol) o gyfeiriannau cyfeiriad cartref ymgeisydd (a geir trwy ddefnyddio data pwynt cyfeiriad y Mynegai Daearyddol Tir ac Eiddo Lleol) at gât agored agosaf yr ysgol gan ddefnyddio data llwybr yr Arolwg Ordnans.

**Ceisiadau hwyr**
Mae ffurflenni cais sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau'n geisiadau hwyr ac ni fyddant ond yn cael eu hystyried yn yr ail rownd brosesu neu rowndiau hwyrach. Yn dilyn y rownd gyntaf o ddyraniadau, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried ynghyd ag unrhyw un sydd ar y rhestr aros.

**Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal**
At ddibenion derbyn, mae plentyn sy'n derbyn gofal yn blentyn sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cynnwys plentyn sy'n dod o dan Orchymyn Gofal neu orchymyn Gofal Dros Dro. Os yw'r plentyn dan ofal yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi lle i'r plentyn hwnnw hyd yn oed os yw gwneud hynny'n mynd dros y nifer derbyn.  Rhaid i'r cais gael ei wneud gan yr Awdurdod Lleol perthnasol (Rhiant Corfforaethol)

Mae plentyn a arferai dderbyn gofal yn blentyn a arferai fod dan ofal yr Awdurdod Lleol, ond nid yw mwyach. Er enghraifft, os mabwysiadwyd plentyn neu ei fod yn destun gorchymyn gwarchodaeth arbennig, mae'n blentyn a arferai dderbyn gofal. Os arferai'r Awdurdod Lleol ofalu am y plentyn, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod y plentyn ar frig y rhestr dyraniadau. Ni fydd hyn yn fwy na'r nifer derbyn.

Mae'r Cyngor yn gofyn i'r gweithiwr cymdeithasol ysgrifennu llythyr i gadarnhau a yw plentyn yn un sydd wedi derbyn gofal.

**Brodyr a Chwiorydd Genedigaeth Luosog**
Mae Brodyr a Chwiorydd Genedigaeth Luosog yn cynnwys efeilliaid, tripledi, ayb.  Rhaid i chi gyflwyno ceisiadau ar wahân ar gyfer pob plentyn. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y meini prawf gordanysgrifio a fodlonir gan y plentyn unigol. Os yw ysgol gymunedol wedi'i gordanysgrifio, a bod un plentyn (neu fwy) gyda brodyr neu chwiorydd o enedigaeth luosog yn gymwys i gael lle, yna gellir cynnig lle i'r brawd neu chwaer arall (neu eraill) hyd yn oed os yw dros y nifer derbyn.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**
Dyma'r meini prawf rydym yn eu defnyddio i ddyrannu llefydd pan fydd ysgol yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae hyn yn sicrhau bod lleoedd yn cael eu rhoi yn deg i bob ymgeisydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r meini prawf hyn gan roi unrhyw dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi eich cais.

**Cyfrifoldeb Rhianta**
Dim ond "rhiant" y plentyn gaiff wneud cais (yn unol â diffiniad Adran 578 Deddf Addysg 1996). Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson nad sy'n rhiant i'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal drosto. Os nad chi yw'r rhiant ond bod cyfrifoldeb rhiant gennych, bydd gofyn i chi brofi hyn drwy ddarparu dogfennaeth swyddogol.

**Hoffterau**
Gofynnir i chi gyflwyno eich dewisiadau yn eich cais. Dyma'r ysgolion yr hoffech i'ch plentyn eu mynychu. Dylech eu rhoi mewn trefn – yr ysgol gyntaf fydd eich blaenoriaeth uchaf. Byddwn yn ceisio cynnig lle i chi yn eich ysgol ddewis uchaf. Caiff pob dewis ei ystyried yn gyfartal tan ein bod yn gallu cynnig lle i chi. Bydd pob dewis yn cael ei asesu yn erbyn Meini Prawf Gordanysgrifio cyhoeddedig y Cyngor.

Nid ydych yn sicr o gael lle mewn unrhyw ysgol benodol. Ystyriwch pa flaenoriaethau rydych yn eu cyflwyno a'u threfn eu gosod.

**Gwrthod a rhestrau aros**
Os nad ydych wedi cael cynnig lle yn eich ysgolion dewis, bydd eich cais yn cael ei roi ar restr aros. Bydd ceisiadau a ddaeth i law yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi 2024. Ar ôl yr adeg hon, bydd angen gwneud cais i newid ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd.

**Cyfrifoldeb Rhiant a Rennir**
Pan rennir y cyfrifoldeb rhiant, dylai pob rhiant fod yn cytuno ynglŷn â'r dewisiadau a restrir yn y cais. Cyfrifoldeb y rhieni yw dod i gytundeb o ran unrhyw gais a wneir.

Os na allwch gytuno pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech gymryd eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith ynghylch gwneud cais brys i'r Llys.  Os byddwn yn derbyn dau gais gan rieni sydd â chyfrifoldeb rhiant a rennir, byddwn yn gweinyddu'r cais cyntaf a gyflwynir er mwyn lleihau unrhyw oedi cyn i'r plentyn gael ei dderbyn i ysgol.

**Brodyr a chwiorydd**
Rhaid i chi roi gwybodaeth am frawd/chwaer plentyn os ydych am i'ch cais gael ei asesu ar y sail hon. Brawd neu chwaer i'r perwyl hwn yw: brawd neu chwaer, hanner brawd neu hanner chwaer (plant sydd ag un rhiant yn gyffredin), brawd neu chwaer sydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu neu lys-frawd neu lys-chwaer (plant sy'n perthyn gan fod eu rhieni wedi priodi, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil), ond ym mhob achos, rhaid bod y plant yn byw yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad a bod wedi'u cofrestru ac yn mynd i'r ysgol lle mae disgwyl y bydd eich plentyn yn mynd iddi.



## LLE I GAEL HELP - CYFEIRIADUR HYBIAU CYMUNEDOL

| HYB | LLEOLIAD | ORIAU AGOR |
|---|---|---|
| **Hyb y Llyfrgell Ganolog**<br><br>**029 2087 1071** | Yr Aes<br>Caerdydd<br>CF10 1FL | Llun – Mer 9yb – 6yh<br>Dydd Iau 10yb – 7yh<br>Dydd Gwener 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Butetown**<br><br>**029 2053 7060** | Plas Iona<br>Butetown<br>CF10 5HW | Llun – Mawrth 9yb – 5yh<br>Dydd Mercher 10yb – 6hy<br>Iau – Gwener 9yb – 5yh |
| **Llyfrgell Treganna**<br><br>**029 2078 0999** | Stryd y Llyfrgell<br>Treganna<br>CF5 1QD | Dydd Llun-Dydd Mawrth 9yb - 1yh, 2yh - 6yh<br>Dydd Mercher 9yb - 1yh, 2yh - 7yh<br>Dydd Iau Ar gau<br>Dydd Gwener 9yb - 1yh, 2yh - 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb - 1yh, 2yh - 5:30yh |
| **Hyb Trelái a Chaerau**<br><br>**029 2087 3800** | Heol Orllewinol y Bont-faen<br>Caerdydd<br>CF5 5BQ | Llun – Mer 9yb – 6yh<br>Dydd Iau 10yb – 7yh<br>Dydd Gwener 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Fairwater**<br><br>**029 2078 5583** | Rhodfa Doyle<br>Caerdydd<br>CF5 3HU | Dydd Llun 9yb – 6yh<br>Dydd Mawrth Ar gau<br>Dydd Mercher, 9yb – 6yh<br>Dydd Iau 10yb – 7yh<br>Dydd Gwener 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Grangetown**<br><br>**029 2078 0966** | Plas Havelock<br>Grangetown<br>Caerdydd<br>CF11 6PA | Llun – Maw 9yb – 6yh<br>Dydd Mercher 10yb – 7yh<br>Iau – Gwe 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Ystum Taf a Gabalfa**<br><br>**029 2078 5588** | Heol y Coleg<br>Ystum Taf<br>Caerdydd<br>CF14 2HU | Llun – Maw 9yb – 6yh<br>Dydd Mercher, 10yb – 5yh<br>Dydd Iau 10yb – 7yh<br>Dydd Gwener 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Llanisien**<br><br>**029 2087 1060** | 11 Heol yr Orsaf<br>Caerdydd<br>CF14 5LS | Dydd Llun 9yb – 6yh<br>Dydd Mawrth 10yb – 5yh<br>Dydd Mercher, 10yb – 7yh<br>Iau – Gwe 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Llanrhymni**<br><br>**029 2078 0994** | Rhodfa Countisbury<br>Llanrhymni<br>Caerdydd<br>CF3 5NQ | Dydd Llun - Iau 9yb – 6 yh<br>Dydd Gwener 10 yb – 7 yh<br>Dydd Sadwrn 9 yb – 5:30 yh |

| HYB | LLEOLIAD | ORIAU AGOR |
|---|---|---|
| **Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Penylan**<br><br>**029 2078 8413** | Heol Pen-y-lan<br>Pen-y-lan<br>Caerdydd<br>CF23 5HW | Dydd Llun 9yb – 7yh<br>Mawrth – Gwener 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Radur**<br><br>**029 2078 0996** | Heol y Parc<br>Caerdydd<br>CF15 8DF | Dydd Llun 10yb – 1yh, 2yh – 6yh<br>Mawrth – Mercher 10yb – 1yh, 2yh – 5.30yh<br>Dydd Iau Ar gau<br>Dydd Gwener 2yh – 7yh<br>Dydd Sadwrn 10yb – 1yh |
| **Hyb Rhiwbeina**<br><br>**029 2069 3276** | Pen-y-Dre<br>Caerdydd<br>CF14 6EH | Dydd Llun 10yb – 7yh<br>Dydd Mawrth – Ar gau<br>Dydd Mercher – Dydd Gwener 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn – 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Rhydypennau**<br><br>**029 2087 1330** | Heol Llandennis<br>Rhydypennau<br>Caerdydd<br>CF23 6EG | Dydd Llun 9yb – 1yh, 2yh – 6yh<br>Dydd Mawrth 9yb – 1yh, 2yh – 7yh<br>Dydd Mercher – Ar gau<br>Iau – Gwe 9yb – 1yh, 2yh – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 1yh, 2yh – 5:30yh |
| **Hyb Partneriaeth Tredelerch**<br><br>**029 2233 0661** | Heol Llansteffan<br>Tredelerch<br>Caerdydd<br>CF3 3JA | Dydd Llun – Mer 9yb – 1yh, 2yh – 6yh<br>Dydd Iau 10yb – 1yh, 2yh – 7yh<br>Dydd Gwener – Ar gau<br>Dydd Sadwrn 9yb – 1yh, 2yh – 5:30yh |
| **Hyb STAR**<br><br>**029 2078 8505** | Heol Muirton<br>Caerdydd<br>CF24 2SJ | Dydd Llun – Maw 9yb – 6yh<br>Dydd Mercher 10yb – 7yh<br>Iau – Gwe 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 3yh |
| **Hyb Llaneirwg**<br><br>**029 2087 1064** | 30 Heol Crugywel<br>Llaneirwg<br>Caerdydd<br>CF3 0EF | Llun – Maw 9yb – 6yh<br>Dydd Mercher 10yb – 7yh<br>Iau – Gwe 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb Powerhouse Llanedern**<br><br>**029 2233 0201** | Roundwood<br>Llanedern<br>Caerdydd<br>CF23 9PN | Llun – Maw 9yb – 6yh<br>Dydd Mercher 10yb – 7yh<br>Iau – Gwe 9yb – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 5:30yh |
| **Hyb yr Eglwys Newydd**<br><br>**029 2087 1331** | Heol y Parc<br>Yr Eglwys Newydd<br>Caerdydd<br>CF14 7XA | Llun – Maw 9yb – 1yh, 2yh – 6yh<br>Dydd Mercher Ar gau<br>Dydd Iau 9yb – 1yh, 2yh – 7yh<br>Dydd Gwener 9yb – 1yh, 2yh – 6yh<br>Dydd Sadwrn 9yb – 1yh, 2yh – 5:00yh |

# CYNGHORION AC AWGRYMIADAU I WNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL

## GWNEWCH GAIS MEWN PRYD

- Sicrhewch eich bod yn cwblhau eich ffurflen gais yn gywir ac ar amser, gan roi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani ar y ffurflen i ganiatáu i ni asesu'ch cais yn gywir.
- Byddwch yn derbyn e-bost awtomataidd unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch cais, os nad ydych wedi derbyn yr e-bost hwn yna nid ydych wedi gwneud cais.
- Cyflwynwch yr holl dystiolaeth ategol erbyn y dyddiad cau.
- Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi unrhyw dystiolaeth benodol sy'n hollbwysig i'r meini prawf gordanysgrifio yn eich barn chi.
- Caiff pob cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn ei ystyried ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ar gyfer ceisiadau a ddaeth i law ar amser.
- Rydych yn llai tebygol o gael lle yn eich ysgol ddewis os cyflwynwyd eich cais yn hwyr.

## DEFNYDDIWCH EICH HOLL DDEWISIADAU

- Dim ond unwaith y gallwch wneud cais ar gyfer pob ysgol, felly defnyddiwch eich holl ddewisiadau.
- Caiff pob dewis ei drin yn gyfartal.
- Mae'r drefn rydych chi'n rhoi eich dewisiadau ysgol yn bwysig. Byddwn BOB TRO yn dyrannu'r dewis uwch lle bo hynny'n bosibl. Ar lefel feithrin mae'r Cyngor yn prosesu ceisiadau ar gyfer holl ysgolion cymunedol ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg.
- Ar lefel **cynradd** ac **uwchradd** (ac eithrio wrth newid ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd) gallwch gynnwys Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a phob ysgol ffydd ac **eithrio** Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf, Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig ac Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant.
- Gwnewch gais ar gyfer yr holl ysgolion ffydd a restrir uchod ar wahân a'i anfon at yr ysgol(ion) ei hun.

## DEWISWCH YN DDOETH

- Peidiwch â chymryd yn ganiataol y cewch le gan fod brawd neu chwaer yn yr ysgol neu fod eich plentyn wedi mynd i ysgol feithrin yr ysgol.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod mewn dalgylch gan eich bod yn byw'n agos at ysgol. Edrychwch ar wefan y Cyngor i wneud yn siŵr: http://ishare.caerdydd.gov.uk/myCardiffWelsh.aspx
- Ystyriwch feini prawf gordanysgrifio'r Cyngor.
- Dim ond hyn a hyn o ddewisiadau sydd gennych, felly byddwch yn realistig.
- Ystyriwch gynnwys eich ysgol ddalgylch fel dewis, fodd bynnag nid oes sicrwydd y bydd lle yn cael ei ddyrannu ar y sail hon yn unig.
- Ydych chi wedi darllen yr wybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg? Efallai yr hoffech gynnwys un o'r Ysgolion cyfrwng Cymraeg fel un o'ch dewisiadau.

# DETHOL EICH DEWIS YSGOLION

**Peidiwch â chael eich dylanwadu gan eraill.** Nid yw'r ysgol gywir i'ch plentyn chi o reidrwydd yr un peth â'r ysgol gywir i blant eraill.

Defnyddiwch **bob un** o'ch dewisiadau ar gyfer Ysgolion Cymunedol. Os ydych am wneud cais am ysgol ffydd, gwnewch gais yn uniongyrchol i'r ysgol honno

Darllenwch y meini prawf gordanysgrifio a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa rai sy'n berthnasol i'ch plentyn.

**Edrychwch ar brosbectws yr ysgol a darllenwch adroddiadau Estyn.** Mae'r rhain ar gael gan yr ysgol ei hun neu o wefan Llywodraeth Cymru https://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy

Darllenwch y wybodaeth yn y llyfryn hwn.

**Ydych chi wedi ystyried addysg cyfrwng Cymraeg?**

**Ewch i ymweld â'r ysgolion ac edrychwch ar eu gwefannau.** Sicrhewch eich bod yn hyderus am eich dewisiadau cyn cyflwyno eich cais

Pa un yw eich ysgol ddalgylch? Defnyddiwch hi fel un o'ch dewisiadau

www.caerdydd.gov.uk/mapiauarlein

Ystyriwch pa mor debygol yw eich plentyn o gael cynnig lle yn eich ysgolion dewis

Ystyriwch sut bydd eich plentyn yn teithio i ac o'r ysgol.

# Ffeithiau Derbyn i Ysgolion

Darllenwch y ffeithiau hyn a fydd yn eich helpu i gwblhau eich cais.

NI ALLWN GYNNIG LLE I'CH PLENTYN MEWN YSGOL TAN I CHI GYFLWYNO EICH CAIS. NI FYDD EICH PLENTYN YN CAEL LLE MEWN YSGOL YN AWTOMATIG.

RYDYM YN AWGRYMU'N GRYF EICH BOD YN RHESTRU: 5 YSGOL AR GYFER DERBYN I ADDYSG GYNRADD NEU ADDYSG UWCHRADD

Dylech restru'r ysgolion yn nhrefn eich dewis, nid yn y drefn yr ydych yn tybio y byddant yn cael eu cynnig i chi

MAE CYFYNGIADAU AR NIFER Y DISGYBLION A ALL GAEL EU DERBYN I YSGOL MEWN UNRHYW UN FLWYDDYN. AR ÔL CYRRAEDD Y NIFER HONNO, NI FYDD RHAGOR O DDISGYBLION YN CAEL EU DERBYN.

NI ALLWN WARANTU LLE I'CH PLENTYN YN EICH YSGOL DDALGYLCH.

Oeddech chi'n gwybod y gallai addysg Gymraeg fod yn opsiwn i chi? Mae gennym uned drochi lwyddiannus iawn sydd wedi cefnogi plant at rugler yn effeithiol dros 1-2 dymor fel y gallant symud i ysgol Gymraeg.

Nid yw cael brawd neu chwaer yn yr ysgol yn gwarantu lle i chi – ond sicrhewch eich bod yn cynnwys manylion y brodyr neu chwiorydd yn eich cais, oherwydd gallai hynny helpu.

Os bydd eich plentyn yn mynd i'r Feithrinfa sy'n gysylltiedig â'ch ysgol Gynradd ddewis nid yw hyn yn golygu y bydd yn cael lle yn awtomatig yn nosbarth derbyn yr ysgol honno. Rhaid gwneud cais newydd ar gyfer lle mewn dosbarth derbyn.

OS YDYCH YN APELIO AM LE MEWN YSGOL DDEWIS SY'N UWCH AR EICH RHESTR, GALL EICH PLENTYN DDERBYN CYNNIG YSGOL ARALL O HYD. AC AROS AR Y RHESTR AROS AR GYFER Y DEWIS UWCH HWNNW.

OS BYDD LLE GWAG YN DOD AR GAEL MEWN YSGOL SYDD WEDI'I GORDANYSGRIFIO, BYDD Y MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO YN CAEL EU DEFNYDDIO I DDIDOLI'R YMGEISWYR CYN BOD LLE YN CAEL EI GYNNIG.

YSTYRIWCH GYNNWYS EICH YSGOL DDALGYLCH FEL UN O'CH DEWISIADAU.

Ni fydd rhestru'r un ysgol sawl gwaith neu ddefnyddio un dewis yn unig yn gwella eich cyfle o gael lle yn yr ysgol honno.

Os yw eich plentyn ar y rhestr aros, cofiwch y gallai ei safle newid wrth i geisiadau ddod i law sydd â blaenoriaeth uwch dan y meini prawf gordanysgrifio.

NI FYDD CEISIADAU SY'N CAEL EU CYFLWYNO AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EU PROSESU TAN AR ÔL Y RHAI A GYFLWYNWYD MEWN PRYD. BYDD RHYWFAINT O OEDI CYN I LE GAEL EI DDYRANNU AC MAE'N BOSIBL Y BYDD RHAI YSGOLION EISOES YN LLAWN.

# Dechrau'r Ysgol Feithrin



**I bwy mae'r adran hon?**
Rhieni neu ofalwyr plant sydd â chyfrifoldeb rhianta cyfreithiol dros blentyn a aned rhwng:

**1 Medi 2020 a 31 Awst 2021** gallwch wneud cais ym mis Ionawr 2024 am le mewn Ysgol Feithrin i ddechrau ym mis Medi 2024 (tymor yr Hydref)
**1 Medi 2021 a 31 Rhagfyr 2021** gallwch wneud cais ym mis Mehefin 2024 am le mewn Ysgol Feithrin i ddechrau yn nhymor y Gwanwyn 2025
**1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022** gallwch wneud cais ym mis Mehefin 2024 am le mewn Ysgol Feithrin i ddechrau yn nhymor yr Haf 2025

**Pa gamau y dylwn eu cymryd?**
✓ Gwneud cais mewn da bryd
✓ Cyflwynwch yr holl ddogfennau angenrheidiol erbyn y dyddiad cau
✓ Meddyliwch yn ofalus ac yn realistig am ba ysgolion i'w rhestru fel eich dewisiadau

## DYDDIADAU ALLWEDDOL AR GYFER DERBYNIADAU MEITHRIN

**Os ganed eich plentyn rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021**

| | |
|---|---|
| **29 Ionawr 2024** | Y broses o wneud cais i ddechrau mewn Ysgol Feithrin ym mis Medi 2024 yn cychwyn |
| **26 Chwefror 2024** | • Y DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU<br>• Rhaid i chi gyflwyno eich holl ddogfennaeth a thystiolaeth ategol<br>• Rhowch wybod i'r Cyngor os bydd eich cyfeiriad yn newid |
| ***Rydym yn awgrymu'n gryf i chi BEIDIO ag aros tan y funud olaf i wneud cais rhag ofn y bydd problemau technegol.*** *Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i unrhyw gais newydd gael ei wneud ar bapur a bydd yn cael ei ystyried yn gais hwyr.* | |
| **Chwefror/Mawrth/Ebrill 2024** | Caiff ceisiadau eu prosesu a'u hasesu yn erbyn y Meini Prawf Derbyn priodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwirio a dilysu'r cyfeiriad a'r wybodaeth ategol rydych wedi'u rhoi i ni. |
| **7 Mai 2024** | **Diwrnod y Cynnig**<br>• Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch ar ôl 10am<br>• Os gwnaed cais amdano, bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn y post ar ôl 10am<br>• Nodwch y gellir rhoi penderfyniadau dros y ffôn ar ôl 12 canol dydd ar y diwrnod cynnig |
| **Mai 2024** | Creu rhestrau aros |
| **21 Mai 2024** | Dyddiad olaf i chi wrthod lle a gynigiwyd i chi. Rydym yn cadw'r hawl i dynnu cynigion yn ôl os nad ydym wedi cael ymateb erbyn y dyddiad hwn<br>• Dyma'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau hwyr hefyd |
| **O 22 Mai 2024** | Ceisiadau (hwyr) yr ail rownd yn cael eu prosesu a'u hasesu |
| **Mehefin 2024** | Canlyniadau'r ail rownd yn cael eu hanfon allan yn y post. Bydd pob rownd arall yn cael ei phrosesu'n fisol o nawr ymlaen. |
| **Mehefin 2024** | Creu rhestrau aros |
| **Medi 2024** | Plant yn dechrau yn yr Ysgol Feithrin |

## DYDDIADAU ALLWEDDOL AR GYFER DERBYNIADAU MEITHRIN

**Os ganed eich plentyn rhwng 1 Medi 2021 a 31 Mawrth 2022**

| | |
|---|---|
| **3 Mehefin 2024** | Y broses o wneud cais i ddechrau mewn Ysgol Feithrin yng Ngwanwyn/Haf 2025 yn cychwyn |
| **1 Gorffennaf 2024** | • **DYDDIAD CAU AR GYFER GWNEUD CAIS**<br>• Rhaid i chi gyflwyno eich holl ddogfennaeth a thystiolaeth ategol erbyn y dyddiad hwn<br>• Rhowch wybod i'r Cyngor os bydd eich cyfeiriad yn newid |

***Rydym yn awgrymu'n gryf i chi BEIDIO ag aros tan y funud olaf i wneud cais rhag ofn y bydd problemau technegol.*** Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i unrhyw gais newydd gael ei wneud ar bapur a bydd yn cael ei ystyried yn gais hwyr.

| | |
|---|---|
| **Gorffennaf/Awst/Medi 2024** | Caiff ffurflenni eu prosesu a'u hasesu yn erbyn y Meini Prawf Derbyn priodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwirio a dilysu'r cyfeiriad a'r wybodaeth ategol rydych wedi'u rhoi i ni. |
| **7 Hydref 2024** | **Diwrnod y Cynnig – Dyma'r diwrnod rydym yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich cais**<br>• Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch ar ôl 10am<br>• Os gwnaed cais amdano, bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn y post ar ôl 10am<br>• Nodwch mai dim ond ar ôl 12 canol dydd ar y diwrnod cynnig y gellir rhoi penderfyniadau dros y ffôn |
| **21 Hydref 2024** | • Dyddiad olaf i chi dderbyn neu wrthod y lle a gynigiwyd gennym. Rydym yn cadw'r hawl i dynnu cynigion yn ôl os nad ydym wedi cael ymateb erbyn y dyddiad hwn<br>• Dyma hefyd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau hwyr |
| **O 22 Hydref 2024** | Ceisiadau (hwyr) yr ail rownd yn cael eu prosesu a'u hasesu |
| **Tachwedd 2024** | Canlyniadau'r ail rownd yn cael eu hanfon allan yn y post. Bydd pob rownd arall yn cael ei phrosesu'n fisol o nawr ymlaen. |
| **Tymor y Gwanwyn / Tymor yr Haf 2025** | Plant yn dechrau yn yr Ysgol Feithrin |

OES GENNYCH CHI BLENTYN 3-4 OED? YDYCH CHI'N GWYBOD YR EFALLAI EICH BOD YN GYMWYS I GAEL CYLLID TUAG AT EICH COSTAU GOFAL PLANT DRWY GYNNIG GOFAL PLANT CYMRU? GWELER TUDALEN 63 I GAEL MWY O WYBODAETH

## CYLLIDO'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

**Pan nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol lleol o fewn dwy filltir i breswylfa plentyn,** gall rhieni wneud cais am arian i sicrhau lle addysg feithrin gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan y Cyngor. Mesurir y radiws o ddwy filltir gan y Cyngor fel y llwybr diogel byrraf sydd ar gael. Pan fydd lleoedd ar gael mewn ysgolion neu ddosbarthiadau meithrin cymunedol lleol o fewn llwybr cerdded dwy filltir i breswylfa plentyn, bydd y Cyngor ond yn cymeradwyo ceisiadau am arian i sicrhau lle addysg feithrin (gyda darparwr cydnabyddedig a bennir gan y Cyngor) pan fo rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol sy'n ei gwneud yn amhriodol i'r plentyn fynychu'r ddarpariaeth feithrin a gynigiwyd gan y Cyngor. Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg yn egluro pam na all y plentyn fynd i unrhyw un o'r Ysgolion Meithrin Cymunedol sydd ar gael.

**Sut caiff y cyllid ei ddarparu**

Gallwch gael ffurflen gais gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig neu drwy e-bostio Derbyniadau Meithrin yn DerbyniadauMeithrin@caerdydd.gov.uk

Nodwch y canlynol:

- Rhaid i'ch plentyn breswylio yng Nghaerdydd.
- Rhaid i chi ddarparu copi o Dystysgrif Geni'ch plentyn neu ddogfennau Mabwysiadu.
- Caiff pob taliad cyllid ei wneud yn uniongyrchol i'r darparwr preifat dan sylw.
- NI FYDD Y CYNGOR YN DARPARU CYLLID ÔL-WEITHREDOL.
- Dylid gwneud ceisiadau am gyllid cyn y tymor y bydd eich plentyn yn gymwys i ddechrau Ysgol Feithrin.

## DARPARWYR ADDYSG FEITHRIN CYDNABYDDEDIG

| DARPARWYR PREIFAT CYMRAEG | CYFEIRIAD | STRYD | ARDAL | COD POST | DROS Y FFÔN |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Plant Cwtch Childcare | Ysgol Gynradd Coed y Gof | Rhodfa Beechley | Pentre-baen | CF5 3SG | 07954 646097 |
| Cylch Meithrin y Parc | Capel Salem | Market Road | Treganna | CF5 1QG | 07794 065522 |
| Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd | Neuadd y Sgowtiaid | Heol Pen-llin | Yr Eglwys Newydd | CF14 2AD | 07474 651141 |
| Si-Lw-Li (Yr Eglwys Newydd) | | 24 Heol y Parc | Yr Eglwys Newydd | CF14 5BY | 02920 626720 |
| Sant Aubin (Uned Gymraeg) | | 503A Heol Ddwyreiniol y Bont-faen | Treganna | CF5 1BJ | 02920 222227 |

**Oes gennych chi blentyn 3-4 oed? Ydych chi'n gwybod yr efallai eich bod yn gymwys i gael cyllid tuag at eich costau gofal plant drwy Gynnig Gofal Plant Cymru? Gweler tudalen 63 i gael mwy o wybodaeth.**

# MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO DERBYNIADAU MEITHRIN

Pan fydd ysgol feithrin gymunedol wedi'i gordanysgrifio (mwy o geisiadau na lleoedd), bydd y ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a bennwyd gan y Cyngor yn ei Bolisi Derbyn i Ysgolion 2024/25. Caiff y meini prawf hyn eu defnyddio i benderfynu pa blant y dylid cynnig lle iddynt.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen arnom pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn ysgol fel y gallwn weithredu'r meini prawf hyn yn gywir.

**Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf canlynol yn nhrefn eu blaenoriaeth (a yw'r flaenoriaeth uchaf) hyd at gapasiti cymeradwy'r ysgol.**

1) O ran ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef 26 Chwefror 2024 ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021 (gan gynnwys y dyddiadau hynny)

| Maen prawf o'r polisi | *Beth mae hyn yn ei olygu i chi* |
|---|---|
| a. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr neu blant a arferai dderbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr. | *Os yw plentyn yn derbyn gofal, mae dyletswydd ar y Cyngor i roi lle i'r plentyn hwnnw yn yr ysgol y gwnaed cais amdani cyhyd â bod lle yn yr ysgol feithrin a'i fod yn briodol yn seiliedig ar gefndir ac anghenion y plentyn. Os arferai'r plentyn dderbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, caiff ei ystyried o dan y meini prawf hyn o hyd.* |
| b. Plant sy'n destun Cynllun Datblygiad personol (CDP) lle enwir ysgol benodol | *Dwedwch wrthym os oes Cynllun Datblygiad Personol gan eich plentyn lle enwir ysgol benodol* |
| c. Plant sydd â brawd neu chwaer (mewn unrhyw grŵp oed rhwng Derbyn a Blwyddyn 6 gan gynnwys y blynyddoedd hynny) a fydd ar gofrestr yr ysgol lle ceir y dosbarth meithrin yn yr un ysgol pan gânt eu derbyn. | *Mae gan y plentyn frawd neu chwaer ym mlynyddoedd y Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6 sy'n mynychu'r ysgol ac sy'n byw yn yr un cyfeiriad ym mis Medi 2024. Rhaid i chi roi gwybodaeth am frawd/chwaer y plentyn.* |
| ch. Disgyblion lle mae yna resymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol, ym marn y Cyngor, dros eu derbyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol. | *Rhaid i chi gyflwyno cefnogaeth ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol erbyn y dyddiad cau. Rhaid iddynt nodi rhesymau manwl sy'n egluro pam y dylai'r plentyn gael lle mewn ysgol benodol.* |
| d. Plant sy'n byw agosaf at yr ysgol/dosbarth meithrin, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael | *Rydych chi'n byw ger yr ysgol, ond nid oes dim un o'r meini prawf uwch yn berthnasol. Caiff eich cais ei asesu yn unig ar ba mor agos at yr ysgol rydych chi'n byw.* |
| dd. Pan fo gormod o geisiadau am ysgol feithrin gymunedol, a byddai un (neu ragor) o frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael lle ond ni fyddai un (neu ragor) o'r brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael cynnig lle gan fod y Nifer Derbyn Cyhoeddedig wedi'i fodloni, bydd y Cyngor yn derbyn gweddill y brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog. | *Os yw ysgol gymunedol wedi'i gordanysgrifio, a bod un plentyn (neu fwy) gyda brodyr neu chwiorydd o enedigaeth luosog yn gymwys i gael lle, ond nid yw'r llall (neu'r lleill) yn gymwys, yna gellir cynnig lle i'r brawd neu chwaer arall (neu eraill) o enedigaeth luosog hyd yn oed os yw dros y nifer derbyn.* |

2) O ran ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef 1 Gorffennaf 2024 ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2021 a 31 Rhagfyr 2021 (gan gynnwys y dyddiadau hynny) defnyddir Meini Prawf a i f [fel uchod]

3) O ran ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, sef 1 Gorffennaf 2024 ar gyfer plant a aned rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022 (gan gynnwys y dyddiadau hynny). Defnyddir meini prawf a i f [fel uchod]



# Dechrau'r Ysgol Gynradd



**I bwy mae'r adran hon?**
Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol dros blentyn a aned rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020, rhaid i chi wneud cais am le mewn Dosbarth Derbyn i ddechrau ym mis Medi 2024.

**Beth yw'r camau y dylwn eu cymryd?**
- ✓ Gwneud cais mewn da bryd
- ✓ Nodwch 5 Ysgol Gymunedol wahanol fel dewis
- ✓ Cyflwynwch yr holl ddogfennau angenrheidiol erbyn y dyddiad cau
- ✓ Meddyliwch yn ofalus ac yn realistig am ba ysgolion i'w rhestru fel eich dewisiadau

## DYDDIADAU ALLWEDDOL DERBYN CYNRADD

| | |
|---|---|
| **13 Tachwedd 2023** | Y broses o wneud cais i ddechrau mewn Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2024 yn cychwyn |
| **08 Ionawr 2024** | • **DYDDIAD CAU DERBYN CEISIADAU**<br>• Rhaid i chi gyflwyno eich holl ddogfennaeth a thystiolaeth ategol<br>• Rhowch wybod i'r Cyngor os bydd eich cyfeiriad yn newid |
| ***Rydym yn awgrymu'n gryf i chi BEIDIO ag aros tan y funud olaf i wneud cais rhag ofn y bydd problemau technegol.*** Ar ôl y dyddiad hwn, ni ellir gwneud cais ar-lein. Bydd angen i unrhyw gais newydd gael ei gyflwyno ar bapur a bydd yn cael ei ystyried yn gais hwyr. Gallwch gael y ffurflen hon o'r hybiau neu o wefan y Cyngor. | |
| **Chwefror/Mawrth/Ebrill 2024** | Caiff ffurflenni eu prosesu a'u hasesu yn erbyn y Meini Prawf Derbyn priodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwirio a dilysu cyfeiriadau a gwybodaeth ategol. |
| **16 Ebrill 2024** | **Diwrnod Cynnig**<br>• Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch ar ôl 10am<br>• Os gwnaed cais amdano, bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn y post ar ôl 10am<br>• Nodwch y gellir rhoi penderfyniadau dros y ffôn ar ôl 12 canol dydd ar y diwrnod cynnig |
| **30 Ebrill 2024** | • Dyddiad olaf i chi wrthod lle a gynigiwyd i chi. Rydym yn cadw'r hawl i dynnu cynigion yn ôl os nad ydym wedi cael ymateb erbyn y dyddiad hwn<br>• Dyma'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau hwyr hefyd<br>• Os ydych am apelio yn erbyn penderfyniad, rhaid i chi gyflwyno ffurflen apelio erbyn y dyddiad hwn |
| **O 1 Mai 2024** | Ceisiadau (hwyr) yr ail rownd yn cael eu prosesu a'u hasesu |
| **Mehefin 2024** | Canlyniadau'r ail rownd yn cael eu hanfon allan yn y post. Bydd pob rownd arall yn cael ei phrosesu'n fisol o nawr ymlaen. |
| **Medi 2024** | Plant yn dechrau yn yr ysgol yn llawn amser |

## MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO DERBYNIADAU CYNRADD

Pan fydd ysgol gynradd gymunedol wedi'i gordanysgrifio (mwy o geisiadau na lleoedd), bydd y ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddir yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a bennwyd gan y Cyngor yn ei Bolisi Derbyn i Ysgolion 2024/25. Caiff y meini prawf hyn eu defnyddio i benderfynu pa blant y dylid cynnig lle iddynt.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen arnom pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn ysgol fel y gallwn weithredu'r meini prawf hyn yn gywir.

**Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf canlynol yn nhrefn eu blaenoriaeth (1 yw'r flaenoriaeth uchaf) hyd at gapasiti cymeradwy'r ysgol. Ni fydd y Cyngor yn derbyn mwy o ddisgyblion i ysgol na nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol honno, nac yn mynd heibio i'r uchafswm maint dosbarth statudol (30) lle bo hynny'n berthnasol.**

| Maen prawf o'r polisi | *Beth mae hyn yn ei olygu i chi* |
|---|---|
| 1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr neu blant a arferai dderbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr. | *Os yw plentyn yn derbyn gofal ar hyn o bryd, mae dyletswydd ar y Cyngor i roi lle i'r plentyn hwnnw yn yr ysgol y gwnaed cais amdani cyhyd â bod yr ysgol yn addas yn seiliedig ar gefndir ac anghenion y plentyn. Os yw'r plentyn wedi derbyn gofal o'r blaen, mae'n dal i gael ei ystyried o dan y meini prawf hyn ac mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r flaenoriaeth uchaf i'r plant hyn.* |
| 2. Plant sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU), lle mae ysgol benodol yn cael ei henwi. | *Rhowch wybod i ni os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol sy'n enwi'r ysgol y mae'n rhaid iddynt ei mynychu oherwydd bod ganddo angen/anghenion dysgu ychwanegol wedi'u nodi a'u cytuno.* |
| 3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ac y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol. | *Rhaid i'ch plentyn fyw yn y dalgylch A rhaid i chi gyflwyno cefnogaeth ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol erbyn y dyddiad cau. Rhaid i'r gefnogaeth nodi rhesymau manwl sy'n egluro pam ddylai'r plentyn gael lle mewn ysgol benodol a enwir.* |
| 4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer wedi'u cofrestru yn y Dosbarth Derbyn neu ym Mlynyddoedd 1 i 6 a fydd ar gofrestr yr ysgol pan gânt eu derbyn. | *Rhaid i'ch plentyn fyw yn y dalgylch A rhaid bod ganddo frawd neu chwaer ym mlynyddoedd 1-6 yn yr ysgol a bod yn byw yn yr un cyfeiriad ym mis Medi 2024. Rhaid i chi roi gwybodaeth am frawd/chwaer y plentyn.* |

| Maen prawf o'r polisi | *Beth mae hyn yn ei olygu i chi* |
|---|---|
| 5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol, a gafodd eu derbyn cyn newid i ddalgylch. | *Rhaid i chi roi gwybodaeth am frawd/chwaer y plentyn.* |
| a) Lle derbyniwyd brawd/chwaer hyn i ysgol a arferai fod yr ysgol ddalgylch ar gyfer cartref y teulu ar adeg derbyn y brawd/chwaer hyn a'u bod yn parhau i fynychu'r ysgol honno, os bydd yr ysgol yn dymuno bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd iau i'r hen ysgol ddalgylch. | *Rhaid i'r brawd neu chwaer fod yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Mae dalgylch yr ysgol wedi newid, ond nid ydych wedi symud cyfeiriad sy'n golygu eich bod yn byw y tu allan i'r dalgylch erbyn hyn.* |
| b) Lle derbyniwyd brawd/chwaer hŷn i ysgol gymunedol sydd newydd ei sefydlu heb ddalgylch penodedig, a'u bod yn parhau i fynychu'r ysgol honno, os bydd y rhiant yn gwneud cais, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i frodyr/chwiroedd iau i'r ysgol hon. | *Rhaid i'r brawd neu chwaer fod yn mynychu'r ysgol gymunedol newydd. Nid yw eich cyfeiriad wedi newid ond mae gan yr ysgol ddalgylch diffiniedig bellach.* |
| 6. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. | *Rhaid i'ch plentyn fyw yn y dalgylch, ond nid yw unrhyw un o'r meini prawf eraill yn berthnasol.*<br>*Bydd eich cais yn cael ei asesu yn ôl pa mor agos at yr ysgol rydych chi'n byw.* |
| 7 . Disgyblion y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol. | *Nid yw'ch plentyn yn byw yn y dalgylch OND mae gennych gefnogaeth ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol sydd wedi'i chyflwyno erbyn y dyddiad cau. Rhaid i'r gefnogaeth nodi rhesymau manwl sy'n egluro pam ddylai'r plentyn gael lle mewn ysgol benodol a enwir.* |
| 8. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer ar gofrestr y Dosbarth Derbyn neu Flynyddoedd 1 i 6 a fydd ar gofrestr yr ysgol pan gânt eu derbyn. | *Nid yw eich plentyn yn byw yn y dalgylch OND mae ganddo frawd neu chwaer yn y Dosbarth Derbyn neu ym mlynyddoedd 1-6 yn yr ysgol sy'n byw yn yr un cyfeiriad ym mis Medi 2024. Rhaid i chi roi gwybodaeth am frawd/chwaer y plentyn.* |
| 9. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol, fel y'i mesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf. | *Nid yw'r plentyn yn byw yn y dalgylch AC nid yw unrhyw rai o'r meini prawf uwch yn berthnasol.*<br>*Bydd eich cais yn cael ei asesu yn unig yn ôl pa mor agos at yr ysgol rydych chi'n byw.* |
| 10. Where a community primary school is oversubscribed, and one (or more) of multiple birth siblings would be allocated a place but one (or more) of the multiple birth siblings would not be offered a place as the Published Admission Number has been met, the Council will admit the remaining multiple birth sibling(s). | *Os yw ysgol gymunedol wedi'i gordanysgrifio, a bod un plentyn (neu fwy) gyda brodyr neu chwiorydd o enedigaeth luosog yn gymwys i gael lle, ond nid yw'r llall (neu'r lleill) yn gymwys, yna gellir cynnig lle i'r brawd neu chwaer arall (neu eraill) o enedigaeth luosog hyd yn oed os yw dros y nifer derbyn.* |

**SYLWER** Defnyddir pellter o'r ysgol fel modd o benderfynu ar bob maen prawf os yw nifer y dewisiadau sy'n diwallu'r un meini prawf yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael.

## Derbyn i Ysgolion Cynradd Medi 2023

Crynodeb yn dangos sut y dyrennir lleoedd yn ysgolion cynradd cymunedol a gynhelir Caerdydd, ar 17 Ebrill 2023, yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig (fel a nodir yn llyfryn Gwybodaeth i Rieni Derbyn i Ysgolion 2023/24).

| | Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd | Pob dewis wedi'i fynegi | Ysgol wedi ei henwi yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl | Plant sy'n Derbyn Gofal | Cyfeirio'r brawd/chwaer hŷn at ysgol amgen gan y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Creigiau (Saesneg) | 30 | 33 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gynradd Lakeside | 60 | 65 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gynradd Llysfaen | 60 | 67 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gynradd Marlborough | 60 | 61 | 0 | 2 | 0 |
| Ysgol Gynradd Millbank | 30 | 34 | 0 | 2 | 0 |
| Ysgol Gynradd Pontprennau | 60 | 64 | 0 | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Rhydypenau | 60 | 71 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Glan Ceubal | 30 | 37 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 60 | 71 | 0 | 1 | 0 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 30 | 34 | 0 | 1 | 0 |
| Ysgol Pencae | 30 | 38 | 0 | 0 | 0 |

**tu allan i'r Dalgylch, â brawd/chwaer

| Yn y dalgylch a chanddynt resymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Yn y Dalgylch â brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Yn y Dalgylch | Y tu allan i'r dalgylch ond â rhesymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Y tu allan i'r Dalgylch gyda brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Y tu allan i'r Dalgylch | Mesuriad cymhwyso diwethaf | Cyfanswm y lleoedd a ddyrannwyd | Cyfanswm y ceisiadau a wrthodwyd gan yr ALl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 7 | 11 | 0 | 7 | 5 | 2.884 | 30 | 3 |
| 1 | 25 | 27 | 0 | 2 | 5 | 1.143 | 60 | 5 |
| 0 | 16 | 25 | 0 | 11 | 8 | 1.319 | 60 | 6 |
| 0 | 20 | 15 | 0 | 6 | 17 | 41.0 | 60 | 1 |
| 0 | 3 | 6 | 0 | 7 | 12 | 1.203 | 30 | 4 |
| 0 | 17 | 27 | 0 | 5 | 10 | 1.260 | 60 | 4 |
| 0 | 25 | 30 | 0 | 1 | 4 | 1.442 | 60 | 11 |
| 0 | 9 | 16 | 0 | 2 | 3 | 0.936 | 30 | 7 |
| 0 | 26 | 27 | 0 | 6 | 0 | 1.140** | 60 | 11 |
| 0 | 7 | 15 | 0 | 3 | 4 | 0.715 | 30 | 4 |
| 0 | 16 | 11 | 1 | 2 | 0 | 3.829** | 30 | 8 |

| | Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd | Pob dewis wedi'i fynegi | Ysgol wedi ei henwi yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl | Plant sy'n Derbyn Gofal | Cyfeirio'r brawd/chwaer hŷn at ysgol amgen gan y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | 60 | 29 | Mae lleoedd ar ôl o hyd yn yr ysgolion hyn felly nid oedd angen defnyddio'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. | | |
| Ysgol Gynradd Albany | 60 | 28 | | | |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 30 | 17 | | | |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | 60 | 24 | | | |
| Ysgol Gynradd Llwynbedw | 60 | 48 | | | |
| Ysgol Gyndradd Bryn Celyn | 30 | 12 | | | |
| Ysgol Gyndradd Bryn Deri | 30 | 28 | | | |
| Ysgol Gynradd Bryn Hafod | 60 | 29 | | | |
| Ysgol Gynradd Coed Glas | 75 | 29 | | | |
| Ysgol Gynradd Coryton | 30 | 17 | | | |
| Ysgol Gynradd Creigiau (Cymraeg) | 30 | 21 | | | |
| Ysgol Gynradd Danescourt | 60 | 59 | | | |
| Ysgol Gynradd Y Tyllgoed | 40 | 15 | | | |
| Ysgol Gynradd Gabalfa | 30 | 26 | | | |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 30 | 23 | | | |
| Ysgol Gynradd Glan-Yr-Afon | 30 | 6 | | | |
| Ysgol Gynradd Glyncoed | 60 | 24 | | | |
| Ysgol Gynradd Grangetown | 60 | 36 | | | |
| Ysgol Gynradd Greenway | 30 | 26 | | | |
| Ysgol Gynradd Hawthorn | 30 | 17 | | | |
| Ysgol Gynradd Herbert Thompson | 60 | 45 | | | |
| Ysgol Gynradd Howardian | 60 | 44 | | | |
| Ysgol Gynradd Hywel Dda | 60 | 43 | | | |
| Ysgol Gynradd Kitchener | 60 | 56 | | | |
| Ysgol Gynradd Lansdowne | 60 | 21 | | | |
| Ysgol Gynradd Llanedern | 55 | 26 | | | |
| Ysgol Gynradd Llanishen Fach | 60 | 59 | | | |
| Ysgol Gynradd Meadowlane | 45 | 22 | | | |
| Ysgol Gynradd Moorland | 60 | 34 | | | |
| Ysgol Gynradd Mount Stuart | 60 | 49 | | | |
| Ysgol Gynradd Parc Ninian | 90 | 62 | | | |
| Ysgol Gynradd Oakfield | 60 | 44 | | | |
| Ysgol Gynradd Pen-Y-Bryn | 30 | 29 | | | |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | 30 | 30 | | | |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | 30 | 23 | | | |
| Ysgol Gynradd Pentyrch | 30 | 14 | | | |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | 45 | 34 | | | |

| Yn y dalgylch a chanddynt resymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Yn y Dalgylch â brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Yn y Dalgylch | Y tu allan i’r dalgylch ond â rhesymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Y tu allan i’r Dalgylch gyda brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Y tu allan i’r Dalgylch | Mesuriad cymhwyso diwethaf | Cyfanswm y lleoedd a ddyrannwyd | Cyfanswm y ceisiadau a wrthodwyd gan yr ALl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae lleoedd ar ôl o hyd yn yr ysgolion hyn felly nid oedd angen defnyddio’r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. | | | | | | | 29 | 0 |
| | | | | | | | 28 | 0 |
| | | | | | | | 17 | 0 |
| | | | | | | | 24 | 0 |
| | | | | | | | 48 | 0 |
| | | | | | | | 12 | 0 |
| | | | | | | | 28 | 0 |
| | | | | | | | 28 | 0 |
| | | | | | | | 29 | 0 |
| | | | | | | | 17 | 0 |
| | | | | | | | 21 | 0 |
| | | | | | | | 58 | 0 |
| | | | | | | | 15 | 0 |
| | | | | | | | 26 | 0 |
| | | | | | | | 23 | 0 |
| | | | | | | | 6 | 0 |
| | | | | | | | 24 | 0 |
| | | | | | | | 36 | 0 |
| | | | | | | | 26 | 0 |
| | | | | | | | 17 | 0 |
| | | | | | | | 45 | 0 |
| | | | | | | | 44 | 0 |
| | | | | | | | 43 | 0 |
| | | | | | | | 56 | 0 |
| | | | | | | | 21 | 0 |
| | | | | | | | 26 | 0 |
| | | | | | | | 59 | 0 |
| | | | | | | | 22 | 0 |
| | | | | | | | 34 | 0 |
| | | | | | | | 49 | 0 |
| | | | | | | | 62 | 0 |
| | | | | | | | 44 | 0 |
| | | | | | | | 29 | 0 |
| | | | | | | | 30 | 0 |
| | | | | | | | 23 | 0 |
| | | | | | | | 14 | 0 |
| | | | | | | | 34 | 0 |

| | Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd | Pob dewis wedi'i fynegi | Ysgol wedi ei henwi yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl | Plant sy'n Derbyn Gofal | Cyfeirio'r brawd/chwaer hŷn at ysgol amgen gan y Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Radnor | 45 | 36 | Mae lleoedd ar ôl o hyd yn yr ysgolion hyn felly nid oedd angen defnyddio'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. | | |
| Ysgol Gynradd Radur | 60 | 58 | | | |
| Ysgol Gynradd Rhiwbeina | 90 | 77 | | | |
| Ysgol Gynradd Parc Y Roath | 60 | 43 | | | |
| Ysgol Gynradd Tredelerch | 60 | 46 | | | |
| Ysgol Gynradd Severn | 60 | 34 | | | |
| Ysgol Gynradd Springwood | 60 | 19 | | | |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg (Cymunedol) | 15 | 13 | | | |
| Ysgol Gynradd Stacey | 30 | 24 | | | |
| Ysgol Gynradd Draenen Pen Y Graig | 60 | 54 | | | |
| Ysgol Gynradd Ton-Yr-Ywen | 60 | 43 | | | |
| Ysgol Gynradd Tongwynlais | 28 | 25 | | | |
| Ysgol Gynradd Trelai | 60 | 21 | | | |
| Ysgol Gynradd Trowbridge | 30 | 13 | | | |
| Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd | 90 | 68 | | | |
| Ysgol Gynradd Willowbrook | 60 | 44 | | | |
| Ysgol Gynradd Windsor Clive | 60 | 42 | | | |
| Ysgol Bro Eirwg | 60 | 39 | | | |
| Ysgol Glan Morfa | 60 | 32 | | | |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | 60 | 15 | | | |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch | 60 | 29 | | | |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 90 | 88 | | | |
| Ysgol Gynradd Groes-Wen (CYMRAEG) | 30 | 3 | | | |
| Ysgol Gynradd Groes-Wen (DUAL STREAM) | 30 | 4 | | | |
| Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth (CYMRAEG) | 30 | 16 | | | |
| Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth (Saesneg) | 8 | 3 | | | |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad | 60 | 47 | | | |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes | 30 | 18 | | | |
| Ysgol Mynydd Bychan | 30 | 26 | | | |
| Ysgol Pen Y Pil | 30 | 21 | | | |
| Ysgol Y Berllan Deg | 60 | 40 | | | |
| Ysgol Y Wern | 90 | 83 | | | |

| Yn y dalgylch a chanddynt resymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Yn y Dalgylch â brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Yn y Dalgylch | Y tu allan i'r dalgylch ond â rhesymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Y tu allan i'r Dalgylch gyda brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Y tu allan i'r Dalgylch | Mesuriad cymhwyso diwethaf | Cyfanswm y lleoedd a ddyrannwyd | Cyfanswm y ceisiadau a wrthodwyd gan yr ALl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae lleoedd ar ôl o hyd yn yr ysgolion hyn felly nid oedd angen defnyddio'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. | | | | | | | 36 | 0 |
| | | | | | | | 58 | 0 |
| | | | | | | | 77 | 0 |
| | | | | | | | 42 | 0 |
| | | | | | | | 46 | 0 |
| | | | | | | | 33 | 0 |
| | | | | | | | 19 | 0 |
| | | | | | | | 13 | 0 |
| | | | | | | | 24 | 0 |
| | | | | | | | 54 | 0 |
| | | | | | | | 43 | 0 |
| | | | | | | | 25 | 0 |
| | | | | | | | 21 | 0 |
| | | | | | | | 13 | 0 |
| | | | | | | | 68 | 0 |
| | | | | | | | 44 | 0 |
| | | | | | | | 42 | 0 |
| | | | | | | | 39 | 0 |
| | | | | | | | 32 | 0 |
| | | | | | | | 15 | 0 |
| | | | | | | | 29 | 0 |
| | | | | | | | 88 | 0 |
| | | | | | | | 3 | 0 |
| | | | | | | | 4 | 0 |
| | | | | | | | 16 | 0 |
| | | | | | | | 3 | 0 |
| | | | | | | | 47 | 0 |
| | | | | | | | 18 | 0 |
| | | | | | | | 26 | 0 |
| | | | | | | | 21 | 0 |
| | | | | | | | 40 | 0 |
| | | | | | | | 83 | 0 |

# Dechrau'r Ysgol Uwchradd



**I bwy mae'r adran hon?**
Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol dros blentyn a aned rhwng 1 Medi 2012 a 31 Awst 2013, rhaid i chi wneud cais am le ym Mlwyddyn 7 i ddechrau ym mis Medi 2024.

**Beth yw'r camau y dylwn eu cymryd?**
- ✓ Gwneud cais mewn da bryd
- ✓ Nodwch bum ysgol wahanol
- ✓ Cyflwynwch yr holl ddogfennau angenrheidiol erbyn y dyddiad cau
- ✓ Meddyliwch yn ofalus ac yn realistig am ba ysgolion i'w rhestru fel eich dewisiadau

## DYDDIADAU ALLWEDDOL AR GYFER DERBYNIADAU UWCHRADD

| | |
|---|---|
| **25 Medi 2023** | Y broses o wneud cais i ddechrau ym Mlwyddyn 7 ym mis Medi 2024 yn cychwyn. |
| **20 Tachwedd 2023** | • **YW'R DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU**<br>• Rhaid i chi gyflwyno eich holl ddogfennaeth a thystiolaeth ategol.<br>• Rhowch wybod i'r Cyngor os bydd eich cyfeiriad yn newid. |
| ***Rydym yn awgrymu'n gryf i chi BEIDIO ag aros tan y funud olaf i wneud cais rhag ofn y bydd problemau technegol.*** Ar ôl y dyddiad hwn, ni fydd modd i chi wneud cais ar-lein. Bydd angen i unrhyw gais newydd gael ei gyflwyno ar bapur a bydd yn cael ei ystyried yn gais hwyr. Gallwch gael y ffurflen hon o'r hybiau neu o wefan y Cyngor. | |
| **Rhagfyr/Ionawr/Chwefror 2023/2024** | Caiff ceisiadau eu prosesu a'u hasesu yn erbyn y Meini Prawf Derbyn priodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys dilysu cyfeiriadau a gwybodaeth ategol. |
| **1 Mawrth 2024** | **Diwrnod Cynnig**<br>• Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch ar ôl 10am yn nodi canlyniad eich cais.<br>• Os gwnaed cais amdano, bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn y post ar ôl 10am<br>• Nodwch y gellir rhoi penderfyniadau dros y ffôn ar ôl 12 canol dydd ar y diwrnod cynnig. |
| **15 Mawrth 2024** | • Y dyddiad olaf i chi dderbyn neu wrthod y lle a gynigiwyd. Rydym yn cadw'r hawl i dynnu cynigion yn ôl os nad ydym wedi cael ymateb erbyn y dyddiad hwn.<br>• Dyma'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau hwyr hefyd.<br>• Os ydych am apelio yn erbyn penderfyniad, rhaid i chi gyflwyno ffurflen apelio erbyn y dyddiad hwn. |
| **O 16 Mawrth 2024** | • Ceisiadau (hwyr) yr ail rownd yn cael eu prosesu a'u hasesu. |
| **Mai 2024** | • Canlyniadau'r ail rownd yn cael eu hanfon allan yn y post. Bydd pob rownd arall yn cael ei phrosesu'n fisol o nawr ymlaen. |
| **Medi 2024** | Plant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd. |

## MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO DERBYNIADAU UWCHRADD

Pan fydd ysgol uwchradd gymunedol wedi'i gordanysgrifio (mwy o geisiadau na lleoedd), bydd y ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau a gyhoeddir yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a bennwyd gan y Cyngor yn ei Bolisi Derbyn i Ysgolion 2024/25. Caiff y meini prawf hyn eu defnyddio i benderfynu pa blant y dylid cynnig lle iddynt.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen arnom pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn ysgol fel y gallwn weithredu'r meini prawf hyn yn gywir.

**Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf canlynol yn nhrefn eu blaenoriaeth (1 yw'r flaenoriaeth uchaf) hyd at gapasiti cymeradwy'r ysgol ac ni fydd yn fwy fel rheol na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol honno.**

| Maen prawf o'r polisi | *Beth mae hyn yn ei olygu i chi* |
|---|---|
| 1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr neu blant a arferai dderbyn gofal gan Awdurdod Lleol yng Nghymru neu Loegr. | *Os yw plentyn yn derbyn gofal ar hyn o bryd, mae dyletswydd ar y Cyngor i roi lle i'r plentyn hwnnw yn yr ysgol y gwnaed cais amdani cyhyd â bod yr ysgol yn addas yn seiliedig ar gefndir ac anghenion y plentyn. Os arferai'r plentyn dderbyn gofal, caiff ei ystyried o dan y meini prawf hyn o hyd ac mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r flaenoriaeth uchaf i'r plant hyn.* |
| 2. Plant sy'n destun Cynllun Datblygiad Unigol lle enwir ysgol benodol | *Rhowch wybod i ni os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol sy'n enwi'r ysgol y mae'n rhaid iddynt ei mynychu am fod angen/anghenion dysgu ychwanegol ganddo sydd wedi'u nodi a'u cytuno .* |
| 3. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ac y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol. | *Rhaid i'ch plentyn fyw yn y dalgylch A rhaid i chi gyflwyno cefnogaeth ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol neu weithiwr cymdeithasol erbyn y dyddiad cau. Rhaid i'r gefnogaeth nodi rhesymau manwl sy'n egluro pam ddylai'r plentyn gael lle mewn ysgol benodol a enwir.* |
| 4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer wedi'u cofrestru ym Mlynyddoedd 7 i 11 a fydd ar gofrestr yr ysgol. | *Rhaid i'r plentyn fyw yn y dalgylch A bod â brawd neu chwaer ym mlynyddoedd 7-11 yn yr ysgol sy'n byw yn yr un cyfeiriad ym mis Medi 2024. Rhaid i chi roi gwybodaeth am frawd/chwaer y plentyn.* |
| 5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol. | *Rhaid i'r plentyn fyw yn y dalgylch, ond nid yw unrhyw un o'r meini prawf eraill yn berthnasol.*<br>*Bydd eich cais yn cael ei asesu yn ôl pa mor agos at yr ysgol rydych chi'n byw.* |
| 6. Disgyblion y mae, ym marn y Cyngor, resymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol benodol. | *Nid yw'r plentyn yn byw yn y dalgylch OND mae gennych argymhellion ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg yr ydych wedi'u cyflwyno erbyn y dyddiad cau. Rhaid iddynt nodi rhesymau manwl sy'n egluro pam ddylai'r plentyn gael lle mewn ysgol benodol.* |

| Maen prawf o'r polisi | *Beth mae hyn yn ei olygu i chi* |
|---|---|
| 7. Plant sydd â brawd neu chwaer ar y gofrestr ym mlynyddoedd 7 i 11 a fydd ar gofrestr yr ysgol ar yr adeg pan gânt eu derbyn. | *Nid yw eich plentyn yn byw yn y dalgylch OND mae ganddo frawd neu chwaer ym mlynyddoedd 7 – 11 yn yr ysgol sy'n byw yn yr un cyfeiriad ym mis Medi 2024. Rhaid i chi roi gwybodaeth am frawd/chwaer plentyn os ydych am i'ch cais gael ei asesu ar y sail maen prawf 7.* |
| 8. Wrth benderfynu ar geisiadau i'w derbyn o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol, fel y'i mesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel byrraf. | *Nid yw'r plentyn yn byw yn y dalgylch AC nid yw unrhyw rai o'r meini prawf uwch yn berthnasol. Bydd eich cais yn cael ei asesu yn ôl pa mor agos at yr ysgol rydych chi'n byw yn unig.* |
| 9. Pan fo gormod o geisiadau am ysgol uwchradd gymunedol, a byddai un (neu ragor) o frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael lle ond ni fyddai un (neu ragor) o'r brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog yn cael cynnig lle gan fod y Nifer Derbyn Cyhoeddedig wedi'i fodloni, bydd y Cyngor yn derbyn gweddill y brodyr a chwiorydd genedigaeth luosog. | *Os yw ysgol gymunedol wedi'i gordanysgrifio, a bod un plentyn (neu fwy) gyda brodyr neu chwiorydd o enedigaeth luosog yn gymwys i gael lle, ond nid yw'r llall (neu'r lleill) yn gymwys, yna gellir cynnig lle i'r brawd neu chwaer arall (neu eraill) o enedigaeth luosog hyd yn oed os yw dros y nifer derbyn.* |

**SYLWER** Defnyddir pellter o'r ysgol fel modd o benderfynu ar bob maen prawf os yw nifer y dewisiadau sy'n diwallu'r un meini prawf yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael.

## Nosweithiau Agored Ysgolion Uwchradd:

Anogir rhieni i ddod i nosweithiau agored unrhyw ysgol y mae diddordeb ganddynt ymgeisio am le ynddi. Gosodir y dyddiadau hyn gan ysgolion ac am ragor o fanylion neu ymholiadau, cysylltwch â phob ysgol unigol. Dim dyddiad wedi ei gadarnhau

| Ysgol | Dyddiad |
|---|---|
| Ysgol Uwchradd Cantonian | 05 Hydref 2023 |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | 26 Hydref 2023 Chweched - 9 Tachwedd 2023 |
| Ysgol Uwchradd Gorllewin Caerdydd | 12 Hydref 2023 |
| Ysgol Uwchradd Cathays | 12 Hydref 2023 |
| Ysgol Uwchradd Corpus Christi | Dim dyddiad wedi ei gadarnhau |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 05 Hydref 2023 |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Dim dyddiad wedi ei gadarnhau |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | 18 Hydref 2023 Chweched - 27 Medi 2023 |
| Ysgol Uwchradd Radur | 05 Hydref 2023 |
| Ysgol Uwchradd Teilo Sant | 12 Hydref 2023 |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd | 20 Medi 2023 |
| Ysgol Uwchradd Willows | "Tŷ agored" 23 – 26 Hydref & 16 – 17 Tachwedd |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | 28 Medi 2023 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | 10 Hydref 2023 & 01 - 02 Gorffenaf 2024 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | 23 Tachwedd 2023 |

**Gall dyddiadau newid, cysylltwch â'r ysgolion unigol o gael cadarnhad*

## Ysgolion Cynradd i Uwchradd Medi 2023

Crynodeb yn dangos dyraniad lleoedd yn Ysgolion Uwchradd Cymunedol a Gynhelir Caerdydd, fel ar 1 Mawrth 2023 yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig pan fo mwy o geisiadau na lleoedd (fel y manylir yn y Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni).

| | Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd | Pob dewis wedi'i fynegi | Ysgol wedi ei henwi yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl | Plant sy'n Derbyn Gofal |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | 240 | 535 | 0 | 4 |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | 300 | 449 | 0 | 4 |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | 300 | 337 | 0 | 5 |
| Ysgol Gyfun Radyr | 240 | 325 | 0 | 2 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | 240 | 257 | 0 | 3 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | 210 | 225 | 0 | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Cantonian | 210 | 173 |
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | 240 | 187 |
| Ysgol Uwchradd Cathays | 240 | 230 |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 300 | 284 |
| Ysgol Uwchradd Willows | 224 | 122 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | 210 | 182 |

*o fewn y dalgylch **tu allan i'r Dalgylch, â brawd/chwaer

| Yn y dalgylch a chanddynt resymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Yn y Dalgylch â brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Yn y Dalgylch | Y tu allan i'r dalgylch ond â rhesymau meddygol a chymdeithasol cymhellol | Y tu allan i'r Dalgylch gyda brawd neu chwaer hŷn yn mynychu ym mis Medi 2023 | Y tu allan i'r Dalgylch | Mesuriad cymhwyso diwethaf | Cyfanswm y lleoedd a ddyrannwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 96 | 139 | 0 | 0 | 0 | 1.192* | 240 |
| 0 | 111 | 185 | 0 | 0 | 0 | 1.582* | 300 |
| 0 | 73 | 187 | 0 | 13 | 23 | 3.208 | 301 |
| 0 | 71 | 147 | 0 | 11 | 9 | 1.106 | 240 |
| 0 | 80 | 154 | 0 | 3 | 0 | 9.700** | 240 |
| 0 | 72 | 134 | 0 | 0 | 0 | 4.848* | 210 |

| | |
|---|---|
| Mae lleoedd ar ôl o hyd yn yr ysgolion hyn felly nid oedd angen defnyddio'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. | 173 |
| | 187 |
| | 230 |
| | 284 |
| | 122 |
| | 182 |

# Symud Ysgol yn ystod y Flwyddyn



Mae'r broses Symud Ysgol ar gyfer unrhyw blentyn sydd eisoes yn mynd i ysgol sy'n
- symud i Gaerdydd o Awdurdod Lleol neu wlad arall, neu
- sy'n byw yng Nghaerdydd ac sydd am symud o un ysgol i un arall

Gallwch ofyn i newid ysgolion ar unrhyw gam o addysg eich plentyn. Gallai fod amrywiaeth o resymau dros hyn. Oni bai bod y cais yn angenrheidiol gan eich bod yn symud tŷ rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn gweithio gydag ysgol bresennol eich plentyn yn hytrach na symud i ysgol arall. **Ni ddylai unrhyw ysgol eich cynghori chi neu'ch plentyn i symud.  Rhowch wybod i ni os yw hyn yn digwydd.**

**DYLAI RHIENI YSTYRIED Y RISGIAU CYN GWNEUD CAIS I SYMUD YSGOL**

Mae nifer o risgiau ynghlwm wrth symud ysgol, gan gynnwys y canlynol:

- Tarfu ar addysg a chynnydd academaidd y plentyn
- Tarfu ar amgylchedd cymdeithasol a grwpiau ffrindiau'r plentyn
- Tarfu ar amser hamdden a gweithgareddau allgyrsiol y plentyn
- Newid trefniadau cludiant i'r ysgol
- Mae'n debygol y bydd yn rhaid newid opsiynau TGAU mewn ysgol newydd. Gallai hyn effeithio ar ennill cymwysterau yn nwy flynedd olaf yr ysgol (14-16 oed).

RHAID YSTYRIED YN OFALUS PRYD YN NEWID LLE YSGOL EICH PLENTYN.



## SYMUD I YSGOL ARALL O FEWN Y DDINAS

Mae modd datrys nifer o broblemau sydd gan rieni a phlant heb fod angen symud ysgol.

**CEISIWCH OSGOI GWNEUD CAIS I SYMUD YSGOL LLE Y BO'N BOSIBL.**

Gallai siarad â'ch plentyn a staff eich ysgol bresennol osgoi'r angen i'ch plentyn symud. Mae'n bwysig i chi ystyried ai symud yw'r dewis gorau i'ch plentyn.

**Os yw eich cais i Symud Ysgol yn sgil unrhyw un o'r rhesymau a restrir isod** dylech **gymryd y camau a nodwyd** cyn gwneud cais:

| Rheswm dros newid ysgol | Camau i'w cymryd cyn gwneud cais | Cyngor gan y Tîm Derbyn |
|---|---|---|
| Anfodlon â'r ysgol | • Trafodwch eich pryderon â'r Pennaeth Blwyddyn, Athro Dosbarth neu'r Pennaeth.<br>• Os ydych yn teimlo nad yw'r ysgol wedi ymateb yn briodol, dylech godi'r mater gyda Bwrdd y Llywodraethwyr. Dylai'r cwynion hyn gael eu cymryd o ddifri. | O'n profiad ni, nid yw symud oherwydd anfodlonrwydd â'r ysgol yn datrys y broblem. Mae'r un broblem yn codi yn aml yn yr ysgol newydd, felly dylid ceisio ei datrys cyn i chi symud. |
| Plentyn yn peidio â mynychu'r ysgol | • Trafodwch â'ch plentyn i ganfod pam nad yw'n mynd i'r ysgol.<br>• Siaradwch ag athrawon eich plentyn. A oes unrhyw bynciau y mae'n poeni amdanynt? | Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob plentyn oed ysgol gorfodol (5 i 16) gael addysg lawn-amser addas. O'n profiad ni, gall siarad â'ch plentyn a'r ysgol helpu i nodi'r broblem a'ch galluogi i gymryd camau i'w datrys. Mae rhagor o gyngor ar gael gan y Gwasanaeth Lles Addysg (Ffôn: 029 2087 3619, E-bost: atgyfeiriadauGLLA@caerdydd.gov.uk). |
| Bwlio a lles emosiynol yn yr ysgol | • Cysylltwch â'ch ysgol a gofynnwch am gopi o'i pholisïau diogelu, bwlio neu les emosiynol. Os teimlwch nad yw'r polisïau hyn wedi cael eu dilyn, dylech roi gwybod i'r ysgol.<br>• Mae cyfrifoldeb ar bob ysgol i fynd i'r afael â bwlio ac mae gan bob ysgol yr adnoddau i ddelio â'r broblem. Os teimlwch nad yw wedi gwneud hyn, cysylltwch â'r Pennaeth neu Fwrdd y Llywodraethwyr.<br>• Os yw'r bwlio'n arbennig o ddifrifol, dylech gysylltu â'r heddlu. | Mae cyfrifoldeb ar bob ysgol i ddiogelu lles corfforol ac emosiynol ei disgyblion.<br>Os nad yw hyn wedi'i wneud yn achos eich teulu chi, dylech godi'r mater â'r ysgol.<br>Gall yr ysgol:<br>• Symud y plentyn i ddosbarth arall<br>• Trafod<br>• Trefnu cyfarfodydd â theuluoedd |
| Materion nas datryswyd | • Trefnwch apwyntiad i siarad â'r Pennaeth.<br>• Os nad yw hyn yn gweithio, gallwch wneud cwyn i Fwrdd y Llywodraethwyr. Mae cyfrifoldeb ar yr ysgol a'i thîm arwain i ddatrys problemau gyda'ch plentyn. | Dylai rhieni drafod y problemau gyda'u hysgol bresennol. Ni fyddai'n briodol disgwyl i'ch plentyn symud neu 'droi dalen newydd' gan fod yr ysgol yn methu â datrys eich pryderon. |
| Osgoi gwahardd | • Siaradwch ag athro eich plentyn / Pennaeth Blwyddyn / Pennaeth.<br>• Holwch a oes gan eich plentyn Gynllun Cymorth Bugeiliol neu a yw wedi'i nodi yn ddisgybl ag Anghenion Addysgol Arbennig. Gofynnwch am adolygiad o'r Cynllun Cymorth Bugeiliol. | Os yw'r ysgol wedi codi pryderon ynghylch ymddygiad eich plentyn, ein cyngor ni yw na ddylech ei symud i ysgol arall. Ni ddylai unrhyw ysgol fod yn awgrymu hyn i'ch plentyn. Gallai hyn waethygu'r broblem. Os oes angen cymorth arnoch gyda hyn, cysylltwch â ni. |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | • Siaradwch â'r athro sy'n gyfrifol am Anghenion Ychwanegol (y Cydlynydd ADY) yn yr ysgol.<br>• Cysylltwch â'r tîm ADY LlinellGymorthADY@Caerdydd.gov.uk | Rydym yn argymell y dylai rhieni drafod â thîm cymorth bugeiliol yr ysgol. |

# GWYBODAETH BWYSIG I'W HYSTYRIED CYN CYFLWYNO CAIS

Os, ar ôl gweithio gydag ysgol bresennol eich plentyn, eich bod yn teimlo o hyd fod angen gwneud cais i newid ysgol eich plentyn, trefnwch apwyntiad gyda'ch ysgol bresennol. Yn y cyfarfod hwn, dylech drafod y canlynol:

- Y rhesymau dros symud

**Efallai bod rhesymau addysgol cryf dros beidio â symud y plentyn y mae angen i chi eu hystyried, yn arbennig disgyblion Blynyddoedd 10 ac 11.**

Os oes lle ar gael yn y grŵp oedran yn yr ysgol yr hoffech i'ch plentyn ei mynychu, bydd cais eich plentyn yn cael ei ystyried. Os yw'n bodloni meini prawf derbyn y Cyngor ar ôl gwiriadau priodol, byddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig a gofynnir i chi gysylltu â Phennaeth / Pennaeth Derbyniadau'r ysgol ynglŷn â'r dyddiad derbyn. Os nad oes lle ar gael, bydd eich plentyn yn cael ei roi ar restr aros a byddwch yn cael gwybod am ysgolion amgen â lleoedd gwag (neu byddwn yn awgrymu bod eich plentyn yn parhau yn ei ysgol bresennol). **Gweithredir rhestrau aros fesul tymor. Os dymunwch i'ch plentyn aros ar y rhestr aros rhaid i chi gyflwyno cais newydd ar ôl i'r tymor ysgol ddod i ben.**

Er mwyn penderfynu pa blant i'w derbyn i ysgol Gymunedol, mae'r Cyngor yn gweithredu'r meini prawf gordanysgrifio a restrir ar dudalennau 36-37 ar gyfer Ysgolion Cynradd a thudalennau 46-47 ar gyfer ysgolion Uwchradd.

Cyn gwneud cais i symud, ystyriwch y canlynol:

- Lle gwneir cais oherwydd newid cyfeiriad dylech sicrhau eich bod yn rhoi digon o rybudd i allu trefnu'r symud ysgol
- Nid yw'r broses symud yn gallu digwydd ar unwaith ac ni allwn sicrhau y bydd lleoedd ar gael yn eich ysgol ddewis
- Os nad yw eich plentyn yn mynychu ei ysgol bresennol, dylai swyddog presenoldeb yr ysgol gysylltu â chi
- Dylai disgyblion barhau i fynychu eu hysgol bresennol nes i leoliad ysgol arall gael ei drefnu
- Efallai y bydd angen cyflwyno prawf preswylfa


**Os ydych am i'ch plentyn fynd i Ysgol Sylfaen, Ysgol Gatholig neu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru bydd angen i chi gael ffurflen gais gan yr ysgol.** Cyrff Llywodraethu'r ysgolion hyn sy'n ystyried ceisiadau am le yn yr ysgolion. Ceir gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer pob Ysgol Gatholig, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru ar dudalennau 80-82.

Pan fo plentyn yn Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol (fel y diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989), dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol / Gofalwr Maeth hefyd gysylltu â'r Tîm Ysgol Rithwir PDG Caerdydd, Neuadd y Sir, CF10 4UW. YsgolRithwirPDG@caerdydd.gov.uk

Dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 rhaid i blant 5, 6 a 7 oed gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau nad ydynt yn fwy na 30 disgybl i bob athro ysgol. Ni fydd y Cyngor yn derbyn mwy o ddisgyblion i ysgol na nifer derbyn yr ysgol honno, nac yn mynd heibio i'r uchafswm maint dosbarth statudol o 30 lle bo hynny'n berthnasol.

Ym mhob achos bydd pennaeth yr ysgol bresennol a'r ysgol nesaf yn cael gwybod am y cais a'r rhesymau drosto. Gallai'r ceisiadau gael eu cyfeirio at Banel Mynediad Teg y Cyngor i'w hystyried.

Caiff ceisiadau sy'n dod i law mewn perthynas â disgyblion sy'n destun Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig eu hanfon at y Tîm Gwaith Achos Anghenion Dysgu Ychwanegol a fydd yn delio â nhw. Y cyfeiriad e-bost yw: LlinellGymorthADY@Caerdydd.gov.uk



OEDDECH CHI'N GWYBOD Y GALLAI ADDYSG GYMRAEG FOD YN OPSIWN I CHI?

MAE GENNYM UNED DROCHI LWYDDIANNUS IAWN SYDD WEDI CEFNOGI PLANT AT RUGLDER YN EFFEITHIOL DROS 1-2 DYMOR FEL Y GALLANT SYMUD I YSGOL GYMRAEG

# SUT MAE GWNEUD CAIS I SYMUD YSGOL

**Mae'r siart llif hwn yn dangos sut mae'ch cais yn cael ei brosesu:**

**1. Rhieni'n cwblhau cais ar-lein www.caerdydd.gov.uk/derbyniadauynystodyflwyddyn**

| Y camau a gymerwn | Camau pellach a gymerwn i brosesu eich cais | | |
|---|---|---|---|
| **2. Byddwn yn gwirio'r cais i sicrhau ei fod wedi'i lenwi'n gywir a bod yr holl wybodaeth gennym** | Os yw'r ffurflen yn anghyflawn neu'n anghywir, byddwn yn cysylltu â chi. | Os bydd angen, byddwn yn cael gwybodaeth am y disgybl gan yr ysgol flaenorol/presennol. | Os oes gennym ddiweddariad neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi. |
| **3. Byddwn yn edrych ar y cais a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn penderfynu pa Feini Prawf Derbyn sy'n berthnasol** | Byddwn yn gwirio a oes gan y plentyn ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu a yw'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal. | Byddwn yn gwneud cynnig am le yn unol â'r polisi Derbyn i Ysgolion os oes lle ar gael yn yr ysgol | Os na fydd unrhyw lefydd ar gael yn eich ysgol ddewis cewch eich rhoi ar y rhestr aros a rhoddir gwybod i chi pan fydd llefydd ar gael |
| **4. Byddwn yn cynnig lle mewn ysgol yn seiliedig ar argaeledd yn yr ysgol a'r Meini Prawf Gordanysgrifio** | Bydd yr ysgol a ddyrannwyd i chi yn adolygu eich cais | Os yw eich plentyn o'r tu allan i'r DU, bydd angen i chi ddarparu copi o Fisa'r DU a phasbort y plentyn i'r ysgol pan gaiff ei dderbyn. | Bydd yr ysgol a ddyrannwyd i chi yn trefnu cyfweliad â'r disgybl. Gwneir hyn i'w helpu i ddeall anghenion y plentyn |

**5. Bydd eich plentyn yn cael dyddiad dechrau gan yr ysgol newydd**

# Apeliadau Derbyn i Ysgolion



## CYFLWYNO APÊL

Mae'r Panel yn wirfoddolwyr annibynnol di-dâl; nid ydynt yn rhan o Gyngor Caerdydd.

**Ar ba sail y gall fy apêl fod yn llwyddiannus?**

- Nid oes seiliau penodol a fydd yn gwarantu bod eich apêl yn llwyddiannus, ond mae'n rhaid bod gennych resymau cryf iawn i apêl lwyddo. Nodwch y rhain yn eglur ar eich ffurflen apêl. Mae'r Panel yn ystyried y profion cyfreithiol a restrir ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon ac amgylchiadau unigol pob ymgeisydd. Fodd bynnag sail gyffredin dros apelio yw:
- Cyflyrau meddygol neu anableddau; bydd y Panel yn ystyried unrhyw gyflyrau meddygol a allai fod gan eich plentyn, ond bydd yn gofyn i weld llythyr gan feddyg ymgynghorol neu arbenigwr yn rhoi rhesymau manwl pam y dylai fynychu'r ysgol dan sylw. Os yw cyflwr meddygol eich plentyn yn effeithio ar ei allu i deithio i'r ysgol, mae'n bosibl y bydd yn gymwys i gael cymorth i wneud hynny; gweler y rhan berthnasol o'r wefan i wneud cais. Mae disgwyl bod gan bob ysgol weithdrefnau i gynorthwyo disgyblion â chyflyrau meddygol neu anableddau, er enghraifft cadair olwyn neu weithdrefnau i ddelio ag alergeddau difrifol.
- Anghenion Dysgu Ychwanegol; mae disgwyl i bob ysgol gynnig cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Os ydych yn credu mai dim ond yr ysgol rydych yn gwneud cais amdani all roi cymorth i'ch plentyn, dylech gyflwyno tystiolaeth sy'n cefnogi hynny gan weithiwr proffesiynol perthnasol. Mae gan bob ysgol yr hawl i gael cymorth arbenigol hefyd, a gall disgyblion mewn unrhyw ysgol ddefnyddio gwasanaethau arbenigol sydd ar gael drwy'r sir.
- Trafferthion wrth deithio; bydd y Panel yn ystyried hyn gan gofio mai cyfrifoldeb y rhiant neu'r gofalwr yw cludo eu plant i'r ysgol. O dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru (Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008), mae disgwyl bod plentyn uwchradd yn gallu cerdded hyd at 3 milltir i'r ysgol, ar lwybr cerdded diogel. Dylai plentyn cynradd fod yn gallu cerdded hyd at 2 filltir i'r ysgol ar lwybr cerdded diogel. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rhieni neu ofalwyr yw penderfynu a oes angen goruchwylio'r plentyn ar ei ffordd i'r ysgol. Os ydych wedi gwneud cais i'r ysgol yn eich dalgylch ond bod yr ysgol addas agosaf y tu hwnt i'r pellter a nodwyd, efallai y byddwch yn gymwys am drafnidiaeth ysgol am ddim; ewch i'r adran berthnasol ar y wefan i wneud cais.
- Trafferthion gofal plant; bydd y Panel yn ystyried hyn ond hefyd yn cofio mai cyfrifoldeb y rhiant neu'r gofalwr yw gofalu am eu plant, a bod nifer o ysgolion yn cynnig clybiau brecwast am ddim a chlybiau ar ôl ysgol i gefnogi rhieni. Mae gwybodaeth am y gwahanol glybiau sydd ar gael ym mhob ysgol ar wefan y Cyngor, ac mae Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor i Deuluoedd Caerdydd (tud 63) hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant ledled y ddinas.
- Safonau neu ganlyniadau rhagorol; mae'r Cyngor a Chyrff Llywodraethu Ysgolion yn ymrwymedig i godi safonau ym mhob ysgol. Er bod y Panel yn cydnabod bod rhieni'n dymuno'r addysg orau i'w plant, nid yw mynychu ysgol sy'n cael ei hystyried yn un â safonau is neu sy'n cael canlyniadau arholiadau gwael yn debygol o gael ei ystyried yn sail gyfreithiol i apêl lwyddiannus.
- Cymorth gan gyfeillion neu deulu yn yr ysgol: bydd y Panel yn ystyried anghenion unigol eich plentyn, ond mae'n bosib na fydd hyn yn ddigonol i fodloni'r prawf cyfreithiol, oni bai bod rhesymau cymhellol dros roi'r cymorth penodol i'ch plentyn yn yr ysgol dan sylw.
- Nid yw'r ysgolion eraill a gynigiwyd yn addas; er bod y Panel (yn ogystal â'r Cyngor) yn cydnabod hawl y rhiant neu ofalwr i fynegi dewis ysgol benodol, ni ellir gwarantu lle yn yr ysgol honno. Bydd y Panel yn ystyried yr ysgolion eraill sydd ar gael gan y Cyngor i'ch plentyn. Os oes gennych resymau cymhellol o ran pam nad yw'r un o'r ysgolion eraill yn addas, mae'n bosib y bydd hyn yn sail lwyddiannus i apêl. Gan fod y Cyngor fel arfer yn rhestru 4 ysgol arall, dylech ystyried a yw un ohonynt yn addas. Os nad ydynt, bydd angen i chi fod yn barod i esbonio hynny i'r Panel.
- Doniau neu allu; nid yw disgyblion yn cael eu derbyn i ysgolion cymunedol drwy ddethol ar sail doniau, na thrwy gael eu bandio. Mae disgwyl i bob ysgol allu cefnogi disgyblion o bob gallu; felly ni fydd y Panel fel arfer yn ystyried adroddiad ysgol neu gyflawniadau eich plentyn fel rheswm cymhellol, oni bai eich bod yn teimlo mai dim ond yr ysgol dan sylw sy'n cynnig darpariaeth addysgol benodol. Mae pob ysgol yn cynnig

rhaglenni arbennig neu agweddau penodol ar y cwricwlwm ar gyfer y plant mwyaf talentog a galluog ar draws ystod o bynciau, gan bod hyn yn rhan o ymrwymiadau a chyfrifoldebau'r ysgol.

**Beth sy'n digwydd yn yr apêl?**
Fel arfer bydd eich apêl yn cael ei chlywed yn breifat, ond os oes mwy nag un apêl ar gyfer yr ysgol mae'n bosib y bydd y cam cyntaf yn cael ei glywed ar ffurf grŵp gyda rhieni eraill sydd wedi apelio. Cynhelir yr apêl mewn 2 ran.

1. Yn y rhan gyntaf, bydd Cyngor Caerdydd yn esbonio pam mae wedi gwrthod eich cais a pham byddai'r ysgol yn rhy lawn petai'n derbyn rhagor o ddisgyblion. Bydd hawl gennych i ofyn i Gyngor Gaerdydd esbonio'i resymau dros wrthod. Byddwch chi a chynrychiolwyr Cyngor Caerdydd yn gadael yr ystafell tra bod y Panel yn dod i benderfyniad.

Os ar y cam hwn fod y Panel yn penderfynu nad oedd angen gwrthod lle, er enghraifft am na fyddai'r ysgol yn rhy llawn, daw'r gwrandawiad i ben a byddwch yn clywed bod yr apêl wedi bod yn llwyddiannus.

2. Os yw'r Panel yn penderfynu bod sail i wrthod oherwydd y byddai'r ysgol yn rhy lawn, bydd yr apêl yn symud i'r ail gam.

Cynhelir ail ran unrhyw apêl ar sail unigol (preifat). Bydd Cyngor Caerdydd yn esbonio pa ysgolion eraill sydd ar gael a dangos i chi pa mor bell ydyn nhw o'ch cartref. Gallwch wedyn esbonio pam dylai eich plentyn gael lle yn yr ysgol hyd yn oed os yw'n llawn. Gall Cyngor Caerdydd ofyn cwestiynau i chi a gall y Panel hefyd ofyn cwestiynau er mwyn deall yr holl amgylchiadau.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y gwrandawiad?**
Ar ôl y gwrandawiad byddwch yn cael e-bost ar ddiwedd y dydd (neu ar ddiwedd y dydd pan fydd pob apêl wedi cael ei chlywed ar gyfer apeliadau grwp) yn cadarnhau a fu eich apêl yn llwyddiannus ai peidio – yr ateb fydd 'Ie' neu 'Na'. Wedi hynny byddwch yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig yn rhoi'r rhesymau dros benderfyniad y Panel o fewn 2 wythnos er y gallai hyn fod yn hirach rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf.

Mae penderfyniad y panel apeliadau yn derfynol ac rydych chi a Chyngor Caerdydd yn rhwym wrtho. Dim ond y llysoedd all wrthdroi'r penderfyniad os ydych chi neu Gyngor Caerdydd wedi gwneud cais llwyddiannus am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad.

Os ydych yn ystyried bod camweinyddu wedi digwydd ar ran y Panel, neu fod diffyg sylfaenol yn y ffordd y gwnaeth y Panel gynnal yr achos neu ddod i benderfyniad, mae'n bosib y bydd hawl gennych gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Beth sy'n digwydd os byddaf yn newid fy meddwl am yr ysgolion eraill a gaiff eu cynnig?**
Dylech gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion ar 02920 872088 os ydych am dderbyn lle yn un o'r ysgolion eraill a gynigir ar unrhyw adeg cyn neu wedi'r gwrandawiad. Cofiwch y gall nifer y lleoedd sydd ar gael newid o ddydd i ddydd, felly mae'n bosibl y bydd y Tîm Derbyn yn rhoi gwybodaeth wahanol i chi am ysgolion eraill.

**A oes modd i mi wneud cais arall ar ôl cael fy ngwrthod?**
Gall Cyngor Caerdydd ystyried cais o'r newydd os yw eich amgylchiadau wedi newid yn sylweddol. Gallwch wneud cais arall am le mewn blwyddyn ysgol arall a bydd gennych hawl i apelio o'r newydd os na fyddwch yn llwyddiannus. Gallwch hefyd apelio ar gyfer mwy nag un ysgol yn yr un flwyddyn academaidd os caiff eich cais ei wrthod. Ni fyddai gennych hawl fel arfer i wneud ail apêl am le yn yr un ysgol yn yr un flwyddyn academaidd.

**Pwy all ymuno â mi yn yr apêl?**
Dylech fynychu'r gwrandawiad apêl gan mai dyma eich cyfle i ddweud popeth wrth y Panel ynglŷn â pham ddylai eich plentyn gael lle yn yr ysgol. Gallwch ddod â ffrind neu gynrychiolydd gyda chi i'r cyfarfod. Proses anffurfiol yw'r gwrandawiadau apêl, felly ni ddylai fod angen cynrychiolydd cyfreithiol arnoch chi, ond os ydych yn dymuno, gallwch drefnu i un fod yno. Byddai rhaid i chi dalu'r costau am ei bresenoldeb eich hun. Os ydych yn bwriadu dod â chynrychiolydd cyfreithiol gyda chi, rhaid i chi roi gwybod i ni.

Ni allwch ddod â Chynghorydd, AC, AS, ASE nac un o gyflogeion Cyngor Caerdydd (gan gynnwys unigolion sy'n cael eu cyflogi mewn ysgol). Gallwch ddod â'ch plentyn i'r gwrandawiad (ond mae'r broses yn para tua awr ac felly'n hir i blant bach). Os yw eich plentyn yn hŷn ac am siarad â'r Panel ei hun, mae modd iddo wneud hynny.

**A fydda i'n deall popeth yn ystod y gwrandawiad?**
Dylech ddweud wrthym ar y ffurflen apêl os ydych am i'r gwrandawiad fod yn Gymraeg neu os oes angen cymorth cyfieithydd ar y pryd arnoch (ar gyfer unrhyw iaith). Os felly, byddwn ni'n gwneud y trefniadau angenrheidiol yn ddi-dâl.

**Beth os nad ydw i'n gallu bod yn bresennol yn y gwrandawiad?**
Os na fedrwch fynychu a'ch bod am i'r gwrandawiad gael ei symud i ddyddiad arall, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib. Mae modd i chi hefyd anfon gwybodaeth ysgrifenedig, neu anfon rhywun i'ch cynrychioli (cadarnhewch yn ysgrifenedig fod yr awdurdod ganddo i wneud hynny). Os na fyddwch yn mynychu'r gwrandawiad bydd yn mynd yn ei flaen heboch chi ar sail y wybodaeth sydd yn eich ffurflen apêl ac unrhyw ddogfennau eraill yr anfonoch chi.

**Pa fath o apêl ydyw a beth mae hynny'n ei olygu?**
Bydd y llythyr sy'n eich gwahodd i'r gwrandawiad yn esbonio pa fath o apêl ydyw - Apêl Anfantais Maint Dosbarth Babanod neu Apêl Anfantais Arferol.

**Apêl Anfantais Maint Dosbarth Babanod**
Mae Anfantais Maint Dosbarth Babanod yn ymwneud ag apeliadau ar gyfer dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 (blynyddoedd â phlant 5, 6 a 7 oed). Y rheswm dros hyn yw bod Llywodraeth Cymru, ar gyfer y grwpiau oedran hynny, wedi cyfyngu maint y dosbarthiadau i ddim mwy na 30 o ddisgyblion. Os yw ysgol yn derbyn mwy na 30 disgybl i unrhyw un o'r dosbarthiadau hyn, rhaid iddi sicrhau ei bod yn gweithredu "mesurau perthnasol", hynny yw, camau i greu mwy nag un dosbarth, fel cyflogi athro newydd neu adeiladu dosbarth newydd.
Mae rheolau penodol ynglŷn ag Apeliadau Anfantais Maint Dosbarth Babanod a dim ond mewn ychydig iawn o achosion y mae apêl gan rieni yn llwyddo, oherwydd yn ôl y gyfraith ni ellir cael mwy na 30 disgybl mewn dosbarth o fabanod.

Y rheolau penodol yw:
- Nid oedd y trefniadau derbyn yn cydymffurfio â'r gyfraith ac oni bai am hynny, byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle;
- Roedd diffyg wrth weithredu'r trefniadau yn achos y plentyn;
- Roedd y penderfyniad i wrthod lle yn un afresymol. Mae 'afresymol' yn yr achos hwn yn golygu 'hollol ddireswm'.

Y cwestiynau y mae'n rhaid i'r Panel eu hystyried yw:

1. A oes digon o dystiolaeth i fodloni'r Panel bod y trefniadau derbyn yn gyfreithlon?
2. A yw'r nifer derbyn yn rhesymol?
3. A yw'r nifer llawn wedi'i dderbyn?
4. A fyddai'n rhaid gweithredu mesurau cymhwyso?
5. a) A yw Cyngor Caerdydd wedi gweithredu ei drefniadau derbyn yn gywir?
   b) Os nad ydyw, a fyddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe bai Cyngor Caerdydd wedi gweithredu ei drefniadau derbyn yn gywir?
6. A oedd penderfyniad Cyngor Caerdydd i wrthod lle yn un y byddai awdurdod rhesymol wedi'i wneud yn holl amgylchiadau'r achos?

**Apêl Anfantais Cyffredin**

Mae Anfantais Cyffredin yn golygu y bydd y Panel yn gwrthbwyso'r anfantais (annhegwch) i'r ysgol o dderbyn plentyn arall, a all olygu ei bod yn orlawn, yn erbyn yr anfantais i'ch plentyn o beidio cael ei dderbyn i'r Ysgol honno.

Dyma'r cwestiynau y mae'n rhaid i'r Panel eu hystyried;

1. A oes digon o dystiolaeth i fodloni'r Panel bod y trefniadau derbyn yn gyfreithlon?
2. A yw'r nifer derbyn yn rhesymol?
3. A yw'r nifer llawn wedi'i dderbyn?
4. Oes anfantais i'r ysgol wedi cael ei phrofi?
5. a) A yw Cyngor Caerdydd wedi gweithredu ei drefniadau derbyn yn gywir?
   b) Os nad ydyw, a fyddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe bai Cyngor Caerdydd wedi gweithredu ei drefniadau derbyn yn gywir?
6. A fyddai mwy o anfantais i'r plentyn pe na bai'n cael ei dderbyn nag a fyddai i'r ysgol pe bai'n cael ei dderbyn?

Mae Apeliadau Derbyn i Ysgolion yn gweithredu yn unol â Chod Apeliadau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru. Gellir dod o hyd iddo yn llawn ar wefan www.gov.wales/school-admission-appeals-code



## CANLYNIADAU APELIADAU BLAENOROL

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymwneud  chanlyniadau Gwrandawiadau Apêl Annibynnol ar Dderbyn i Ysgolion ar gyfer mis Medi 2023. Fe'ch cynghorir yn gryf i ystyried y wybodaeth hon cyn penderfynu cyflwyno ffurflen apêl ai peidio, y gellir ei lawrlwytho o www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol

### Dadansoddiad o Ganlyniadau Gwrandawiadau Apeliadau Annibynnol ar Dderbyn Blynyddol i Ysgolion ar gyfer Medi 2023 (data o Ebrill 2023 – Gorffennaf 2023)

| CYFRWNG SAESNEG YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL | CYFANSWM | Aflwyddiannus | Tynnwyd yn ôl gan y Rhiant | Ildiwyd gan y Cyngor | Dyrannwyd o'r Rhestr Aros | Llwyddiannus |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Creigiau | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Lakeside | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Millbank | 2 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Ysgol Gynradd Pontprennau | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Ysgol Gynradd Rhydypenau | 4 | 1 | 1 | 0 | 2 | 0 |
| **YSGOLION CYNRADD CYFRWNG CYMRAEG** | | | | | | |
| Ysgol Gynradd Glan Ceubal | 4 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gynradd Melin Gruffydd | 6 | 3 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Ysgol Gynradd Nant Caerau | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gynradd Pencae | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **26** | **13** | **5** | **1** | **5** | **2** |

| YSGOL UWCHRADD GYMUNEDOL | CYFANSWM | Aflwyddiannus | Tynnwyd yn ôl gan y Rhiant | Ildiwyd gan y Cyngor | Dyrannwyd o'r Rhestr Aros | Llwyddiannus |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | 47* | 39 | 1 | 0 | 2 | 2 |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | 53* | 39 | 8 | 0 | 1 | 5 |
| Ysgol Uwchradd Llanishen | 16* | 3 | 1 | 0 | 1 | 10 |
| Ysgol Uwchradd Radyr | 13* | 4 | 2 | 0 | 4 | 2 |
| Ysgol Gyfun Glantaf | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| Ysgol Gyfun Plasmawr | 9 | 5 | 0 | 0 | 1 | 3 |
| **CYFANSWM** | **144*** | **90** | **12** | **0** | **9** | **28** |

** Yn dynodi Apeliadau sydd heb gael eu clywed eto ac felly does dim canlyniad i'w nodi.*

# Gwybodaeth Arall



## CYNGOR A CHYMORTH I DEULUOEDD CAERDYDD

Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn cynnig ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghaerdydd.

Gall y tîm roi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'r y canlynol:

- Bywyd teulu
- Ymddygiad plant
- Gofal Plant
- Cymorth i rieni
- Presenoldeb yn yr ysgol
- Cyflogaeth, arian a thai
- Gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau eraill

Gellir cael gafael ar wybodaeth a chymorth drwy nifer o lwybrau:

- Ffôn: 03000 133 133
- Ffurflen at gyfeirio ar-lein
- Gwefan: www.cardifffamilies.co.uk
- Facebook: https://www.facebook.com/CFASCACID/
- Twitter: https://twitter.com/CardiffCFAS

**Y Mynegai (ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol)**

Cyflwynir gan Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd ac yn gweithio ochr yn ochr ag ystod o wasanaethau cymorth a gweithwyr proffesiynol.

Mae'r Mynegai yn ffordd wych i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gael yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael i blant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol yng Nghaerdydd.

Ceir rhagor o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru yn https://www.cardifffamilies.co.uk/cy/y-mynegai/

## CYNNIG GOFAL PLANT CYMRU

Mae'r Cynnig Gofal Plant yn darparu rhieni cymwys gyda 30 awr cyfunol o Addysg Gynnar (Dysgu Sylfaenol) a Gofal Plant i blant 3 a 4 oed am hyd at 48 wythnos am bob blwyddyn academaidd. Mae'r 48 wythnos yn cynnwys 39 wythnos o ddarpariaeth yn ystod y tymor (am 17.5 awr o gyllid gofal plant bob wythnos) a 9 wythnos o ddarpariaeth 'gwyliau' tu allan i delerau ysgol (sef 30 awr o gyllid gofal plant yr wythnos).

**39 wythnos o addysg a gofal plant cyfunol yn ystod tymor ysgol**

| | |
|---|---|
| Darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen Caerdydd (Addysg Gynnar) | 12.5 Awr |
| Cynnig Gofal Plant Caerdydd | 17.5 Awr |
| | = 30 awr yr wythnos |

**9 wythnos o ddarpariaeth 'gwyliau' tu allan i dymhorau ysgol (3 wythnos y tymor mae'r plentyn yn gymwys)**

| | |
|---|---|
| Cynnig Gofal Plant Caerdydd | 30 awr yr wythnos |

Nid oes angen i rieni fod yn cael mynediad i Ddysgu Sylfaenol i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ond bydd cyllid y Cynnig yn dal i gael ei gapio am 17.5 awr yr wythnos yn ystod y tymor.

Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol. I weld a ydych yn gymwys am gyllid, ewch i https://llyw.cymru/gofal-plant-i-blant-3-4-oed

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU YSGOL

Mae gwybodaeth am bolisi ysgol ynghylch codi tâl am weithgareddau ysgol ar gael gan Bennaeth yr Ysgol dan sylw.

## Y GWASANAETH LLES ADDYSG

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, Swyddogion Presenoldeb mewn ysgolion, disgyblion, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau priodol eraill i hyrwyddo a gorfodi presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn manteisio ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

Mae gan bob ysgol uwchradd Swyddog Presenoldeb Ysgol sydd hefyd yn gyfrifol am weithio gyda disgyblion o ysgolion cynradd ei chlwstwr. Mae'r swyddogion hyn yn gwneud gwaith gyda phlant a theuluoedd yn ystod y camau cyntaf o absenoldeb. Oni cheir gwelliant, caiff disgyblion eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Lles Addysg am gymorth ac ymyriadau arbenigol pellach. Os yn briodol, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymchwilio i gamau cyfreithiol yn erbyn rhieni sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

Os ydych yn poeni neu'n teimlo bod problem o ran presenoldeb eich plentyn, dylech siarad â Swyddog Presenoldeb yr Ysgol i ddechrau. Os na allwch wneud hyn neu os hoffech gael rhagor o gymorth, cysylltwch â:
Y Gwasanaeth Lles Addysg
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: 029 20873619
E-bostiwch ni yn atgyfeiriadauGLLA@caerdydd.gov.uk

## PRYDAU YSGOL AM DDIM

Mae Prydau Ysgol am Ddim ar gael i ddisgyblion sydd mewn Ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd sydd o oedran ysgol gorfodol y mae ei rhieni/gwarchodwyr yn derbyn un o'r Budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth (yn seiliedig ar incwm)
- Credyd Treth Plant, gydag incwm cartref o £16,190 neu lai
- Credyd Cynhwysol gydag incwm net is na £7,400 y flwyddyn neu £616.66 y mis
- Credyd Pensiwn (elfen gwarant)

Gall Ceiswyr Lloches a disgyblion heb droi at arian cyhoeddus hefyd hawlio prydau Ysgol am ddim.

Ni all plant sy'n mynd i ysgolion Annibynnol / Preifat gael Prydau Ysgol Am Ddim.

**NID** yw Credyd Treth Gwaith yn fudd-dal cymwys ac os ydych chi'n derbyn Credyd Treth Gwaith, ni fyddwch yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim hyd yn oed os ydych chi'n ei dderbyn ynghyd ag un o'r budd-daliadau uchod. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bwriedir i'r Credyd Treth Gwaith gynnwys cymorth tuag at gost prydau ysgol.

Os ydych yn bodloni'r meini prawf hwn, bydd angen cwblhau cais am Brydau Ysgol am Ddim, ar-lein drwy wefan Cyngor Caerdydd neu mae copïau papur ar gael yn swyddfeydd HYB y Cyngor ac ysgolion.

Os cwblhewch eich ffurflen gais ar-lein bydd yn mynd yn syth i adran Prydau Ysgol am Ddim i'w hasesu. Os byddwch yn cwblhau copi papur bydd angen cyflwyno hyn i'r adran drwy'r post, e-bost neu drwy fynd i HYB.

Drwy **Rhadbost** i:
BUDD-DAL TAI CYNGOR CAERDYDD, Blwch SP 6000, Caerdydd, CF11 0WZ
E-bost: PrydauYsgolAmDdim@caerdydd.gov.uk

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim o'r dyddiad y cawn eich ffurflen gais.

## DYSGWYR SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cael ei disodli gan system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY rhwng genedigaeth a 25 oed yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyflwyno'r system ADY newydd yn raddol dros gyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ym mis Medi 2021. Ceir rhagor o wybodaeth am y system ADY newydd a phrosesau ar wefan y cyngor www.cardiff.gov.uk/ALN

Mae'r system newydd yn adlewyrchu'r egwyddor y bydd addysg prif ffrwd leol er lles y plentyn gan amlaf. Os yw'r rhiant yn dymuno i'w plentyn gael ei addysgu fel arall nag mewn ysgol prif ffrwd, rhaid i'r cyngor roi sylw i'r dymuniadau hynny ond nid yw o reidrwydd yn ofynnol i sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu fel arall nag mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir.

Efallai y bydd dysgwyr ag anghenion cymhleth neu arwyddocaol angen lleoliad mwy arbenigol er enghraifft Canolfan Adnoddau Arbenigol gyda mynediad at ddosbarthiadau prif ffrwd neu Ysgol Arbennig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ystyried a chytuno ar leoliadau ysgol ar gyfer dysgwyr a nodwyd drwy eu hadolygiad blynyddol drwy ymgynghori â dysgwyr, rhieni, ysgolion, a gwasanaethau eraill. Os ydych yn teimlo y gallai fod angen lleoliad mwy arbenigol ar eich plentyn, siaradwch â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ysgol eich plentyn.



## GRANT HANFODION YSGOL (Grant Datblygu Disgyblion yn flaenorol)

Bydd y Grant Hanfodion Ysgol yn disodli'r Grant Datblygu Disgyblion o 1 Gorffennaf 2023 ar gyfer blwyddyn academaidd 2023 i 2024. Bydd y meini prawf cymhwysedd yn aros yr un fath. Bydd grantiau o £125 y disgybl neu £200 y disgybl i'r rhai sy'n dechrau blwyddyn 7 ar gael.

Mae Grant Hanfodion Ysgol ar gael i helpu teuluoedd sydd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, cit chwaraeon, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, bagiau ysgol, deunydd ysgrifennu ac ati. Sylwer nad yw offer TG yn rhan o'r grant hwn. Eleni, mae'r grant ar gael i ddisgyblion sy'n dechrau:

- Pob blwyddyn mewn ysgol gynradd a gynhelir
- Ym Mlwyddyn 7, 8, 9, 10 neu Flwyddyn 11 mewn ysgol uwchradd a gynhelir
- Yn 4 i 15 oed mewn ysgol arbennig, canolfan adnoddau anghenion arbennig neu uned atgyfeirio disgyblion

Mae'r grant ar gael hefyd i bob plentyn oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal mewn ysgol Caerdydd.

Mae gan ddisgyblion heb fynediad at gyllid cyhoeddus a cheiswyr lloches sy'n dechrau mewn unrhyw flwyddyn ysgol gynradd, Blwyddyn 7; Blwyddyn 8; Blwyddyn 9; Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ym mlwyddyn ysgol 2023 i 2024 hawl i grant.

Rhaid i'r rhiant/gwarchodwr sy'n gwneud y cais dderbyn un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth (yn seiliedig ar incwm)
- Credyd Treth Plant, gydag incwm cartref o £16,190 neu lai
- Credyd Pensiwn (elfen gwarant)
- Credyd Cynhwysol gydag enillion net aelwyd o lai na £7,400

**NID** yw Credyd Treth Gwaith yn Fudd-dal cymwys ac os ydych chi'n derbyn Credyd Treth Gwaith, ni fyddwch yn gymwys i gael Grant Hanfodion Ysgol hyd yn oed os ydych chi'n ei dderbyn ynghyd ag un o'r incymau uchod.

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf hyn, llenwch y ffurflen gais am Grant Hanfodion Ysgol ar wefan Cyngor Caerdydd neu mae ffurflenni papur ar gael yn eich HYB lleol.
Byddwn yn gwirio a ydych yn gymwys ar gyfer y tâl hwn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oherwydd amddiffyn wrth bontio yn gymwys dim ond os ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod.

## TEITHIO I'R YSGOL

Teithio llesol fel cerdded, beicio neu sgwtera ddylai fod yn ddull dewisol gennych wrth ddewis sut i gyrraedd yr ysgol. Gall teithio cynaliadwy hyrwyddo ymarfer corff, gwella dysgu disgyblion a chyfranu at amgylchedd mwy diogel. I gael gwybod mwy neu i ofyn am gyngor, ewch i https://keepingcardiffmoving.co.uk/cy/hafan/ neu e-bostiwch y tîmcynlluniauteithio@caerdydd.gov.uk

## TREFNIADAU DARPARU CLUDIANT YSGOL AM DDIM

**Pwy sydd â hawl i gael Cludiant Ysgol am Ddim?**

Mae gan rieni'r hawl i ddewis ysgol Gymraeg, Saesneg neu enwadol i'w plentyn. Rhoddir cludiant am ddim i'r ysgol addas agosaf (o fewn ffiniau Cyngor Caerdydd) cyhyd â bod y pellter rhwng y cyfeiriad cartref a'r ysgol yn fwy na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol; (2 filltir i blentyn ysgol gynradd a 3 milltir i blentyn ysgol uwchradd). **Ni ddarperir cludiant i ddisgyblion/myfyrwyr sy'n 16 oed neu'n hyn ym Mlwyddyn 12 ac uwch.**

**Pa gludiant sydd ar gael?**
Os yw eich plentyn yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim, bydd y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr fel arfer yn rhoi caniatâd iddo deithio ar gerbyd contract arbennig os oes un yn gwasanaethu'ch ardal. Mewn achosion eraill darperir tocyn bws i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.
Am fanylion talu prisiau a'r Gwasanaethau Bysus dan gontract sydd ar gael i ysgolion, ewch i Wefan y Cyngor (nodwch fod llwybrau a gwasanaethau'n amodol ar newid ym mis Awst cyn dechrau pob blwyddyn ysgol newydd).
Llwybrau bysus ysgol (caerdydd.gov.uk)

**Sut byddwch yn cael gwybod?**
Mae'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn gwirio a ydych yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol am ddim yn awtomatig. Caiff manylion y trefniadau teithio eu hanfon allan i rieni ym mis Awst. Anfonir tocynnau bws yn uniongyrchol i bob ysgol i'w dosbarthu yn ystod wythnos gyntaf Tymor yr Hydref. Yn ystod y cyfnod hwn, gall disgyblion deithio ar y bysus ysgol gan ddefnyddio'r llythyr yn cadarnhau'r trefniadau teithio.

**Beth os nad oes gan eich plentyn hawl i gael Cludiant Ysgol Am Ddim?**
Weithiau, caiff disgyblion nad ydynt yn gymwys am gludiant am ddim deithio ar fysus sydd wedi'u contractio i'r Cyngor drwy dalu ffi, ond dim ond pan fo sedd ar gael. Nid oes rhwymedigaeth ar y Cyngor i ddarparu'r cyfleuster hwn gan ei fod yn gwbl ddibynnol ar gapasiti'r cerbyd a ddefnyddir. Mae'n bosibl y bydd angen tynnu'r cyfleuster yn ôl ar fyr rybudd os bydd angen y sedd ar blentyn sy'n gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim.

I gael gwybodaeth am ddewisiadau teithio eraill ewch i Cadw Caerdydd i Symud, sy'n cynnwys dolen at Traveline Cymru i'ch helpu i gynllunio teithiau ar feic a thrafnidiaeth gyhoeddus, map Cerdded a Beicio Caerdydd a gwybodaeth am hyfforddiant beicio a lle i logi neu brynu beic.

Mae manylion llawn Polisi Cludiant Ysgolion Cyngor Caerdydd ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaethysgol

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cludiant ysgol am ddim, cysylltwch â'r:
Tîm Trafnidiaeth Teithwyr
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Caerdydd CF10 4UW
www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaethysgol
E-bost: trafnidiaethysgol@caerdydd.gov.uk (Rhowch fanylion enw llawn eich plentyn, eu dyddiad geni, eu cyfeiriad cartref a'r ysgol eu bod yn mynychu neu'n edrych i fynychu a'ch manylion cyswllt)



# DYDDIADAU TYMOR YSGOL

## BLWYDDYN ACADEMAIDD 2023/2024

| TYMOR | TYMOR YN DECHRAU | HANNER TYMOR YN DECHRAU | HANNER TYMOR YN GORFFEN | TYMOR YN GORFFEN |
|---|---|---|---|---|
| **TYMOR YR HYDREF** | Dydd Llun 4 Medi 2023 | Dydd Llun 30 Hydref 2023 | Dydd Gwener 3 Tachwedd 2023 | Dydd Gwener 22 Rhagfyr 2023 |
| **TYMOR Y GWANWYN** | Dydd Llun 8 Ionawr 2024 | Dydd Llun 12 Chwefror 2024 | Dydd Gwener 16 Chwefror 2024 | Dydd Gwener 22 Mawrth 2024 |
| **TYMOR YR HAF** | Dydd Llun 8 Ebrill 2024 | Dydd Llun 27 Mai 2024 | Dydd Gwener 31 Mai 2024 | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2024 |

**Bydd pob ysgol ar gau ddydd Llun 6 Mai 2024 ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai**

## BLWYDDYN ACADEMAIDD 2024/2025

| TYMOR | TYMOR YN DECHRAU | HANNER TYMOR YN DECHRAU | HANNER TYMOR YN GORFFEN | TYMOR YN GORFFEN |
|---|---|---|---|---|
| **TYMOR YR HYDREF** | Dydd Llun 2 Medi 2024 | Dydd Llun 28 Hydref 2024 | Dydd Gwener 1 Tachwedd 2024 | Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024 |
| **TYMOR Y GWANWYN** | Dydd Llun 6 Ionawr 2025 | Dydd Llun 24 Chwefror 2025 | Dydd Gwener 28 Chwefror 2025 | Dydd Gwener 11 Ebrill 2025 |
| **TYMOR YR HAF** | Dydd Llun 28 Ebrill 2025 | Dydd Llun 26 Mai 2025 | Dydd Gwener 30 Mai 2025 | Dydd Llun 21 Gorffennaf 2025 |

# Cyfeirlyfr Ysgolion

Mae holl ysgolion Caerdydd yn gydaddysgol ac wedi eu rhestru isod. Mae'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn disgrifio faint o ddisgyblion sy'n mynd i bob ysgol bob blwyddyn. Yn sgil deddfwriaeth yn effeithio ar faint dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen, mae maint dosbarthiadau babanod wedi ei gyfyngu i 30 disgybl neu lai.

## YSGOLION MEITHRIN CYMUNEDOL

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Feithrin Grangetown**<br>Heol Avondale, Grangetown,<br>Caerdydd, CF11 7DT<br>ysgolfeithringrangetown@caerdydd.gov.uk | 029 2034 5026 | Nicola Brinning | grangetownnur.cardiff.sch.uk | 144 |
| **Ysgol Feithrin Tremorfa**<br>Mona Place, Tremorfa,<br>Caerdydd, CF24 2TG<br>tremorfanursery@caerdydd.gov.uk | 029 2046 2685 | Samantha Jones | tremorfanursery.co.uk | 104 |
| **Canolfan Blant Trelái a Chaerau**<br>Heol Llanfihangel, Trelái,<br>Caerdydd, CF5 4SX<br>CanolfanBlantTrelaiaChaerau@caerdydd.gov.uk | 029 2067 1420 | Kathryn Leighfield | elyandcaerauchildrenscentre.co.uk | 144 |



# YSGOLION CYNRADD CYFRWNG CYMRAEG

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Bro Eirwg**<br>Heol Ridgeway, Llanrhymni,<br>Caerdydd, CF3 4AB<br>ysgolbroeirwg@caerdydd.gov.uk | 029 2077 7124 | Iwan Ellis<br>(Pennaeth Gweithredol)<br>Sarah Jones<br>(Pennaeth ysgol) | ysgolbroeirwg.cymru | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Creigiau**<br>(Ffrwd Gymraeg)<br>Llys Tregarth, Creigiau,<br>Caerdydd, CF15 9NN<br>creigiauprm@caerdydd.gov.uk | 029 2089 1045 | Delyth Kirkman | creigiauprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>32 |
| **Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof**<br>Rhodfa Beechley, Pentre-baen,<br>Caerdydd, CF5 3SG<br>ysgolcoedygof@caerdydd.gov.uk | 029 2056 4585 | Carys Prytherch | coedygof.co.uk | 4-11 oed | 60 |
| **Ysgol Glan Ceubal**<br>Heol Colwill, Gabalfa,<br>Caerdydd, CF14 2QQ<br>ysgolglanceubal@caerdydd.gov.uk | 029 2062 6650 | Aled ap Iwan<br>(Pennaeth dros dro) | ysgolglanceubal.cymru | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |
| **Ysgol Glan Morfa**<br>Heol Lewis, Sblot,<br>Caerdydd, CF24 5EB<br>ysgolglanmorfa@cardiff.gov.uk | 029 2048 3663 | Meilir Tomos | ysgolglanmorfa.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>96 |
| **Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School**<br>(Ffrwd Cymraeg)<br>Rhodfa Plasdŵr, Sain Ffagan,<br>Caerdydd, CF5 2FG | I gael ei gadarnhau | Richard Carbis | https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-groes-wen-primary-school/ | 3-7<br>(Sefydlu fesul cam) | 30 Derbyn & Bl 1<br>15 Bl. 2&3<br>48 Meithrin<br>Rhan Amser |
| **Ysgol Gwaelod y Garth**<br>(Ffrwd Cymraeg)<br>Heol Fawr, Gwaelod-y-Garth,<br>Caerdydd, CF15 9HJ<br>ysgolgwaelodygarth@caerdydd.gov.uk | 029 2081 0489 | Catrin Evans | gwaelodygarth.co.uk | 4 - 11 oed<br>Meithrin | 26<br>48 |
| **Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**<br>Heol Glan y Nant, Yr Eglwys<br>Newydd, Caerdydd, CF14 1AP<br>ysgolmelingruffydd@caerdydd.gov.uk | 029 2069 1247 | Illtud James | In the process of change | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gymraeg Nant Caerau**<br>Lôn Caerau, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5QZ<br>ysgolnantcaerau@caerdydd.gov.uk | 029 2059 9469 | Dylan Hughes | https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-gymraeg-nant-caerau | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>40 |
| **Ysgol Gymraeg Pwll Coch**<br>Rhodfa Lawrenny, Lecwydd,<br>Caerdydd, CF11 8BR<br>ysgolpwllcoch@caerdydd.gov.uk | 029 2037 3453 | Dewi Rees | ygpc.cymru | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gymraeg Treganna**<br>Heol y Sanatorium, Treganna,<br>Caerdydd, CF11 8DG<br>ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk | 029 20590830 | Rhys Harries | ysgoltreganna.cymru | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 90<br><br>96 |
| **Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad**<br>Heol Hamadryad, Butetown,<br>Caerdydd, CF10 5UY<br>ysgolhamadryad@caerdydd.gov.uk | 029 20471173 | Helen Sharkey<br>(Pennaeth dros dro) | ysgolhamadryad.cymru | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 60<br><br>96 |
| **Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes**<br>Bryn Celyn, Pentwyn,<br>Caerdydd, CF23 7EH<br>ysgolpenygroes@caerdydd.gov.uk | 029 2073 5723 | Anne Fenner | ysgolpenygroes.cymru | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 30<br><br>32 |
| **Ysgol Mynydd Bychan**<br>Heol Seland Newydd,<br>Gabalfa, Caerdydd, CF14 3BR<br>ysgolmynyddbychan@caerdydd.gov.uk | 029 2061 3417 | Sian Evans | ysgolmynyddbychan.cymru | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 30<br><br>64 |
| **Ysgol Pen y Pil**<br>(Ffederasiwn y Ddraig)<br>Heol Glan-y-Môr, Trowbridge,<br>Caerdydd, CF3 1RQ<br>ysgolpenypil@caerdydd.gov.uk | 029 2079 1255 | Iwan Ellis | ysgolpenypil.cymru | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 30<br><br>48 |
| **Ysgol Pencae**<br>Heol Pencae, Llandaf,<br>Caerdydd, CF5 2QA<br>ysgolpencae@cardiff.gov.uk | 029 2056 3851 | Siwan Dafydd | ysgolpencae.cymru | 4-11 oed | 30 |
| **Ysgol y Berllan Deg**<br>Ffordd Gylchol y Dwyrain,<br>Llanedern, Caerdydd, CF23 9LD<br>ysgolyberllandeg@caerdydd.gov.uk | 029 2073 4152 | Mari Phillips | ysgolyberllandeg.cymru | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 60<br><br>64 |
| **Ysgol y Wern**<br>Heol Llangrannog, Llanisien,<br>Caerdydd, CF14 5BL<br>ysgolywern@caerdydd.gov.uk | 029 2076 2114 | Moira Kellaway | ysgolywern.co.uk | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 90<br><br>80 |

## MODEL IAITH DDEUOL

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School**<br>(Ffrwd iaith ddeuol)<br>Rhodfa Plasdŵr, Sain Ffagan,<br>Caerdydd, CF5 2FG | I gael ei gadarnhau | Richard Carbis | https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-groes-wen-primary-school/ | 3-7<br>(Sefydlu fesul cam) | 30 Derbyn &<br>Bl 1<br>15 Bl. 2&3<br><br>48 Meithrin<br>Rhan Amser |

## YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL CYFRWNG SAESNEG

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Adamsdown**<br>System Street, Adamsdown<br>Caerdydd, CF24 0JF<br>adamsdownprm@caerdydd.gov.uk | 029 2049 3600 | Emma Thomas | adamsdownprimarycardiff.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Albany**<br>Heol Albany, Y Rhath,<br>Caerdydd, CF24 3RR<br>albanyprm@caerdydd.gov.uk | 029 2049 9520 | William John Howlett | albanyprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Allensbank**<br>Llanishen Street, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 3QE<br>allensbankprm@caerdydd.gov.uk | 029 2061 9022 | Jenny Drogan | allensbankprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>32 |
| **Ysgol Gynradd Baden Powell**<br>Heol Muirton, Tremorfa,<br>Caerdydd, CF24 2SJ<br>badenpowellprm@caerdydd.gov.uk | 029 2046 1894 | Ceri Gibbon | badenpowell-cardiff.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Llwynbedw**<br>Heol Llwynbedw, Llwynbedw<br>Caerdydd, CF14 1RR<br>birchgroveprm@caerdydd.gov.uk | 029 2062 8204 | Sarah Morgan | birchgrovecardiff.co.uk | 4-11 oed | 58 |
| **Ysgol Gynradd Bryn Celyn**<br>Bryn Celyn, Pentwyn,<br>Caerdydd, CF23 7EH<br>bryncelynprm@caerdydd.gov.uk | 029 2040 0770 | Elizabeth Berry | bryncelynprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>40 |
| **Ysgol Gynradd Bryn Deri**<br>Cae'r Graig, Radur,<br>Caerdydd, CF15 8RD<br>brynderiprm@caerdydd.gov.uk | 029 2084 3328 | Claire Davies | brynderiprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Bryn Hafod**<br>Blagdon Close, Llanrhymni,<br>Caerdydd, CF3 4HF<br>brynhafodprm@caerdydd.gov.uk | 029 2079 3402 | Rhian Lundrigan<br>(Pennaeth Gwethdredol)<br>Ceri Porter<br>(Pennaeth Ysgol) | brynhafodprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>56 |
| **Ysgol Gynradd Coed Glas**<br>Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien<br>Caerdydd, CF14 5DW<br>coedglasprm@caerdydd.gov.uk | 029 2075 4862 | Sophie Notley | coedglasprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 75<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Coryton**<br>(Ffederasiwn Pear Tree)<br>Ystad Hollybush, Yr Eglwys Newydd<br>Caerdydd, CF14 7DS<br>corytonprm@caerdydd.gov.uk | 029 2061 6792 | Gareth James | corytonprmsch.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>40 |
| **Ysgol Gynradd Creigiau**<br>(Ffrwd Saesneg)<br>Llys Tregarth, Creigiau,<br>Caerdydd, CF15 9NN<br>creigiauprm@caerdydd.gov.uk | 029 2089 1045 | Delyth Kirkman | creigiauprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 29<br>32 |

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Danescourt**<br>Rhodfa Danescourt,<br>Danescourt, Caerdydd, CF5 2SN<br>danescourtprm@caerdydd.gov.uk | 029 2055 2422 | Karen Wathan | danescourtprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd y Tyllgoed**<br>Wellwright Road, y Tyllgoed,<br>Caerdydd, CF5 3ED<br>fairwaterprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 3160 | Ceri Evans | fairwaterprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed | 40 |
| **Ysgol Gynradd Gabalfa**<br>Heol Colwill, Gabalfa,<br>Caerdydd, CF14 2QQ<br>gabalfaprm@caerdydd.gov.uk | 029 2062 4615 | Carrie Jenkins | gabalfaprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Gladstone**<br>Heol yr Eglwys Newydd,<br>Cathays, Caerdydd, CF14 3JL<br>gladstoneprm@caerdydd.gov.uk | 029 2022 9944 | Paula Shipton - Jones | gladstoneprimarycardiff.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon**<br>Browning Close, Llanrhymni,<br>Caerdydd, CF3 5NJ<br>glanyrafonprm@caerdydd.gov.uk | 029 2077 8176 | Rhian Lundrigan<br>(Pennaeth Gwethdredol)<br>Graham Matthews<br>(Pennaeth Ysgol) | glanyrafonprimary.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>60 |
| **Ysgol Gynradd Glyncoed**<br>Glyn Coed Road, Pentwyn<br>Caerdydd, CF23 7DW<br>glyncoedprm@caerdydd.gov.uk | 029 2073 3694 | Elizabeth Keys | glyncoedprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Grangetown**<br>Bromsgrove Street, Grangetown,<br>Caerdydd, CF11 7XS<br>grangetownprm@caerdydd.gov.uk | 029 2023 3379 | Sian Chase | grangetownprimary.com | 4-11 oed | 60 |
| **Ysgol Gynradd Greenway**<br>Heol Llansteffan, Tredelerch,<br>Caerdydd, CF3 3JG<br>greenwayprm@caerdydd.gov.uk | 029 2077 7048 | Nic Naish | greenwayprimary.com<br>theoaksfederationcardiff.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School** (Ffrwd cyfrwng deuol)<br>Rhodfa Plasdŵr, Sain Ffagan,<br>Caerdydd | I gael ei gadarnhau | Richard Carbis | https://sites.google.com/hwbcymru.net/ysgol-groes-wen-primary-school/ | 3-7 (Sefydlu fesul cam) | 30 Derbyn<br>15 Bl. 1&2<br>48 Rhan Amser Meithrin |
| **Ysgol Gynradd Gwaelod-Y-Garth**<br>(Ffrwd Saesneg)<br>Heol Fawr, Gwaelod-y-Garth,<br>Caerdydd, CF15 9HJ<br>ysgolgwaelodygarth@caerdydd.gov.uk | 029 2081 0489 | Catrin Evans | gwaelodygarth.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 7 |
| **Ysgol Gynradd Hawthorn**<br>Hawthorn Road East, Ystum Taf,<br>Caerdydd, CF14 2LR<br>hawthornprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 4345 | Adrian Dinsmore | hawthornpri.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>64 |

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Herbert Thompson**<br>Heol Coed Plymouth, Trelái,<br>Caerdydd, CF5 4XD<br>herbertthompsonprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 1115 | Sheena Marsh | herbertthompsonprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Howardian**<br>Ffordd Hammond, Pen-y-lan<br>Caerdydd, CF23 9NB<br>howardianprimary@caerdydd.gov.uk | 029 2049 9451 | Helen Hoyle | howardianprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Hywel Dda**<br>Cambria Road, Trelái,<br>Caerdydd, CF5 4PD<br>hywelddaprm@caerdydd.gov.uk | 029 2059 1275 | Karen Flynn | hywelddaprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Kitchener**<br>Kitchener Road, Glanyrafon,<br>Caerdydd, CF11 6HT<br>kitchenerprm@caerdydd.gov.uk | 029 2038 7505 | Reena Patel | kitchenerprimaryschool.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>96 |
| **Ysgol Gynradd Lakeside**<br>Ontario Way, Lakeside,<br>Caerdydd, CF23 6HB<br>lakesideprm@caerdydd.gov.uk | 029 2076 7050 | Rachel Mitchell | lakesideprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Lansdowne**<br>Norfolk Street, Treganna,<br>Caerdydd, CF5 1JY<br>lansdowneprm@caerdydd.gov.uk | 029 2038 3184 | Michelle Jones | lansdowneprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Llanedern**<br>Rhodfa Llanedern, Llanedern,<br>Caerdydd, CF23 9JN<br>llanedeyrnprm@caerdydd.gov.uk | 029 2073 6420 | Beverley Knuckey | llanedeyrnprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 55<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Llanisien Fach**<br>Heol Uchaf, Rhiwbeina,<br>Caerdydd, CF14 6SS<br>lanishenfachprm@caerdydd.gov.uk | 029 2062 7886 | Sarah Coombes | llanishenfach.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Llys-faen**<br>Rowan Way, Llys-faen,<br>Caerdydd, CF14 0TB<br>llysfaenprm@caerdydd.gov.uk | 029 2075 6071 | Melanie Jenkins | llysfaenprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Marlborough**<br>Blenheim Road, Y Rhath,<br>Caerdydd, CF23 5BU<br>marlboroughprm@caerdydd.gov.uk | 029 2049 2564 | Geraldine Foley | marlboroughprimary.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Meadowlane**<br>Heol Maes Eirwg, Llaneirwg<br>Caerdydd, CF3 0JZ<br>meadowlaneprm@caerdydd.gov.uk | 029 2036 0340 | Chloe Ford | meadowlaneprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 45<br>56 |

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Millbank**<br>Clarke Street, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5AL<br>millbankprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 2595 | Catherine Cooper | millbankprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Moorland**<br>Singleton Road, Sblot,<br>Caerdydd, CF24 2LJ<br>moorlandprm@caerdydd.gov.uk | 029 2046 2170 | Emma Laing | moorlandprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Mount Stuart**<br>Stryd Adelaide, Butetown,<br>Caerdydd, CF10 5BS<br>mountstuartprm@caerdydd.gov.uk | 029 2048 1188 | Helen Borley | mountstuartprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| Ysgol Gynradd Parc Ninian<br>Virgil Street, Grangetown, Caerdydd<br>CF11 8TFninianparkprm@<br>caerdydd.gov.uk | 029 2038 8991 | Jennifer Scott | ninianparkprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 90<br>96 |
| **Ysgol Gynradd Oakfield**<br>Ferntree Drive, Llaneirwg,<br>Caerdydd, CF3 0AA<br>oakfieldprm@caerdydd.gov.uk | 02920 799396 | David Harris | oakfieldprimary.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>104 |
| **Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn**<br>Dunster Road, Llanrhymni,<br>Caerdydd, CF3 5TP<br>penybrynprm@caerdydd.gov.uk | 029 2077 7618 | Ceri Bowen | penybrynprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>56 |
| **Ysgol Gynradd Pencaerau**<br>Cyntwell Avenue, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5QN<br>pencaerauprm@caerdydd.gov.uk | 029 2059 9224 | Hayley Brady | pencaerauprimaryschool.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Pentre-baen**<br>Rhodfa Beechley, Pentre-baen,<br>Caerdydd, CF5 3SG<br>pentrebanenprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 5773 | Elizabeth Prescott | pentrebaneprimaryschool.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Pentyrch**<br>Bronllwyn, Pentyrch,<br>Caerdydd, CF15 9QL<br>pentyrchprm@caerdydd.gov.uk | 029 2089 0292 | Sarah Coombes<br>(Pennaeth<br>Gweithredol) | pentyrchprimary.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>32 |
| **Ysgol Gynradd Peter Lea**<br>Carter Place, Y Tyllgoed,<br>Caerdydd, CF5 3NP<br>peterleaprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 2034 | Emma Gough | peterleaprimaryschool.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 45<br>96 |
| **Ysgol Gynradd Pontprennau**<br>Heol Pontprennau,<br>Caerdydd, CF23 8LL<br>pontprennauprimary@caerdydd.gov.uk | 029 2073 5812 | Ian James | pontprennauprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>96 |

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Radnor**<br>Radnor Road, Treganna,<br>Caerdydd, CF5 1RB<br>radnorprm@caerdydd.gov.uk | 029 2038 7506 | Ann James | radnorprimaryschool.co.uk | 4-11 oed | 45 |
| **Ysgol Gynradd Radur**<br>Heol y Parc, Radur,<br>Caerdydd, CF15 8DF<br>radyrprm@caerdydd.gov.uk | 029 2084 2228 | Claire Skidmore | radyrprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Rhiwbeina**<br>Lôn Ucha, Rhiwbeina,<br>Caerdydd, CF14 6HL<br>rhiwbeinaprm@caerdydd.gov.uk | 029 2062 3732 | Carol Harry | rhiwbeinaprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 75<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Rhydypennau**<br>Fidlas Avenue, Cyncoed,<br>Caerdydd, CF14 0NX<br>rhydypenauprm@caerdydd.gov.uk | 029 2075 7253 | Nicola Hammond | rhydypenau.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Parc y Rhath**<br>Pen-y-wain Road, Y Rhath,<br>Caerdydd, CF24 4BB<br>roathparkprm@caerdydd.gov.uk | 029 2049 9549 | Lewis Fitzgerald | roathparkprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Tredelerch**<br>Wentloog Road, Tredelerch,<br>Caerdydd, CF3 3HD<br>rumneyprm@caerdydd.gov.uk | 029 2079 1345 | Eleri Williams | rumneyprm.net | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Severn**<br>Severn Road, Treganna,<br>Caerdydd, CF11 9DZ<br>severnprm@caerdydd.gov.uk | 029 2038 7507 | Nicholas Wilson | severnprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>128 |
| **Ysgol Gynradd Springwood**<br>Pennsylvania, Llanedern,<br>Caerdydd, CF23 9LS<br>springwoodprm@caerdydd.gov.uk | 029 2073 5101 | Emma Turner | springwoodprm-cardiff.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Stacey**<br>Heol Stacey, Y Rhath,<br>Caerdydd, CF24 1DW<br>staceyprm@caerdydd.gov.uk | 029 2049 9508 | Emma Vokes | staceyprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-Graig**<br>Heol Hir, Draenen Pen-y-graig,<br>Caerdydd, CF14 9LA<br>thornhillprm@caerdydd.gov.uk | 029 2075 1302 | Paul Tucker | thornhillprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen**<br>Heol Maes y Coed, Y Mynydd<br>Bychan, Caerdydd, CF14 4HG<br>tonyrywenprm@caerdydd.gov.uk | 029 2075 4633 | Mrs A James-Griffiths | tonyrywen.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Tongwynlais**<br>(Ffederasiwn Pear Tree)<br>Heol Merthyr, Tongwynlais,<br>Caerdydd, CF15 7LF<br>tongwynlaisprm@caerdydd.gov.uk | 029 2081 0383 | Gareth James | tongwynlaisprimary.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 28<br>48 |

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Treláí**<br>Bishopston Road, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5DY<br>trelaiprm@caerdydd.gov.uk | 029 2040 2814 | Carolyn Mason | trelaiprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Trowbridge**<br>Brynbala Way, Trowbridge,<br>Caerdydd, CF3 1SX<br>trowbridgeprm@caerdydd.gov.uk | 029 2079 2361 | Nic Naish | trowbridgeprimaryschool.co.uk<br>theoaksfederationcardiff.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>32 |
| **Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd**<br>Erw Las, Yr Eglwys Newydd,<br>Caerdydd, CF14 1NL<br>whitchurchprm@caerdydd.gov.uk | 029 2062 3441 | Ann Griffin | whitchurchprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 90<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Willowbrook**<br>Sandbrook Road, Llaneirwg,<br>Caerdydd, CF3 0ST<br>willowbrookprm@caerdydd.gov.uk | 029 2079 5965 | Debra Thomas | willowbrookprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Windsor Clive**<br>Grand Avenue, Treláí,<br>Caerdydd, CF5 4HX<br>schooladmin@windsorcliveprm.cardiff | 029 2059 1240 | Kim Fisher | windsorcliveprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>80 |

## YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL CYFRWNG CYMRAEG

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern**<br>Heol Llanedern, Pen-y-lan,<br>Caerdydd, CF23 9DT<br>post@ysgolbroedern.caerdydd.sch.uk | 029 2048 9445 | Iwan Pritchard | broedern.cymru | 11 - 16 oed<br>(Chweched Dosbarth) | 180 |
| **Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**<br>Heol y Bont, Ystum Taf,<br>Caerdydd, CF14 2JL<br>YsgolGyfunGlantaf@caerdydd.gov.uk | 029 2033 3090 | Matthew Evans | glantaf.cymru | 11 - 16 oed<br>(Chweched Dosbarth) | 240 |
| **Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**<br>Heol Pentre-baen, Y Tyllgoed,<br>Caerdydd, CF5 3PZ<br>YsgolGyfunPlasmawr@caerdydd.gov.uk | 029 2040 5499 | Rhodri Thomas | ysgolplasmawr.cymru | 11 - 16 oed<br>(Chweched Dosbarth) | 210 |

# YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL CYFRWNG SAESNEG

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Cantonian**<br>Heol y Tyllgoed, Y Tyllgoed,<br>Caerdydd, CF5 3JR<br>contact@cantonian.org | 029 2041 5250 | Diane Gill<br>(Pennaeth Gweithdredol)<br>Geraint Jones<br>(Pennaeth Ysgol) | cantonian.org | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 210 |
| **Ysgol Uwchradd Caerdydd**<br>Heol Llandennis, Cyncoed,<br>Caerdydd, CF23 6WG<br>cardiffhigh@caerdydd.gov.uk | 029 2075 7741 | Stephen Jones | cardiffhigh.cardiff.sch.uk | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 240 |
| **Ysgol Uwchradd Gymunedol** Gorllewin Caerdydd<br>Heol Penally, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5XP<br>CardiffWestCHS@caerdydd.gov.uk | 02920 671444 | Mike Tate | cardiffwestchs.cardiff.sch.uk | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 240 |
| **Ysgol Uwchradd Cathays**<br>Ffordd y Goron, Gabalfa,<br>Caerdydd, CF14 3XG<br>cathayshigh@caerdydd.gov.uk | 029 2054 4400 | Stuart Davies | cathayshigh.co.uk | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 240 |
| **Ysgol Uwchradd y Dwyrain**<br>Trowbridge Road<br>Caerdydd, CF3 1XZ<br>Eastern.High@caerdydd.gov.uk | 029 2079 2751 | Jonathan Angell | easternhigh.org.uk | 11 - 16 oed | 270 |
| **Ysgol Uwchradd Fitzalan**<br>Leckwith Road, Treganna,<br>Caerdydd CF11 8AP<br>fitzalanhigh@cardiff.gov.uk | 029 2023 2850 | Cath Bradshaw | fitzalan.cardiff.sch.uk | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 300 |
| **Ysgol Uwchradd Llanisien**<br>Heol Hir, Llanisien,<br>Caerdydd, CF14 5YL<br>llanishenhigh@caerdydd.gov.uk | 029 2068 0800 | Sarah Parry | llanishenhighschool.co.uk | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 300 |
| **Ysgol Gyfun Radur**<br>Heol Isaf, Radur,<br>Caerdydd, CF15 8XG<br>radyrcs@caerdydd.gov.uk | 029 2084 5100 | Andrew Williams | radyrcs.co.uk | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 240 |
| **Ysgol Uwchradd Willows**<br>Willows Avenue, Tremorfa,<br>Caerdydd, CF24 2YE<br>willowspastoralsupport@caerdydd.gov.uk | 029 2041 4243 | Christopher Norman | willowshigh.co.uk | 11 - 16 oed | 180 |

# YSGOLION CYNRADD GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Yr Holl Seintiau**<br>Ael-Y-Bryn, Llanedern,<br>Caerdydd, CF23 9LF<br>allsaintsprm@caerdydd.gov.uk | 029 2073 5106 | Mike Camilleri | allsaintsprimarycardiff.co.uk | 4-11 oed | 30 |
| **Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Esgob Childs**<br>Willowbrook Drive, Llaneirwg,<br>Caerdydd, CF3 0AY<br>bishopchildsprm@caerdydd.gov.uk | 029 2077 0584 | Nicola Price | bishopchildsprm.co.uk | 4-7 oed | 30 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin**<br>Everest Avenue, Llanisien,<br>Caerdydd, CF14 5AS<br>christthekingprm@caerdydd.gov.uk | 029 2075 4787 | Susan Miles | christthekingcathprm.co.uk | 4-11 oed | 30 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd**<br>Rhodfa Beechley, Pentre-baen,<br>Caerdydd, CF5 3SG<br>holyfamilyprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 5354 | Louise Mills | holyfamilyprm.co.uk | 4-11 oed | 35 |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf**<br>Hendre Close, Llandaf,<br>Caerdydd, CF5 2HT<br>llandaffprm@caerdydd.gov.uk | 029 2056 5932 | Annette James-Griffiths | lccw.org.uk | 4-11 oed | 60 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban**<br>Mona Place, Tremorfa,<br>Caerdydd, CF24 2TG<br>stalbansprm@caerdydd.gov.uk | 029 2046 2915 | Rachel Woodward | stalbansprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed | 30 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Bernadette**<br>Brynheulog, Pentwyn,<br>Caerdydd, CF23 7JB<br>stbernadettesprm@caerdydd.gov.uk | 029 2073 3443 | Suzanne Williams | stbernadettesprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Cadog Sant**<br>Shaw Close, Llanrumney,<br>Cardiff, CF3 5NX<br>stcadocsprm@cardiff.gov.uk | 029 2077 8545 | Rachael Fisher | stcadocs.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 45<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert**<br>Heol Letton, Glanfa'r Iwerydd,<br>Caerdydd, CF10 4AB<br>stcuthbertsprm@caerdydd.gov.uk | 029 2046 3234 | Bernadette Brooks | stcuthberts.co.uk | 4-11 oed | 22 |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant**<br>Bryn Celyn, Pentwyn,<br>Caerdydd, CF23 7ED<br>stdavidsprm@caerdydd.gov.uk | 029 2073 4308 | Claire Cook | stdavidsprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan**<br>Drope Road, Trelái,<br>Caerdydd, CF5 4SZ<br>stfagansprm@caerdydd.gov.uk | 029 2067 0569 | Ceri Hawkins | stfaganscwprimary.com | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis**<br>Heol Wilson, Treláí,<br>Caerdydd, CF5 4JL<br>stfrancisprm@caerdydd.gov.uk | 029 2059 1666 | Marie Langsdale | stfrancisprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 55<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd**<br>Brynbala Way, Trowbridge,<br>Caerdydd, CF3 1SX CF3 1TA<br>stjohnlloydprm@caerdydd.gov.uk | 029 2077 7690 | Claire Hart | stjohnlloydrcprimaryschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 45<br>48 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff**<br>204 Heol y Gogledd, Gabalfa,<br>Caerdydd, Cf14 3BN<br>stjosephsprm@caerdydd.gov.uk | 029 2062 1625 | Alexandra Riordan | stjosephsprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>32 |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair**<br>Stryd Ogleddol yr Eglwys, Butetown,<br>Caerdydd, CF10 5HB<br>stmarythevirginprm@caerdydd.gov.uk | 029 2048 1608 | Nicki Prichard | stmarythevirginprm.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 60<br>64 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair**<br>Cilgant Wyndham, Treganna,<br>Caerdydd, CF11 9EF<br>stmarysprm@caerdydd.gov.uk | 029 2022 5680 | Claire Russell | stmarysprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 37<br>48 |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica**<br>Heol yr Eglwys Newydd, Cathays,<br>Caerdydd, CF14 3JL<br>stmonicasprm@caerdydd.gov.uk | 029 2023 3925 | Abigail Beacon | stmonicasschool.co.uk | 4-11 oed | 20 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig**<br>Lucknow Street, Grangetown,<br>Caerdydd, CF11 6NA<br>stpatricksprm@caerdydd.gov.uk | 029 2022 6237 | Sarah Marie Jones | stpatricks-primary.co.uk | 4-11 oed | 45 |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Sant Paul**<br>Oakley Place, Grangetown,<br>Caerdydd, CF11 7EU<br>stpaulsprm@caerdydd.gov.uk | 029 2023 5854 | Ruth Wiltshire | stpaulscwprimary.cymru/ | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>24 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr**<br>Southey Street, Y Rhath,<br>Caerdydd, CF24 3SP<br>stpetersprm@caerdydd.gov.uk | 029 2049 7847 | Gareth Rein | stpetersrcschool.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 75<br>80 |
| **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans**<br>Coed-y-Gores, Llanedern,<br>Caerdydd, CF23 9NX<br>stphilipevansrcprm@caerdydd.gov.uk | 029 2073 2514 | Catherine Power | stphilipevansprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 52<br>64 |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville**<br>Heol Glossop, Adamsdown,<br>Caerdydd, CF24 0JT<br>tredegarvilleprm@caerdydd.gov.uk | 029 2048 3680 | Victoria Scale-Constantinou | tredegarvilleprimary.co.uk | 4-11 oed<br>Meithrin | 30<br>48 |

## YSGOLION CYNRADD GWIRFODDOL A REOLIR

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg**<br>Bridge Road, Old St Mellons,<br>Caerdydd CF3 6UY<br>stmellonsprm@caerdydd.gov.uk | 029 2079 4195 | Jane Marchesii | stmellonsprm.cardiff.sch.uk | 4-11 oed<br><br>Meithrin | 30<br><br>32 |

## YSGOLION UWCHRADD GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi**<br>Ty-Draw Road, Pontprennau,<br>Caerdydd, CF23 6XL<br>office@corpus-christi.org.uk | 029 2076 1893 | Patrick Brunnock | corpuschristihs.co.uk | 11- 16 oed | 215 |
| **Ysgol Uwchradd Y Fair Ddihalog**<br>Lôn Caerau, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5QZ<br>MaryImmaculatehs@caerdydd.gov.uk | 029 2059 3465 | Huw Powell | maryimmaculate.org.uk | 11 - 16 oed | 159 |
| **Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant**<br>Heol Casnewydd, Tredelerch,<br>Caerdydd, CF3 3XQ<br>stilltydshigh@caerdydd.gov.uk | 029 2077 8174 | David Thomas | stilltyds.org.uk | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 176 |
| **Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant**<br>Ffordd Gylchol y Dwyrain, Llanedern,<br>Caerdydd, CF23 9PD<br>stteiloshighschool@caerdydd.gov.uk | 029 2054 7180 | Ian Loynd | stteilos.com | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 240 |
| **Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf**<br>Rookwood Close, Llandaf,<br>Cardydd, CF5 2NR<br>bishopofllandaffhigh@cardiff.gov.uk | 029 2056 2485 | Marc Belli<br>(Executive Head)<br>Sarah Parry<br>(Deputy Head) | bishopofllandaff.org | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 180 |

## YSGOLION SEFYDLEDIG

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Nifer Derbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Isaf Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd**<br>Glan-Y-Nant Terrace, Yr Eglwys Newydd,<br>Caerdydd, CF14 1WL<br>Whitchurch.HighSchool@caerdydd.gov.uk | 029 2062 9700 | Nick John | whitchurchhs.wales | 11 - 16 oed<br><br>(Chweched Dosbarth) | 390 |

## ADDYSG DRYDYDDOL

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran |
|---|---|---|---|---|
| **Coleg Caerdydd a'r Fro**<br>studentservices@cavc.ac.uk | 029 2025 0250 | K Martin | cavc.ac.uk | 16 - 19 oed |
| **Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant**<br>Ty Gwyn Road, Pen-y-lan,<br>Caerdydd, CF23 5QD<br>enquiries@stdavidscollege.ac.uk | 029 2049 8555 | M Leighfield | stdavidscollege.ac.uk | 16 - 19 oed |



## YSGOLION ARBENNIG – Caiff derbyniadau eu rheoli gan Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Llefydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Greenhill**<br>Heol Brynglas, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6UJ<br>greenhillsp@caerdydd.gov.uk<br>*Dysgwyr sy'n agored i niwed ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac anghenion lles. Mae gan rai o'r disgyblion anghenion cysylltiedig megis cyflyrau iaith a lleferydd neu atal, oedi o ran datblygiad llythrennedd a rhifedd.* | 029 2069 3786 | Shane Mock | greenhillschool.cymru | 11 - 19 oed | 70 |
| **Ysgol Meadowbank**<br>Heol Colwill, Gabalfa, Caerdydd, CF14 2QQ<br>meadowbankschool@caerdydd.gov.uk<br>*Disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion dysgu cymhleth gan gynnwys Cyflyrau ar y Sbectrwm Awtistig / oedi o ran cyfathrebu cymdeithasol, Anhwylder Datblygu Iaith, anghenion meddygol a synhwyraidd. Disgyblion sydd â chyflyrau datblygu iaith penodol a difrifol, neu sydd ag oedi sylweddol o ran dysgu. Mae gan nifer o ddisgyblion anghenion cymhleth cysylltiedig hefyd megis oedi o ran cyfathrebu cymdeithasol a chyflyrau'r sbectrwm awtistig; anghenion meddygol neu synhwyraidd* | 029 2061 6018 | Claire Hardy | meadowbanksp.co.uk | 4-11 oed | 76 rising to 98 |
| **Ysgol Riverbank**<br>Vincent Road, Caerau, Caerdydd, CF5 5AQ<br>riverbanksp@caerdydd.gov.uk<br>*Disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol. Mae gan lawer o'r disgyblion anghenion cysylltiedig megis oedi o ran datblygiad iaith a chyfathrebu; anghenion meddygol neu synhwyraidd neu ddiagnosis o Gyflwr ar y Sbectrwm Awtistig.* | 029 2056 3860 | Wayne Murphy ( Pennaeth Gweithdredol )<br><br>Annie Lucas ( Pennaeth Ysgol ) | riverbankspecialsch.co.uk | 4-11 oed | 82 |
| **Ysgol y Court**<br>Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UX<br>thecourtsp@cardiff.gov.uk<br>*Vulnerable learners with significant social, emotional, and behavioral needs. Many pupils also have related needs such as speech and language disorders or delays; delayed literacy and numeracy.* | 029 2075 2713 | Jamyn Beesley | thecourtschool.co.uk | 5-11 oed | 42 |
| **The Hollies School**<br>Heol yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UX<br>thecourtsp@caerdydd.gov.uk<br>*Dysgwyr sy'n agored i niwed ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol. Mae gan lawer o'r disgyblion anghenion cysylltiedig megis cyflyrau iaith a lleferydd neu atal, oedi o ran datblygiad llythrennedd a rhifedd.* | 029 2073 4411 | Lisa Marshall | thehollieschool.com | 4-11 oed | 132 |

## YSGOLION ARBENNIG

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Llefydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Tŷ Gwyn**<br>Vincent Road, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5AQ<br>tygwynsp@caerdydd.gov.uk<br>*Disgyblion ag anghenion dysgu dwys a lluosog; mwy nag un maes o angen sylweddol, oedi dysgu sylweddol, anhawster cyfathrebu, angen lefel uchel o gymorth gyda'r rhan fwyaf o agweddau ar fywyd beunyddiol, efallai ag anghenion synhwyraidd neu gorfforol ychwanegol, neu anghenion iechyd cymhleth neu gyflwr ar y sbectrwm awtistig.* | 029 2083 8560 | Jamie Brotherton | tygwynschool.com | 3-19 oed | 242 |
| **Ysgol Uwchradd Woodlands**<br>Vincent Road, Caerau,<br>Caerdydd, CF5 5AQ<br>WoodlandsHighSchool@Caerdydd.gov.uk<br>*Disgyblion ag oedi sylweddol o ran dysgu Mae gan lawer o'r disgyblion anghenion cysylltiedig megis oedi o ran datblygiad iaith a chyfathrebu; anghenion meddygol neu synhwyraidd.* | 029 2056 1279 | Sian Thomas | woodlandshs.co.uk | 11-19 oed | 180 |

## UNED CYFEIRIO DISGYBLION

| YSGOL | Rhif ffôn: | Pennaeth | Gwefan | Ystod Oedran | Llefydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bryn y Deryn a Chanolfan Carnegie**<br>Cefn Road, Mynachdy,<br>Caerdydd, CF14 2HS<br>brynyderyn@caerdydd.gov.uk | 029 2052 9398 | Fiona Simpson | brynyderynpru.co.uk | 14-17 oed | 90 |

# Polisïau Derbyn



# POLISÏAU DERBYN - YSGOLION FFYDD

## YSGOLION CYNRADD

### Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint

**Polisi Derbyn 2023/24**

**Polisi Derbyn**
Diolch i chi am gofrestru diddordeb yn eich plentyn yn ymuno ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau ym mis Medi 2024.
Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gyhoeddi ei drefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau ("yr Ysgol"). Nifer Derbyn Safonol yr Ysgol yw 30 disgybl ym mhob blwyddyn.
I'r rhieni hynny sydd ddim yn adnabod ein hysgol, mae croeso mawr i chi ymweld â'r ysgol cyn gwneud cais. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol ar 029 20735 106 neu e-bostiwch allsaintsprm@caerdydd.gov.uk os hoffech drefnu ymweliad.

**POLISI A CHANLLAWIAU DERBYN AR GYFER 2023/24**
Ysgol ddydd gyd-addysgol wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint ac un o'i nodau pennaf yw darparu addysg Gristnogol yn unol â dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru. Dyfernir lleoliadau yn yr ysgol yn ôl disgresiwn y Corff Llywodraethu sy'n adolygu ei bolisi derbyn yn flynyddol.
Y nifer derbyn arfaethedig yw nifer y disgyblion y bydd y Corff Llywodraethu yn eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Y nifer mynediad arfaethedig ar gyfer yr ysgol hon yw 30.
Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn nhymor yr Hydref yn y flwyddyn pan fyddant yn troi'n bump oed. (Mae'r flwyddyn academaidd yn cychwyn ar 1 Medi ac yn dod i ben ar 31 Awst.)
Rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn y Dosbarth Derbyn yn yr ysgol fynegi eu bod awydd cael lle yn yr ysgol drwy borth derbyniadau i ysgolion y cyngor yn www.caerdydd.gov.uk erbyn y dyddiad cau a osodir gan yr Awdurdod Lleol.
Bydd yr ysgol yn gofyn am gymorth gan offeiriaid plwyf a gweinidogion a bydd panel derbyn y Corff Llywodraethu yn cwrdd os oes mwy o geisiadau na llefydd ar gael.
Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig sef Dydd Llun 15 Ebrill 2024, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.
Mae gan rieni y bu eu cais i'r Dosbarth Derbyn yn aflwyddiannus yr hawl i apelio. Er mwyn arfer yr hawl honno, rhaid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn hysbysiad o gais aflwyddiannus. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Mynwy, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Nid oes gweithdrefn apelio ar gyfer ceisiadau Meithrin gan nad yw addysg feithrin yn statudol.

Ar ôl dyrannu lleoedd, caiff plant y bu eu cais yn aflwyddiannus eu rhoi ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent yn gwneud cais. Ar ôl hynny dylai'r rhieni wneud cais newydd am le yn uniongyrchol i'r ysgol. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros ar waith rhaid eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig.
Mae'n rhaid i restrau aros beidio â rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd eu cais at y rhestr. Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i'r rownd dderbyn arferol ac mae ganddo flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio, rhaid ei osod uwchlaw y rhai sydd â blaenoriaeth is ac sydd eisoes ar y rhestr. Gall rhieni sydd am drafod safle ar y rhestr aros ffonio'r ysgol.

Caiff ceisiadau am le mewn unrhyw grwp blwyddyn, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn (e.e. teuluoedd sydd wedi symud i'r ardal) eu hystyried o ran nifer y lleoedd sydd ar gael a'u rhoi ar y rhestr aros fel sy'n briodol. Mae gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd i flaenoriaethu derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal neu Blant a Arferai Dderbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol neu sydd yn derbyn llety ganddynt (e.e., plant â rhieni maeth) (Adran 22 Deddf Plant 1989). Bydd blaenoriaeth hefyd yn cael ei roi i blant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu nodyn yn lle hynny lle mae'r ysgol wedi'i henwi, gan gynnwys Plant gyda chyllid Blynyddoedd Cynnar uwch gan y Panel Cynghori ar Achosion ar ddyddiad gwneud y cais. Mae'n bosibl y bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau gan blant sydd â chyflwr meddygol sylweddol y gellir ei gefnogi gan dystiolaeth ddogfennol gan Ymgynghorydd Meddygol neu Weithiwr Cymdeithasol.
Bydd yr holl blant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu'r ysgol hon yn gallu gwneud hynny cyn belled nad yw'r nifer sy'n ceisio am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael.

Pan fo mwy o geisiadau na nifer derbyn safonol yr ysgol, penderfynir ar y ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol. Bydd lleoedd yn cael eu cynnig i rai yng Nghategori 1, unrhyw lefydd sy'n weddill i'r rhai yng Nghategori 2, yna Categori 3, 4, 5, 6, 7 ac yna'n olaf i unrhyw ymgeiswyr eraill yng Nghategori 8.

Pan na fydd y Pwyllgor Derbyn yn gallu cynnig lle i bob plentyn o fewn unrhyw gategori oherwydd y byddai gwneud hynny'n mynd uwch law'r nifer derbyn, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r ymgeiswyr hynny sy'n dod i unrhyw un o'r categorïau a restrir yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- Byddai plant sydd â brawd neu chwaer (gan gynnwys llys-frawd/llys-chwaer yn byw yn yr un tŷ) yn mynychu'r ysgol ar yr adeg honno, yn cael eu derbyn pe byddai eu cais yn llwyddiannus, wedi eu dilyn gan
- Y rheini sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesurir agosrwydd drwy gyfrifo'r pellter cerdded byrraf o god post yr ysgol i god post y cartref fel y'i mesurir gan RAC Route Planner (Walking). Bydd y Pwyllgor Derbyn yn defnyddio prif god post yr ysgol CF23 9LF. At ddibenion yr ymarfer hwn, y 'cyfeiriad cartref' i blant nad yw eu rhieni'n byw yn yr un cyfeiriad yw'r cyfeiriad lle bydd y plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. o leiaf 3 noson, Sul - Iau) yn ystod y tymor.

Bydd ceisiadau ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn, ar unrhyw adeg yn y flwyddyn, yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Derbyn yn unol â Pholisi a Meini Prawf Gordanysgrifio'r Ysgol.

**Meini Prawf Gordanysgrifio Ysgolion**

1. Rhaid i blant sy'n "derbyn gofal" gan awdurdod lleol, a/neu sydd â datganiad a roddwyd gan yr awdurdod lleol, gael eu derbyn i'r ysgol.
2. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid, yn Anglicaniaid sy'n addoli gyda'r Eglwys yng Nghymru sy'n byw o fewn ardal weinidogaeth Dwyrain Caerdydd ac sydd wedi bod yn mynychu'r eglwys yn wythnosol,

Polisïau Derbyn

neu bob pythefnos, am o leiaf ddwy flynedd.

3. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad(aid), yn Anglicaniaid yr Eglwys yng Nghymru mewn gair a gweithred sy'n byw o fewn ardal Esgobaeth Mynwy neu Landaf, ac yn mynychu'r eglwys yn wythnosol, neu bob pythefnos am o leiaf ddwy flynedd.
4. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad(aid), yn mynychu Eglwysi yn wythnosol neu bob pythefnos, sy'n aelodau o Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) (Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon [CTBI] os wedi symud i Gymru yn ddiweddar) neu Y Gynghrair Efengylaidd neu blant sy'n mynychu eglwysi sy'n aelodau o Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) (Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon [CTBI] os wedi symud i Gymru yn ddiweddar) neu Y Gynghrair Efengylaidd ar eu pennau eu hunain neu yng nghwmni addolwyr gweithredol eraill ac wedi gwneud hynny am o leiaf ddwy flynedd cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Mae hyn yn cynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru; yr Eglwys Gristnogol Tsieineaidd; Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Undeb Bedyddwyr Cymru; yr Eglwys Fethodistaidd; yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig; Eglwysi Bedyddiol Cyfamodedig; Byddin yr Iachawdwriaeth; yr Eglwys Gatholig; Ffederasiwn yr Eglwysi Annibynnol; Cymdeithas y Crynwyr a'r Eglwys Uniongred. Rhaid i eglwysi fod yn aelodau o Cytûn neu'r Gynghrair Efengylaidd ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r Ysgol, a mynychu'r eglwys yn wythnosol, neu bob pythefnos am o leiaf ddwy flynedd
5. Plant y bydd ganddynt frawd neu chwaer (gan gynnwys llys-frawd/llys-chwaer yn byw yn yr un tŷ) yn mynychu'r ysgol ar yr adeg y byddent yn cael eu derbyn, pe byddai eu cais yn llwyddiannus.
6. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid, yn mynychu bob wythnos/pythefnos unrhyw enwad Cristnogol, neu unrhyw Ffydd Byd-eang arall, nad ydynt yn rhan o gategorïau 1 i 4 uchod a lle mae'r enwad mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru ac y gall cynrychiolydd o'r sefydliad ffydd hwnnw gadarnhau eu cyfraniad hirdymor, ac y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.
7. Plant sy'n byw gyda rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid o fewn ardal weinidogaeth Dwyrain Caerdydd
8. Plant y mae eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid yn gwneud cais iddynt gael eu derbyn am resymau eraill.

Ar yr amod bo'r Corff Llywodraethu bob amser yn cadw'r hawl i wyro oddi wrth y meini prawf hyn os oes ganddo dystiolaeth gref y bydd lles plentyn yn cael ei beryglu'n ddifrifol os na chaiff ei dderbyn i'r ysgol. Wrth ystyried ceisiadau gan riant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid plant sy'n gwneud cais am le ar sail anghenion cymdeithasol neu feddygol, gall yr ysgol ymgynghori â'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, y Pennaeth a'r Awdurdod Lleol fel y bo'n briodol.

Penderfynir ar feini prawf categorïau 2, 3, 4 a 6 dim ond wrth ystyried yr argymhelliad wedi ei lofnodi gan beriglor neu offeiriad cyfrifol yr eglwys dan sylw.

Bydd cynigion cadarn o leoedd ar gyfer derbyniadau Medi 2024 yn cael eu hanfon at rieni erbyn 15 Ebrill 2024. Dylech anfon unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad yr Ysgol i dderbyn plentyn at Glerc y Llywodraethwyr d/o yr ysgol o fewn 15 diwrnod o ddyddiad y llythyr gwrthod. Caiff yna ei ystyried gan Bwyllgor Apêl Annibynnol.

**Cymhwysedd y polisi hwn:**

Bydd fersiynau newydd o'r polisi derbyn a gordanysgrifio hwn yn dod i rym o 1 Medi 2024 (dechrau'r flwyddyn academaidd newydd) ar ôl i'r Corff Llywodraethu llawn ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Mae hyn er mwyn sicrhau bod rhieni plant sy'n cael eu derbyn yn cael digon o rybudd o'r polisi gordanysgrifio wrth ddewis ysgol.

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Esgob Childs

**Polisi Derbyn 2023-2024**

**Polisi a Gweithdrefnau Derbyn**

Rydym yn croesawu ceisiadau gan deuluoedd Cristnogol,
rhai o grefyddau eraill a dim crefydd
Nid oes angen bod yn un o drigolion Caerdydd i wneud cais drwy Borth Derbyn Ysgolion Cyngor Caerdydd

**Deddfwriaeth**

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau statudol canlynol: Deddf Safonau a Fframweithiau Ysgolion 1998; y Cod Derbyn Ysgolion a Chod Apeliadau Derbyn Ysgolion.

**Capasiti**

Capasiti'r ysgol yw nifer y lleoedd disgyblion sydd ganddi. Mae'r nifer yn cael ei gytuno gyda'r Awdurdod Lleol ac yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio Canllawiau Llywodraeth Cymru - 'Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru'. Y capasiti presennol yw 210.

**Cofrestr yr Ysgol**

Nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol mewn gwirionedd yw 217.

**Nifer Derbyn**

Y Nifer Derbyn (ND) yw'r nifer uchaf o blant mewn grŵp oedran perthnasol y gellir eu derbyn e.e. y Dosbarth Derbyn, os derbynnir digon o geisiadau. Ni wrthodir lle i ddisgyblion hyd nes cyrhaeddir y ND. Bryd hynny bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio a chaiff lleoedd eu dyrannu yn unol â hynny.Yn achos y dosbarth derbyn yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Esgob Childs, 30 yw'r nifer hwn.

Dirprwyir y cyfrifoldeb am drefniadau derbyn i is-bwyllgor o gorff llywodraethol yr ysgol, sef y 'pwyllgor derbyn'. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i gydlynu'r dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau ac anfon llythyrau cynnig ar draws ardal yr awdurdod lleol.

**Y Broses gwneud Cais a'r Amserlen**

Mae'r ysgol yn dilyn amserlen Cyngor Caerdydd ar gyfer grŵp oedran y Dosbarth Derbyn, fel yr amlinellir isod (ar gyfer derbyniadau Medi 2024):

**29 Ionawr 2024 – Dydd Llun 26 Chwefror 2024**

Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn y Flwyddyn Dderbyn yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Esgob Childs fynegi ffafriaeth o blaid lle yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk. Rhaid i rieni hefyd gwblhau ffurflen gais atodol yr ysgol sydd i'w gweld yn www.bishopchildsprm.co.uk/admissions

**Bydd ceisiadau'n cau ar 26 Chwefror 2024.**
Bydd pob cais sydd wedi dod i law hyd at y dyddiad cau ac ar y dyddiad hwnnw yn cael ei ystyried gyda'i gilydd.

### Mawrth 2024
Mae'r ysgol yn rhestru pob ymgeisydd yn nhrefn blaenoriaeth. Cyflwynir y rhestr hon i Gyngor Caerdydd i'w gosod ar y Gronfa Ddata Dderbyn Ganolog.
Bydd y Gronfa Ddata Dderbyn Ganolog yn dyrannu'r lle ysgol uchaf a ffefrir y mae plentyn yn gymwys i gael ei dderbyn iddo.

### Dydd Mawrth 16 Ebrill 2024
Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig sef dydd Mawrth 16 Ebrill 2024, heblaw bod yr ymgeisydd wedi cael cynnig un o'u dewisiadau uwch drwy'r broses Dderbyniadau Cydlynol. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod am eu hawl i apelio.

### Dydd Mawrth 30 Ebrill 2024
Y dyddiad cau i rieni ymateb i'r cyngor, un ai yn derbyn cynnig lle mewn ysgol neu'n ei wrthod.
Dim ond ceisiadau a dderbynnir wedi'r dyddiad cau fydd yn cael eu hystyried ar ôl i bob un sydd wedi dod i law erbyn y dyddiad cau gael eu hystyried. Mae hyn yn golygu os nad oes unrhyw leoedd yn weddill ar ôl ystyried yr holl achosion cyn y dyddiad cau, hyd yn oed os byddwch yn bodloni meini prawf uwch na'r rhai y cynigiwyd lleoedd i ymgeiswyr eraill, byddwch yn aflwyddiannus.

Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle.
Yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Esgob Childs, caiff disgyblion eu derbyn i'r Flwyddyn Dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (1 Medi - 31 Awst) pan fyddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed.

### Dyrannu lleoedd
Mae gwneud cais drwy'r Ffurflen Gais Gyffredin yn golygu bod y Cyngor yn gwybod beth yw trefn dewisiadau'r rhieni. Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan y Cyngor yn ôl y drefn ddewis hon. Dim ond un lle ysgol fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer pob plentyn.

### Derbyn y tu allan i'r rownd arferol
Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau ar gyfer y Dosbarth Derbyn ar unrhyw adeg y tu allan i'r rownd arferol ar ffurflen gais yr ysgol, sydd ar gael ar wefan yr ysgol:
www.bishopchildsprm.co.uk/admissions
Dylid anfon y ffurflen hon yn uniongyrchol i'r ysgol. Cynigir lleoedd os bydd digon o le ar gael yn y dosbarth perthnasol.

### Meini Prawf Gordanysgrifio
Os bydd nifer y ceisiadau a dderbynnir hyd at ac yn cynnwys y dyddiad cau yn gyfartal neu'n llai na'r nifer derbyn, bydd y plant i gyd yn cael cynnig lle yn y dosbarth Derbyn.
Os bydd nifer y ceisiadau yn uwch na'r nifer derbyn, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio canlynol:

**Bydd plant sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi Ysgol Gynradd WG yr Eglwys Yng Nghymru Esgob Childs yn cael eu derbyn yn awtomatig cyn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio.**

1. Plant sy'n derbyn gofal neu a arferai dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol (gweler Nodyn 2 am y diffiniad).
2. Plant sydd â brawd neu chwaer sydd yn ddisgybl yn yr ysgol adeg gwneud cais ac a fydd yn ddisgybl yn yr ysgol ar yr adeg derbyn (gweler Nodyn 3 am ddiffiniad).
3. Plant sy'n mynychu addoliad/ysgol Sul yn rheolaidd (neu'r gyfatebol) yn Eglwys Plwyf Llaneirwg neu eglwys Anglicanaidd arall (gweler Nodyn 4 am ddiffiniad).
4. Plant sy'n mynychu addoliad/ysgol Sul yn rheolaidd mewn eglwys o unrhyw enwad Cristnogol arall (gweler Nodyn 4 am ddiffiniad).
5. Plant o ffydd arall sy'n cymryd rhan mewn addoliad yn rheolaidd (gweler Nodyn 4 am ddiffiniad).
6. Plant sy'n byw o fewn ardal leol yr ysgol (gweler Nodyn 5 am ddiffiniad).

### Genedigaethau Lluosog (e.e. Gefeilliaid neu Dripledi)
Caiff plant genedigaeth luosog flaenoriaeth dros unrhyw blant eraill ym meini prawf gordanysgrifio 2 i 6 uchod.

### Maen Prawf Pellter/Torri'r Ddadl
Lle bo angen penderfynu rhwng dau blentyn sy'n bodloni'r un meini prawf, defnyddir pellter cartref y plentyn, yn ôl y llwybr cerdded diogelaf o ddrws blaen y cartref i brif gât yr ysgol, gyda'r rheini sydd agosaf at yr ysgol yn cael y flaenoriaeth uchaf. Os bydd angen hynny y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r pellter fydd Google Maps.

### Rhestrau Aros
Caiff plant na chynigir lle iddynt eu rhoi ar restr aros. Mae trefn y flaenoriaeth ar y rhestr aros yr un fath ag ar gyfer y rhestr meini prawf gordanysgrifio. Ni roddir ystyriaeth i ba mor hir y bu plentyn ar restr aros. Cedwir y rhestr aros tan 30 Medi bob blwyddyn. Ar ôl y dyddiad hwn, dylai rhieni wneud cais arall i'w plentyn fynychu'r ysgol.

### Nodiadau Esboniadol
**Nodyn 1:** Mae rhiant yn unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu sy'n warchodwr cyfreithiol dros y plentyn. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r ysgol am gyngor.
**Nodyn 2:** Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddisgrifydd a roddir ar unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989, y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal ar adeg ei dderbyn i'r ysgol.
**Nodyn 3:** Mae brawd neu chwaer yn cyfeirio at frawd neu chwaer, hanner brawd neu hanner chwaer, brawd neu chwaer sydd wedi ei fabwysiadu, llys-frawd neu lys-chwaer, plentyn maeth, neu blentyn partner y rhiant/gofalwr y plentyn y gofynnir am le yn yr ysgol ar ei gyfer.
**Nodyn 4:** Mae presenoldeb/cymryd rhan rheolaidd mewn addoliad/ysgol Sul yn cael ei ddiffinio fel unwaith y mis ar gyfartaledd dros y cyfnod blaenorol o 12 mis. Rhaid rhoi tystiolaeth o hyn mewn datganiad ysgrifenedig a lofnodir gan yr offeiriad/gweinidog/parchedig/arweinydd ffydd perthnasol.
**Nodyn 5:** Y cyfeiriad cartref yw'r lle y mae'r plentyn yn treulio mwyafrif ei wythnos ysgol (o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, gan gynnwys nosweithiau), adeg gwneud y cais am le yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i wirio dilysrwydd unrhyw gyfeiriad a roddwyd, drwy ofyn am dystiolaeth megis cynhwysiant ar y gofrestr etholiadol, neu fil cyfleustodau diweddar yn cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad.

- Lle nad yw cyfeiriad parhaol plentyn yr un peth ag un y rhieni (e.e. os yw'n byw gyda'i fam-gu a'i dad-cu), ceidw'r ysgol yr hawl i weld dogfennaeth swyddogol, fel llyfr budd-daliadau neu gerdyn meddygol y plentyn.
- Nid yw trefniadau gofal plant yn ddigon o reswm i restru cyfeiriad arall.
- Os ydych yn symud i'r dalgylch byddwn yn gofyn am dystiolaeth o hynny cyn ystyried unrhyw gais am le. Tystiolaeth nodweddiadol yw llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau eich bod wedi cyfnewid contractau i brynu'r ty, neu gytundeb prydles ffurfiol.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol:**

Y Pennaeth
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Esgob Childs
Rhodfa Nant Helyg
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0AY
Rhif Ffôn: 02920 770584
E-bost: bishopchildsprm@cardiff.gov.uk

## Ysgol Gynradd Crist y Brenin

### Polisi Derbyn 2024-2025

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Crist y Brenin ac o'r herwydd y Llywodraethwyr yw'r Corff Derbyn.

Mae plant yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi'r flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump oed. Cynghorir Rhieni / Gwarcheidwaid i wneud cais am le yn ystod tymor yr Hydref cyn y flwyddyn fynediad academaidd a hynny cyn y dyddiad cau a gynghorir yng ngwybodaeth Derbyn i Ysgolion yr ALl.

Mae'n RHAID i rieni sy'n gwneud cais am le ym mlwyddyn Derbyn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio lle yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk.
Bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael gwybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar y dyddiad cynnig a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol, sef 11 Ebrill 2025, a bydd e-bost yn cael ei anfon gan yr ALl.

Mae gan Rieni/Gwarcheidwaid yr hawl i fynegi dewis o ran ysgol. Pan fydd gan yr ysgol fwy o geisiadau na'r llefydd sydd ar gael bydd derbyniadau'n cael eu penderfynu gan ddefnyddio'r Meini Prawf Gordanysgrifio, a chategori 1 yw'r maen prawf uchaf.

Fel arfer, nid yw'r Llywodraethwyr yn mynd yn uwch na nifer derbyn yr ysgol nac yn torri'r cyfyngiadau a osodir gan y maint dosbarth uchaf statudol (30) a byddant yn derbyn hyd at nifer derbyn dosbarth yr ysgol sef 30.
Yn achos plant genedigaeth luosog, wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os yw'r plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaeth luosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y plentyn arall/plant eraill.

Bydd plentyn sydd bellach, neu sydd wedi bod yn y gorffennol, yng ngofal yr Awdurdod Lleol [fel y'i diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989] yn cael blaenoriaeth ar gyfer cael mynediad i'r ysgol yn y categori y maent ynddo [Bedyddiedig/Heb Ei Fedyddio]. Rhaid darparu prawf gyda'r cais.

Dim ond ceisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni cais fydd yn cael eu hystyried yn ystod y rownd gychwynnol o ddyrannu lleoedd. Bydd pob ffurflen gais a dderbynnir erbyn y dyddiad cau hwn yn cael ei hystyried ar un adeg ac, yn amodol ar geisiadau digonol, bydd lleoedd hyd at y nifer derbyn yn cael eu dyrannu. Bydd y ceisiadau'n cael eu rhestru yn ôl y meini prawf gordanysgrifio gan ddefnyddio pellter o fewn pob categori i ddyrannu'r lleoedd olaf. Gall methu â darparu'r dogfennau prawf y gofynnwyd amdanynt cyn y dyddiad cau effeithio ar y categori y gall plentyn gael ei osod a'i ystyried ynddo yn y rownd gychwynnol. Bydd ffurflenni a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr.

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried yn yr ail rownd neu'r rowndiau dilynol pan fydd pob ymgeisydd yn cael ei restru yn ôl y meini prawf gordanysgrifio a'r maen prawf pellter ar gyfer dyrannu unrhyw leoedd sy'n weddill.

Bydd yr ysgol yn gweithredu rhestr aros. Lle gwrthodwyd lle, gofynnir i riant / gwarcheidwad os ydynt yn dymuno i'w plentyn fynd ar y rhestr aros. Bydd y rhestr hon yn gweithredu tan ddiwedd blwyddyn academaidd y flwyddyn ymgeisio. Gall rhiant / gwarchodwr wneud cais i'w plentyn fynd yn ôl ar y rhestr aros ar gyfer y flwyddyn ganlynol trwy gysylltu â'r ysgol. Gall y safle ar y rhestr aros newid, i fyny neu i lawr, drwy gydol y flwyddyn pan gymhwysir y meini prawf gordanysgrifio a phellter.

Bydd llywodraethwyr yn ystyried "ceisiadau o fewn blwyddyn" cyn gynted â phosibl ar ôl eu derbyn ac o fewn 28 diwrnod. Bydd unrhyw leoedd hyd at faint y dosbarth a ganiateir yn cael eu llenwi gan ddefnyddio Meini Prawf Gordanysgrifio'r ysgol.

### Meini Prawf Derbyn

Children who have an Individual Development Plan (IDP) naming Christ the King School will be admitted into the school.
Over-subscription Criteria.
These criteria will be considered in order.

**Categori 1**
Plant Catholig bedyddiedig sydd erbyn hyn, neu wedi bod gynt, yng ngofal yr Awdurdod Lleol.
**Rhaid rhoi prawf ysgrifenedig o hyn.**

**Categori 2**
Plant Catholig wedi'u bedyddio gyda brawd/chwaer a fydd ar gofrestr yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf.

**Categori 3**
Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw ym Mhlwyfi Crist y Brenin a Santes Brigid â Sant Paul.

**Categori 4**
Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw ym Mhlwyf Sant Teilo gydag Ein Harglwyddes Lourdes

**Categori 5**
Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw yng Nghaerdydd ond nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghategorïau 1 i 4 uchod.

**Categori 6**
Plant Catholig wedi'u bedyddio nad ydynt yn byw yng Nghaerdydd.

**Categori 7**
Unrhyw blentyn nad yw'n Gatholig wedi'i fedyddio sydd bellach, neu wedi bod gynt, yng ngofal yr Awdurdod Lleol.
Rhaid rhoi prawf ysgrifenedig o hyn.
**Categori 8**
Plant o gefndiroedd Cristnogol eraill sydd â thystiolaeth ysgrifenedig o arfer o addoliad gan eu harweinydd crefyddol.
**Categori 9**
Plant eraill y mae eu rhieni am iddynt gael addysg Gatholig.

Pan nad oes digon o lefydd yn yr ysgol i'r holl ddisgyblion mewn categori penodol, gall y Corff Llywodraethu benderfynu derbyn rhai o'r plant yn y categori, hyd at y Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar ôl defnyddio prawf agosrwydd, lle cynigir lle i'r ymgeisydd/ymgeiswyr sydd agosaf at yr ysgol.

Mae Preswyliad Plwyf yn berthnasol i ddisgyblion sy'n byw o fewn y Plwyf ar y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaus y disgybl gyda'r ffurflen gais. Mae'r cyfeiriad cartref fel y'i diffinnir yn nogfen Derbyn i Ysgolion yr Awdurdod Lleol. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir gan y llwybr cerdded ymarferol byrraf sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac sydd ar gael 24 awr/dydd. Cyfrifir y llwybr gan ddefnyddio'r system GIS a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol i sicrhau cysondeb. (gweler Polisi Derbyn yr Awdurdod Lleol)

Pan wneir ceisiadau gan deulu ar gyfer mwy nag un brawd/chwaer mewn mwy nag un grŵp blwyddyn ac nad oes digon o lefydd yn yr ysgol i'r holl frodyr/chwiorydd, gall y llywodraethwyr gynnig lle ar yr amod bod y rhieni, drwy dderbyn y lle i un plentyn, yn gwneud hynny gan gwybod ac yn deall yn llawn na fydd hyn o gymorth iddynt wrth gyflwyno apêl dros frawd/chwaer. Hefyd, caiff y panel apeliadau wybod am hyn a bydd yn gwybod bod y rhieni yn deall hyn.

Mae brawd neu chwaer fel y'i diffinnir yn Nogfen Polisi Derbyn i Ysgolion yr Awdurdod Lleol.

Rhaid i geisiadau plant bedyddiedig gael eu cyflwyno ynghyd â thystysgrif Bedydd.

Os bydd Corff Llywodraethu yn gwrthod cais am le, mae gan rieni/gwarcheidwaid hawl i apelio i Banel Apeliadau Annibynnol a dylent ysgrifennu at Glerc y Corff Llywodraethu d/o yr ysgol, o fewn pythefnos, gan nodi eu bod am gyflwyno apêl. Mae'r ysgol yn rhwym wrth benderfyniad y Panel Apeliadau.

Does dim hawl apelio ar gyfer adran y feithrinfa.

## Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd

### Polisi Derbyn 2024-2025

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd ac o'r herwydd y Llywodraethwyr yw'r Awdurdod Derbyn.
Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Caiff Rhieni/Gwarcheidwaid eu cynghori i wneud cais am le yn ystod Tymor yr Hydref cyn y flwyddyn academaidd y mae eu plentyn i fod i ddechrau yn y Dosbarth Derbyn.
**Mae'n rhaid i Rieni/Gwarcheidwaid hefyd fynegi dewis am le yn yr ysgol ar Borth Derbyniadau Ysgol y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk**
**Bydd angen Prawf Bedydd ar gyfer categorïau 2-5.**
Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig a bennir gan Gyngor Caerdydd yn ogystal â thrwy'r Porth, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol. Mae gan Rieni/Gwarcheidwaid yr hawl i fynegi dewis o ran ysgol. Bydd y dewis yn cael ei ystyried yn unigol a chydymffurfir â hynny lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod uchafswm statudol ar faint dosbarthiadau babanod sef 35 o ddisgyblion.
Pe bai'r llywodraethwyr yn cael mwy o geisiadau ar gyfer grŵp oedran na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu llenwi gan ddefnyddio'r Meini Prawf Gordanysgrifio isod.
**Nifer Derbyn: 35**

### Meini Prawf Gordanysgrifio

1. Plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu'n derbyn llety ganddo e.e. rhieni maeth (adran 106 o Ddeddf Addysg 2005, Rheoliadau Addysg Cymru Gyfan 2009).
2. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sy'n byw ym Mhlwyf y Teulu Sanctaidd (i'r gorllewin o Heol Caerdydd ac i'r gogledd o Rhodfa'r Gorllewin) Plwyf Santes Clare (i'r gogledd o'r rheilffordd ac i'r gogledd a'r gorllewin o Rodfa'r Gorllewin) a Phlwyf Ein Harglwyddes o Lourdes, sydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn.
3. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sy'n byw ym Mhlwyf y Teulu Sanctaidd (i'r gorllewin o Heol Caerdydd ac i'r gogledd o Rhodfa'r Gorllewin) Plwyf Santes Clare (i'r gogledd o'r rheilffordd ac i'r gogledd a'r gorllewin o Rodfa'r Gorllewin) a Phlwyf Ein Harglwyddes o Lourdes.
4. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sy'n byw y tu hwnt i Blwyf y Teulu Sanctaidd (i'r gorllewin o Heol Caerdydd ac i'r gogledd o Rhodfa'r Gorllewin) Plwyf Santes Clare (i'r gogledd o'r rheilffordd ac i'r gogledd a'r gorllewin o Rodfa'r Gorllewin) a Phlwyf Ein Harglwyddes o Lourdes, sydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol pan fyddant yn cael eu derbyn.
5. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw y tu allan i Blwyfi'r Teulu Sanctaidd, Santes Clare ac Ein Harglwyddes o Lourdes.

Bydd angen Prawf Bedyddio yng nghategorïau 2 i 5 uchod.

6. Plant o enwadau Cristnogol eraill a chanddynt frawd/chwaer yn yr ysgol ar adeg eu derbyn.
7. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni am iddynt gael Addysg Gatholig. Dylai pob cais ddod gyda llythyr neu dystiolaeth addoli gan eu harweinydd crefyddol.
8. Plant heb eu Bedyddio gan gynnwys plant o draddodiad crefyddol, heblaw am Gristnogion sy'n dymuno derbyn addysg Gatholig yn Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd, sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol adeg eu derbyn.
9. Plant heb eu Bedyddio gan gynnwys plant o draddodiad crefyddol, heblaw am Gristnogion sy'n dymuno derbyn addysg Gatholig yn Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd, y mae eu rhieni'n dymuno iddynt gael eu haddysg mewn Ysgol Gatholig.

### Gofynion

1. Bydd angen prawf o fedydd ar gyfer categorïau 2-5.

2. Tystysgrif geni'r plentyn. *Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaol y plentyn ar adeg y cais. Mae angen i hon fod yn ffurflen Treth Gyngor gyfredol gyda'r cyfeiriad post cywir neu ddogfennaeth gyfatebol e.e. datganiad budd-dal plant. DS – ni fydd biliau cyfleustodau yn cael eu derbyn. Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant ar y dyddiad a gyhoeddwyd h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd

### Dyrannu'r lleoedd olaf

Os na all y corff llywodraethu gynnig lle i'r holl ymgeiswyr yn y maen prawf isaf, bydd rhaid dyrannu lleoedd yn ôl blaenoriaeth. Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel ac yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo hyn. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr addasedig yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (RhTELI) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith llwybrau cerdded cyfrifiadurol yn seiliedig ar feini prawf Cymdeithas Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd yr Awdurdod Lleol, ac fe'i defnyddir i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl.

### Gofynion

Bydd angen prawf o fedydd ar gyfer categorïau 2-5. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaol y plentyn ar adeg y cais yn ôl y gofyn. Mae angen i hon fod yn ffurflen Treth Gyngor gyfredol gyda'r cyfeiriad post cywir. Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant ar y dyddiad a gyhoeddwyd h.y. ble maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau na wnelent â gwarcheidiaeth) ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau neu berthnasu ei ystyried at ddibenion dyrannu lleoedd.

### Diffiniad brawd/chwaer

Plant y byddai ganddynt frawd/chwaer yn Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd yn y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn golygu plentyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn yn sgil y ffaith bod eu rhieni wedi priodi. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

### Genedigaethau lluosog

Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y Llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

### Rhestrau Aros

Pan fydd lle wedi'i wrthod, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar restr aros ar gyfer y flwyddyn academaidd honno a phan fydd lle yn dod ar gael bydd yn cael ei ddyrannu drwy gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio nid hyd y cyfnod ar y rhestr aros.

### Yr Hawl i Apelio

Os gwrthodir lle mewn ysgol i blentyn, bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhieni gan roi manylion llawn y rhesymau dros wrthod y cais, yng ngoleuni'r meini prawf a gyhoeddwyd. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Rhaid i rieni sydd am apelio gysylltu â'r ysgol am fanylion y broses apêl a ffurflen apêl y mae'n rhaid ei dychwelyd i'r ysgol o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn llythyr y penderfyniad. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apeliadau annibynnol. Caiff penderfyniad y panel apeliadau ei wneud yn unol â'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion ac mae'r penderfyniad yn rhwymo'r holl bartïon.

Bydd ceisiadau sy'n dod i law y tu allan i'r rownd dderbyn arferol, sef 'derbyniadau yn ystod y flwyddyn' pan nad oes lle ar gael yng ngrŵp y Flwyddyn honno yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y flwyddyn y gwneir y cais. Ar ôl yr amser hwn disgwylir i rieni gyflwyno cais arall i'r ysgol. Bydd y meini prawf gordanysgrifio yn cael eu gweithredu.

## Ysgol Gynradd Yr Eglwys Yng Nghymru Dinas Llandaf

### Polisi Derbyn 2024-2025

1 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethol gyhoeddi ei drefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf ("yr Ysgol"). Nifer Derbyn Safonol yr Ysgol yw 60 disgybl ym mhob blwyddyn.

2 Nod y polisi hwn yw nodi'r meini prawf y bydd yr Ysgol yn eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau am leoedd yn y Dosbarth Derbyn a cheisiadau y tu allan i'r rownd dderbyn arferol. Y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am weithredu'r Polisi hwn.

3 Yn ystod Tymor Hydref 2023, caiff ffurflenni cais eu hanfon at rieni sydd wedi cofnodi manylion eu plentyn yn ein Llyfr Cofrestru i gael lle yn 2024/25 ac nad ydynt wedi cwblhau ffurflen gais eisoes. Rhaid dychwelyd pob ffurflen wedi ei llenwi i'r Ysgol erbyn hanner dydd ddydd Llun 7 Ionawr 2024. Bydd pob cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael ei ystyried yn gais hwyr. Mater i'r Awdurdod Derbyn fydd penderfynu a ddylid derbyn cais hwyr i'w ystyried ai peidio. Bydd ei resymau dros wneud hynny'n cael eu cofnodi'n glir ar y cais. Os caiff y cais ei dderbyn i'w ystyried, penderfynir arno'n unol â'r Polisi a gweithdrefnau mewnol yr Ysgol a lle bo hynny'n berthnasol, ei Meini Prawf Gordanysgrifio.

4. Os bydd 60 neu lai o geisiadau, bydd pob ymgeisydd yn cael lle. Pan geir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio yn y drefn a nodir.

5. Pan na fydd y Corff Llywodraethu'n gallu cynnig lle i bob plentyn o fewn unrhyw gategori oherwydd y byddai gwneud hynny'n golygu rhagori ar y nifer derbyn, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r ymgeiswyr hynny sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau a restrir yn y flaenoriaeth ganlynol:

(i) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer (gweler nodyn 2) sy'n mynychu'r ysgol ar yr adeg y caent eu derbyn, pe byddai eu cais yn llwyddiannus. Felly bydd plentyn sydd â brawd neu chwaer yn cael blaenoriaeth yn y categori mae'r ymgeisydd wedi'i ddyrannu iddo.

(ii) Bydd agosrwydd cyfeiriad cartref y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr i'r ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob maen prawf (ar ôl blaenoriaeth brodyr a chwiorydd) lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na'r terfyn lleoedd. Mesurir agosrwydd drwy gyfrifo'r pellter cerdded byrraf o god post yr Ysgol i god post y cartref fel y mesurir gan yr Awdurdod Lleol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio prif god post yr ysgol (CF5 2HT) neu'r fynedfa i gerddwyr ar Heol Caerdydd (CF5 2DU) yn dibynnu ar ba fynedfa sydd agosaf at

gyfeiriad y cartref. At ddibenion yr ymarfer hwn, 'cyfeiriad cartref' plant nad yw eu rhieni yn byw yn yr un cyfeiriad yw'r cyfeiriad lle bydd y plentyn yn treulio mwyafrif yr wythnos ysgol yn ystod y tymor.

(iii) Os bydd cyfeiriadau cartref mwy nag un ymgeisydd yn yr un categori yr un pellter cerdded o'r ysgol (fel y'i cyfrifir gan yr Awdurdod Lleol), bydd torrwr clymu yn cael ei ddefnyddio. Bydd dyddiad derbyn y cais yn cael ei ystyried. Bydd y cais a dderbyniwyd gyntaf mewn amser yn cael blaenoriaeth.

6. Bydd ceisiadau ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn, ar unrhyw adeg yn y flwyddyn, yn cael eu hystyried gan y Corff Llywodraethu yn unol â Pholisi a Meini Prawf Gordanysgrifio'r Ysgol:-

**Y meini prawf gordanysgrifio yw**

1. Plentyn sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal (gweler nodyn 1);
2. Plentyn sy'n mynd i wasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y ddwy flynedd diwethaf;
3. Plentyn sy'n byw ym mhlwyf Llandaf ond sy'n mynd i wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru mewn eglwys blwyf arall yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y ddwy flynedd diwethaf. Atodir map o Blwyf Eglwys Gadeiriol Llandaf;
4. Plentyn sy'n byw y tu allan i blwyf Llandaf ac sy'n mynd i wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y ddwy flynedd diwethaf;
5. Plentyn sy'n mynd i wasanaeth enwad Cristnogol heblaw am yr Eglwys yng Nghymru yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y ddwy flynedd diwethaf;
6. Plentyn y bydd ganddo frawd neu chwaer (gweler nodyn 2) sy'n mynychu'r ysgol ar yr adeg y caent ei dderbyn, pe byddai ei gais yn llwyddiannus;
7. Plentyn sy'n mynd i wasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y flwyddyn diwethaf;
8. Plentyn sy'n byw ym mhlwyf Llandaf ond sy'n mynd i wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru mewn eglwys blwyf arall yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y flwyddyn diwethaf. Atodir map o Blwyf Eglwys Gadeiriol Llandaf;
9. Plentyn sy'n byw y tu allan i blwyf Llandaf ond sy'n mynd i wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y flwyddyn diwethaf;
10. Plentyn sy'n mynd i wasanaeth enwad Cristnogol (gweler nodyn 3) heblaw am yr Eglwys yng Nghymru yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y flwyddyn diwethaf;
11. Plentyn sydd, gyda'i riant neu ei warchodwr, yn byw ym Mhlwyf Llandaf;
12. Plentyn sy'n mynd i addoldy, heblaw am un Cristnogol (gweler nodyn 3) yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf;
13. Plentyn sy'n mynd i addoldy, heblaw am un Cristnogol yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny ers o leiaf y flwyddyn diwethaf;
14. Plant y mae eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid yn gwneud cais iddynt gael eu derbyn am resymau eraill.

7. Pan enwir Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf mewn datganiad o angen addysgol arbennig, mae dyletswydd ar y llywodraethwyr i dderbyn y plentyn i'r Ysgol.
8. Mae'r Corff Llywodraethu bob amser yn cadw'r hawl i wyro oddi wrth y meini prawf hyn os oes ganddo dystiolaeth rymus y bydd lles plentyn yn cael ei beryglu'n ddifrifol os nad yw'r plentyn yn cael ei dderbyn i'r Ysgol.
9. Wrth ystyried ceisiadau gan riant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid plant sy'n gwneud cais am le ar sail anghenion cymdeithasol neu feddygol, gall yr Ysgol ymgynghori â'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, y Pennaeth a'r Awdurdod Lleol fel y bo'n briodol.
10. Penderfynir ar feini prawf categorïau 2, 3, 4, 5, 7, 8, 9, 10, 12 a 13 yn union yng ngoleuni yr argymhelliad a lofnodwyd gan beriglor neu offeiriad cyfrifol yr addoldy dan sylw.
11. Rhaid i gyfeiriad cartref yr Ymgeisydd gael ei wirio gan yr ymgeisydd sy'n darparu prawf cyfeiriad ar ffurf copi o Fil y Dreth Gyngor cyfredol, neu Fil Trydan/Nwy/Dŵr dyddiedig o fewn 3 mis i gyflwyno'r cais.

## 12. Y Weithdrefn Apelio

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'r llywodraethwyr wedi sefydlu gweithdrefn apelio. Gall rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr plentyn na chafodd ei dderbyn i'r ysgol apelio yn erbyn y penderfyniad. Penodir y panel gan Esgobaeth Llandaf ac mae'n gwbl annibynnol ar yr ysgol a'r awdurdod lleol. Dylid anfon hysbysiad o fwriad i apelio i'r ysgol a fydd wedyn yn hysbysu Swyddfa Addysg yr Esgobaeth.

## 13. Cywirdeb gwybodaeth

Os gwelir bod rhieni/gofalwyr wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol neu dwyllodrus yn rhan o'r cais, tynnir y cynnig o le yn ôl ac mae'n debygol y bydd yn arwain at ddileu lle ar ôl i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol.

## 14. Nodiadau

1. Plant sy'n derbyn gofal yw plant sydd wedi'u cofrestru yng ngofal yr awdurdod lleol (o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989) neu y darperir llety iddynt gan yr awdurdod lleol (o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989); Nid yw'r Awdurdod Lleol bellach yn gofalu am blant a arferai dderbyn gofal oherwydd eu bod yn destun gorchymyn mabwysiadu, gwarcheidiaeth arbennig neu drefniadau plant; neu cawsant eu mabwysiadu o ofal y wladwriaeth y tu allan i Gymru.
2. Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer fiolegol, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer fabwysiedig, llysfrawd neu lyschwaer neu blant maeth a fydd yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol (o oedran ysgol statudol) ar yr adeg derbyn. Efallai y bydd angen tystiolaeth i wirio statws brodyr a chwiorydd;
3. Cyfeiria enwadau/Eglwysi Cristnogol at yr enwadau/Eglwysi Cristnogol hynny sy'n gysylltiedig ag Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) neu'r Gynghrair Efengylaidd, fel y cydnabyddir gan y llywodraethwyr wrth benderfynu ar leoedd (h.y. mis Ionawr) y flwyddyn derbyn. Lle bu ymgeiswyr yn byw y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod mynychu'r eglwys, dylai cyfeiriad at yr Eglwys yng Nghymru gynnwys aelodau eraill o'r Cymundeb Anglicanaidd; Dylai Cytûn gynnwys eglwysi/enwadau sy'n gysylltiedig â chyrff aelodau cenedlaethol eraill Cyngor Eglwysi'r Byd; Dylai'r Gynghrair Efengylaidd gynnwys eglwysi/enwadau sy'n gysylltiedig â chyrff aelodau cenedlaethol eraill Cynghrair Efengylaidd y Byd.
4. Mae'r cyfnod y mae plentyn wedi bod yn bresennol yn wythnosol/bob pythefnos mewn addoldy yn cael ei gyfrifo o'r dyddiad y mae'r Corff Llywodraethu yn cyfarfod i ystyried ceisiadau (mis Ionawr y flwyddyn derbyn).

## Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban

### Polisi Derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban ar gyfer y Flwyddyn yn Dechrau Medi 2024/2025

Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban sy'n gweithredu yng Nghymuned Gatholig Plwyf Sain Alban, o fewn darpariaeth gyffredinol Archesgobaeth Caerdydd. Nod y Llywodraethwyr yw cynnig addysg Gatholig, gan ofyn i unrhyw rieni sy'n gwneud cais am leoedd i'w plant gefnogi ethos a chymeriad Catholig yr ysgol. Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn parchu'n llawn gredoau rhieni a phlant o bob enwad a chefndir. Caiff disgyblion yn Ysgol Sant Alban eu haddysgu i barchu a goddef eraill ac mae darpariaeth yn y rhaglen Addysg Grefyddol i ddysgu am grefyddau gwahanol.

Bydd Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn gweithredu yn unol â darpariaethau perthnasol y Codau Ymarfer statudol (Derbyniadau ac Apeliadau Llywodraeth Cymru 2009) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir a chyda'r gyfraith ar dderbyniadau fel y mae'n gymwys i ysgolion a gynhelir.

**Nifer Derbyn 30**

Gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn unig y mae'r cyfrifoldeb am dderbyniadau i'r ysgol a bydd yn derbyn hyd at nifer derbyn yr ysgol.

Yr oedran lleiaf posibl i gael mynediad i'r ysgol yw 4 oed cyhyd â bod 5ed pen-blwydd y plentyn yn disgyn rhwng 1 Medi a 31 Awst y flwyddyn academaidd honno.

### Meini Prawf Gordanysgrifio

Bydd plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn cael eu derbyn. Pan fo'r galw'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir lleoedd i ymgeiswyr dan y categorïau a nodir isod yn y drefn flaenoriaeth ganlynol, gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sydd wedi Derbyn Gofal yn cael blaenoriaeth ym mhob un o'r categorïau gordanysgrifio. Pan na fydd y Llywodraethwyr yn gallu cynnig lle i'r holl blant mewn categori pan fydd mwy o geisiadau na lleoedd, cynigir lle i blant o enedigaethau lluosog a'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel fel y pennir gan yr Awdurdod Lleol.

### Trefn blaenoriaeth derbyn

Bydd ceisiadau derbyn yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio canlynol a rhoddir blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n bodloni'r meini prawf cynharach.

1. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG - plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) neu blant a arferai dderbyn gofal sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion neu sydd wedi eu derbyn yn ffurfiol i'r Eglwys Gatholig.
2. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG – plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) neu Blant a Arferai Dderbyn Gofal nad ydynt o'r Ffydd Gatholig.
3. Plant Catholig wedi'u bedyddio i deuluoedd Catholig sy'n byw ym mhlwyf Ysgol Gynradd Gatholig Alban Sant yn Sblot, Tremorfa, Pengam Green a Windsor Village. (Rhaid cyflwyno prawf preswylfa a thystysgrif bedydd.)
4. Plant Catholig wedi'u bedyddio i deuluoedd Catholig a chanddynt frodyr/chwiorydd yn yr ysgol ar yr adeg y byddant yn ymuno â'r ysgol, sy'n byw ym mhlwyf Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn Sblot, Tremorfa, Lawnt Pengam a datblygiad Windsor Village. (Rhaid cyflwyno prawf preswylfa a thystysgrif bedydd.)
5. Plant Catholig wedi'u bedyddio ac nad ydynt yn byw yn ardaloedd categori 1 a 2 uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd.)
6. Plant Catholig wedi'u bedyddio nad ydynt yn byw yn ardaloedd categori 1 a 2 uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd a chanddynt frodyr/chwiorydd yn yr ysgol ar yr adeg y bydd y ceisydd yn dechrau yn yr ysgol. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd.)
7. Plant Cristnogol o enwadau eraill a chanddynt frodyr/chwiorydd yn yr ysgol ar yr adeg y byddant yn ymuno â'r ysgol, sy'n byw ym mhlwyf Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn Sblot, Tremorfa, Lawnt Pengam a datblygiad Windsor Village. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan y gweinidog.)
8. Plant Cristnogol wedi'u bedyddio o enwadau eraill a chanddynt frodyr/chwiorydd yn yr ysgol ar yr adeg y bydd yr ymgeisydd yn ymuno â'r ysgol nad ydynt yn byw yn ardaloedd categori 1 a 2 uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan y gweinidog.)
9. Plant Cristnogol o enwadau eraill sy'n byw ym mhlwyf Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn Sblot, Tremorfa, Lawnt Pengam a datblygiad Windsor Village. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan y gweinidog.)
10. Plant Cristnogol o enwadau eraill nad ydynt yn byw yn ardaloedd categori 1 a 2 uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan y gweinidog.)
11. Plant nad ydynt yn Gristnogion a chanddynt frodyr/chwiorydd yn yr ysgol ar yr adeg y byddant yn ymuno â'r ysgol, sy'n byw ym mhlwyf Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn Sblot, Tremorfa, Lawnt Pengam a datblygiad Windsor Village. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa.
12. Plant nad ydynt yn Gristnogion sy'n byw ym mhlwyf Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn Sblot, Tremorfa, Lawnt Pengam a datblygiad Windsor Village. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa.
13. Plant nad ydynt yn Gristnogion nad ydynt yn byw yn ardaloedd categori 1 a 2 uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd.

### Diffiniad o Frodyr/Chwiorydd

Plant y byddai ganddynt frawd/chwaer yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban yn ystod y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol. Pennir blaenoriaeth gan gyfeirio at y brawd/chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

### Plant Genedigaethau Lluosog (e.e. gefeilliaid/tripledi)

Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

### Y Panel Derbyn

Bydd y Panel Derbyn yn cyfarfod unwaith y tymor i drafod ceisiadau sy'n dod i law. Bydd unrhyw ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ar ddyddiad sy'n gyfleus i'r ysgol a rhiant/gwarcheidwad yr ymgeisydd.

### Sut i Wneud Cais

Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn fynychu'r ysgol. RHAID i rieni sy'n ceisio am le yn Nosbarth Derbyn yr ysgol fynegi eu dewis ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk a llenwi ffurflen gais yr ysgol HEFYD y gellir ei chael drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol ar 029 20462915 neu drwy lawrlwytho'r ffurflen gais oddi ar wefan yr ysgol https://www.stalbansprm.cardiff.sch.uk/ Bydd pob cais yn cael ei ystyried drwy gyfeirio at y polisi yma.

### Yr Hawl i Apelio
Os gwrthodir lle mewn ysgol i blentyn, bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhieni gan roi manylion llawn y rhesymau dros wrthod y cais, yng ngoleuni'r meini prawf cyhoeddedig. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Rhaid anfon yr apêl ymlaen yn ysgrifenedig o fewn pedwar diwrnod ar ddeg at Glerc y Llywodraethwyr a fydd yn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Apeliadau.

### Rhestr Aros
Cedwir rhestr aros tan 30 Medi. Os daw lle ychwanegol ar gael bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig ac nid ar y dyddiad y daeth y cais i law.

Cymeradwywyd gan Gorff Llywodraethu Sant Alban Tymor yr Hydref 2022

Y Tad Sebastian Jones -Cadeirydd y Llywodraethwyr

Mrs R Woodward - Pennaeth

## Ysgol Gynradd Gatholig Santes Bernadette

### Polisi Derbyn 2024-2025

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol Gynradd y Santes Bernadette ac o'r herwydd y Llywodraethwyr yw'r Awdurdod Derbyn.

Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Caiff Rhieni/Gwarcheidwaid eu cynghori i wneud cais am le yn ystod Tymor yr Hydref cyn y flwyddyn academaidd.

Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn Dosbarth Derbyn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio lle yn yr ysgol ar Borthol Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk Mae hefyd yn ofynnol i chi gyflwyno tystysgrif geni eich plentyn ac (os yn berthnasol) dystysgrif Bedydd eich plentyn yn uniongyrchol i swyddfa'r ysgol ym Mryn Heulog, Pentwyn, Caerdydd CF23 7JB. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol drwy e-bost yn stbernadettesprm@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch yr ysgol yn uniongyrchol ar 02920 733443.

Os ydych yn ymgeisydd hwyr, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais yr ysgol y gallwch ofyn amdani gan swyddfa'r ysgol – rhestrir y manylion cyswllt uchod.

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod canlyniad eu cais ar y dyddiad cynnig a bennwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Mae gan Rieni/Gwarcheidwaid yr hawl i fynegi dewis o ran ysgol. Bydd y dewis yn cael ei ystyried yn unigol a chydymffurfir â hynny lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod uchafswm statudol ar faint dosbarthiadau babanod sef 30 o ddisgyblion.

Mae lleoedd yn cael eu darparu ar gyfer plant sydd, oherwydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), wedi cael cyllid Meithrin gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar neu'r Panel Cynghori ar Achosion ac i'r plant hynny sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle mae Ysgol Gynradd y Santes Bernadette wedi'i henwi'n glir ar y datganiad yn unol â Deddf Addysg 1996.

Pe bai'r llywodraethwyr yn cael mwy o geisiadau ar gyfer grŵp oedran na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu llenwi gan ddefnyddio'r Meini Prawf Gordanysgrifio isod.

### Meini Prawf Gordanysgrifio:
**Bydd plant fydd â brodyr a chwiorydd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Bernadette yn y flwyddyn y byddai'r plentyn yn ymuno â'r ysgol yn cael blaenoriaeth o dan bob maen prawf gordanysgrifio.**

1 Rhoddir blaenoriaeth i Blant Catholig Bedyddiedig sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn unol ag Adran 106 Deddf Addysg 2005 a Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009:
2 Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw ym Mhentwyn a Phontprennau
3 Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw y tu allan i gategori 2
4 Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal nad ydynt yn dilyn y ffydd.
5 Plant Cristnogol o enwadau eraill sy'n byw yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt yng nghategori 2 (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan weinidog crefyddol).
6 Plant Cristnogol o enwadau eraill sy'n byw mewn ardaloedd y tu allan i'r rheini yng nghategori 2 (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan weinidog crefyddol yn ôl y gofyn).
7 Plant eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig yn Santes Bernadette.

### GOFYNION
1. Bydd angen prawf o fedydd ar gyfer categorïau 1-3 a 5-6. Bydd hyn yn unol â dogfen 'Eglwysi Catholig y Dwyrain – Canllawiau i Ysgolion' yr Archesgobaeth.
2. Tystysgrif geni'r plentyn.

### Plant sy'n Derbyn Gofal
Mae Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (ALl) yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989, y mae'r ALl wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal ar adeg derbyn y plentyn i'r ysgol.

### Diffiniad brawd/chwaer
Plant y byddai ganddynt frodyr/chwiorydd yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Bernadette yn ystod y mis Medi y byddai'r ceisydd yn dechrau yn yr ysgol. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn golygu plentyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn yn sgil y ffaith bod eu rhieni wedi priodi. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

### Genedigaethau lluosog
Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y Llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

### Rhestrau Aros
Pan fydd lle wedi'i wrthod, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar restr aros, a phan fydd lle yn dod ar gael bydd yn cael ei ddyrannu drwy gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, nid hyd y cyfnod ar y rhestr aros.

### Yr Hawl i Apelio
Os gwrthodir lle mewn ysgol i blentyn, bydd y Corff Llywodraethu

yn ysgrifennu at y rhieni gan roi manylion llawn y rhesymau dros wrthod y cais, yng ngoleuni'r meini prawf cyhoeddedig. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Rhaid i rieni sydd am apelio gysylltu â'r ysgol am fanylion y broses apêl a ffurflen apêl y mae'n rhaid ei dychwelyd i'r ysgol o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn llythyr y penderfyniad.

Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apeliadau annibynnol. Caiff penderfyniad y panel apeliadau ei wneud yn unol â'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion ac mae'r penderfyniad yn rhwymo'r holl bartïon.

## Ysgol Gynradd Gatholig Cadog Sant

**POLISI DERBYN**
**Medi 2024 – Awst 2025**

Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog sy'n gweithredu yng Nghymuned Gatholig Plwyf Sain Cadog, o fewn darpariaeth gyffredinol Archesgobaeth Caerdydd. Mae'n cael ei chynnal gan Awdurdod Lleol Caerdydd.

Fel rhieni, un o'r penderfyniadau pwysicaf rydyn ni'n ei wneud dros ein plentyn yw lle i'w anfon i'r ysgol. Yn naturiol rydyn ni eisiau'r gorau iddyn nhw. Rydym am iddynt dyfu a datblygu drwy gydol eu bywyd ysgol mewn amgylchedd hapus a diogel lle byddant yn cael eu meithrin a'u parchu fel unigolion o fewn cymuned gref.

Yn Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog credwn fod ffydd, bywyd ac addysg yn tyfu gyda'i gilydd. Fe'n gyrrir ym mhob un o'n gweithredoedd a'n penderfyniadau gan ein Datganiad Cenhadaeth, *'Gweddïo gyda'n gilydd, dysgu gyda'n gilydd, chwarae gyda'n gilydd, tyfu gyda'n gilydd'.*

Nod y Llywodraethwyr yw cynnig addysg Gatholig, gan ofyn i unrhyw rieni sy'n gwneud cais am leoedd i'w plant gefnogi ethos a chymeriad Catholig yr ysgol. Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog yn parchu'n llawn gredoau rhieni a phlant o bob enwad a chefndir. Caiff disgyblion yn Ysgol Sain Cadog eu haddysgu i barchu a goddef eraill ac mae darpariaeth yn y rhaglen addysg grefyddol ar gyfer dysgu am grefyddau gwahanol.

"Yn Ysgol Gatholig Sain Cadog rydym yn cydnabod, mewn gwirionedd, fod y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd, a phob rhan ohono, yn grefyddol, gan nad oes dim nad yw'n ymwneud â Duw yn y pen draw. Rhaid i'r cwricwlwm yn ei holl agweddau, ond yn enwedig ei gynnwys a'i ddarpariaeth, adlewyrchu'r ffaith mai Crist yw sylfaen yr holl fenter addysgol mewn Ysgol Gatholig."
(Dogfen y Fatican 1977 - Yr Ysgol Gatholig)

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog yn gweithredu yn unol â darpariaethau perthnasol y Codau Ymarfer statudol (Derbyniadau ac Apeliadau Llywodraeth Cymru 2013) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir a chyda'r gyfraith ar dderbyniadau fel y mae'n gymwys i ysgolion a gynhelir.

### Trefniadau derbyn

Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol hon. Y Nifer Derbyn yw 45 o blant. Mae'r Nifer Derbyn hwn yn berthnasol i'r dosbarth Derbyn a phob blwyddyn arall yn yr ysgol. Yr oedran lleiaf posibl i gael mynediad i'r ysgol yw 4 oed ar yr amod bod 5ed pen-blwydd y plentyn yn disgyn rhwng 1 Medi a 31 Awst y flwyddyn academaidd honno.

### Sut i Wneud Cais

Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn fynychu'r ysgol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried drwy gyfeirio at y polisi yma gan bwyllgor derbyn y Corff Llywodraethu.

Rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2024 gyflwyno eu cais drwy Borth Derbyn i Ysgolion Cyngor Caerdydd yn www.caerdydd.gov.uk. Mae'n rhaid i rieni fynegi ffafriaeth am le yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Bydd Rhieni/Gwarcheidwaid yn cael gwybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar y dyddiad cynnig sef Dydd Llun 16 Ebrill 2024, oni bai eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.

Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud cais yn ystod y flwyddyn am le yn yr ysgol gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael ffurflen gais.

Rhoddir lle i blant sydd â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) pan enwir Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog ar y Datganiad.

Os yw nifer y ceisiadau a ddaw i law ar neu'n is na nifer derbyn (ND) cyhoeddedig yr ysgol bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn. Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer derbyn, bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol yn cael eu defnyddio.

### Meini Prawf Gordanysgrifio ar gyfer Derbyniadau.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu a arferai dderbyn gofal.
2. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw ym Mhlwyf Sain Cadog adeg ymgeisio ac yn byw i'r gogledd o Heol Casnewydd.
3. Plant sy'n byw ym Mhlwyf Sain Cadog adeg ymgeisio ac yn byw i'r gogledd o Heol Casnewydd. Rhoddir blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny sy'n cael eu cefnogi gan eu harweinydd Ffydd.
4. Plant y mae eu rhieni'n dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Ffydd.
5. **Nodiadau:**
    1. Mae'n rhaid i geisiadau o dan faen prawf 2 gael eu cyflwyno ynghyd â phrawf Bedydd.
    2. Bydd plant sydd â brawd neu chwaer ar y gofrestr yn y mis Medi pan fyddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol yn cael blaenoriaeth ym mhob un o'r categorïau uchod.

### Cadarnhad Bedydd

Bydd angen cadarnhad Bedydd drwy ddarparu copi o'r dystysgrif fedydd o'r plwyf perthnasol neu gadarnhad yn ysgrifenedig gan Offeiriad y Plwyf / Gweinidog presennol.

### Brodyr a chwiorydd

Bydd plant a chanddynt frodyr/chwiorydd yn Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog yn ystod y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol yn cael blaenoriaeth ym mhob un o'r categorïau uchod. Pennir blaenoriaeth gan gyfeirio at y brawd/chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.

### Diffiniad Brawd/Chwaer

Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn cynnwys hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

**Plant genedigaethau lluosog (e.e. gefeilliaid / tripledi ac ati)**
Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

### Agosrwydd
Os na all y corff llywodraethu gynnig lle i'r holl ymgeiswyr yn y maen prawf isaf, bydd rhaid dyrannu lleoedd yn ôl blaenoriaeth. Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel (ysgol gynradd) ac yn gofyn i'r Awdurdod Lleol gyfrifo hyn. Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio'r system GPS i gyfrifo pellteroedd o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd.

### Man Preswylio
Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaol y plentyn ar adeg y cais. Y breswylfa barhaol yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant/warcheidwad, h.y. ble maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau na wnelent â gwarcheidiaeth) ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau neu berthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lleoedd.

### Plant sy'n derbyn gofal neu a arferai dderbyn gofal.
Diffinnir Plentyn sy'n Derbyn Gofal fel plentyn sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989. Plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu'n derbyn llety ganddynt e.e. rhieni maeth.

### Ceisiadau Hwyr
Byddwn ond yn ystyried ceisiadau a fydd yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd.

### Yr Hawl i Apelio
Pan fydd plentyn yn cael ei wrthod am le yn yr ysgol bydd y corff llywodraethu yn ysgrifennu at y rhiant yn rhoi manylion llawn ynglŷn â pham cafodd y cais ei wrthod. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Rhaid i rieni sydd am apelio gysylltu â'r ysgol am fanylion y broses apelio a ffurflen apêl y mae'n rhaid ei dychwelyd i'r ysgol o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn llythyr y penderfyniad. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apeliadau annibynnol.

### Rhestr Aros
Caiff plant na chynigir lle iddynt eu rhoi ar restr aros. Mae trefn y flaenoriaeth ar y rhestr aros yr un fath ag ar gyfer y rhestr meini prawf gordanysgrifio. Ni roddir ystyriaeth i'r cyfnod o amser y bu plentyn ar restr aros.
Os yw cynnig o le yn cael ei wrthod, bydd y lle yn cael ei gynnig i'r plentyn cyntaf ar y rhestr aros. Bydd trefn y rhestr aros yn amrywio wrth i geisiadau hwyr gael eu derbyn, eu gwrthod a'u rhoi ar y rhestr aros yn nhrefn y meini prawf gordanysgrifio.
Cedwir y rhestr aros tan 30 Medi o leiaf.

Diwygiwyd, cyflwynwyd a chymeradwywyd gan Gorff Llywodraethu Sain Cadog Tachwedd 2022.
Cadeirydd y Llywodraethwyr - Pennaeth
John Travers - Rachael Fisher

## Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert

### POLISI DERBYN 2024-25

Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert sy'n gweithredu yng Nghymuned Gatholig Plwyf Cadog Sant, o fewn darpariaeth gyffredinol Archesgobaeth Caerdydd. Nod y Llywodraethwyr yw cynnig addysg Gatholig, gan ofyn i unrhyw rieni sy'n gwneud cais am leoedd i'w plant gefnogi ethos a chymeriad Catholig yr ysgol.
Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert yn parchu'n llawn gredoau rhieni a phlant o bob enwad a chefndir. Caiff disgyblion yn Sant Cuthbert eu haddysgu i barchu a goddef eraill ac mae darpariaeth yn y rhaglen addysg grefyddol ar gyfer dysgu am grefyddau gwahanol.

Bydd Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert yn gweithredu yn unol â darpariaethau perthnasol y Codau Ymarfer statudol (Derbyniadau ac Apeliadau Llywodraeth Cymru 2013) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir a chyda'r gyfraith ar dderbyniadau fel y mae'n gymwys i ysgolion a gynhelir.
Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig sef ……………, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.

**Nifer derbyn: 21 fesul grŵp blwyddyn**

Gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gatholig St. Cuthbert yn unig y mae'r cyfrifoldeb am dderbyniadau i'r ysgol a bydd yn derbyn hyd at nifer derbyn yr ysgol.
Yr oedran lleiaf posibl i gael mynediad i'r ysgol yw 4 oed ar yr amod bod 5ed pen-blwydd y plentyn yn disgyn rhwng 1 Medi a 31 Awst y flwyddyn academaidd honno.

### Meini Prawf Gordanysgrifio
Bydd plant sydd â datganiad AAA sy'n enwi Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert yn cael eu derbyn. Pan fo'r galw'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir lleoedd i Ymgeiswyr dan y categorïau a nodir isod yn y drefn flaenoriaeth ganlynol, gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal yn cael blaenoriaeth ym mhob un o'r categorïau gordanysgrifio. Pan na fydd y Llywodraethwyr yn gallu cynnig lle i'r holl blant mewn categori gordanysgrifio penodol, cynigir lleoedd i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol wedi fesur o giât yr ysgol ar Heol Letton ar hyd y llwybr cerdded mwyaf diogel fel y pennir gan yr Awdurdod Lleol.

1. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw ym mhlwyf Eglwys Gadeiriol Dewi Sant sydd â brodyr/chwiorydd yn yr ysgol ar yr adeg derbyn
2. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw ym mhlwyf Eglwys Gadeiriol Dewi Sant
3. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw ym mhlwyf Eglwys Gadeiriol Dewi Sant sydd â brawd/chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn
4. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw tu allan i blwyf Eglwys Gadeiriol Dewi Sant

5. Plant o enwadau Cristnogol eraill a chanddynt frawd/chwaer yn yr ysgol ar adeg eu derbyn.

**Bydd angen Prawf Bedyddio ym mhob un o'r categorïau uchod.**

6. Plant o enwadau Cristnogol eraill a chanddynt frawd/chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn.
7. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni am iddynt gael Addysg Gatholig. Dylai pob cais ddod gyda llythyr neu dystiolaeth addoli gan eu harweinydd crefyddol.
8. *Plant o draddodiad crefyddol, ac eithrio Cristnogol, sydd am gael addysg yn Ysgol Sant Cuthbert. Dylai pob cais ddod gyda llythyr neu dystiolaeth addoli gan eu harweinydd crefyddol.
9. *Plant heb eu Bedyddio, gan gynnwys plant o draddodiad crefyddol ac eithrio Cristnogol, sy'n dymuno derbyn addysg yn Ysgol Sant Cuthbert sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn.
10. *Plant heb eu Bedyddio, gan gynnwys plant o draddodiad crefyddol ac eithrio Cristnogol, sy'n dymuno derbyn addysg yn St Cuthbert, y mae eu rhieni'n dymuno iddynt gael eu haddysg mewn Ysgol Gatholig.

### Diffiniad brawd/chwaer
Plant y mai ganddynt frawd/chwaer yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert yn ystod y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol. Pennir blaenoriaeth gan gyfeirio at y brawd/chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

### Plant Genedigaethau Lluosog (e.e. gefeilliaid/tripledi
Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill fel eithriadau.

### Rhesymau Meddygol a Chymdeithasol
Os derbynnir cais o dan resymau Meddygol neu Gymdeithasol, rhaid cefnogi'r cais gyda llythyr gan feddyg ymgynghorol proffesiynol.

### Y Panel Derbyn
Bydd y Panel Derbyn yn cyfarfod unwaith y tymor neu yn ôl yr angen i drafod ceisiadau yn ystod y flwyddyn sy'n dod i law. Yna bydd unrhyw ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei wahodd i ddechrau ar ddyddiad y cytunwyd arno. Gall cais gael ei ystyried drwy gynnal cyfarfod eithriadol, gan ganiatáu derbyn i ddilyn.

### Sut i Wneud Cais
Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn fynychu'r ysgol.
Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn Dosbarth Derbyn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio lle yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk
Bydd pob cais yn cael ei ystyried drwy gyfeirio at y polisi yma.

### Yr Hawl i Apelio
Os gwrthodir lle mewn ysgol i blentyn, bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhieni gan roi manylion llawn y rhesymau dros wrthod y cais, yng ngoleuni'r meini prawf cyhoeddedig. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Rhaid anfon yr apêl ymlaen yn ysgrifenedig o fewn pedwar diwrnod ar ddeg at Glerc y Llywodraethwyr a fydd yn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Apêl Annibynnol.

### Rhestr Aros
Cedwir rhestr aros tan 30 Medi. Os daw lle ychwanegol ar gael bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio ac nid ar y dyddiad y derbyniwyd y cais.

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant

### Polisi Derbyn 2024-2025

Diolch i chi am gofrestru diddordeb yn eich plentyn yn ymuno ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ym mis Medi 2024. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gyhoeddi ei drefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ("yr Ysgol"). Nifer Derbyn Safonol yr Ysgol yw 30 disgybl ym mhob blwyddyn. I'r rhieni hynny sydd ddim yn adnabod ein hysgol, mae croeso mawr i chi ymweld â'r ysgol cyn gwneud cais. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol ar 02920734308 neu anfonwch e-bost at stdavidsprm@caerdydd.gov.uk os hoffech drefnu ymweliad.

### POLISI DERBYN A CHANLLAW AR GYFER 2024/25
Ysgol ddydd gydaddysgol wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac un o'i nodau pennaf yw darparu addysg Gristnogol yn unol â dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru. Dyfernir lleoliadau yn yr ysgol yn ôl disgresiwn y Corff Llywodraethu sy'n adolygu ei bolisi derbyn yn flynyddol.

Y nifer derbyn arfaethedig yw nifer y disgyblion y bydd y Corff Llywodraethu yn eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Y nifer mynediad arfaethedig ar gyfer yr ysgol hon yw 30. Yn ogystal, mae 54 o leoedd rhan amser yn y Feithrinfa.

Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn nhymor yr Hydref yn y flwyddyn pan fyddant yn troi'n bump oed. Mae lleoedd meithrin yn cael eu dyfarnu yn nhymor yr hydref y flwyddyn academaidd pan maen nhw'n troi'n bedair oed. (Mae'r flwyddyn academaidd rhwng 1 medi a 31 Awst.)

Dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd Meithrin yn uniongyrchol i'r ysgol yn unol â dyddiadau derbyn yr Awdurdod Lleol, a gaiff eu cytuno a'u cyhoeddi'n flynyddol. Mae'r dyddiadau hyn ar gael ar wefan ein hysgol.

Fel ym mhob ysgol, ni fydd gan blant sy'n cael eu derbyn i'n dosbarthiadau meithrin hawl awtomatig i gael eu derbyn i addysg lawn-amser (dosbarth derbyn) yn ein hysgol.

Rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn y Dosbarth Derbyn yn yr ysgol fynegi eu bod awydd cael lle yn yr ysgol drwy borth derbyniadau i ysgolion y cyngor yn www.caerdydd.gov.uk erbyn y dyddiad cau a osodir gan yr Awdurdod Lleol.

Bydd yr ysgol yn gofyn am gymorth gan offeiriaid plwyf a gweinidogion a bydd panel derbyn y Corff Llywodraethu yn cwrdd os oes mwy o geisiadau na llefydd ar gael. Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Lleol ar ddyddiad y cynnig, ddydd Mawrth, 16 Ebrill 2024, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.

Mae gan rieni y bu eu cais i'r Dosbarth Derbyn yn aflwyddiannus yr hawl i apelio. Er mwyn arfer yr hawl honno, rhaid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn hysbysiad o gais aflwyddiannus. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Mynwy, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Nid oes gweithdrefn apelio ar gyfer ceisiadau Meithrin gan nad yw addysg feithrin yn statudol.

Ar ôl dyrannu lleoedd, caiff plant y bu eu cais yn aflwyddiannus eu rhoi ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent yn gwneud cais. Ar ôl hynny dylai'r rhieni wneud cais newydd am le yn uniongyrchol i'r ysgol. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros ar waith rhaid eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig.

Mae'n rhaid i restrau aros beidio â rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd eu cais at y rhestr. Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i'r rownd dderbyn arferol ac mae ganddo flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio, rhaid ei osod uwchlaw y rhai sydd â blaenoriaeth is ac sydd eisoes ar y rhestr. Gall rhieni sydd am drafod safle ar y rhestr aros ffonio'r ysgol.

Caiff ceisiadau am le mewn unrhyw grwp blwyddyn, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn (e.e. teuluoedd sydd wedi symud i'r ardal) eu hystyried o ran nifer y lleoedd sydd ar gael a'u rhoi ar y rhestr aros fel sy'n briodol. Mae gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd i flaenoriaethu derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal neu Blant a Arferai Dderbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol neu sydd yn derbyn llety ganddynt (e.e., plant â rhieni maeth) (Adran 22 Deddf Plant 1989). Bydd blaenoriaeth hefyd yn cael ei roi i blant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu nodyn yn lle hynny lle mae'r ysgol wedi'i henwi, gan gynnwys Plant gyda chyllid Blynyddoedd Cynnar uwch gan y Panel Cynghori ar Achosion ar ddyddiad gwneud y cais. Mae'n bosibl y bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau gan blant sydd â chyflwr meddygol sylweddol y gellir ei gefnogi gan dystiolaeth ddogfennol gan Ymgynghorydd Meddygol neu Weithiwr Cymdeithasol.

Bydd yr holl blant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu'r ysgol hon yn gallu gwneud hynny cyn belled nad yw'r nifer sy'n ceisio am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael.

Pan fo mwy o geisiadau na nifer derbyn safonol yr ysgol, penderfynir ar y ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol. Bydd lleoedd yn cael eu cynnig i rai yng Nghategori 1, unrhyw lefydd sy'n weddill i'r rhai yng Nghategori 2, yna Categori 3, 4, 5, 6, 7 ac yna'n olaf i unrhyw ymgeiswyr eraill yng Nghategori 8.

Pan na fydd y Pwyllgor Derbyn yn gallu cynnig lle i bob plentyn o fewn unrhyw gategori oherwydd y byddai gwneud hynny'n mynd uwch law'r nifer derbyn, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r ymgeiswyr hynny sy'n dod i unrhyw un o'r categorïau a restrir yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- Byddai plant sydd â brawd neu chwaer (gan gynnwys llys-frawd/llys-chwaer yn byw yn yr un tŷ) yn mynychu'r ysgol ar yr adeg honno, yn cael eu derbyn pe byddai eu cais yn llwyddiannus, wedi eu dilyn gan
- Y rhai sy'n byw'n agosaf at yr ysgol. Mesurir agosrwydd drwy gyfrifo'r pellter cerdded byrraf o god post yr ysgol i god post y cartref fel y'i mesurir gan RAC Route Planner (Walking). Bydd y Pwyllgor Derbyn yn defnyddio prif god post yr ysgol, CF23 7ED. At ddibenion yr ymarfer hwn, y 'cyfeiriad cartref' i blant nad yw eu rhieni'n byw yn yr un cyfeiriad yw'r cyfeiriad lle bydd y plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. o leiaf 3 noson, Sul - Iau) yn ystod y tymor.

Bydd ceisiadau ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn, ar unrhyw adeg yn y flwyddyn, yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Derbyn yn unol â Pholisi a Meini Prawf Gordanysgrifio'r Ysgol.

### Meini Prawf Gordanysgrifio Ysgolion

1 Rhaid i blant sy'n "derbyn gofal" gan awdurdod lleol, a/neu sydd â datganiad a roddwyd gan yr awdurdod lleol, gael eu derbyn i'r ysgol.

2. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid, yn Anglicaniaid sy'n addoli gyda'r Eglwys yng Nghymru sy'n byw o fewn ardal weinidogaeth Cyncoed ac sydd wedi bod yn mynychu'r eglwys yn wythnosol, neu bob pythefnos, am o leiaf ddwy flynedd.

3. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad(aid), yn Anglicaniaid yr Eglwys yng Nghymru mewn gair a gweithred sy'n byw o fewn ardal Esgobaeth Mynwy neu Landaf, ac yn mynychu'r eglwys yn wythnosol, neu bob pythefnos am o leiaf ddwy flynedd.

4. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad(aid), yn mynychu Eglwysi yn wythnosol neu bob pythefnos, sy'n aelodau o Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) (Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon [CTBI] os wedi symud i Gymru yn ddiweddar) neu Y Gynghrair Efengylaidd neu blant sy'n mynychu eglwysi sy'n aelodau o Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) (Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon [CTBI] os wedi symud i Gymru yn ddiweddar) neu Y Gynghrair Efengylaidd ar eu pennau eu hunain neu yng nghwmni addolwyr gweithredol eraill ac wedi gwneud hynny am o leiaf ddwy flynedd cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Mae hyn yn cynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru; yr Eglwys Gristnogol Tsieineaidd; Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Undeb Bedyddwyr Cymru; yr Eglwys Fethodistaidd; yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig; Eglwysi Bedyddiol Cyfamodedig; Byddin yr Iachawdwriaeth; yr Eglwys Gatholig; Ffederasiwn yr Eglwysi Annibynnol; Cymdeithas y Crynwyr a'r Eglwys Uniongred. Rhaid i eglwysi fod yn aelodau o Cytûn neu'r Gynghrair Efengylaidd ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r Ysgol, a mynychu'r eglwys yn wythnosol, neu bob pythefnos am o leiaf ddwy flynedd

5. Plant y bydd ganddynt frawd neu chwaer (gan gynnwys llys-frawd/llys-chwaer yn byw yn yr un tŷ) yn mynychu'r ysgol ar yr adeg y byddent yn cael eu derbyn, pe byddai eu cais yn llwyddiannus.

6. Plant sydd, gyda'u rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid, yn mynychu bob wythnos/pythefnos unrhyw enwad Cristnogol, neu unrhyw Ffydd Byd-eang arall, nad ydynt yn rhan o gategorïau 1 i 4 uchod a lle mae'r enwad mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru ac y gall cynrychiolydd o'r sefydliad ffydd hwnnw gadarnhau eu cyfraniad hirdymor, ac y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

7. Plant sy'n byw gyda rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid o fewn ardal weinidogaeth Cyncoed

8. Plant y mae eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid yn gwneud cais iddynt gael eu derbyn am resymau eraill.

Ar yr amod bo'r Corff Llywodraethu bob amser yn cadw'r hawl i wyro oddi wrth y meini prawf hyn os oes ganddo dystiolaeth gref y bydd lles plentyn yn cael ei beryglu'n ddifrifol os na chaiff ei dderbyn i'r ysgol.

Wrth ystyried ceisiadau gan riant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid plant sy'n gwneud cais am le ar sail anghenion cymdeithasol neu feddygol, gall yr ysgol ymgynghori â'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, y Pennaeth a'r Awdurdod Lleol fel y bo'n briodol.

Penderfynir ar feini prawf categorïau 2, 3, 4 a 6 dim ond yng ngoleuni'r argymhelliad wedi ei lofnodi gan beriglor neu offeiriad â gofal am yr eglwys dan sylw.

Bydd cynigion cadarn o leoedd ar gyfer derbyniadau Medi 2024 yn cael eu hanfon at rieni erbyn 16 Ebrill 2024. Dylech anfon unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad yr Ysgol i dderbyn plentyn at Glerc y Llywodraethwyr d/o yr ysgol o fewn 15 diwrnod o ddyddiad y llythyr gwrthod. Caiff yna ei ystyried gan Bwyllgor Apêl Annibynnol.

O.N. Nid yw Addysg Feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni hawl i apelio os yw eu cais am le mewn Dosbarth Meithrin yn aflwyddiannus.

Cymhwysedd y polisi hwn: Bydd fersiynau newydd o'r polisi derbyn a gordanysgrifio hwn yn dod i rym o 1 Medi 2024 (dechrau'r flwyddyn academaidd newydd) ar ôl i'r Corff Llywodraethu llawn ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod rhieni plant sy'n cael eu derbyn yn cael digon o rybudd o'r polisi gordanysgrifio wrth ddewis ysgol.

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan

### POLISI DERBYN A CHANLLAW AR GYFER MEDI 2024

Ysgol ddydd gydaddysgol wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan ac un o'i nodau pennaf yw darparu addysg Gristnogol yn unol â dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru. Dyfernir lleoliadau yn yr ysgol yn ôl disgresiwn y Corff Llywodraethu sy'n adolygu ei bolisi derbyn yn flynyddol.

Y nifer derbyn arfaethedig yw nifer y disgyblion y bydd y Corff Llywodraethu yn eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Y nifer mynediad arfaethedig ar gyfer yr ysgol hon yw 30. Yn ogystal, mae 32 o leoedd rhan amser yn y Feithrinfa.

Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn nhymor yr Hydref yn y flwyddyn pan fyddant yn BUMP oed. Mae lleoedd meithrin yn cael eu dyfarnu yn nhymor yr Hydref yn y flwyddyn pan fyddant yn BEDAIR oed, fodd bynnag, nid yw lleoliad yn y dosbarth meithrin yn gwarantu lle ym mhrif gorff yr ysgol gan fod yna ail broses ymgeisio ar gyfer y Dosbarth Derbyn, fel ym mhob ysgol.

Rhaid i geisiadau meithrin gael eu gwneud drwy'r ysgol.

Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn Dosbarth Derbyn yn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio lle yn yr ysgol ar Borth Derbyniadau i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk.

Ceisir cymorth gan offeiriaid a gweinidogion y plwyf gan yr ysgol. Cysylltwch â ficer neu weinidog eich eglwys i'w hysbysu eich bod yn gwneud cais am le yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan a gofyn am ganiatâd i'w ddefnyddio fel canolwr.

Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn cyfarfod os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael. Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried ar ôl y ceisiadau a gyflwynwyd yn brydlon. Dim ond amgylchiadau eithriadol (e.e., salwch difrifol neu ddigwyddiad mawr) fyddai'n caniatáu i gais hwyr gael ei ystyried yn y rownd gyntaf o dderbyniadau.

Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar y dyddiad cynnig sef XXXXXXXX heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.

Mae gan rieni y bu eu cais i'r Dosbarth Derbyn yn aflwyddiannus yr hawl i apelio. Er mwyn arfer yr hawl honno, rhaid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn hysbysiad o gais aflwyddiannus. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Nid oes gweithdrefn apelio ar gyfer ceisiadau Meithrin gan nad yw addysg feithrin yn statudol.

Ar ôl dyrannu lleoedd, caiff plant sydd â chais aflwyddiannus eu rhoi ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent yn gwneud cais. Ar ôl hynny dylai'r rhieni wneud cais newydd am le. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros ar waith rhaid eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig. Mae'n rhaid i restrau aros beidio â rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd eu cais at y rhestr. Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i'r rownd dderbyn arferol ac mae ganddo flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio, rhaid ei osod uwchlaw y rhai sydd â blaenoriaeth is ac sydd eisoes ar y rhestr. Gall rhieni sydd am drafod safle ar y rhestr aros ffonio'r ysgol.

**Rhaid i unrhyw geisiadau 'yn ystod y flwyddyn' gael eu gwneud drwy'r ysgol (e.e. teuluoedd sydd wedi symud i'r ardal).**
Caiff ceisiadau am le mewn unrhyw grŵp blwyddyn, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, eu hystyried ar sail y lleoedd sydd ar gael ar yr adeg y mae'r panel derbyn yn cwrdd.

Mae gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd i flaenoriaethu derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal neu Blant a Arferai Dderbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol neu wedi derbyn llety ganddynt (e.e., plant â rhieni maeth) (Adran 22 Deddf Plant 1989). Bydd blaenoriaeth hefyd yn cael ei roi i blant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) neu nodyn yn lle hynny lle mae'r ysgol wedi'i henwi, gan gynnwys Plant gyda chyllid Blynyddoedd Cynnar

uwch gan y Panel Cynghori ar Achosion ar ddyddiad y cais. Mae'n bosibl y bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau gan blant sydd â chyflwr meddygol sylweddol y gellir ei gefnogi gan dystiolaeth ddogfennol gan Ymgynghorydd Meddygol neu Weithiwr Cymdeithasol gan roi rhesymau manwl pam y dylai'r plentyn gael ei dderbyn i Ysgol Gynradd Sain Ffagan yr Eglwys yng Nghymru.

Os yw nifer y ceisiadau sy'n weddill yn fwy na'r lleoedd disgyblion sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn plant y mae eu ceisiadau'n bodloni'r meini prawf gordanysgrifio yn y drefn ganlynol:

**Meini Prawf Gordanysgrifio Ysgol**

1 Plant sy'n Derbyn Gofal neu Blant a Arferai Dderbyn Gofal neu yn derbyn llety gan yr Awdurdod Lleol a nodir uchod; Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) gyda chyllid uwch fel yr amlinellir uchod. DS: Ers i'r polisi hwn gael ei gytuno mae'r Awdurdod Lleol wedi newid y ffordd y mae'n ariannu ADY (AAA) mewn ysgolion. Mae hyn yn golygu nad oes cyllid uwch bellach yn gysylltiedig â Chynlluniau Datblygu Unigol, felly, ni ellir cymhwyso'r rhan hon o faen prawf 1 mwyach. Gwnaed y newid ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y polisi hwn gau.

2 Plant y plwyf sydd yn mynychu eglwys Anglicanaidd gyda'u rhieni ar Ddydd Sul y rhan fwyaf o'r amser, ac y mae eu rhieni wedi bod yn aelodau gweithredol hirhoedlog o'r eglwys, fel y gall offeiriad y plwyf ei gadarnhau.

3 Plant a chanddynt frodyr neu chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol ar y dyddiad cofrestru.

4 Plant y plwyf sydd wedi bod yn mynychu Eglwys Gristnogol arall, lle na cheir darpariaeth addysgol enwadol amgen, sy'n mynychu gyda'u rhieni ar y rhan fwyaf o Suliau ac y mae eu rhieni wedi bod yn aelodau gweithredol hirhoedlog o'r eglwys, fel y gall eu gweinidog gadarnhau.

5 Plant y plwyf sydd, gyda'u rhieni, yn mynychu eglwys Gristnogol ar ddydd Sul y rhan fwyaf o'r amser, ac y mae eu rhieni wedi bod yn aelodau gweithredol hirhoedlog o'r eglwys, nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod. (Bydd hyn hefyd yn cynnwys Eglwysi a gyfansoddwyd yn ffurfiol megis Eglwysi Presbyteraidd Bethel ac Immanuel.)

6 Agosrwydd at yr ysgol, wedi ei fesur yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel yn ôl Cyngor Caerdydd.

DS: Caiff genedigaethau lluosog flaenoriaeth ym mhob maen prawf.

**Diffiniadau**

Pennir bod yn aelodau gweithredol hirhoedlog o'r eglwys drwy gyfeirio at y ffurflen gais a llythyr ategol gan offeiriaid plwyf neu weinidogion. Bydd yn cynnwys ymwneud â bywyd yr Eglwys (nid gwasanaethau'r Eglwys yn unig) a chyfraniad gweithgar i fywyd, gwaith a thystiolaeth yr Eglwys.

Bydd cymryd rhan hirhoedlog yn golygu cyfnod o ddwy flynedd o leiaf ac sydd yn parhau.

Mae plant y plwyf yn blant y mae eu man preswyl arferol ym mhlwyfi Sain Ffagan a Llanfihangel-ar-Elái, Glan Elái a Chaerau gyda Threlái. Ystyrir mai man preswylio arferol y plentyn yw'r eiddo preswyl lle mae'r person neu'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn preswylio ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau derbyn i'r ysgol. Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant, a bod y bobl hynny'n byw mewn gwahanol eiddo, man preswyl arferol y plentyn fyddai'r eiddo y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos, gan gynnwys penwythnosau.

Eglwys Gristnogol arall yw un sydd yn tanysgrifio i Eglwysi Cyfamodedig yng Nghymru, a/neu'n Aelodau o Cytûn a/neu'n aelodau o Gynghrair Efengylaidd Cymru.

Mae darpariaeth addysgol enwadol amgen ar gael ar hyn o bryd i aelodau'r Eglwys Gatholig. Er mwyn i'r maen prawf brodyr a chwiorydd fod yn gymwys, rhaid i un o'r amodau canlynol fodoli:

- mae brawd a / neu chwaer yn byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad.
- Mae llysfrawd a / neu lyschwaer (gan gynnwys hanner brawd / chwaer) yn preswylio yn barhaol yn yr un cyfeiriad.
- lle mae plant yn perthyn am fod eu rhieni'n briod, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

# Ysgol Gynradd Gatholig St Ffransis

## Polisi Derbyn 2024-2025

### Trefniadau derbyn

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig St. Ffransis. Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig St. Ffransis yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol hon. Y Nifer Derbyn yw 55 o blant. Mae'r Nifer Derbyn hwn yn berthnasol i'r Dosbarth Derbyn a phob blwyddyn arall yn yr ysgol. Yr oedran lleiaf posibl i gael mynediad i'r ysgol yw 4 oed ar yr amod bod 5ed pen-blwydd y plentyn yn disgyn rhwng 1 Medi a 31 Awst y flwyddyn academaidd honno.

### Sut i Wneud Cais

### Ymgeisio ar gyfer y Dosbarth Derbyn

Mae'n rhaid i Rieni/Gwarcheidwaid sy'n gwneud cais am le yn y Flwyddyn Dderbyn yn yr ysgol gwblhau ffurflen gais yr ysgol y gallwch ei chael gan swyddfa'r ysgol yn stfrancisprm@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch yr ysgol ar 02920 591666.

Rhaid i rieni/gwarcheidwaid hefyd fynegi dewis am le yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o ganlyniad eu cais ar y dyddiad cynnig sy'n cael ei osod gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Os ydych yn ymgeisydd hwyr, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais yr ysgol y gallwch ofyn amdani gan swyddfa'r ysgol – rhestrir y manylion cyswllt uchod.

Mae gan Rieni/Gwarcheidwaid yr hawl i fynegi dewis o ran ysgol. Bydd y dewis yn cael ei ystyried yn unigol a chydymffurfir â hynny lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod uchafswm statudol ar faint dosbarthiadau babanod sef 30 o ddisgyblion. Mae lleoedd yn cael eu darparu ar gyfer plant sydd, oherwydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), wedi cael cyllid Meithrin gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar neu'r Panel Cynghori ar Achosion ac i'r plant hynny sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle mae Ysgol Gynradd St. Ffransis wedi'i henwi'n glir ar y datganiad yn unol â Deddf Addysg 1996.

Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn fynychu'r ysgol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried gan bwyllgor derbyn y Corff Llywodraethu, drwy gyfeirio at y polisi hwn.

Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer derbyn, bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol yn cael eu defnyddio.

### Meini Prawf Gordanysgrifio ar gyfer Derbyniadau.

1. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n derbyn gofal ac a arferai dderbyn gofal.
2. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw ym Mhlwyf St. Ffransis a Phlwyf y Santes Clare, Trelái.
3. Plant Catholig wedi'u bedyddio o blwyfi cyfagos.

**Bydd angen Cadarnhad Bedydd ym mhob un o'r categorïau uchod.**

4. Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal o enwadau Cristnogol neu ffydd Anghristnogol arall.
5. Plant o ffydd Gristnogol arall y mae eu rhieni am iddynt gael addysg Gatholig. Dylai pob cais ddod gyda llythyr neu dystiolaeth addoli gan eu harweinydd crefyddol.
6. Plant nad ydynt yn Gristnogion y mae eu rhieni am iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Gatholig.

### Gofynion

Bydd angen Cadarnhad o Fedydd ar gyfer categorïau 1-3 a 5 drwy ddarparu copi o'r dystysgrif fedydd o'r plwyf perthnasol neu gadarnhad ysgrifenedig gan Offeiriad/Gweinidog presennol y plwyf. .

### Tystysgrif geni'r plentyn.

Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaus. Mae angen i hon fod yn ffurflen Treth Gyngor gyfredol gyda'r cyfeiriad post cywir neu ddogfennaeth gyfatebol e.e. datganiad budd-dal plant. DS – ni fydd biliau cyfleustodau yn cael eu derbyn. Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant ar y dyddiad a gyhoeddwyd h.y. ble maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd.

### Derbyniadau yn Ystod y Flwyddyn

**Ceisiadau meithrin, yn ystod y flwyddyn neu hwyr**

Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn Ysgol Gynradd Gatholig St Ffransis gwblhau ffurflen gais yr ysgol y gallwch ofyn amdani gan swyddfa'r ysgol yn stfrancisprm@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio'r ysgol yn uniongyrchol ar 02920 591666. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad y cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu. Pe bai'r llywodraethwyr yn cael mwy o geisiadau ar gyfer grŵp oedran na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu llenwi gan ddefnyddio'r Meini Prawf Gordanysgrifio uchod.

### Nodiadau Canllaw:

**Brodyr a chwiorydd**

Bydd plant a chanddynt frodyr/chwiorydd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig St. Ffransis yn ystod y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol yn cael blaenoriaeth ym mhob un o'r categorïau uchod. Pennir blaenoriaeth gan gyfeirio at y brawd/chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.

**Diffiniad Brawd/Chwaer**

Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

**Plant genedigaethau lluosog (e.e. gefeilliaid / tripledi ac ati)**

Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

**Agosrwydd**

Os bydd yn bosibl derbyn rhai ond dim pob un o'r plant sy'n dod o dan un categori penodol o fewn y Meini Prawf Gordanysgrifio, ffefrir y plant hynny y mae eu cartrefi o fewn y pellter cerdded diogel byrraf i brif fynedfa'r ysgol, a bydd y cyngor yn cyfrifo hyn.

**Plant sy'n Derbyn Gofal / Plant a Arferai Dderbyn Gofal**

Diffinnir Plant sy'n Derbyn Gofal fel plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Plant 1989. Plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (Plant sy'n Derbyn Gofal) neu'n derbyn llety ganddo e.e. rhieni maeth.

**Ceisiadau Hwyr**

Byddwn ond yn ystyried ceisiadau a fydd yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd.

**Rhestr Aros**

Caiff plant na chynigir lle iddynt eu rhoi ar restr aros. Mae trefn y flaenoriaeth ar y rhestr aros yr un fath ag ar gyfer y rhestr meini prawf gordanysgrifio. Ni roddir ystyriaeth i'r cyfnod o amser y bu plentyn ar restr aros.
Os yw cynnig o le yn cael ei wrthod, bydd y lle yn cael ei gynnig i'r plentyn cyntaf ar y rhestr aros. Bydd trefn y rhestr aros yn amrywio wrth i geisiadau hwyr gael eu derbyn, eu gwrthod a'u rhoi ar y rhestr aros yn nhrefn y meini prawf gordanysgrifio. Cedwir y rhestr aros tan 30 Medi.

**Yr Hawl i Apelio**

Pan fydd plentyn yn cael ei wrthod am le yn yr ysgol bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhiant yn rhoi manylion llawn ynglŷn â pham cafodd y cais ei wrthod. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Rhaid i rieni sydd am apelio gysylltu â'r ysgol am fanylion y broses apelio a gofyn am ffurflen apelio y mae'n rhaid ei dychwelyd i'r ysgol o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn llythyr y penderfyniad.
Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apeliadau annibynnol.

Diwygiwyd, cyflwynwyd a chymeradwywyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig St Francis

# Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd

## Polisi Derbyn 2024-2025

Lle o RAGORIAETH lle gall plant gyflawni eu llawn botensial yn eu Datblygiad Academaidd, Creadigol, Personol, Moesol ac Ysbrydol gyda Duw wrth eu hochr NHW. Mae Ysgol Gynradd Gatholig St. John Lloyd yn Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir sy'n gweithredu yng Nghymuned Gatholig St. John Lloyd a Phlwyf y Cymun Bendigaid, o fewn darpariaeth gyffredinol Archesgobaeth Caerdydd.

Nod y Llywodraethwyr yw cynnig addysg Gatholig, gan ofyn i unrhyw rieni sy'n gwneud cais am leoedd i'w plant gefnogi ethos a chymeriad Catholig yr ysgol. Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd yn parchu'n llawn gredoau rhieni a phlant o bob enwad a chefndir. Caiff disgyblion yn St. John Lloyd eu haddysgu i barchu a goddef eraill ac mae darpariaeth yn y rhaglen addysg grefyddol ar gyfer dysgu am grefyddau gwahanol.

Bydd Ysgol Gynradd Gatholig St. John Lloyd yn gweithredu yn unol â darpariaethau perthnasol y Codau Ymarfer statudol (Derbyniadau ac Apeliadau Llywodraeth Cymru 2013) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir a chyda'r gyfraith ar dderbyniadau fel y mae'n gymwys i ysgolion a gynhelir.

**Nifer Derbyn: 45**

Gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gatholig St. John Lloyd yn unig y mae'r cyfrifoldeb am dderbyniadau i'r ysgol a bydd yn derbyn hyd at nifer derbyn yr ysgol. Yr oedran lleiaf posibl i gael mynediad i'r ysgol yw 4 oed ar yr amod bod 5ed pen-blwydd y plentyn yn disgyn rhwng 1 Medi a 31 Awst y flwyddyn academaidd honno.
Noder nad yw derbyn plentyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau lle llawn amser yn y Dosbarth Derbyn

### Meini Prawf Gordanysgrifio

Bydd plant sydd â datganiad AAA/ADY sy'n enwi Ysgol Gynradd Gatholig St John Lloyd yn cael eu derbyn.
Pan fo'r galw'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir lleoedd i ymgeiswyr dan y categorïau a nodir isod yn y drefn flaenoriaeth ganlynol, gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal yn cael blaenoriaeth ym mhob un o'r categorïau gordanysgrifio.
Pan na fydd y Llywodraethwyr yn gallu cynnig lle i'r holl blant mewn categori gordanysgrifio penodol, cynigir lleoedd i blant genedigaeth luosog a'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol wedi'i fesur o gât yr ysgol yn Brynbala Way ar hyd y llwybr cerdded mwyaf diogel fel y pennir gan yr Awdurdod Lleol.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**
**(**Bydd angen Cadarnhad o Fedydd ar gyfer categorïau 1b i 4.)**

1a. Plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu'n derbyn llety ganddo e.e. rhieni maeth (adran 106 o Ddeddf Addysg 2005, Rheoliadau Addysg Cymru Gyfan 2009)
1b. Plant Catholig wedi'u bedyddio y mae eu teuluoedd yn byw ym mhlwyfi St John Lloyd a'r Cymun Bendigaid.
1c. Rhoddir lle yn awtomatig i ddisgyblion sydd â Datganiadau Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig lle enwir Ysgol Gynradd Gatholig St John Lloyd ar y Datganiad.
2. Plant Catholig wedi'u bedyddio ac sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar hyn o bryd.
3. Plant Catholig wedi'u bedyddio nad ydynt yn y categorïau uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd.
4. Plant Catholig wedi'u bedyddio nad ydynt yn byw yn Sir Caerdydd.
5. Plant wedi'u bedyddio i enwadau Cristnogol eraill sy'n byw yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt yng Nghategori 1. Ni fydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i geisiadau yn y categori hwn heb lythyr ategol yn cadarnhau bedydd.
6. Plant wedi'u bedyddio i enwadau Cristnogol eraill sy'n byw mewn ardaloedd ac eithrio'r rhai y cyfeiriwyd atynt yng Nghategori 1. Ni fydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i geisiadau yn y categori hwn heb lythyr ategol yn cadarnhau bedydd.
7. Plant heb eu bedyddio a chanddynt frodyr neu chwiorydd yn yr ysgol.
8. Plant heb eu bedyddio gan gynnwys plant o grefyddau eraill, sy'n ceisio addysg Gatholig.

### Diffiniad Brawd/Chwaer

Plant y byddai ganddynt frodyr/chwiorydd yn Ysgol Gynradd Gatholig St. John Lloyd yn ystod y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol. Pennir blaenoriaeth gan gyfeirio at y brawd/chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas.
Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Plant Genedigaeth Luosog (e.e. gefeilliaid/tripledi) - Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

### Y Panel Derbyn

Bydd y Panel Derbyn yn cyfarfod unwaith y tymor i drafod ceisiadau sy'n dod i law. Yna, gwahoddir unrhyw ymgeisydd llwyddiannus i gychwyn ar ddechrau'r hanner tymor canlynol. Gall cais gael ei ystyried drwy gynnal cyfarfod eithriadol, gan ganiatáu derbyn i ddilyn.

### Sut i Wneud Cais

Gall unrhyw riant wneud cais i'w blentyn fynychu'r ysgol. Gellir cael ffurflen gais o Swyddfa'r Ysgol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried drwy gyfeirio at y polisi yma.

### Yr Hawl i Apelio

Os gwrthodir lle mewn ysgol i blentyn, bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhieni gan roi manylion llawn y rhesymau dros wrthod y cais, yng ngoleuni'r meini prawf cyhoeddedig. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Rhaid anfon yr apêl ymlaen yn ysgrifenedig o fewn pedwar diwrnod ar ddeg at Glerc y Llywodraethwyr a fydd yn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Apêl Annibynnol.

### Rhestr Aros

Cedwir rhestr aros tan 30 Medi. Os daw lle ychwanegol ar gael bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio ac nid ar y dyddiad y derbyniwyd y cais.

# Ysgol Gynradd Sant Joseff

### Polisi Derbyn 2024-2025

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Sant Joseff ac o'r herwydd y Llywodraethwyr yw'r Awdurdod Derbyn.
Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.
Caiff Rhieni/Gwarcheidwaid eu cynghori i wneud cais am le yn ystod Tymor yr Hydref cyn y flwyddyn academaidd y mae eu plentyn i fod i ddechrau yn y Dosbarth Derbyn.
Mae'n rhaid i Rieni/Gwarcheidwaid sy'n gwneud cais am le yn y Flwyddyn Dderbyn yn yr ysgol gwblhau ffurflen gais yr ysgol y gallwch ei chael o swyddfa'r ysgol yn stjosephsprm@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch yr ysgol ar 02920 621625.

**Mae'n rhaid i Rieni/Gwarcheidwaid hefyd fynegi dewis am le yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk**

Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.
Mae gan Rieni/Gwarcheidwaid yr hawl i fynegi dewis o ran ysgol. Bydd y dewis yn cael ei ystyried yn unigol a chydymffurfir â hynny lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod uchafswm statudol ar faint dosbarthiadau babanod sef 30 o ddisgyblion.
Mae lleoedd yn cael eu darparu ar gyfer plant sydd, oherwydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), wedi cael cyllid Meithrin gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar neu'r Panel Cynghori ar Achosion ac i'r plant hynny sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle y mae Ysgol Gynradd Sant Joseff wedi'i henwi'n glir ar y datganiad yn unol â Deddf Addysg 1996
Pe bai'r llywodraethwyr yn cael mwy o geisiadau ar gyfer grŵp oedran na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu llenwi gan ddefnyddio'r Meini Prawf Gordanysgrifio isod.

### Meini Prawf Gordanysgrifio:

Bydd plant fydd â brodyr a chwiorydd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yn y flwyddyn y byddai'r plentyn yn ymuno â'r ysgol yn cael blaenoriaeth o dan bob maen prawf gordanysgrifio.

1. Rhoddir blaenoriaeth i Blant Catholig Bedyddiedig sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn unol ag Adran 106 Deddf Addysg 2005 a Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009:
2. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw ym Mhlwyf Sant Joseff
3. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw y tu allan i gategori 2
4. Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal nad ydynt yn dilyn y ffydd.
5. Plant Cristnogol o enwadau eraill sy'n byw yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt yng nghategori 2 (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan weinidog crefyddol).
6. Plant Cristnogol o enwadau eraill sy'n byw mewn ardaloedd y tu allan i'r rhai yng nghategori 2

(Mae angen tystysgrif bedydd neu lythyr gan weinidog).

7. Plant eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig yn Ysgol Sant Joseff.

### GOFYNION

a. Bydd angen prawf o fedydd ar gyfer categorïau 1-3 a 5-6.
b. Tystysgrif geni'r plentyn.
c. *Rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswylfa barhaol y plentyn ar adeg y cais. Bydd y dystiolaeth hon yn ffurflen Treth Gyngor gyfredol gyda'r cyfeiriad post cywir neu ddogfennaeth gyfatebol e.e. datganiad budd-dal plant neu gytundeb tenantiaeth. DS – ni fydd biliau cyfleustodau yn cael eu derbyn.
d. Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r plentyn a'i riant ar y dyddiad a gyhoeddwyd h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd

### Dyrannu'r Lleoedd Olaf

Os na all y corff llywodraethu gynnig lle i'r holl ymgeiswyr yn y maen prawf isaf, bydd rhaid dyrannu lleoedd yn ôl blaenoriaeth. Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel ac yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo hyn. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd. Caiff y llwybr cerdded mwyaf diogel ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr addasedig yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (RhTELl) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith llwybrau cerdded cyfrifiadurol yn seiliedig ar feini prawf Cymdeithas Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd yr Awdurdod Lleol, ac fe'i defnyddir i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl.

### Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (ALl) yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989, y mae'r ALl wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal ar adeg derbyn y plentyn i'r ysgol.

### Diffiniad brawd/chwaer

Plant y byddai ganddynt frodyr/chwiorydd yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yn y mis Medi y byddai'r ymgeiswyr yn dechrau yn yr ysgol. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn golygu plentyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn yn sgil y ffaith bod eu rhieni wedi priodi. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

### Genedigaethau lluosog

Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y Llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

### Rhestrau Aros

Pan fydd lle wedi'i wrthod, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar restr aros, a phan fydd lle yn dod ar gael bydd yn cael ei ddyrannu drwy gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, nid hyd y cyfnod ar y rhestr aros.

### Yr Hawl i Apelio

Os gwrthodir lle mewn ysgol i blentyn, bydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifennu at y rhieni gan roi manylion llawn y rhesymau dros wrthod y cais, yng ngoleuni'r meini prawf cyhoeddedig. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais. Rhaid i rieni sydd am apelio gysylltu â'r ysgol am fanylion y broses apêl a ffurflen apêl y mae'n rhaid ei dychwelyd i'r ysgol o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn llythyr y penderfyniad.
Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apeliadau annibynnol. Caiff penderfyniad y panel apeliadau ei wneud yn unol â'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion ac mae'r penderfyniad yn rhwymo'r holl bartïon.

# Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair

**Polisi Derbyn 2024-2025**

## Cyflwyniad

1. Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at y derbyniadau ym mis Medi 2023 i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair.

1.2 Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol fynegi ffafriaeth dros y lle hwnnw ar Borthol Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk

1.3 Bydd ymgeiswyr ar gyfer y dosbarth Derbyn yn cael gwybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar y dyddiad cynnig sef Dydd Llun 17 Ebrill 2023, oni bai eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses dderbyn cydlynol.

1.4 Ceisiadau i'r dosbarth Meithrin:

1.4.1 Mae gan blant yr hawl i gael lle meithrin rhan-amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae Rheoliad 4 Rheoliadau Addysg Cymru (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) yn dweud:

1.4.1.1 Gall plant sydd wedi eu geni rhwng 1 Ebrill a diwedd tymor yr Haf gael lle mewn ysgol ar ddechrau tymor yr Hydref

1.4.1.2 Gall plant sydd wedi eu geni rhwng 1 Medi a diwedd tymor yr Hydref gael lle mewn ysgol ar ddechrau tymor y Gaeaf

1.4.1.3 Gall plant sydd wedi eu geni rhwng 1 Ionawr a diwedd tymor y Gwanwyn gael lle mewn ysgol ar ddechrau tymor yr Haf

## 2. Ein Hysgol

2.1 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair.

2.2 Gan gydnabod sylfaen Gristnogol yr ysgol, pwysigrwydd ei hethos a'i chymeriad yn ogystal â'i gwerthoedd craidd, mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair yn rhoi ffydd wrth galon bywyd yr ysgol, ochr yn ochr ag ymrwymiad i gynnig lleoliad lle mae pobl o bob ffydd a dim ffydd yn cael eu gwerthfawrogi'n gydradd. Yn y cyd-destun hwn yr ystyrir fod taith ffydd pobl yn rhywbeth i'w ddathlu'n rhan o dreftadaeth gyfoethog ac amrywiol Butetown, Caerdydd a Chymru gyfoes.

2.3 Mae'r polisi hwn yn cydnabod bod yr ysgol yn tynnu ei disgyblion o amryw gefndiroedd, gan gynnwys:

- Teuluoedd sy'n aelodau yn addoli'n rhan o'r Eglwys yng Nghymru;
- Teuluoedd sy'n aelodau o enwadau Cristnogol eraill;
- Teuluoedd o grefyddau eraill sy'n cefnogi ethos a chymeriad yr ysgol;
- Teuluoedd sy'n byw yn y gymuned leol.

2.4 Mae'r ysgol yn cynnig 60 o leoedd ym mhob grŵp dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

2.5 Mae'r ysgol yn cynnig 30 o leoedd yng ngrwpiau blwyddyn 3 – 6.

2.6 Mae'r ysgol yn cynnig 80 o Leoedd Meithrin rhan amser, gyda 40 o leoedd yn y bore a 40 yn y prynhawn.

### Y Weithdrefn ar gyfer Derbyn

3.1 Mae'n rhaid i riant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol fynegi ffafriaeth dros y lle hwnnw ar Borthol Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk

## 3. Gordanysgrifio.

**Os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu defnyddio:**

Mae'r llywodraethwyr yn cynnig 60 o Leoedd ym mhob grŵp blwyddyn yn y cyfnod sylfaen a 30 o leoedd ar gyfer dosbarthiadau CA2.

Os bydd mwy na 60 o geisiadau ar gyfer y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, a mwy na 30 o geisiadau ar gyfer Blynyddoedd 3 - 6, bydd y llywodraethwyr yn cynnig lleoedd gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol yn y drefn a nodir.

Byddai plant sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael eu blaenoriaethu o fewn pob maen prawf.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu blant a arferai dderbyn gofal (fel y'u diffinnir gan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (005/2013).
2. Plant sydd ag anghenion dysgu penodol neu feddygol lle mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair wedi ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol; neu blant sydd â rheswm cymdeithasol grymus dros gael eu derbyn. Pan fydd mwy o geisiadau am leoedd ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf 3-4 eu defnyddio i benderfynu ar ba ddisgyblion eraill a gaiff eu derbyn.
3. Plant teuluoedd yr Eglwys yng Nghymru, neu'r rheiny sy'n perthyn i enwad Cristnogol arall , sy'n mynychu gwasanaethau ac yn addoli yng nghalon eu cymuned ffydd. Mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth.
4. Plant y mae gan eu teuluoedd ymrwymiad rheolaidd o fewn eu ffydd eu hunain (fel y cydnabyddir gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru) ac sydd yn benodol am i'w plant gael eu haddysg mewn ysgol sydd â chymeriad Cristnogol arbennig, lle mae ffydd a gwerthoedd yn cael eu dathlu. Mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth.
5. Disgyblion sy'n byw yn barhaol yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ar y dyddiad cau a gyhoeddwyd er mwyn derbyn ffurflenni dewis: rhaid cyflwyno tystiolaeth o le mae'r disgybl yn byw'n barhaol yn ôl y gofyn.
6. Plant sydd â brawd neu chwaer o oedran ysgol statudol a fydd ar y gofrestr pan fyddan nhw'n cael eu derbyn. Wrth ystyried brodyr a chwiorydd, rhoddir blaenoriaeth gyntaf i geisiadau gan frodyr a chwiorydd o enedigaethau lluosog.
7. Wrth benderfynu ar geisiadau i dderbyn plant eraill, bydd y Corff Llywodraethu'n rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol, fel y'i mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf ymarferol. Mae'r ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (SGDd) Cyngor Caerdydd i gyfrifo pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r ddau le degol agosaf.

## 4. Y Weithdrefn Apelio

4.1 Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu gweithdrefn Apelio.

4.2 Gall rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr plant na chawsant eu derbyn apelio yn erbyn y penderfyniad.

4.3 Penodir y panel gan Esgobaeth Llandaf ac mae'n gwbl annibynnol ar yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol

4.4 Dylid anfon hysbysiad o fwriad i apelio at Glerc y Llywodraethwyr, d/o yr ysgol.

# Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

## Polisi Derbyn 2024-2025

**Polisi Derbyn a Meini Prawf Gordanysgrifio**
**Nifer Derbyn a ddangosir 30**
**Capasiti'r Ysgol 272**
Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair sy'n gweithredu yng Nghymuned Gatholig Plwyf y Santes Fair, o fewn Archesgobaeth Caerdydd ac Awdurdod Lleol Cyngor Caerdydd.

Rydym yn darparu addysg Gatholig sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol yn y Santes Fair. Mae ein holl weithredoedd a'n penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â Datganiad Cenhadaeth ein hysgol:

*"Yn ôl troed Iesu, rydyn ni'n dysgu, yn caru ac yn tyfu gyda'n gilydd i fod y gorau y gallwn fod."*

Mae'n hanfodol bod natur Gatholig ein hysgol yn cael ei chefnogi'n llawn gan bob teulu a disgwylir bod ymgeiswyr yn dymuno addysg Gatholig i'w plentyn.
Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn gweithredu yn unol â holl ddarpariaethau perthnasol y Codau Ymarfer statudol (Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion 2013) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir a chyda'r gyfraith ar dderbyniadau fel y mae'n gymwys i ysgolion a gynhelir.

### Derbyn i Ysgol Feithrin
Mae ffurflenni cais ar gyfer y Feithrin ar gael o'r ysgol neu o wefan yr ysgol. Dim ond y person(au) sydd â chyfrifoldeb rhianta all wneud cais a dim ond un cais y gellir ei gyflwyno fesul plentyn.

### O Dderbyn Lle i'r Ddosbarth Derbyn
Wrth wneud cais i'n Dosbarth Derbyn, dylai rhieni fod yn ymwybodol nad yw mynychu ein Dosbarth Meithrin yn gwarantu lle yn ein Dosbarth Derbyn. Mae angen gwneud cais ar wahân ac ni roddir blaenoriaeth i blant sydd wedi mynychu ein Dosbarth Meithrin.
Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn Dosbarth Derbyn yn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio lle yn yr ysgol ar Borth Derbyniadau i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk.

**Rhaid anfon tystiolaeth o dystysgrif bedydd plentyn i'r ysgol.**

**Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais drwy e-bost gan y Cyngor ar ddyddiad y cynnig ???? 2024 heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol. Byddwch wedyn yn derbyn llythyr croeso gan yr ysgol.**

Yr oedran lleiaf posibl i gael mynediad i'r Dosbarth Derbyn yw 4 oed cyhyd â bod 5ed pen-blwydd y plentyn yn disgyn rhwng 1 Medi a 31 Awst y flwyddyn academaidd honno.

Y nifer derbyn a ddangosir ar gyfer yr ysgol yw 30. Pan fo nifer y ceisiadau yn hafal neu'n llai na'r nifer o lefydd sydd ar gael, bydd pob cais yn llwyddiannus. Fodd bynnag, os bydd nifer y ceisiadau yn uwch na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y Pwyllgor Derbyn yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio canlynol ac yn dyrannu lleoedd yn unol â hynny.

Os yw Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair wedi'i henwi ar ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig plentyn, mae ar y Pwyllgor Derbyn ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r ysgol honno cyn i'r meini prawf gordanysgrifio gael eu defnyddio yn erbyn y ceisiadau a ddaeth i law.

Ym mhob categori isod:
- Bydd y flaenoriaeth nesaf yn cael ei rhoi i frodyr a chwiorydd y disgyblion hynny sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ar yr adeg y bydd y plentyn yn cael ei dderbyn.

### Y Meini Prawf Gordanysgrifio yw:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG - plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) neu Blant a Arferai Dderbyn Gofal sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion neu sydd wedi eu derbyn yn ffurfiol i'r Eglwys Gatholig.
2. Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion, neu sydd wedi eu derbyn yn ffurfiol i'r Eglwys Gatholig, sy'n byw yn barhaol yn y dalgylch*.
3. Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion, neu sydd wedi eu derbyn yn ffurfiol i'r Eglwys Gatholig, nad ydynt yn byw yn barhaol yn y dalgylch*.
4. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG – plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) neu Blant a Arferai Dderbyn Gofal nad ydynt o'r Ffydd Gatholig.
5. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig, sy'n byw yn barhaol yn y dalgylch*.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig, nad ydynt yn byw yn barhaol yn y dalgylch*.
7. Plant o draddodiadau Ffyrdd eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig, sy'n byw yn barhaol yn y dalgylch*.
8. Plant o draddodiadau Ffyrdd eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig, nad ydynt yn byw yn barhaol yn y dalgylch*.
9. Plant eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig, sy'n byw yn barhaol yn y dalgylch*.
10. Plant eraill y mae eu rhieni wedi dangos awydd iddynt dderbyn addysg Gatholig, nad ydynt yn byw yn barhaol yn y dalgylch*.

** Dalgylch Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair:*
- *Afon Elái, ochr ddwyreiniol Rhodfa'r Gorllewin (A48) Ely Road a Heol Caerdydd.*
- *I gylchfan (y BBC) gan gynnwys Pentref Llandaf wedi'i ffinio gan Afon Taf hyd at y rheilffordd sy'n gyfochrog â Heol Parc Ninian.*
- *Dwy ochr Heol y Grange i'r ddwy ochr i Heol Bessemer a Heol Hadfield i Afon Elái.*

Os nad yw'r Pwyllgor Derbyniadau yn gallu dyrannu lle i'r holl blant mewn un categori penodol y mae eu rhieni'n Gatholigion gweithredol neu'n Gristnogion gweithredol, yna bydd blaenoriaeth yn seiliedig ar y rhai sy'n byw agosaf at Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut mae pellteroedd yn cael eu mesur, cyfeiriwch at y paragraff 'Pellter Rhwng y Cartref a'r Ysgol' yn yr adran 'Gwybodaeth Berthnasol'.

### GWYBODAETH BERTHNASOL
### Dogfennau Ychwanegol a Phrawf o Breswylfa
1. Y disgwyliad yw bod plant yn cael eu dysgu yn eu grŵp blwyddyn cronolegol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. Am y rheswm hwn, rhaid i geisiadau gael eu hategu gan lungopi o dystysgrif geni eich plentyn.
2. Mae'r Pwyllgor Derbyn hefyd yn gofyn am brawf o breswyliad i gefnogi pob cais er mwyn gwirio cyfeiriad eu cartref. Bydd y Cyngor yn gwirio cyfeiriadau Treth Gyngor at y diben hwn. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i Gyngor Caerdydd am unrhyw newid yn eich amgylchiadau ar ôl cyflwyno'ch cais. Gall newidiadau o'r fath gael effaith ar ganlyniad eich cais.
3. Os ydych wedi nodi bod eich plentyn wedi'i fedyddio'n Gatholig neu wedi'i dderbyn i'r Eglwys Gatholig, mae angen cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais. Rhaid i dystiolaeth gynnwys llungopi o

Dystysgrif Bedydd eich plentyn neu eirda gan y Gweinidog/Arweinydd Crefyddol. Os yw eich plentyn yn paratoi ar gyfer y sacrament ar hyn o bryd mae'n rhaid i offeiriad y plwyf gadarnhau hynny yn ysgrifenedig a bydd yn gyfystyr â 'bedydd'. Os na ddaw'r cadarnhad hwn yna fe fydd eich cais yn cael ei ystyried o dan y categorïau 'plant eraill' (Cat 9 a 10). **Bydd yr Awdurdod Derbyn yn ystyried yr oedran y cafodd eich plentyn ei fedyddio'n Gatholig gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.**

Os ydych wedi nodi bod eich plentyn o ffydd nad yw'n Gatholig, rhaid i'r dystiolaeth gynnwys geirda gan y Gweinidog/Arweinydd Crefyddol. Os na, yna fe fydd eich cais yn cael ei ystyried o dan y categorïau 'plant eraill' (Cat 9 a 10).

I ymgeiswyr Cristnogol dylid cynnwys llungopi o Dystysgrif Bedydd eich plentyn oni bai bod yr enwad penodol yn ffafrio bedydd oedolion ac os felly mae angen geirda gan y Gweinidog/Arweinydd Crefyddol . Os na, yna fe fydd eich cais yn cael ei ystyried o dan y categorïau 'plant eraill' (Cat 9 a 10). **Rhaid i'r dystiolaeth hon ddod yn uniongyrchol i'r ysgol.**

**Byddwn yn archwilio achosion o honiadau ffug ac mae'n bosibl y bydd lleoedd yn cael eu tynnu nôl os yw rhieni wedi cyflwyno gwybodaeth ffug er mwyn cael lle mewn ysgol benodol na fyddent fel arfer wedi cael lle ynddi.**

Dylai ymgeiswyr nodi, at ddibenion prosesu ceisiadau am leoedd ysgol, y bydd y wybodaeth yr ydych yn ei darparu ar y ffurflen gais o bosibl yn cael ei rhannu gydag asiantaethau eraill sy'n uniongyrchol ynghlwm wrth addysg, iechyd a lles plant ysgol, gan gynnwys awdurdodau derbyn lleol.

## Ceisiadau Hwyr

Caiff ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau, neu geisiadau anghyflawn ar ôl y dyddiad cau, eu prosesu ar ôl dyrannu'r lleoedd i geisiadau a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau, a gall hyn gynyddu'r posibilrwydd o beidio â chael lle yn Ysgol Gynradd y Santes Fair. Bydd unrhyw geisiadau hwyr yn cael eu ffeilio a'u prosesu gyda'i gilydd ar ddiwedd y mis ar ôl eu derbyn, a hynny ar ôl y dyddiad yr anfonir y cynnig. Fodd bynnag, bydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cyflwyno cyhoeddedig yn cael eu hystyried ynghyd â'r rhai a gafwyd erbyn y dyddiad cau dim ond os oes llythyr yn rhoi rhesymau eithriadol dros fod yn hwyr a dim ond os ydynt yn dod i law cyn y cynigir lleoedd. Gall rhesymau eithriadol gynnwys salwch difrifol rhiant sengl, newydd symud i'r ardal, neu ni fu'n bosibl cyflwyno cais erbyn y dyddiad cau gan eich bod yn cyrraedd o dramor.

## Dyrannu Lleoedd

Mae gan rieni/gofalwyr yr hawl i fynegi dewis i'w plentyn gael ei dderbyn i unrhyw ysgol a gynhelir o arian cyhoeddus. Nid yw gwneud cais a darparu'r dystiolaeth ategol berthnasol yn gwarantu mynediad i'r ysgol o'u dewis. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, ac yn cael ei dderbyn os oes modd. Os yw nifer y ceisiadau a ddaw i law ar neu'n is na nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol, bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn. Fodd bynnag, os daw mwy o geisiadau na'r nifer derbyn, mae'n bosibl y bydd rhaid gwrthod y cais. Dan yr amgylchiadau hyn, mae derbyniadau'n seiliedig ar feini prawf gordanysgrifio perthnasol yr ysgol. Bydd y Pwyllgor Derbyn yn ystyried pob cais a wneir yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio, heb gyfeirio at hil, rhyw, anabledd, cefndir cymdeithasol, gallu neu ddawn y plentyn.
Does gan benaethiaid ddim yr awdurdod i roi syniad i rieni o ganlyniad eu cais, na dweud wrthyn nhw bod eu plentyn wedi cael lle yn yr ysgol, cyn i gynnig o le gael ei wneud yn ffurfiol gan y Corff Llywodraethu.

## Derbyn Gohiriedig

Nid yw'r gyfraith yn gofyn i blentyn ddechrau'r ysgol tan ddechrau'r tymor wedi pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Yn unol â hyn, bydd y Corff Llywodraethu yn caniatáu i rieni ddewis gohirio lle eu plentyn yn y Dosbarth Derbyn tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Yn sgil hynny caiff y lle ei gadw i'r plentyn ac ni fydd modd ei gynnig i blentyn arall. Fodd bynnag, ni fydd modd i'r rhieni ohirio y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed, neu y tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y gwnaed y cais ar ei chyfer.

## Termau a Ddefnyddiwyd

- **Pellter o'r Cartref i'r Ysgol**

Mesurir y pellter hwn fel y "llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, yng nghwmni oedolyn yn ôl yr angen" rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (SGDd) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd i'r ddau le degol agosaf. Caiff y llwybr cerdded byrraf ei gyfrifo gan ddefnyddio data llwybr addasedig yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref ymgeisydd i'r gât ysgol agored agosaf.

- **Plant Personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision y Goron**

Caiff cyfeiriad staff Lluoedd y DU ei dderbyn os daw eu cais i law ynghyd â llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

- **Cyfrifoldeb Rhiant a Rennir**

Pan fydd rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos ysgol, ystyrir y cyfeiriad cartref fel y man mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 diwrnod ysgol allan o 5) ar adeg y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer cyflwyno cais. Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y cyfeiriad y dymunant iddo gael ei ystyried at ddibenion derbyn.

- **Brodyr a chwiorydd**

At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas neu drwy eu rhieni'n byw gyda'i gilydd). Mae'r hyn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Bydd ysgol ond yn ystyried brodyr a chwiorydd sy'n mynychu Blynyddoedd 1-6 yn ystod blwyddyn ysgol 2022-23.

## Genedigaethau Lluosog

Wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, os bydd yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y Pwyllgor Derbyn yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill.

## Rhestrau aros

- **Pontio**

Yn ystod proses bontio, pe bai'ch plentyn yn cael gwrthod lleoliad yn eich ysgol/ysgolion o ddewis, bydd enw eich plentyn yn parhau ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn y gwneir y cais. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig. Nid yw rhestrau aros yn rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr. Cyn 30 Medi, cysylltir â rhieni a gofynnir iddynt gadarnhau a ydynt am aros ar y rhestr aros neu beidio am weddill y flwyddyn academaidd. Ar ôl hynny gellir gwneud cais newydd.

- **Derbyn neu Drosglwyddo yn Ystod y Flwyddyn**

Pan fo cais am drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn yn cael ei wrthod, bydd enw'r plentyn yn aros ar restr aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pryd y gellir gwneud cais newydd. Os daw lleoedd

ychwanegol ar gael, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig. Nid yw rhestrau aros yn rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr.

**Rhai rhesymau posibl dros wrthod cais**

Er bod gan rieni'r hawl i fynegi dewis i'w plentyn gael ei dderbyn i unrhyw ysgol a gynhelir o arian cyhoeddus, mae rhesymau pam y gallai fod angen gwrthod y dewis hwnnw, oherwydd, wrth ddyrannu lle, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Derbyn hefyd roi sylw i'r canlynol:

- Y fenter maint dosbarth babanod sydd wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw blentyn 5, 6 neu 7 oed mewn dosbarth o fwy na 30 o ddisgyblion fesul athro cymwysedig. Mae'r terfyn maint dosbarthiadau babanod statudol o 30 disgybl yn berthnasol i ddosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.
- Cyfyngiadau corfforol yr ysgol ac adeiladau'r safle allai arwain at faint dosbarth o lai na 30 o ddisgyblion.
- Unrhyw ffactorau eraill a all effeithio ar ddarparu addysg effeithlon a / neu'r defnydd effeithlon o adnoddau.

**Eithriadau ar gyfer maint y dosbarth**

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethu gyfyngu maint dosbarthiadau babanod i ddim mwy na 30 disgybl a hefyd sicrhau lle bo hynny'n bosib nad yw maint dosbarthiadau iau yn fwy na 30 o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r rheoliadau hyn (a elwir 'disgyblion a eithrir') a allai ganiatáu i'r terfyn o 30 disgybl fesul dosbarth gael ei ragori. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu hamlinellu'n benodol yn y Cod Derbyn i Ysgolion statudol.

Bydd y disgyblion a eithrir yn parhau felly, wedi iddynt gael eu derbyn, am weddill eu hamser mewn dosbarth babanod neu hyd nes y bydd niferoedd y dosbarth yn disgyn a gellir eu trefnu i gydymffurfio â therfyn maint dosbarth babanod. Rhaid trefnu dosbarthiadau er mwyn cydymffurfio â'r terfyn lle bo hynny'n bosibl.

### Apeliadau Ysgol

Mae gan rieni'r hawl statudol i apelio yn erbyn penderfyniad y Corff Llywodraethu i wrthod eu cais am dderbyn eu plentyn, a dylent roi eu rhesymau dros apelio'n ysgrifenedig yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y llythyr penderfyniad.

Clywir yr apêl gan Banel Apeliadau Annibynnol na fydd y Corff Llywodraethu na'r Pennaeth yn rhan ohono. Mae pob parti'n rhwym wrth benderfyniad y Panel Apeliadau.

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

### Polisi a Chanllawiau Derbyn ar gyfer 2024 –2025

Ysgol gydaddysgol wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac un o'i nodau pennaf yw darparu addysg Gristnogol yn unol â defodau, seremonïau a dysgeidiaeth y ffydd Anglicanaidd fel yr ymarferir drwy'r Eglwys yng Nghymru. Dylai rhieni fod yn ymwybodol bod ffydd a dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac yn sgil hynny, maent ymhlyg ym mhopeth a wnawn yn yr ysgol. Fel ysgol gwbl gynhwysol, mae croeso mawr i blant o bob ffydd a heb ffydd ymgeisio. Dyfernir lleoedd yn yr ysgol yn ôl disgresiwn y Corff Llywodraethu ar sail unigol, sy'n adolygu ei bolisi derbyn yn flynyddol.

Y nifer derbyn safonol yw nifer y disgyblion y bydd y Corff Llywodraethu yn eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Y nifer safonol ar gyfer yr ysgol hon yw 20. Mae'r Corff Llywodraethu wedi penderfynu mai dyma fydd yr uchafswm fydd yn cael eu derbyn i grŵp blwyddyn oherwydd cyfyngiadau lle yn yr ysgol, oni bai ei fod yn cynnwys "disgyblion a eithrir" fel y nodir gan y Rheoliadau. Ni fydd y cyfanswm o leoedd yn yr ysgol yn fwy na 145 o ddisgyblion, ac eithrio ar sail dosturiol.

Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn nhymor yr hydref yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump oed.

Bydd ffurflenni cais yn cael eu rhoi i bawb sy'n mynegi diddordeb yn yr ysgol. Rhaid dychwelyd ffurflenni wedi'u cwblhau yn unol â dyddiadau Awdurdod Lleol Caerdydd. Bydd yr ysgol yn gofyn am eirdaon gan arweinwyr crefyddol pe bai nifer yr ymgeiswyr yn uwch na'r lleoedd sydd ar gael. Dan y fath amgylchiadau bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn cwrdd. Bydd rhieni'n cael gwybod am y canlyniad yn unol â dyddiadau Awdurdod Lleol Caerdydd.

Mae gan rieni y bu eu cais yn aflwyddiannus yr hawl i apelio. Er mwyn arfer yr hawl honno, rhaid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i Glerc y Bwrdd Llywodraethu o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn y llythyr gwrthod. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

Bydd pob ymgeisydd aflwyddiannus yn cael ei roi ar restr aros. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bod y rhestr aros ar waith, cânt eu dyrannu ar sail y meini prawf gordanysgrifio, ac nid yn ôl y dyddiad yr ychwanegwyd yr ymgeiswyr at y rhestr. Bydd y rhestr aros yn weithredol tan 31 Awst 2025 neu hyd nes nad oes angen y lle mwyach.

Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau ar gyfer plant sy'n "derbyn gofal" gan yr Awdurdod Lleol, neu sy'n cael llety ganddo (e.e. plant sydd â rhieni maeth) (Adran 22 Deddf Plant 1989), lle bo'r ysgol wedi'i henwi fel y lleoliad addysg mwyaf priodol.

Caiff ceisiadau am le mewn unrhyw grŵp blwyddyn, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, eu hystyried ar sail y lleoedd sydd ar gael ar yr adeg y mae'r panel derbyn yn cwrdd.

Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na'r lleoedd disgyblion sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn plant y mae eu ceisiadau'n bodloni'r meini prawf gordanysgrifio yn y drefn ganlynol:

1. Plant sy'n byw yn Ardal Weinidogaeth y Rhath a Cathays ac yn mynychu eglwys Anglicanaidd yn Ardal Weinidogaeth y Rhath a Cathays ar ddydd Sul y rhan fwyaf o'r amser ac sydd wedi bod yn aelodau gweithredol o'r Cymundeb Anglicanaidd ac y mae eu ficer wedi cadarnhau eu cyfranogiad hirdymor.

2. Plant sy'n byw yn y Rhath ac Ardal Weinidogaeth Cathays ac yn mynychu eglwys Anglicanaidd mewn Ardal Weinidogaeth arall ar ddydd Sul y rhan fwyaf o'r amser ac sydd wedi bod yn aelodau gweithredol o'r Cymundeb Anglicanaidd ac y mae eu ficer wedi cadarnhau eu cyfranogiad hirdymor.

3. Plant sy'n byw yn y Rhath ac Ardal Weinidogaeth Cathays a, gyda'u rhieni, yn mynychu Eglwys Gristnogol arall ac y mae eu Hoffeiriad neu eu Gweinidog wedi cadarnhau eu cyfranogiad hirdymor.

4. Plant sydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol ar ddyddiad cofrestru a/neu blant y mae eu ceisiadau ar sail feddygol neu dosturiol. Dylai ceisiadau o'r fath gael eu cefnogi drwy gyngor allanol lle bo hynny'n briodol.

5. Plant o unrhyw ffydd sy'n byw o fewn Ardal Weinidogaeth y Rhath a Cathays y mae eu cyfranogiad hirdymor yn gallu cael ei gadarnhau gan uwch gynrychiolydd y sefydliad ffydd hwnnw, ac y mae eu teuluoedd yn dymuno i'w plentyn gael ei addysg mewn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

6. Plant sy'n byw y tu hwnt i Ardal Weinidogaeth y Rhath a Cathays a, gyda'u rhieni, yn mynychu Eglwys Gristnogol arall ac y mae eu Hoffeiriad neu eu Gweinidog wedi cadarnhau eu cyfranogiad hirdymor.

7. Plant sy'n byw o fewn Ardal Weinidogaeth y Rhath a Cathays nad ydynt yn arddel unrhyw ffydd ac y mae eu teulu yn dymuno iddynt gael eu haddysgu yn un o Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.

8. Plant o unrhyw ffydd sy'n byw y tu hwnt i Ardal Weinidogaeth y Rhath a Cathays y mae eu cyfranogiad hirdymor yn gallu cael ei gadarnhau gan uwch gynrychiolydd y sefydliad ffydd hwnnw, ac y mae eu teuluoedd yn dymuno i'w plentyn gael ei addysg mewn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

9. Plant sy'n byw y tu hwnt i Ardal Weinidogaeth y Rhath a Cathays nad ydynt yn arddel unrhyw ffydd ac y mae eu teulu yn dymuno iddynt gael eu haddysgu yn un o Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.

(DS ym mhob cam, rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.)

Os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o fewn un o gategorïau'r meini prawf, bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol.

**Diffiniadau**

Gwneir penderfyniad ar aelodau mewn gair a gweithred trwy gyfeirio at y ffurflen gais a bydd yr ysgol yn gofyn am lythyr o gefnogaeth gan arweinwyr crefyddol. Bydd cymryd rhan hirdymor yn golygu cyfnod o ddwy flynedd o leiaf ac sydd yn parhau.

Ystyrir mai preswylfa yw man preswylio arferol y plentyn – eiddo lle mae'r person neu bersonau â chyfrifoldeb rhiant yn byw ar y dyddiad cau ar gyfer derbyn y ceisiadau derbyn i'r ysgol. Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant, a bod y bobl hynny'n byw mewn gwahanol eiddo, man preswyl arferol y plentyn fyddai'r eiddo y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos, gan gynnwys penwythnosau.

Er mwyn i'r meini prawf brodyr a chwiorydd fod yn berthnasol, ystyrir bod brawd a/neu chwaer (gan gynnwys hanner brodyr/chwiorydd a llysfrawd a/neu lyschwaer) yn preswylio'n barhaol yn yr un cyfeiriad.

Diffinnir 'rhiant' fel rhywun sydd â chyfrifoldeb rhianta dros y plentyn neu'n brif ofalwr y plentyn.

Bydd pellter i'r ysgol yn cael ei fesur gan ddefnyddio llwybr cerdded byrraf Google Maps, gan ddefnyddio'r cod post cartref i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

## Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant

### Polisi Derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant 2024/2025

**Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant**

Polisi Derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant a Meini Prawf Gordanysgrifio ar gyfer Niferoedd Derbyn a Nodir 45 Capasiti'r Ysgol 315 Mae'r polisi derbyn yn berthnasol i dderbyniadau yn y flwyddyn academaidd 2024 - 2025

Nod Ysgol Gynradd Gatholig Gatholig Padrig yw darparu addysg Gatholig Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac ymarfer Catholig yn treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig addysg yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llawn gan bob teulu yn yr ysgol. Disgwylir bod pob ymgeisydd yn dymuno addysg Gatholig i'w plentyn ac felly byddant yn rhoi eu cefnogaeth lawn, lwyr a chadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol.

Y Nifer Derbyn Safonol (NDS) ar gyfer y dosbarth Derbyn yw 45. Capasiti'r ysgol yw 315. Y Corff Llywodraethu yn unig sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol hon.

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant yn gweithredu yn unol â darpariaethau perthnasol y codau ymarfer statudol (Cod Derbyn i Ysgolion a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion 2013 Llywodraeth Cymru) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir ac yn unol â'r gyfraith ar dderbyniadau i ysgolion a gynhelir.

Bydd cyfeiriad yn y codau at "awdurdodau derbyn" yn gyfeiriadau at Gorff Llywodraethu Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant. Ystyrir cyfeiriadau at "yr Awdurdod Lleol" neu "ALl" yn gyfeiriadau at Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd. Yn benodol,

bydd Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant yn rhoi sylw i gyngor Archesgobaeth Caerdydd a bydd yn cymryd rhan yn y trefniadau derbyn cydlynol a weithredir gan yr Awdurdod Lleol.

Yn unol â pholisïau derbyn ysgolion Cyngor Dinas Caerdydd bydd ceisiadau derbyn i Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant yn cael eu gwneud yn unol â dewis rhieni. Y Nifer Derbyn a Nodir yw 45. Mae'r niferoedd derbyn a nodir ar gyfer ysgolion yn deillio o allu corfforol yr ysgol i ddarparu ar gyfer dysgu disgyblion gan ddefnyddio fformiwla a nodir yn Natganiad agoriadol Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 021/2011.
Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros benderfynu ar dderbyniadau i'w 'Bwyllgor Derbyn'. Mae gan y Pwyllgor hwnnw o leiaf dri llywodraethwr y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn bennaeth. Yn unol â hynny, bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Catholig Padrig Sant, os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yn derbyn yn ôl y meini prawf gordanysgrifio yn y grŵp oedran perthnasol.

1. Fel y flaenoriaeth uchaf, ni fydd Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Padrig Sant yn mynd dros nifer derbyn yr ysgol nac yn torri'r cyfyngiadau a osodir gan uchafswm maint dosbarth statudol (30) lle bo hyn yn berthnasol.

3. Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn Flwyddyn Dosbarth Derbyn yn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio cael lle yn yr ysgol ar Borth Derbyniadau i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk a chwblhau ffurflen gais yr ysgol hefyd. Dim ond y person/au â chyfrifoldeb rhiant all wneud cais ar gyfer yr ymgeisydd a enwir. Bydd gofyn i'r person a fydd yn cwblhau'r cais wneud datganiad i'r diben hwnnw. Mae gan rieni y bu eu cais yn aflwyddiannus yr hawl i apelio. I wneud apêl mae'n rhaid i rieni lenwi ffurflen apêl a'i hanfon at Gadeirydd y Llywodraethwyr cyn pen 15 diwrnod o dderbyn hysbysiad o gais aflwyddiannus. Bydd yr apêl yn cael ei ystyried gan banel annibynnol sy'n cael ei weinyddu gan y Bwrdd Llywodraethu. Ar ôl dyrannu llefydd, bydd plant sydd wedi bod yn aflwyddiannus yn cael eu rhoi ar ein rhestr aros. Am weddill y flwyddyn os bydd lleoedd ar gael fe'u dyrannir ar sail y meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd (gweler isod). Nid yw rhestrau aros yn rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr. Er enghraifft, os yw plentyn yn gwneud cais y tu allan i'r rownd dderbyn arferol ac mae ganddo flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio, rhaid eu gosod ar y rhestr uwch law y rhai sydd â blaenoriaeth is ac eisoes ar y rhestr. Bydd y rhestr aros yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y gwnaed y cais ynddi neu hyd nes na fydd angen y lle mwyach (pa un bynnag ddaw gyntaf).

## Meini Prawf

5. Gordanysgrifio O fewn y meini prawf canlynol, rhoddir blaenoriaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal yn unol ag Adran 106 o Ddeddf Addysg 2005 a Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009: Plant Catholig Bedyddiedig sy'n derbyn gofal ac a arferai dderbyn gofal

1. Plant Catholig Bedyddiedig y mae eu teuluoedd yn byw ym Mhlwyf Padrig Sant.
2. Plant Catholig Bedyddiedig sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar hyn o bryd.
3. Plant Catholig Bedyddiedig nad ydynt yn y categorïau uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd. 4. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw y tu allan i Sir Caerdydd.

Bydd angen Tystiolaeth o Fedydd ar gyfer categorïau 1 i 4.

5. Plant wedi'u bedyddio i enwadau Cristnogol eraill (fel y diffinnir yn y nodiadau isod) sy'n byw yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt yng Nghategori 1. Ni fydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn y categori hwn o Bolisi Derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant yn 2023/2024 oni ddarperir llythyr cysylltiedig yn cadarnhau bedydd. Os na dderbynnir llythyr, bydd y cais yn cael ei ystyried o dan gategori 9.
6. Plant o grefyddau eraill nad ydynt wedi'u rhestru, sy'n dymuno addysg Gatholig.
7. Plant heb eu bedyddio a chanddynt frodyr neu chwiorydd yn yr ysgol
8. Plant heb eu bedyddio.

## DIFFINIADAU

Yn y polisi hwn, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Cymalau 1,2,3,4 y defnydd o'r term "Catholig."

Catholig: yn golygu aelod o eglwys mewn cymundeb lawn gydag Esgobaeth Rufain. Mae hyn yn cynnwys Eglwysi Catholig y Dwyrain. Fel arfer, bydd tystiolaeth o hyn ar gyfer plentyn drwy dystysgrif bedydd mewn Eglwys Gatholig neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yr Eglwys Gatholig.

At ddibenion y polisi hwn, mae'n cynnwys plentyn sy'n derbyn gofal sy'n rhan o deulu Catholig lle mae llythyr gan offeiriad yn dangos y byddai'r plentyn wedi cael ei fedyddio neu ei dderbyn oni bai am ei statws fel plentyn sy'n derbyn gofal (e.e. plentyn sy'n derbyn gofal sydd yn y broses o gael ei fabwysiadu gan deulu Catholig).

Er mwyn i blentyn gael ei drin fel plentyn Catholig, bydd angen tystiolaeth o fedydd neu dderbyn i'r Eglwys. Dylai'r rhai sy'n cael trafferth cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf a fydd, ar ôl ymgynghori â'r Esgobaeth, yn penderfynu sut mae'r cwestiwn o fedyddio i'w ddatrys a sut i gynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfreithiau'r Eglwys.

Nodiadau ar gyfer Cymalau 6 a 7: Plant y mae eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn mynychu Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) mewn gair a gweithred.

Mae hyn yn cynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru; Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Undeb Bedyddwyr Cymru; yr Eglwys Fethodistaidd; yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig; Eglwysi Bedyddiol Cyfamodol; Byddin yr Iachawdwriaeth; yr Eglwys Gatholig; Ffederasiwn yr Eglwysi Annibynnol; Cymdeithas y Crynwyr; yr Eglwys Uniongred. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau yn y categori hwn oni bai bod datganiad ynghlwm o gysylltiad neu eirda a lofnodwyd gan y gweinidog neu gynrychiolydd yr eglwys yn cadarnhau aelodaeth o'r eglwys.

Nodiadau ar gyfer cymal 2 a 7: Wrth ystyried brodyr a chwiorydd, rhoddir blaenoriaeth gyntaf i geisiadau gan frodyr a chwiorydd o enedigaeth luosog. At ddibenion derbyn, brawd neu chwaer yw plentyn sy'n byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad â'r disgybl sy'n gwneud cais am le sydd yn frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn yn sgîl y ffaith bod eu rhieni yn briod, yn cyd-fyw neu mewn perthynas sifil. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

## Noder y canlynol:

Cadarnhad Bedydd Bydd angen Cadarnhad Bedydd drwy ddarparu copi o'r dystysgrif bedydd o'r plwyf perthnasol neu gadarnhad ysgrifenedig gan yr offeiriad plwyf presennol.

Cristnogion o enwadau eraill: Yn yr un modd bydd yr un egwyddor o brawf bedydd neu aelodaeth o'r enwad gan weinidog perthnasol yn berthnasol.

**Cyfeiriad Cartref**
Mae'r Awdurdod Derbyn hefyd angen prawf preswyliad i gefnogi pob cais, ac i'r diben hwn rhaid i rieni/gofalwyr gyflwyno copi o'u Datganiad Treth Gyngor presennol, bil cyfleustodau diweddar, cyfriflen banc neu drwydded yrru er mwyn dilysu eu cyfeiriad cartref.

**Looked after Children.**
Gofal Diffinnir Plentyn sy'n Derbyn Gofal fel plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989. Caiff plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu'n derbyn llety ganddo e.e. rhieni maeth (adran 106 Deddf Addysg 2005, Rheoliadau Addysg Cymru Gyfan 2009) a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal flaenoriaeth ym mhob cymal o'r Meini Prawf Gordanysgrifio.

**Plant Aelodau o Luoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron**
The address of UK service Personnel will be accepted if their application form is accompanied by an official Ministry of Defence (MoD) letter declaring a definite return date and confirmation of the new address.

**Diffiniad o Frawd/Chwaer**
Caiff cyfeiriad staff Lluoedd y DU ei dderbyn os daw eu cais i law ynghyd â llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd. Diffiniad Brawd neu Chwaer Plant y byddai ganddynt frodyr/chwiorydd yn Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant yn ystod y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol. Bydd efeilliaid, tripledi neu bedrypledi yn cael blaenoriaeth dros frodyr a chwiorydd unigol. Pennir blaenoriaeth yn y categori hwn yn ôl brawd/chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad brawd neu chwaer yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Efeilliaid, tripledi neu bedrypledi a gaiff eu hystyried yn y lle cyntaf wrth dderbyn unrhyw frodyr/chwiorydd.

**Cyfrifoldeb Rhiant a Rennir**
Pan fydd rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos ysgol, ystyrir y cyfeiriad cartref fel y man lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 diwrnod ysgol allan o 5) ar adeg y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer cyflwyno cais. Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y cyfeiriad y dymunant iddo gael ei ystyried at ddibenion derbyn.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Ni all ysgolion wrthod plentyn sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol hyd yn oed os byddant, drwy wneud hynny, yn fwy na'u rhif derbyn. Bydd disgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig Unigol lle enwir Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant ar y Datganiad yn cael eu derbyn yn awtomatig.

**Torri'r Ddadl**
Os bydd angen torri'r ddadl wrth ddyrannu'r lleoedd olaf bydd y llywodraethwyr yn derbyn y plant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter ei fesur o ddrws blaen mynedfa'r dderbynfa i ddrws blaen ty neu fflat yr ymgeisydd. Yn achos plentyn y mae rhieni'n rhannu cyfrifoldeb drosto, y rhiant sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf dros y plentyn yn ystod yr wythnos ysgol ac sydd â'r breswylfa agosaf i'r ysgol fydd y ffactor penderfynu. Rhaid darparu llythyr gan y rhieni i gadarnhau hynny. Bydd yr ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd. (Dyma'r system sy'n berthnasol i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd) Cyfrifir y llwybr cerdded byrraf gan ddefnyddio data llwybr addasedig yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref ymgeisydd at gât agored agosaf yr ysgol. Mae cydlynu cyfeiriad cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad yr AO.

**Ceisiadau Hwyr**
Yn dilyn y rownd gyntaf o ddyraniadau, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf derbyn cyhoeddedig. Bydd unrhyw geisiadau a gaiff eu gwrthod yn dilyn y cylch dyrannu cyntaf ynghyd â cheisiadau hwyr dilynol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd os daw unrhyw leoedd ar gael maes o law. Bydd plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu derbyn. Rhestr Aros Caiff rhestr aros ei chadw. Os daw lle ychwanegol ar gael bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig ac nid ar y dyddiad y derbyniwyd y cais. Os daw lle ar gael cyn i banel apeliadau derbyn gael ei gynnal, bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai sydd ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio. Os yw'r llywodraethwyr yn gosod ymgeisydd ar restr aros ni fydd yn effeithio ar hawl y rhiant i apelio. Rhaid gwneud ceisiadau drwy ffurflen gais wedi'i chwblhau a'i dychwelyd i Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant, yr Awdurdod Derbyn.

Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethol yn cyfarfod i benderfynu ar dderbyniadau ac, os oes angen, cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio. Bydd rhieni'n cael gwybod drwy:

Bydd gan rieni'r hawl i apelio at Banel Apeliadau Annibynnol os ydynt yn anfodlon â phenderfyniad derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant. Bydd y Panel Apeliadau yn annibynnol o'r ysgol. Bydd y trefniadau ar gyfer Apeliadau yn unol â'r Cod Ymarfer ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2009. Caiff penderfyniad y panel apeliadau ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion a bydd yn rhwymo'r holl bartïon. Ymdrinnir ag apeliadau o fewn trideg diwrnod ysgol. Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried a hysbysir ymgeiswyr o fewn 15 diwrnod ysgol os oes lle ar gael. Cedwir rhestr aros tan 30 Medi yn ystod y flwyddyn ysgol y gwnaed y cais. Os daw lleoedd ar gael, cânt eu dyrannu yn ôl y meini prawf gordanysgrifio. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni am safle eu plentyn ar y rhestr aros. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhiant os yw lle wedi'i ddyrannu. Os gwrthodir yr ymgeisydd, bydd y rhiant yn cael ei hysbysu ac yn cael y wybodaeth ganlynol

- Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd
- Nifer ar gael
- Meini prawf gordanysgrifio
- Yr hawl i apelio
- Proses ar gyfer yr apêl honno
- Dyddiad cau ar gyfer ymateb
- Rheswm dros wrthod

Gellir cael manylion y weithdrefn i'w dilyn os ystyrir apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Llywodraethwyr ar dderbyn ceisiadau gan Bwyllgor Apeliadau Derbyn d/l Clerc y Corff Llywodraethu yn yr Ysgol Gatholig Padrig Sant Gwybodaeth Proses Apeliadau Nodiadau i rieni sy'n apelio yn erbyn penderfyniad y Corff Llywodraethol i beidio â derbyn ymgeisydd.

Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Padrig Sant yw'r Awdurdod Derbyn ac mae'n ofynnol iddo wneud trefniadau ar gyfer clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio â chynnig lle i blentyn yn yr ysgol

**Apeliadau Derbyn**
Mae gan rieni hawl i apelio os bydd eu cais am le yn aflwyddiannus. Rhaid cyflwyno apeliadau i Glerc y Panel Apeliadau a chaiff Apeliadau eu clywed o fewn tri deg diwrnod ysgol.

**Apeliadau Hwyr**
Pan gyflwynir apêl wedi'r dyddiad penodedig, bydd fel arfer ond yn cael ei ystyried lle gall y rhiant ddangos bod achos rhesymol i'r apêl beidio â chael ei gwneud ar amser. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at y rhieni yn eu cynghori a oes apêl hwyr i'w chlywed yng ngoleuni'r amgylchiadau a ddisgrifir gan y rhieni.

**Panel Apêl**
Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Padrig Sant yw'r Awdurdod Derbyn ac mae'n ofynnol iddo wneud trefniadau ar gyfer clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio â chynnig lle i blentyn yn yr ysgol

Clywir apeliadau derbyn gan Banel Apêl annibynnol sy'n cynnwys o leiaf tri aelod, a sefydlwyd gan yr ysgol yn unol â rheoliadau'r Cod Ymarfer Apeliadau Derbyn

Mae o leiaf un aelod o'r Panel yn aelod lleyg; hynny yw, rhywun heb brofiad personol o reoli unrhyw ysgol neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol. Mae gan o leiaf un aelod brofiad ym myd addysg; hynny yw, rhywun sy'n gyfarwydd ag amodau addysgol yn yr ardal neu sy'n rhiant i ddisgybl cofrestredig mewn ysgol. Mae un aelod yn gweithredu fel Cadeirydd y Panel.

Ni chaiff neb fod yn aelod o'r Panel Apeliadau os oedden nhw'n rhan o'r penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn y mae'r apêl yn ei drafod, neu wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynghylch sut y daethpwyd i'r penderfyniad.

Ni ddylai rhieni geisio trafod materion yn ymwneud â'u hapêl gydag unrhyw aelod o'r Panel Apeliadau cyn y cyfarfod.

**Pwerau'r Panel Apeliadau**
Mae penderfyniad y Panel Apêl yn rhwymo'r Awdurdod Derbyn. Os yw'r Panel yn derbyn yr apêl a gyflwynir gan y rhieni, rhaid i'r plentyn gael ei dderbyn i'r Ysgol. Unwaith y bydd Panel Apeliadau wedi ystyried apêl, nid yw'n ofynnol iddo glywed ail apêl yn ymwneud â'r un plentyn i'w dderbyn i'r ysgol yn yr un flwyddyn academaidd.

Gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio i gwynion ysgrifenedig am gamweinyddu ar ran panel apeliadau derbyn. Bydd yn ymdrin â materion fel methiant i weithredu'n annibynnol neu'n deg ond nid yw hynny'n cynnwys pan fo person yn syml yn teimlo bod y penderfyniad yn anghywir.

Dim ond y Llysoedd all wyrdroi penderfyniad Panel Apeliadau, lle mae'r rhieni neu'r Awdurdod Derbyn yn llwyddiannus yn eu cais am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad hwnnw.

Ni all y Panel Apeliadau glywed cwynion na gwrthwynebiadau ar agweddau ehangach polisïau ac ymarfer derbyn. Ni all y panel apeliadau newid Meini Prawf Gordanysgrifio Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant. Felly, mae'n annhebygol y bydd y Panel yn derbyn apêl lle mae'r ysgol wedi cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio mewn modd rhesymol. Mae meini prawf gordanysgrifio Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant ynghlwm fel Atodiad i'r nodyn hwn.

**Gweithredu cyn cyfarfod y Panel Apêl**
Mae gan rieni'r hawl i fynychu cyfarfod y Panel Apeliadau ac i gyflwyno eu hapêl ar lafar i'r Panel. Fodd bynnag, yn ogystal, gall rhieni ddarparu eu hapêl yn ysgrifenedig gydag unrhyw dystiolaeth ategol i Glerc y Panel Apeliadau cyn y cyfarfod. Bydd deunydd ysgrifenedig a dderbyniwyd saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod apêl yn cael ei anfon at aelodau'r Panel Apeliadau cyn y cyfarfod er mwyn iddyn nhw allu astudio'r deunydd ymlaen llaw. Gall Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant hefyd gyflwyno ei sylwadau a'i thystiolaeth i Glerc y Panel Apeliadau o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod apeliadau fel y gellir eu darllen o flaen llaw gan aelodau'r Panel Apeliadau Bydd unrhyw ddeunyddiau a gyflwynir gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gatholig Padrig Sant yn cael eu hanfon o flaen llaw at y rhieni a bydd unrhyw ddeunyddiau a gyflwynir gan y rhieni yn cael eu hanfon o flaen llaw at gynrychiolwyr yr Ysgol. Yr egwyddor sylfaenol a ddilynir yw bod yr holl wybodaeth a gyflwynir i'r Clerc fel rhan o'r broses apelio ar gael i bob parti yn yr apêl.

**Hysbysiad o'r Apêl**
Bydd rhieni'n derbyn rhybudd ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad y bydd eu hapêl yn cael ei chlywed oni bai bod y rhiant yn cytuno i gyfnod rhybudd byrrach.

**Cynrychiolaeth**
Mae rhieni'n cael eu hannog i fynychu cyfarfod y Panel Apeliadau yn bersonol ac i wneud sylwadau llafar, hynny yw, i egluro neu ategu eu hapêl ysgrifenedig. Gall ffrind neu rywun i'w cynghori ddod gyda'r rhiant, neu gallant gael eu cynrychioli. Gall rhieni ddod â chyfieithydd ar y pryd hefyd. Ym mhob amgylchiad lle mae'r rhieni'n dod â rhywun arall, dylai'r rhieni gynghori'r Clerc o enw'r person arall sy'n mynychu o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod ac ym mha rinwedd y maent yn mynychu.

**Cyfarfod y Panel Apêl**
Mae gwrandawiad y Panel Apeliadau mewn dwy ran. Yn gyntaf, mae cynrychiolydd o Bwyllgor Derbyn Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Padrig Sant (Swyddog Cyflwyno) yn cyflwyno'r achos y byddai derbyn mwy o ddisgyblion yn rhagfarnu darpariaeth addysg effeithlon neu'r defnydd o adnoddau. Gall y rhan hon o'r gwrandawiad gynnwys nifer o rieni gyda'i gilydd. Mae'r rhieni'n cael cyfle i gwestiynu'r Swyddog Cyflwyno. Yn ail, rhoddir cyfle i'r rhieni gyflwyno i'r Panel Apeliadau yn unigol (heb rieni eraill yn bresennol). Mae Cadeirydd y Panel Apeliadau yn sicrhau bod camau ail ran y cyfarfod yn dilyn y drefn ganlynol:

A. Mae'r rhieni'n cyflwyno eu hachos i'r Panel.
B Rhoddir cyfle i'r Swyddog Cyflwyno holi'r rhieni.
C Mae'r Swyddog Cyflwyno yn crynhoi achos yr Awdurdod Derbyn.
Ch Mae'r rhieni'n crynhoi eu hachos nhw.

Gall aelodau'r Panel Apeliadau ofyn cwestiynau ar unrhyw adeg os oes angen esboniad o'r hyn sy'n cael ei ddweud neu os oes angen gwybodaeth arnynt i wneud penderfyniad.

Ar ôl cyfarfod y Panel Apeliadau, fel arfer bydd Clerc y Panel yn anfon penderfyniad ysgrifenedig y Panel Apeliadau at y rhieni o fewn saith diwrnod i'r cyfarfod. Dylid nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a wnaed.

Diffyg presenoldeb yng ngwrandawiad y Panel Apeliadau Os bydd y rhieni'n rhoi eu rhif ffôn i'r Gweinyddwr Apeliadau neu Glerc y Panel, bydd y Gweinyddwr/Clerc yn hysbysu rhiant y o ddyddiad ac amser y gwrandawiad Apêl drwy lythyr a dros y ffôn. Os nad yw'r rhieni'n gallu mynychu'r gwrandawiad ar y diwrnod, rhaid iddynt ffonio Gweinyddwr/Clerc y Panel neu'r ysgol ar unwaith a rhoi'r rheswm dros fethu bod yn bresennol. Gofynnir i'r rhieni a ydyn nhw am i'r apêl fynd yn ei blaen yn eu habsenoldeb. Os ydynt am ofyn am apwyntiad arall, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Gadeirydd y Panel Apeliadau a fydd yn penderfynu, ar sail rheswm y rhieni dros beidio â mynychu, p'un ai

i glywed yr apêl yn absenoldeb y rhieni neu ohirio ystyried yr achos i wrandawiad dilynol. Pan fydd rhieni'n methu â mynychu ar ddau achlysur, bydd y Panel Apeliadau'n ystyried yr apêl yn absenoldeb y rhieni.

### Gwybodaeth bellach

dylid gwneud unrhyw ymholiadau am y broses apelio i'r Gweinyddwr Apeliadau/Clerc y Panel. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth at Glerc y Panel Apeliadau.
Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant,
Lucknow Street,
Grangetown,
Caerdydd,
CF11 6NA.
Ebost: stpatricksprm@caerdydd.gov.uk



## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul

### Polisi Derbyn a pholisi gordanysgrifio ar gyfer Medi 2024

Mae'r polisi hwn yn dilyn cod Derbyn Llywodraeth Cymru 2013 ac Erthyglau ac Offerynnau Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul.

### Niferoedd y Disgyblion i'w Derbyn

30 yw'r nifer derbyn yr ysgol a gytunwyd. Bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn hyd at y nifer hwnnw.

### Gweithdrefnau ac Amserlen

Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn Dosbarth Derbyn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio lle yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk
Yn dilyn cyfarfod y pwyllgor derbyniadau, caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig sef Dydd Llun 17 Ebrill 2023, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol. Mae gan bob rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Caiff manylion y broses apêl eu rhoi yn y llythyr.

### Rhestr Aros

Os yw dosbarth presennol wedi cyrraedd 30, ni chaiff unrhyw ddisgybl arall ei dderbyn hyd nes y daw lle ar gael. Mae rhestrau aros yn cael eu blaenoriaethu yn dilyn yr un meini prawf â derbyniadau. Bydd yr ysgol yn cadw plentyn ar y rhestr aros tan fis Gorffennaf yn y flwyddyn academaidd y gwnaed cais. Gall yr ysgol ymestyn y cyfnod hwn yn dilyn cais rhiant.

### Meini Prawf Penderfynu ar Dderbyniadau

Bydd modd i blant rhieni sy'n dymuno iddynt fynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul, yn amodol ar nifer y lleoedd sydd ar gael o fewn y ddeddfwriaeth bresennol, wneud hynny ar yr amod nad yw'r nifer sy'n ceisio am le yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael.

Mae'r ysgol yn agored i unrhyw blentyn o oedran ysgol statudol y mae ei rieni yn dymuno iddynt dderbyn addysg mewn ysgol yr Eglwys yng Nghymru sydd â chymeriad Cristnogol clir ac arbennig iddi.
Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn dyfarnu lleoedd i ymgeiswyr yn ôl eu gallu i fodloni'r meini prawf derbyn a ganlyn yn nhrefn blaenoriaeth.
Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth i blant y mae eu ceisiadau ar sail feddygol neu dosturiol. Rhaid i geisiadau o'r fath gael eu cefnogi gan dystiolaeth broffesiynol a geirdaon, er enghraifft llythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig fel meddyg neu weithiwr cymdeithasol a dylai nodi'r rhesymau penodol pam mai Sant Paul yw'r ysgol fwyaf addas a'r anawsterau fyddai'n cael eu hachosi pe bai'n rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall.

1. **Plant sy'n Derbyn Gofal**
Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol (fel y'u diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant Cymru 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (fel a ddiffinnir gan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013).
2. **Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig**
Plant yn cael cyllid meithrin gan yr Asesiad Blynyddoedd Cynnar Panel, neu'r Panel Cynghori ar Achos neu blant gyda datganiad lle mae'r ysgol yn cael ei henwi fel y lleoliad addysgol mwyaf priodol.
3. **Aelodau mewn gair a gweithred yn Eglwysi Plwyf Grangetown Sant Paul neu Dyfrig Sant a Sant Samson.**
Plant y mae eu rhieni yn aelodau ymrwymedig mewn gair a gweithred o'r Eglwys Anglicanaidd yn y Plwyf neu y mae eu plant yn mynychu Gwasanaethau Eglwys Anglicanaidd a/neu Ysgolion Sul Anglicanaidd yn rheolaidd (y rhan fwyaf o ddyddiau Sul) yn y Plwyf dros flwyddyn gyfan. Rhaid darparu tystiolaeth.
4. **Aelodau mewn gair a gweithred o'r Eglwys Anglicanaidd sydd yn BYW yn y Plwyf.**
Plant y mae eu rhieni yn aelodau ymrwymedig mewn gair a gweithred o'r Eglwys Anglicanaidd yn y Plwyf neu y mae eu plant yn mynychu Gwasanaethau Eglwys Anglicanaidd a/neu Ysgolion Sul Anglicanaidd yn rheolaidd (y rhan fwyaf o ddyddiau Sul) yn y Plwyf dros flwyddyn gyfan. Rhaid darparu tystiolaeth.

Polisïau Derbyn

**5. Brodyr a chwiorydd***

Plant sydd â brawd neu chwaer (llawn/hanner/llys-frawd/chwaer) yn byw yn yr un cyfeiriad) sy'n mynychu'r ysgol hon ar hyn o bryd.

**6. Aelodau mewn gair a gweithred o'r Eglwys Anglicanaidd NAD YDYNT YN BYW yn y Plwyf**

Plant y mae eu rhieni yn aelodau ymrwymedig mewn gair a gweithred o'r Eglwys Anglicanaidd neu y mae eu plant wedi mynychu Gwasanaethau Eglwys Anglicanaidd a/neu Ysgolion Sul Anglicanaidd (ar y rhan fwyaf o ddyddiau Sul) yn rheolaidd dros flwyddyn lawn. Rhaid darparu tystiolaeth.

**7. Cristnogion mewn gair a gweithred sy'n BYW yn y plwyf**

Plant sy'n byw yn y plwyf ac y mae eu rhieni ym ymrwymedig mewn gair a gweithred i enwadau Cristnogol eraill (sydd yn Aelodau o Cytûn a/neu eglwys sy'n tanysgrifio i'r Ffydd Gristnogol hanesyddol fel y'i mynegir yng Nghredo Nicea) neu y mae eu plant yn mynychu gwasanaethau a/neu Ysgol Sul yn rheolaidd mewn eglwysi Cristnogol eraill. Rhaid darparu tystiolaeth.

**8.** Aelodau mewn gair a gweithred o Grefyddau Eraill NAD YDYNT YN BYW yn y Plwyf Plant y mae gan eu teuluoedd ymrwymiad rheolaidd mewn gair a gweithred i'w ffydd eu hunain (fel y'i cydnabyddir gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru). Rhaid darparu tystiolaeth.

**9. Cristnogion mewn gair a gweithred NAD YDYNT YN BYW yn y Plwyf**

Plant y mae eu rhieni wedi ymrwymo mewn gair a gweithred i enwadau Cristnogol eraill sydd yn Aelod o Cytûn a/neu eglwys sy'n tanysgrifio i'r Ffydd Gristnogol hanesyddol fel y'i mynegir yng Nghredo Nicea) neu y mae eu plant yn mynychu gwasanaethau a/neu Ysgol Sul yn rheolaidd mewn eglwysi Cristnogol eraill. Rhaid darparu tystiolaeth.

**10.** Aelodau mewn gair a gweithred o Grefyddau Eraill NAD YDYNT YN BYW yn y Plwyf Plant y mae gan eu teuluoedd ymrwymiad rheolaidd mewn gair a gweithred i'w ffydd eu hunain (fel y'i cydnabyddir gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru). Rhaid darparu tystiolaeth.

**11. Plant sydd wedi eu Bedyddio Plant sydd wedi eu bedyddio â'u hardystio. Rhaid darparu tystiolaeth.**

**12. Rhesymau eraill Unrhyw blant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu'r ysgol am resymau eraill.**

Cyfeiria'r plwyf at Grangetown Sant Paul, Dyfrig Sant a Sant Samson. Mae tystiolaeth a roddir yn cyfeirio at eirda wedi'i lofnodi gan ficer yr eglwys/gweinidog/bugail neu arweinydd ffydd, a bydd yn cynnwys hanes o ymwneud a phresenoldeb.

Gordanysgrifio mewn categori

Os bydd gordanysgrifio, rhoddir blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol yn y categori sydd wedi'i ordanysgrifio, (lle y mesurir agosrwydd gan adran Drafnidiaeth Cyngor Sir Caerdydd).

*Brodyr a Chwiorydd Categori 5 - rhoddir blaenoriaeth i blant genedigaethau lluosog.

Mewn achosion o deuluoedd sydd â chyfrifoldeb rhiant a rennir y cyfeiriad cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos.

# Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant

### Polisi Derbyn a Meini Prawf Gordanysgrifio 2024-2025

### Datganiad Gweledigaeth

*"Bod pob plentyn sy'n cael ei roi dan ein gofal a phob person sy'n rhan o'n cymuned ysgol yn cyflawni eu potensial trwy dyfu a datblygu mewn ystyr ddynol ac ysbrydol."*

### Datganiad Cenhadaeth

*"Creu amgylchedd o fewn cymuned ein hysgol sydd wir yn adlewyrchu'r gwerthoedd a fynegir yn yr Efengylau" Datganiad Diben Craidd "Creu amgylchedd sy'n meithrin ac yn hyrwyddo safonau llesiant uchel a chyson, gofal bugeiliol, datblygiad academaidd, moesol, moesegol ac ysbrydol i'r holl blant sy'n cael eu rhoi dan ei ofal"*

### Rhif Derbyn a Nodwyd 60

Mae'r polisi derbyn yn berthnasol i dderbyniadau yn y flwyddyn academaidd 2024-2025

### Cyflwyniad

Bydd Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant yn gweithredu yn unol â holl ddarpariaethau perthnasol y codau ymarfer statudol (Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru (Gorffennaf 2013) a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion (Rhagfyr 2013) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir a chyda'r gyfraith ar dderbyn fel y mae'n berthnasol i ysgolion a gynhelir.

Ystyrir bod cyfeiriad yn y codau at "awdurdodau derbyn" yn gyfeiriadau at y Corff Llywodraethu Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant. Bernir bod cyfeiriadau at "yr Awdurdod Lleol" neu "ALlau" yn gyfeiriadau at Gyngor Dinas Caerdydd. Yn benodol, bydd Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant yn ystyried cyngor Archesgobaeth Caerdydd ac yn cymryd rhan yn y trefniadau derbyn cydlynol a weithredir gan Awdurdod Lleol Caerdydd.

Yn unol â pholisïau derbyn i ysgolion Cyngor Dinas Caerdydd gwneir cais am fynediad i Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant yn unol â dewis rhieni. Mae'r niferoedd derbyn a nodir ar gyfer ysgolion yn deillio o allu corfforol yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu disgyblion, gan ddefnyddio fformiwla a nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 021/2011.

Y Rhif Derbyn yw 60

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros benderfynu derbyn i'w 'Bwyllgor Derbyn'. Mae gan y Pwyllgor hwnnw o leiaf dri llywodraethwr y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn bennaeth. Yn unol â hynny, bydd Pwyllgor Derbyn Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant, os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yn derbyn yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio yn y grŵp oedran perthnasol. Mae gan Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant ethos Catholig. Mae'r ysgol yn cael ei llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i Gweithred Ymddiriedolaeth a'i Hofferyn Llywodraeth, ac mae'n ceisio bod yn dyst i Iesu Grist bob amser. Gofynnwn i bob rhiant sy'n gwneud cais am le yma barchu'r ethos hwn a'i bwysigrwydd i gymuned yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni nad ydynt o ffydd yr ysgol hon neu sydd heb unrhyw gefndir ffydd i wneud cais am le yma, ac i'w cais gael ei ystyried . Yn wir, mae'r Ysgol yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bob teulu.

Gall plant ddechrau yn yr ysgol ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau bod rhieni'n gallu gohirio i'w plant gael eu derbyn tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed, ac ni fydd cais o'r fath yn rhagfarnu cais mewn unrhyw fodd. Serch hynny, disgwylir y bydd y plentyn yn parhau i ddilyn ei grŵp blwyddyn gronolegol ar ddechrau'r ysgol oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

***Wrth ystyried cael eu derbyn i'r grŵp blwyddyn dderbyn, dylai rhieni fod yn ymwybodol nad yw mynychu dosbarth meithrin yn gwarantu lle mewn unrhyw ysgol gynradd neu ysgol fabanod gan fod angen cais ar wahân, ac ni roddir blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n mynychu unrhyw leoliad meithrin penodol.***

Rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le yn y flwyddyn Dderbyn yn yr ysgol fynegi dewis am le yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk. Gall ceisiadau gael eu gwneud gan y person/au sydd â chyfrifoldeb rhiant dros yr ymgeisydd a enwir yn unig. Bydd gofyn i'r sawl sy'n cwblhau'r cais wneud datganiad i'r perwyl hwn. Dylid cyflwyno pob cais erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno. Bydd ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Derbyn ar yr un pryd. Bydd rhieni'n cael gwybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar y dyddiad cynnig, a fydd ar gael ar wefan yr ysgol, oni bai bod un o'ch dewisiadau uwch wedi'i gynnig drwy'r weithdrefn dderbyn gydlynol. Bydd apeliadau yn cael eu clywed o 4 Mai 2024.

### Meini Prawf Gordanysgrifio

1. Plant bedyddiedig Catholig y mae eu teuluoedd yn byw yn
   (i) Plwyf Pedr Sant
   (ii) y rhannau hynny o blwyfi Sant Ffraid, Sant Paul a Christ y Brenin i'r de o Rodfa'r Dwyrain. (Diffinnir yn y nodiadau isod)
2. Plant bedyddiedig Catholig sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar hyn o bryd.
3. Plant bedyddiedig Catholig nad ydynt yn unrhyw un o'r categorïau uchod
4. Plant bedyddiedig mewn enwadau eraill (a ddiffinnir yn y nodiadau isod) sy'n byw yn yr ardaloedd a amlinellir yng nghategori 1 Rhaid cyflwyno prawf o fedyddio gyda cheisiadau
5. Plant bedyddiedig enwadau eraill sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd a bennir yng Nghategori 1. Rhaid cyflwyno prawf o fedyddio gyda cheisiadau
6. Plant o grefyddau eraill nad ydynt wedi'u rhestru, sy'n ceisio addysg Gatholig. Ni fydd ceisiadau'n cael eu hystyried oni bai bod datganiad sy'n darparu cadarnhad o aelodaeth yn cyd-fynd â'r cais ac y gellir ei wirio.
7. Plant bedyddiedig o enwadau eraill sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol
8. Plant heb eu bedyddio sydd â brodyr a chwiorydd yn yr ysgol
9. Plant heb eu bedyddio sy'n byw yng Nghaerdydd.

### Nodiadau a Diffiniadau Perthnasol

**1. Mapiau Plwyf**

Maps of the Parish of St Peter's, St Brigid's, St Paul's and Christ the King Parishes are available at the school so that parents /guardians of applicants can confirm which category in the oversubscription criteria their child's application matches.

**2. Plant sy'n Derbyn Gofal**

Y diffiniad o blentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989. Bydd plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu'n cael llety ganddynt e.e. gan rieni maeth (adran 106 Deddf Addysg 2005, Rheoliadau Addysg Cymru Gyfan 2009) a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal yn cael blaenoriaeth ym mhob cam o'r Meini Prawf Gordanysgrifio.

**3. Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Lle enwir Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant mewn Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) bydd y disgybl yn cael ei dderbyn

**4. Brodyr a chwiorydd**

Bydd brodyr a chwiorydd, efeilliaid, tripledi neu gwadiau yn cael eu hystyried gyntaf wrth dderbyn unrhyw frodyr a chwiorydd. Rhaid i blant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol allu profi bod y brawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant yn y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol a bydd unrhyw gyfeiriad at y brawd neu chwaer ieuengaf yn yr ysgol yn golygu, yr ieuengaf sy'n meddu ar y lefel uchaf o flaenoriaeth.

**6. Diffiniad o frawd neu chwaer at ddibenion cais:**

Mae brawd neu chwaer yn blentyn sy'n frawd / chwaer, hanner brawd/chwaer (plant sy'n rhannu un rhiant cyffredin), llys-frawd / llys-chwaer lle mae dau blentyn yn perthyn trwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant mabwysiedig neu faeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Er mwyn cael eglurder wrth ystyried derbyn mae hyn yn golygu y bydd y Pwyllgor Derbyn yn derbyn brawd neu chwaer sy'n preswylio yn barhaol yn yr un cyfeiriad â'r disgybl sy'n gwneud cais am le sy'n frawd / chwaer, hanner brawd/ hanner-chwaer, (plant sy'n rhannu un rhiant cyffredin) llys-frawd/ llys-chwaer, lle mae dau blentyn yn perthyn yn rhinwedd bod eu rhieni'n briod yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant mabwysiedig neu faeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

**5. Cyfrifoldeb Rhiant a Rennir**

Lle mae gan rieni gyfrifoldeb ar y cyd dros blentyn, a'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant am rannau o'r wythnos bydd cyfeiriad y cartref yn cael ei bennu fel yr eiddo lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 allan o 5 diwrnod) ar y dyddiad cau a nodir ar gyfer ceisiadau. Bydd gofyn i rieni roi tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent yn dymuno iddo gael ei ystyried at ddibenion derbyn.

**6. Cyfeiriad Cartref**

Bydd y Pwyllgor Derbyn hefyd yn gofyn am brawf preswylio i gefnogi pob cais, ac at y diben hwn, rhaid i rieni / gofalwyr gyflwyno copi o'u Datganiad Treth Gyngor cyfredol, biliau cyfleustodau diweddar, datganiad banc neu drwydded yrru er mwyn gwirio cyfeiriad eu cartref

**7. Tystysgrif Bedydd.**

Os ydych wedi nodi bod eich plentyn yn fedyddiedig Gatholig neu wedi ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig, mae angen cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais. Rhaid i dystiolaeth gynnwys Tystysgrif Bedydd neu gadarnhad ysgrifenedig gan offeiriad. Os yw cadarnhad o gwrs paratoi ar gyfer bedydd wedi dechrau ac yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan offeiriad y plwyf yna bydd yr ymgeisydd yn cael ei dderbyn o dan y categori perthnasol.

**8. Cais o dan Gategorïau 4 a 5 4 Diffiniad o Gristnogion Enwadau eraill**

y mae eu rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid) yn aelodau gweithgar ac yn ymarferol mewn Eglwysi ynghyd yng Nghymru (Cytûn). Mae hyn yn cynnwys eglwysi fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru; Undeb Eglwysi Annibynnol Cymru; Undeb Bedyddwyr Cymru; Eglwys Fethodistaidd; Eglwys Ddiwygiedig Unedig; Eglwysi Bedyddiol Cyfamodedig; Byddin yr Iachawdwriaeth; Catholig; Ffederasiwn yr Eglwysi; Annibynnol, Cymdeithas y Crynwyr; yr Eglwys Uniongred. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau yn y categori hwn oni ddarperir datganiad cyswllt neu gyfeiriad cysylltiedig a lofnodwyd gan y gweinidog neu gynrychiolydd yr eglwys yn cadarnhau aelodaeth o'r eglwys.

**9. Cais o dan Gategori 6**

Os ydych wedi nodi bod eich plentyn o ffydd amgen i Gatholig, yna mae'n ofynnol cyflwyno'r dystiolaeth gyda'r cais. Rhaid i dystiolaeth gynnwys llythyr o gefnogaeth gan eich Gweinidog

neu Arweinydd Ffydd. Os na, bydd eich cais yn cael ei ystyried o dan Gategorïau 7 neu 8

**10. Angen Meddygol**
Pan fydd ymgeisydd yn ceisio mynediad i'r ysgol am resymau meddygol, yna rhaid i'r cais, gael ei gefnogi gan lythyr gan y meddyg ymgynghorol, sy'n goruchwylio gofal y plentyn

**11. Plant Personél Lluoedd y DU a Gweision y Goron**
Bydd cyfeiriad Personél Lluoedd y DU yn cael ei dderbyn os bydd llythyr swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) yn cyd-fynd â'u ffurflen gais yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

**12. Datglymwr**
Os bydd angen torri'r ddadl bydd y llywodraethwyr yn derbyn yr ymgeiswyr hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Bydd y pellter yn cael ei fesur o ddrws blaen mynedfa derbynfa'r ysgol i ddrws blaen tŷ neu fflat yr ymgeisydd. Yn achos plentyn y mae gan ei rieni gyfrifoldeb a rennir, y rhiant sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf yn ystod yr wythnos ysgol ac y mae ei gartref yn nes at yr ysgol fydd y ffactor sy'n penderfynu. Bydd yn rhaid darparu llythyr gan y rhieni i gadarnhau'r ffaith honno. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo pellteroedd o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. (Dyma'r system sy'n berthnasol i bob Ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd) Cyfrifir y llwybr cerdded byrraf gan ddefnyddio data llwybr wedi'i addasu gan Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref ymgeisydd i giât agored agosaf yr ysgol. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Gazetteer Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) A Phwynt Data Cyfeiriadau yr AO

**13. Ceisiadau Hwyr**
Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried wedi'r dyddiad cau os rhoddir rheswm da megis teulu yn symud i'r ardal.

**14. Rhestr Aros**
Cedwir rhestr aros tan 30 Medi yn ystod y flwyddyn ysgol y gwnaed y cais. Os daw lle ychwanegol ar gael bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig ac nid ar y dyddiad y derbyniwyd y cais. Os daw lle ar gael cyn i banel apeliadau derbyn gael ei gynnal, bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai sydd ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio. Os yw'r llywodraethwyr yn gosod ymgeisydd ar restr aros ni fydd yn effeithio ar hawl y rhiant i apelio.

**15. Proses Apelio**
Bydd gan rieni'r hawl i apelio at Banel Apeliadau Annibynnol os ydynt yn anfodlon â phenderfyniad derbyn Pwyllgor Derbyn Corff llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant. Bydd y Panel Apeliadau yn annibynnol ar yr ysgol. Bydd y trefniadau ar gyfer Apeliadau yn unol â'r Cod Ymarfer ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf 2013. Caiff penderfyniad y panel apeliadau ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion a bydd yn rhwymo'r holl bartïon. Ymdrinnir ag apeliadau o fewn trideg diwrnod ysgol. Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried a hysbysir ymgeiswyr o fewn 15 diwrnod ysgol os oes lle ar gael. Cedwir rhestr aros tan 30 Medi yn ystod y flwyddyn ysgol y gwnaethe yr ymgeiswyr eu cais. Os daw lleoedd ar gael, cânt eu dyrannu ar sail y meini prawf gordanysgrifio. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni am safle eu plentyn ar y rhestr aros. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhiant os yw lle wedi'i ddyrannu. Os yw'r ymgeisydd yn cael ei wrthod, bydd y rhiant yn cael gwybod ac yn derbyn y wybodaeth ganlynol:

- Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd
- Nifer sydd ar gael
- Meini prawf Gordanysgrifio
- Rheswm dros Wrthod
- Yr Hawl i Apelio
- Proses ar gyfer yr Apêl honno
- Dyddiad Ymateb

Gellir cael manylion y weithdrefn i'w dilyn os ystyrir apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Llywodraethwyr ar geisiadau derbyn gan y Pwyllgor Apeliadau Derbyn d/o Clerc y Corff Llywodraethu yn yr Ysgol Nodiadau Gwybodaeth Proses Apeliadau i rieni sy'n apelio yn erbyn penderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn ymgeisydd. Y Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn, ac mae'n ofynnol iddo wneud trefniadau ar gyfer clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio cynnig lle i blentyn yn yr ysgol

**16. Apeliadau Derbyn**
Mae gan rieni hawl i apelio os bydd eu cais am le yn aflwyddiannus. Rhaid cyflwyno apeliadau i Glerc y Panel Apêl erbyn y dyddiad a rannwyd yn y llythyr yn eich hysbysu bod y cais wedi bod yn aflwyddiannus. Caiff apeliadau eu clywed o fewn trideg diwrnod ysgol

**17. Apeliadau Hwyr.**
Pan gyflwynir apêl wedi'r dyddiad penodedig, bydd fel arfer ond yn cael ei ystyried lle gall y rhiant ddangos bod achos rhesymol i'r apêl beidio â chael ei gwneud ar amser. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at y rhieni yn eu cynghori a yw apêl hwyr i'w chlywed yng ngoleuni'r amgylchiadau a ddisgrifir gan y rhieni.



# Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans

**Polisi Derbyn 2024/2025**

**Mae'r polisi derbyn yn berthnasol i dderbyn plant yn y flwyddyn academaidd 2024 - 2025**

Nod Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Philip Evans yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac ymarfer Catholig yn treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig addysg yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llawn gan bob teulu yn yr ysgol. Disgwylir bod pob ymgeisydd yn dymuno addysg Gatholig i'w plentyn ac felly byddant yn rhoi eu cefnogaeth lawn, lwyr a chadarnhaol i nodau ac ethos yr ysgol.

Y Nifer Derbyn Safonol (NDS) ar gyfer y dosbarth Derbyn yw 52.

Capasiti'r ysgol yw 364. Y Corff Llywodraethu yn unig sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol hon.

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans yn gweithredu yn unol â darpariaethau perthnasol y codau ymarfer statudol (Cod Derbyn i Ysgolion a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion 2013 Llywodraeth Cymru) fel y maent yn gymwys ar unrhyw adeg benodol i ysgolion a gynhelir ac yn unol â'r gyfraith ar dderbyniadau i ysgolion a gynhelir.

Ystyrir bod cyfeiriadau yn y codau i "awdurdodau derbyn" yn gyfeiriadau at Gorff Llywodraethu Gwirfoddol a Gynorthwyir Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans. Bydd cyfeiriadau at "yr Awdurdod Lleol" neu "ALl" yn cael eu hystyried yn gyfeiriadau at Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd. Yn benodol, bydd Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans yn rhoi sylw i gyngor Archesgobaeth Caerdydd a bydd yn cymryd rhan yn y trefniadau derbyn cydlynol a weithredir gan yr Awdurdod Lleol.

Yn unol â pholisïau derbyn ysgolion Cyngor Dinas Caerdydd bydd ceisiadau derbyn i Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans yn cael eu gwneud yn unol â dewis rhieni.

**Y Nifer Derbyn Dynodedig yw 52**

Mae'r niferoedd derbyn dynodedig ar gyfer ysgolion yn deillio o allu ffisegol yr ysgol i ddarparu ar gyfer dysgu disgyblion drwy ddefnyddio fformiwla a nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 021/2011

## Datganiad agoriadol

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir

(Cymru) 2005, mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo penderfynu ar dderbyniadau i'w 'Bwyllgor Derbyn'. Mae gan y Pwyllgor hwnnw o leiaf dri llywodraethwr y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn bennaeth. Yn unol â hynny, bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Catholig Sant Philip Evans, os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yn derbyn yn ôl y meini prawf gordanysgrifio yn y grŵp oedran perthnasol.

(1. yw'r flaenoriaeth uchaf) Ni fydd Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Sant Philip Evans yn mynd uwchlaw nifer derbyn yr ysgol nac yn torri'r cyfyngiadau a osodir gan yr uchafswm maint dosbarth statudol (30) lle mae hyn yn berthnasol.

## Addysg Feithrin yn Ysgol Gatholig Sant Philip Evans

Gallwch gael ffurflenni cais o'r ysgol. Rhaid cwblhau pob cais gan ddefnyddio ffurflen gais gytunedig yr ysgol. Dim ond y person/au â chyfrifoldeb rhiant all wneud cais ar gyfer yr ymgeisydd a enwir. Bydd gofyn i'r person a fydd yn cwblhau'r cais wneud datganiad i'r diben hwnnw.

**Dylai pob cais gael ei ddychwelyd i'r ysgol erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno.**

Cyfrifoldeb rhieni/gofalwyr yw sicrhau bod yr ysgol yn derbyn eu ffurflen gais wedi ei chwblhau yn ddiogel ac yn brydlon. Os yn postio cais, argymhellir anfon y ffurflen drwy ddosbarthiad cofnodedig a'ch bod yn darparu amlen barod â stamp fel bod modd cydnabod derbyn eich cais.

## Ysgol Gynradd Sant Philip Evans
## Derbyniadau i'r Dosbarth Derbyn

Wrth ystyried mynediad i'r grŵp blwyddyn Derbyn, dylai rhieni fod yn ymwybodol nad yw mynychu dosbarth meithrin yn gwarantu lle mewn unrhyw ysgol gynradd neu ysgol fabanod gan fod angen cais ar wahân, ac ni roddir blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n mynychu unrhyw leoliad meithrin penodol.

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Sant Philip Evans ac o'r herwydd y Llywodraethwyr yw'r Corff Derbyn.

Mae plant yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi'r flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump oed. Gall Rhieni / Gwarcheidwaid gysylltu â'r ysgol a fydd yn gwneud nodyn o'r cais i blentyn gael lle yn y dosbarth Derbyn.

Cynghorir Rhieni / Gwarcheidwaid i wneud cais am le yn ystod tymor yr Hydref cyn y flwyddyn fynediad academaidd a hynny cyn y dyddiad cau a gynghorir yng ngwybodaeth Derbyn i Ysgolion yr ALl.

Mae'n rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn Dosbarth Derbyn 2024 / 2025 yn yr ysgol fynegi eu bod yn ffafrio lle yn yr ysgol ar Borth Derbyniadau i Ysgolion y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk a hefyd gwblhau ffurflen gais yr ysgol.

Mae'r ffurflen hon i'w chanfod ar wefan yr ysgol www.stphilipevansprm.cardiff.sch.uk , neu gellir gofyn amdani drwy e-bost gan swyddfa'r ysgol stphilipevansrcprm@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio Swyddfa'r ysgol a gofyn am gopi: 029 2073 2514

**Caiff ymgeiswyr wybod am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig yn ystod Ebrill 2024, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.**

Mae gan Rieni / Gwarcheidwaid yr hawl i fynegi dewis a ffefrir o ran ysgol. Bydd y dewis yn cael ei ystyried yn unigol a chydymffurfir â hynny lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod uchafswm statudol ar faint dosbarthiadau babanod sef 30 o ddisgyblion.

Mae lleoedd yn cael eu darparu i blant sydd, oherwydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), wedi cael cyllid Meithrin wedi'i ddyrannu iddynt gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar neu'r Panel Cynghori ar Achosion ac i'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig lle mae Ysgol Gynradd Gatholig Syr Philip Evans wedi'i henwi'n glir ar y datganiad, yn unol â Deddf Addysg 1996.

Os bydd yr ysgol yn derbyn mwy o geisiadau am grŵp oedran na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu llenwi yn unol â'r Meini Prawf Gordanysgrifio isod.

## Meini Prawf Gordanysgrifio

O fewn y meini prawf canlynol, rhoddir blaenoriaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn unol ag Adran 106 Deddf Addysg 2005 a Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru)

2009: Plant Catholig Bedyddiedig sy'n derbyn gofal ac a arferai dderbyn gofal

1. Plant Catholig bedyddiedig y mae eu teuluoedd yn byw yn:
   (i) Plwyf Sant Philip Evans a Phlwyf y Santes Brigid gyda Sant Paul.
   (ii) Ardal Cronfa Ddŵr Llanisien, Afon Nant-fawr, Llyn Parc y Rhath a thraffordd Rhodfa'r Dwyrain ond gan eithrio Glyn Eiddew, Bryn Cyn, Bryn Heulog, Glyn Collen a Phant Glas, dwy ochr Heol Llandennis a Heol Rhydypennau.

2. Plant Catholig Bedyddiedig sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar hyn o bryd.

3. Plant Catholig Bedyddiedig nad ydynt yn y categorïau uchod ond sy'n byw yn Sir Caerdydd.

4. Plant Catholig Bedyddiedig sy'n byw y tu allan i Sir Caerdydd.

**Bydd angen Tystiolaeth o Fedydd ar gyfer categorïau 1 i 4.**

5 Plant wedi'u bedyddio i enwadau Cristnogol eraill (fel y diffinnir yn y nodiadau isod) sy'n byw yn yr ardaloedd y cyfeiriwyd atynt yng Nghategori 1. Ni chaiff ceisiadau yn y categori hwn eu hystyried heb lythyr ategol yn cadarnhau bedydd. Os na dderbynnir llythyr bydd y cais yn cael ei ystyried o dan gategori 9

6. Plant o grefyddau eraill nad ydynt wedi'u rhestru, sy'n dymuno addysg Gatholig.

7. Plant heb eu bedyddio a chanddynt frodyr neu chwiorydd yn yr ysgol

8. Plant heb eu bedyddio.

## DIFFINIADAU

Yn y polisi hwn, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol:

### Cymalau 1,2,3,4 y defnydd o'r term "Catholig."

**Catholig:** yn golygu aelod o eglwys mewn cymundeb lawn gydag Esgobaeth Rufain.
Mae hyn yn cynnwys Eglwysi Catholig y Dwyrain. Ar gyfer plentyn bydd hyn fel arfer yn golygu prawf ar ffurf tystysgrif bedydd mewn Eglwys Gatholig neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yn yr Eglwys Gatholig

At ddibenion y polisi hwn, mae'n cynnwys plentyn sy'n derbyn gofal sy'n rhan o deulu Catholig lle mae llythyr gan offeiriad yn dangos y byddai'r plentyn wedi cael ei fedyddio neu ei dderbyn oni bai am ei statws fel plentyn sy'n derbyn gofal (e.e. plentyn sy'n derbyn gofal sydd yn y broses o gael ei fabwysiadu gan deulu Catholig).

**Er mwyn i blentyn gael ei drin fel plentyn Catholig, bydd angen tystiolaeth o fedydd neu dderbyn i'r Eglwys.** Dylai'r rhai sy'n cael trafferth cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf a fydd, ar ôl ymgynghori â'r Esgobaeth, yn penderfynu sut mae'r cwestiwn o fedyddio i'w ddatrys a sut i gynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfreithiau'r Eglwys

### Nodiadau ar gyfer Cymalau 5 a 6

Plant y mae eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/warcheidwaid yn mynychu Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) mewn gair a gweithred.
Mae hyn yn cynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru; Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Undeb Bedyddwyr Cymru; yr Eglwys Fethodistaidd; yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig; Eglwysi Bedyddiol Cyfamodol; Byddin yr Iachawdwriaeth; yr Eglwys Gatholig; Ffederasiwn yr Eglwysi Annibynnol; Cymdeithas y Crynwyr; yr Eglwys Uniongred. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau yn y categori hwn oni bai bod datganiad ynghlwm o gysylltiad neu eirda a lofnodwyd gan y gweinidog neu gynrychiolydd yr eglwys yn cadarnhau aelodaeth o'r eglwys.

### Nodiadau ar gyfer cymal 2 a 7:

Wrth ystyried brodyr a chwiorydd, rhoddir blaenoriaeth gyntaf i geisiadau gan frodyr a chwiorydd o enedigaeth luosog. At ddibenion derbyn, brawd neu chwaer yw plentyn sy'n byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad â'r disgybl sy'n gwneud cais am le sydd yn frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn yn sgîl y ffaith bod eu rhieni yn briod, yn cyd-fyw neu mewn perthynas sifil. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

### Noder y canlynol:
### Cadarnhau Bedydd

Bydd angen Cadarnhad Bedydd drwy ddarparu copi o'r dystysgrif bedydd o'r plwyf perthnasol neu gadarnhad ysgrifenedig gan yr offeiriad plwyf presennol.

**Cristnogion o enwadau eraill:** Yn yr un modd bydd yr un egwyddor o brawf bedydd neu aelodaeth o'r enwad gan weinidog perthnasol yn berthnasol.

### Cyfeiriad Cartref

Mae'r Awdurdod Derbyn hefyd angen prawf preswyliad i gefnogi pob cais, ac i'r diben hwn rhaid i rieni/gofalwyr gyflwyno copi o'u Datganiad Treth Gyngor presennol, bil cyfleustodau diweddar, cyfriflen banc neu drwydded yrru er mwyn dilysu eu cyfeiriad cartref.

### Plant sy'n Derbyn Gofal.

Diffinnir Plentyn sy'n Derbyn Gofal fel plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989. Caiff plant sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu'n derbyn llety ganddo e.e. rhieni maeth (adran 106 Deddf Addysg 2005, Rheoliadau Addysg Cymru Gyfan 2009) a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal flaenoriaeth ym mhob cymal o'r Meini Prawf Gordanysgrifio.

### Plant Personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision y Goron

Caiff cyfeiriad staff Lluoedd y DU ei dderbyn os daw eu cais i law ynghyd â llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

### Diffiniad o Frawd/Chwaer:

Plant y byddai ganddynt frawd/chwaer yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans yn y mis Medi y byddai'r ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol. Bydd efeilliaid, tripledi neu bedrypledi yn cael blaenoriaeth dros frodyr a chwiorydd unigol. Pennir blaenoriaeth yn y categori hwn yn ôl brawd/chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad brawd neu chwaer yn glir yn y cais. At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn blentyn sy'n frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant a chanddynt un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Efeilliaid, tripledi neu bedrypledi a gaiff eu hystyried yn y lle cyntaf wrth dderbyn unrhyw frodyr/chwiorydd.

## Cyfrifoldeb Rhiant a Rennir

Pan fydd rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos ysgol, ystyrir y cyfeiriad cartref fel y man lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. 3 diwrnod ysgol allan o 5) ar adeg y dyddiad cau a nodwyd ar gyfer cyflwyno cais. Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y cyfeiriad y dymunant iddo gael ei ystyried at ddibenion derbyn.

**Anghenion Addysgol Ychwanegol:** Ni all ysgolion wrthod lle i blentyn â datganiad AAA hyd yn oed os byddant yn mynd tu hwnt i'w nifer derbyn o wneud hynny Rhoddir lle yn awtomatig i ddisgyblion sydd â Datganiadau o Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig lle enwir Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans ar y Datganiad.

## Torri'r Ddadl

Os bydd angen torri'r ddadl wrth ddyrannu'r lleoedd olaf bydd y llywodraethwyr yn derbyn y plant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter ei fesur o ddrws blaen mynedfa'r dderbynfa i ddrws blaen tŷ neu fflat yr ymgeisydd ar hyd y llwybr cerdded diogelaf. Yn achos plentyn y mae rhieni'n rhannu cyfrifoldeb drosto, y rhiant sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf dros y plentyn yn ystod yr wythnos ysgol ac sydd â'r breswylfa agosaf i'r ysgol fydd y ffactor penderfynu. Rhaid darparu llythyr gan y rhieni i gadarnhau hynny.
Bydd y cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol mewn milltiroedd. (Dyma'r system sy'n berthnasol i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd) Cyfrifir y llwybr cerdded byrraf gan ddefnyddio data llwybr addasedig yr Arolwg Ordnans (AO) o gyfeiriad cartref ymgeisydd at gât agored agosaf yr ysgol. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd gan ddefnyddio'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (RhTELl) A Data Pwynt Cyfeiriad AO. Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu rhwydwaith llwybrau cerdded cyfrifiadurol yn seiliedig ar feini prawf Cymdeithas Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd yr Awdurdod Lleol, ac fe'i defnyddir i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei asesu mewn ffordd mor gyson â phosibl.

## Ceisiadau Hwyr

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â'r meini prawf derbyn cyhoeddedig. Bydd unrhyw geisiadau a gaiff eu gwrthod yn dilyn y cylch dyrannu cyntaf ynghyd â cheisiadau hwyr dilynol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd os daw unrhyw leoedd ar gael maes o law.
Caiff Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant â datganiadau AAA eu derbyn.

## Rhestr Aros

Caiff rhestr aros ei chadw. Os daw lle ychwanegol ar gael bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig ac nid ar y dyddiad y derbyniwyd y cais. Os daw lle ar gael cyn i banel apeliadau derbyn gael ei gynnal, bydd y llywodraethwyr yn ystyried y rhai sydd ar y rhestr aros yn ôl y meini prawf gordanysgrifio. Os yw'r llywodraethwyr yn gosod ymgeisydd ar restr aros ni fydd yn effeithio ar hawl y rhiant i apelio.
Rhaid gwneud ceisiadau drwy ffurflen gais wedi'i chwblhau a'i dychwelyd i Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans. Bydd yr Awdurdod Derbyn
sef Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn cwrdd i benderfynu ar Dderbyniadau ac os bydd rhaid yn cymhwyso'r Meini Prawf Gordanysgrifio.

**Bydd rhieni'n cael gwybod drwy:**

Bydd gan rieni'r hawl i apelio at Banel Apeliadau Annibynnol os ydynt yn anfodlon â phenderfyniad derbyn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans. Bydd y Panel Apeliadau yn annibynnol o'r ysgol. Bydd y trefniadau ar gyfer Apeliadau yn unol â'r Cod Ymarfer ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2009. Caiff penderfyniad y panel apeliadau ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion a bydd yn rhwymo'r holl bartïon.
Ymdrinnir ag apeliadau o fewn tri deg diwrnod ysgol.
Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried a hysbysir ymgeiswyr o fewn 15 diwrnod ysgol os oes lle ar gael.
Cedwir rhestr aros tan 30 Medi yn ystod y flwyddyn ysgol y gwnaed y cais. Os daw lleoedd ar gael, cânt eu dyrannu yn ôl y meini prawf gordanysgrifio. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni am safle eu plentyn ar y rhestr aros.
Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhiant os yw lle wedi'i ddyrannu. Os yw'r cais yn cael ei wrthod, bydd y rhiant yn cael gwybod ac yn derbyn y wybodaeth ganlynol:

- nifer y ceisiadau a ddaeth i law
- y nifer sydd ar gael
- meini prawf gordanysgrifio
- yr hawl i apelio
- y broses apelio
- dyddiad cau ar gyfer ymateb
- rheswm dros wrthod

Gallwch gael manylion am y weithdrefn i'w dilyn os ydych yn ystyried apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Llywodraethwyr ar dderbyniadau a hynny gan y Pwyllgor Apeliadau Derbyn i Ysgolion d/o Clerc Corff Llywodraethu'r ysgol.
Gwybodaeth am Broses Apelio Ysgol Gynradd Catholig Sant Philip Evans
Nodiadau i rieni sydd am apelio yn erbyn penderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn ymgeisydd.

Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Sant Philip Evans yw'r Awdurdod Derbyn, ac mae'n ofynnol iddo wneud trefniadau ar gyfer clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio cynnig lle i blentyn yn yr ysgol

## Apeliadau Derbyn i Ysgolion

Mae gan rieni hawl i apelio os bydd eu cais am le yn aflwyddiannus. Rhaid cyflwyno apeliadau i Glerc y Panel Apeliadau a chaiff Apeliadau eu clywed o fewn tri deg diwrnod ysgol.

## Apeliadau Hwyr

Pan gyflwynir apêl wedi'r dyddiad penodedig, bydd fel arfer ond yn cael ei ystyried lle gall y rhiant ddangos bod achos rhesymol i'r apêl beidio â chael ei gwneud ar amser. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at y rhieni yn eu cynghori a oes apêl hwyr i'w chlywed yng ngoleuni'r amgylchiadau a ddisgrifir gan y rhieni.

## Panel Apeliadau

Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Sant Philip Evans yw'r Awdurdod Derbyn, ac mae'n ofynnol iddo wneud trefniadau ar gyfer clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau i beidio cynnig lle i blentyn yn yr ysgol
Clywir apeliadau derbyn gan Banel Apeliadau Annibynnol ag o leiaf dri aelod, a sefydlwyd gan yr ysgol yn ôl rheoliadau'r Cod Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion
Mae o leiaf un aelod o'r Panel yn aelod lleyg; hynny yw, rhywun heb brofiad personol o reolaeth unrhyw ysgol neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol. Mae gan o leiaf un aelod brofiad ym myd addysg; hynny yw, rhywun sy'n gyfarwydd ag amodau addysgol yn yr ardal neu sy'n rhiant i ddisgybl cofrestredig mewn ysgol. Mae un aelod yn gweithredu fel Cadeirydd y Panel.
Ni chaiff neb fod yn aelod o'r Panel Apeliadau os oedden nhw'n rhan o'r penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn y mae'r apêl yn ei

drafod, neu wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ynghylch sut y daethpwyd i'r penderfyniad.
Ni ddylai rhieni geisio trafod materion yn ymwneud â'u hapêl gydag unrhyw aelod o'r Panel Apeliadau cyn y cyfarfod.

## Pwerau'r Panel Apeliadau

Mae'r Awdurdod Derbyn yn rhwym wrth benderfyniad y Panel Apeliadau. Os yw'r Panel yn derbyn yr apêl a gyflwynir gan y rhieni, rhaid i'r plentyn gael ei dderbyn i'r Ysgol. Unwaith y bydd Panel Apeliadau wedi ystyried apêl, nid yw'n ofynnol iddo glywed ail apêl yn ymwneud â'r un plentyn i'w dderbyn i'r ysgol yn yr un flwyddyn academaidd.
Gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio i gwynion ysgrifenedig am gamweinyddu ar ran Panel Apeliadau derbyn. Bydd yn ymdrin â materion fel methiant i weithredu'n annibynnol neu'n deg ond nid yw hynny'n cynnwys pan fo person yn syml yn teimlo bod y penderfyniad yn anghywir.
Dim ond y Llysoedd all wyrdroi penderfyniad Panel Apeliadau, lle mae'r rhieni neu'r Awdurdod Derbyn yn llwyddiannus yn eu cais am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad hwnnw.
Ni all y Panel Apeliadau glywed cwynion na gwrthwynebiadau ar agweddau ehangach polisïau ac ymarfer derbyn. Ni all y Panel Apeliadau newid Meini Prawf Gordanysgrifio Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans. Felly, mae'n annhebygol y bydd y Panel yn derbyn apêl lle mae'r ysgol wedi cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio mewn modd rhesymol. Mae meini prawf gordanysgrifio Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans ynghlwm fel Atodiad i'r nodyn hwn

## Camau cyn cyfarfod y Panel Apeliadau

Mae gan rieni'r hawl i fynychu cyfarfod y Panel Apeliadau ac i gyflwyno eu hapêl ar lafar i'r Panel. Fodd bynnag, yn ogystal, gall rhieni ddarparu eu hapêl yn ysgrifenedig gydag unrhyw dystiolaeth ategol i Glerc y Panel Apeliadau cyn y cyfarfod. Bydd deunydd ysgrifenedig a dderbyniwyd saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod apêl yn cael ei anfon at aelodau'r Panel Apeliadau cyn y cyfarfod er mwyn iddyn nhw allu astudio'r deunydd ymlaen llaw. Gall Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans hefyd gyflwyno ei sylwadau a'i thystiolaeth i Glerc y Panel Apeliadau o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod apêl er mwyn iddynt gael eu darllen ymlaen llaw gan aelodau'r Panel Apeliadau
Bydd unrhyw ddeunyddiau a gyflwynir gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gatholig Sant Philip Evans yn cael eu hanfon ymlaen llaw at y rhieni a bydd unrhyw ddeunyddiau a gyflwynir gan y rhieni yn cael eu hanfon ymlaen llaw at gynrychiolwyr yr Ysgol. Yr egwyddor sylfaenol a ddilynir yw bod yr holl wybodaeth a gyflwynir i'r Clerc fel rhan o'r broses apelio ar gael i bob parti yn yr apêl.

## Hysbysiad o Apêl

Bydd rhieni'n derbyn rhybudd ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad y bydd eu hapêl yn cael ei chlywed oni bai bod y rhiant yn cytuno i gyfnod rhybudd byrrach.

## Cynrychiolaeth

Mae rhieni'n cael eu hannog i fynychu cyfarfod y Panel Apeliadau yn bersonol ac i wneud sylwadau llafar, hynny yw, i egluro neu ategu eu hapêl ysgrifenedig. Gall ffrind neu rywun i'w cynghori ddod gyda'r rhiant, neu gallant gael eu cynrychioli. Gall rhieni ddod â chyfieithydd ar y pryd hefyd. Ym mhob amgylchiad lle mae'r rhieni'n dod â rhywun arall, dylai'r rhieni gynghori'r Clerc o enw'r person arall sy'n mynychu o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod ac ym mha rinwedd y maent yn mynychu.

## Cyfarfod y Panel Apeliadau

Mae gwrandawiad y Panel Apeliadau mewn dwy ran. Yn gyntaf, mae cynrychiolydd o Bwyllgor Derbyn Corff Llywodraethu Ysgol Gatholig Sant Philip Evans (Swyddog Cyflwyno) yn cyflwyno'r achos y byddai derbyn mwy o ddisgyblion yn rhagfarnu darpariaeth addysg effeithlon neu'r defnydd o adnoddau. Gall y rhan hon o'r gwrandawiad gynnwys nifer o rieni gyda'i gilydd. Mae'r rhieni'n cael cyfle i gwestiynu'r Swyddog Cyflwyno. Yn ail, rhoddir cyfle i'r rhieni gyflwyno i'r Panel Apeliadau yn unigol (heb rieni eraill yn bresennol). Mae Cadeirydd y Panel Apeliadau yn sicrhau bod camau ail ran y cyfarfod yn dilyn y drefn ganlynol:

A. Mae'r rhieni'n cyflwyno eu hachos i'r Panel.
B Rhoddir cyfle i'r Swyddog Cyflwyno holi'r rhieni.
C Mae'r Swyddog Cyflwyno yn crynhoi achos yr Awdurdod Derbyn.
D Mae'r rhieni yn crynhoi eu hachos.

Gall aelodau'r Panel Apeliadau ofyn cwestiynau ar unrhyw adeg os oes angen esboniad o'r hyn sy'n cael ei ddweud neu os oes angen gwybodaeth arnynt i wneud penderfyniad.

## Wedi cyfarfod y Panel Apeliadau

Fel arfer bydd Clerc y Panel yn anfon penderfyniad ysgrifenedig y Panel Apeliadau at y rhieni o fewn saith diwrnod i'r cyfarfod. Dylid nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a wnaed.

Diffyg presenoldeb yng ngwrandawiad y Panel Apeliadau Os bydd y rhieni'n rhoi eu rhif ffôn i'r Gweinyddwr Apeliadau neu Glerc y Panel, bydd y Gweinyddwr/Clerc yn hysbysu rhiant y o ddyddiad ac amser y gwrandawiad Apêl drwy lythyr a dros y ffôn.
Os nad yw'r rhieni'n gallu mynychu'r gwrandawiad ar y diwrnod, rhaid iddynt ffonio Gweinyddwr/Clerc y Panel neu'r ysgol ar unwaith a rhoi'r rheswm dros fethu bod yn bresennol. Gofynnir i'r rhieni a ydyn nhw am i'r apêl fynd yn ei blaen yn eu habsenoldeb. Os ydynt am ofyn am apwyntiad arall, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Gadeirydd y Panel Apeliadau a fydd yn penderfynu, ar sail rheswm y rhieni dros beidio â mynychu, p'un ai i glywed yr apêl yn absenoldeb y rhieni neu ohirio ystyried yr achos i wrandawiad dilynol. Pan fydd rhieni'n methu â mynychu ar ddau achlysur, bydd y Panel Apeliadau'n ystyried yr apêl yn absenoldeb y rhieni.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid gwneud unrhyw ymholiadau am y broses apelio i'r Gweinyddwr Apeliadau/Clerc y Panel. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth at Glerc y Panel Apeliadau
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans
Coed y Gores
Llanedern
Caerdydd CF15 9NX
De Cymru
Email: cpower@caerdydd.gov.uk

# Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville

## Polisi Derbyn 2024-2025

Polisi a Chanllawiau Derbyniadau Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville Ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville ac yn unol â hynny penderfynir ar dderbyniadau i'n hysgol gan Gorff Llywodraethu'r ysgol. Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yw ein hysgol lle rydym yn ceisio byw yn unol â'r gwerthoedd Cristnogol sy'n sail i bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Y nifer derbyn arfaethedig ar gyfer ein hysgol yw 30. Yn ogystal, mae 48 o leoedd rhan amser yn y Feithrinfa.

Gall plant ddechrau'r ysgol yn llawn amser y mis Medi'n dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Mae gan blant yr hawl i gael lle meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed a derbynnir plant ar y sail honno os oes lle. Nid yw derbyn lle meithrin yn ein hysgol yn gwarantu lle yn y brif ysgol gan fod ail broses dderbyn ar wahân ar gyfer hyn, fel ym mhob ysgol.

I wneud cais am le yn y Feithrinfa, rhaid i rieni Blynyddoedd 1,2,3,4,5, neu 6 (neu geisiadau hwyr ar gyfer y dosbarth derbyn) lenwi ffurflen gais ysgol sydd ar gael ar ein gwefan ysgol, neu ar ffurf copi papur os gofynnir am hynny.

Rhaid i rieni sy'n gwneud cais am le ar gyfer y dosbarth derbyn wneud cais am le yn yr ysgol ar Borth Derbyniadau Cyngor Sir Caerdydd www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion. Dim ond y person/au â chyfrifoldeb rhiant dros yr ymgeisydd a enwir all wneud cais. Bydd gofyn i'r person a fydd yn cwblhau'r cais wneud datganiad i'r diben hwnnw.

Mae gan rieni y bu eu cais yn aflwyddiannus yr hawl i apelio. I wneud apêl mae'n rhaid i rieni lenwi ffurflen apêl a'i hanfon at Gadeirydd y Llywodraethwyr cyn pen 15 diwrnod o dderbyn hysbysiad o gais aflwyddiannus. Bydd yr apêl yn cael ei ystyried gan banel annibynnol sy'n cael ei weinyddu gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf. Nid oes gweithdrefn apelio ar gyfer ceisiadau Meithrin gan nad yw addysg feithrin yn statudol.

Ar ôl dyrannu llefydd, bydd plant sydd wedi bod yn aflwyddiannus yn cael eu rhoi ar ein rhestr aros.

Am weddill y flwyddyn os bydd lleoedd ar gael fe'u dyrannir ar sail y meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd (gweler isod). Nid yw rhestrau aros yn rhoi blaenoriaeth i blant ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr. Er enghraifft, os yw plentyn yn gwneud cais y tu allan i'r rownd dderbyn arferol ac mae ganddo flaenoriaeth uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio, rhaid eu gosod ar y rhestr uwch law y rhai sydd â blaenoriaeth is ac eisoes ar y rhestr. Bydd y rhestr aros yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y gwnaed y cais ynddi neu hyd nes na fydd angen y lle mwyach (pa un bynnag ddaw gyntaf).

### Addysg Grefyddol a Chydaddoli

Mae Addysg Grefyddol a chydaddoli'n digwydd yn yr ysgol yn ôl athrawiaethau ac arferion yr Eglwys yng Nghymru. Fel ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru mae gwerthoedd Cristnogol yn sail i'r holl gwricwlwm ac rydym yn annog pawb i fod yn rhan o Addysg Grefyddol ac o Gydaddoli. Fodd bynnag, mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant allan o AG a Chydaddoli fel y'u diffinnir yn Neddf Addysg 1944 a deddfwriaeth ddilynol. Dylai rhieni sydd â phryderon drafod y rhain gyda'r Pennaeth.

### Polisi Derbyniadau

Polisi Derbyniadau Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville Cytunwyd gan FGB 26 04 23 1 Meini Prawf Derbyn Polisi a Chanllawiau Derbyniadau Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville Mae dyletswydd ar y Corff Llywodraethu i roi blaenoriaeth i dderbyn plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (fel y'u diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (fel y'u diffinnir gan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru). Mae 'na ddyletswydd hefyd i flaenoriaethu derbyn plant gyda Datganiad o Angen Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol lle mae'r ysgol wedi ei henwi, neu blant sydd wedi cael arian meithrin gan Banel Asesu'r Blynyddoedd Cynnar neu Banel Cynghori ar Achosion (gweler ganllawiau LlC).

Gellir rhoi blaenoriaeth hefyd i blant lle mae seiliau meddygol neu gymdeithasol cymhellol os y'u cefnogir gan dystiolaeth ddogfennol gan ymgynghorydd meddygol neu weithiwr cymdeithasol.

Os yw nifer y ceisiadau sy'n weddill yn fwy na'r lleoedd disgyblion sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn plant y mae eu ceisiadau'n bodloni'r meini prawf gordanysgrifio yn y drefn ganlynol:

1. Plant sy'n byw yng Nghaerdydd sy'n mynychu Eglwys Anglicanaidd fel a brofir yn ôl geirda gan ficer/offeiriad.
2. Plant sy'n byw yng Nghaerdydd sy'n mynychu eglwys o enwad Cristnogol arall, fel a brofir yn ôl geirda gan ficer/offeiriad.
3. Plant sydd eisoes â brawd neu chwaer yn yr ysgol ac y bydd hwnnw/honno yn ddisgybl cofrestredig pan gaiff y disgybl newydd ei dderbyn (mae hyn yn cynnwys brodyr a chwiorydd, hanner brawd/chwaer, llysfrawd/llyschwaer, brodyr a chwiorydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu a phlant sy'n byw yn yr un tŷ).
4. Plant sy'n byw agosaf i'r ysgol, wedi ei fesur yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel yn ôl Cyngor Caerdydd. Yn achos plant sy'n byw mewn fflatiau, mae asesiad y llwybr yn cael ei bennu o fynedfa flaen pob fflat.

### Diffiniadau

1. Diffinnir man preswylio arferol y plentyn fel yr eiddo preswyl lle mae'r person neu'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn preswylio ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau.
2. Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant, a bod y bobl hynny'n byw mewn gwahanol eiddo, diffinnir man preswyl arferol y plentyn fel yr eiddo lle mae'r plentyn yn byw ynddo y rhan fwyaf o'r wythnos, gan gynnwys penwythnosau.
3. O fewn pob categori derbyn rhoddir blaenoriaeth i blant genedigaethau lluosog sy'n bodloni'r meini prawf derbyn.

# POLISÏAU DERBYN – YSGOLION FFYDD

## YSGOLION UWCHRADD

### Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf

**POLISI DERBYN A GORDANYSGRIFIO (2024)**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn ysgol 11-18 gydaddysgol, ac mae'n gwasanaethu dinas Caerdydd a'r cyffiniau. Mae hyn yn cynnwys rhannau o orllewin a gogledd Esgobaeth Llandaf, megis Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr. Nod yr ysgol yw bod yn wirioneddol gynhwysfawr, ac nid yw'r corff llywodraethu yn ystyried safon na dawn academaidd plentyn wrth ystyried derbyniadau.

1.2 Mae'r ysgol yn parchu'n llawn gredoau rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr a phlant o bob enwad Cristnogol, crefyddau eraill a'r rhai o ddim cefndir ffydd. Ond, mae llywodraethwyr yn disgwyl y bydd rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr sy'n gwneud cais am le i'w plentyn yn derbyn ac yn cynnal cymeriad ac ethos Cristnogol yr ysgol.

1.3 Cynhelir Noson Agored yn gynnar ym mis Hydref pan wahoddir teuluoedd â diddordeb i ymweld â'r ysgol a chwrdd â'r Pennaeth a'r staff. Mae prosbectws ysgol a ffurflen gais derbyn ar gael yn y Noson Agored a/neu ar unrhyw adeg arall o wefan yr ysgol.

**2. Gweithdrefn Derbyn**

2.1 Y rhif derbyn cyhoeddedig ar gyfer yr ysgol yw 180 ym Mlwyddyn 7. Fel ysgol ffydd, cedwir 150 o leoedd fel rhai 'Sylfaen' (h.y. y plant hynny sy'n cael eu hystyried yn 'galon yr Eglwys'); tra bod 30 o leoedd yn cael eu cadw ar gyfer plant o fewn y 'Gymuned'.

2.2 I gael eich ystyried am le yn Esgob Llandaf, rhaid i riant/rhieni / gofalwr/gofalwyr gwblhau ffurflen gais yr ysgol ei hun a ffurflen ar-lein awdurdod lleol Caerdydd, fel rhan o'r derbyniadau cydlynol. Os yw teulu'n dymuno cael eu hystyried am le 'sylfaen', bydd disgwyl iddynt gwblhau'r adran berthnasol. Bydd yr ysgol yn gofyn yn annibynnol am eirdaon i wirio ymrwymiad ffydd gan yr offeiriad/gweinidogion a enwir. Nid oes angen i deuluoedd sydd am wneud cais am le 'cymuned' gwblhau'r rhan hon o'r ffurflen. Lle nad yw'r adran ffydd wedi'i chwblhau ar gais, bydd y cais yn cael ei ystyried yn awtomatig fel cais 'cymuned'. Ni ellir addasu ceisiadau ar ôl eu cyflwyno.

2.3 Mae is-bwyllgor derbyniadau'r llywodraethwyr yn cwrdd ym mis Ionawr bob blwyddyn i ystyried yr holl geisiadau gan riant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr am leoedd ym Mlwyddyn 7 yn y mis Medi dilynol. Rhaid i geisiadau, gan gynnwys yr holl eirdaon sydd eu hangen o dan 2.2 gael eu derbyn erbyn y dyddiad cau a nodwyd. Nid cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod y geirdaon gan yr offeiriad/offeiriaid neu weinidog(ion) a nodwyd wedi'u darparu erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Bydd unrhyw gais sy'n cynnwys geirdaon i ddilysu ymrwymiad ffydd a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau y cytunwyd arno yn cael ei ystyried yn un hwyr a bydd ond yn cael ei ystyried ar ôl y ceisiadau a ddaeth i law o fewn yr amserlen benodedig.

2.4 Mae'r Corff Llywodraethu'n rhoi blaenoriaeth i frodyr a chwiorydd o oedran ysgol statudol yn Esgob Llandaf ym mhob un o'r categorïau 2 - 10 i, lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn atal gwahanu teuluoedd. Felly, bydd plentyn sydd â brawd neu chwaer yn cael blaenoriaeth yn y categori mae'r ymgeisydd wedi'i ddyrannu iddo.

2.5 Bydd agosrwydd cyfeiriad cartref y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr i'r ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob maen prawf lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na'r terfyn lleoedd.

2.6 Os bydd 180 neu lai o geisiadau, bydd pob ymgeisydd yn cael lle. Pan geir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio yn y drefn a nodir (gweler 2.8).

2.7 Cyn cwblhau'r ffurflen, cynghorir ymgeiswyr i ystyried y diffiniadau a ddefnyddir gan lywodraethwyr wrth benderfynu ar leoedd yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio.

2.7.1 Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn blant sydd wedi eu cofrestru yng ngofal yr awdurdod lleol (o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989) neu sy'n cael llety gan yr awdurdod lleol (o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989) ar adeg y cais a/neu le mae'r awdurdod lleol yn cadarnhau y byddant yn derbyn gofal ar yr adeg pan fydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol;

2.7.2 Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer fiolegol, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer fabwysiedig, llysfrawd neu lyschwaer neu blant maeth a fydd yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol (o oedran ysgol statudol) ar yr adeg derbyn. Efallai y bydd angen tystiolaeth i wirio statws brodyr a chwiorydd.

2.7.3 Cyfeiria enwadau/Eglwysi Cristnogol at yr enwadau/Eglwysi Cristnogol hynny sy'n gysylltiedig ag Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) neu'r Gynghrair Efengylaidd, fel y cydnabyddir gan y llywodraethwyr wrth benderfynu ar leoedd (h.y. mis Ionawr) y flwyddyn derbyn. Lle bu ymgeiswyr yn byw y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod mynychu'r eglwys, dylai cyfeiriad at yr Eglwys yng Nghymru gynnwys aelodau eraill o'r Cymundeb Anglicanaidd; POLISI DERBYN A GORDANYSGRIFIO Dylai Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf Tudalen 2 o 3 Cytûn gynnwys eglwysi/enwadau sy'n gysylltiedig â chyrff aelodau cenedlaethol eraill Cyngor Eglwysi'r Byd; Dylai'r Gynghrair Efengylaidd gynnwys eglwysi/enwadau sy'n gysylltiedig â chyrff aelodau cenedlaethol eraill Cynghrair Efengylaidd y Byd.

2.7.4 Mae ymrwymiad ffydd yn cyfeirio at addoli a fynychir ar naill ai ddydd Sadwrn neu ddydd Sul. Nid yw addoli a fynychir fel rhan o brofiad ysgol gynradd a/neu addoli anffurfiol (e.e. 'Llan Llanast') yn berthnasol.

2.7.5 Mae lleoedd cymuned yn cyfeirio at nifer sefydlog o leoedd sydd 'ar agor' ym mhob blwyddyn i fyfyrwyr sy'n dymuno derbyn addysg yn Esgob Llandaf. Caiff y rhain eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio fel y nodir yn 2.8.2. Ni ddylai'r term 'cymuned' gael ei ystyried fel cyfeiriad at unrhyw leoliad daearyddol penodol.

2.7.6 Mae agosrwydd yn cyfeirio at y pellter sy'n cael ei fesur drwy gyfrifo'r milltiroedd o god post yr ysgol i god post cartref y rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr. Mae'r ysgol yn defnyddio Google Maps i gyfrifo'r pellter 'cerdded' o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd i'r pwynt degol agosaf.

2.8 Nodir y meini prawf gordanysgrifio ar gyfer lleoedd fel a ganlyn

2.8. 1 Ar gyfer y 150 lle 'sylfaen', y meini prawf yw

1. Plentyn sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal;
2. Plentyn sydd wedi'i fedyddio, neu sydd â rhiant/gofalwr wedi'i fedyddio, sy'n mynychu gwasanaeth yr Eglwys yng Nghymru yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y pum mlynedd diwethaf o leiaf;
3. Plentyn sydd wedi'i fedyddio neu gysegru, neu sydd â rhiant/gofalwr wedi'i fedyddio neu gysegru, sy'n mynychu gwasanaeth enwad Cristnogol, ar wahân i'r Eglwys yng Nghymru, yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi bod yn

gwneud hynny am y pum mlynedd ddiwethaf o leiaf;
4. Plentyn sydd wedi'i fedyddio, neu sydd â rhiant/gofalwr wedi'i fedyddio, sy'n mynychu gwasanaeth yr Eglwys yng Nghymru yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf;
5. Plentyn sydd wedi'i fedyddio neu gysegru, neu sydd â rhiant/gofalwr wedi'i fedyddio neu gysegru, sy'n mynychu gwasanaeth enwad Cristnogol, ar wahân i'r Eglwys yng Nghymru, yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf;
6. Plentyn sydd wedi'i fedyddio, neu sydd â rhiant/gofalwr wedi'i fedyddio, sy'n mynychu gwasanaeth yr Eglwys yng Nghymru yn fisol, neu'n achlysurol, ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf;
7. Plentyn sydd wedi'i fedyddio neu gysegru, neu sydd â rhiant/gofalwr wedi'i fedyddio neu gysegru, sy'n mynychu gwasanaeth enwad Cristnogol, ar wahân i'r Eglwys yng Nghymru, yn fisol, neu'n achlysurol, ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf;
8. Plentyn sy'n mynychu man addoli, heblaw am un Cristnogol, yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi gwneud hynny dros y ddwy flynedd ddiwethaf o leiaf;
9. Plentyn sy'n mynd i addoldy, heblaw am un Cristnogol, yn fisol ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf;
10. Plentyn sy'n perthyn i gymuned ffydd nad yw'n cwrdd ag unrhyw un o'r meini prawf uchod.

2.8.2 Ar gyfer y 30 lle 'cymunedol', y meini prawf yw
1. Plentyn sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal;
2. Plentyn, sydd â brawd neu chwaer oedran ysgol statudol yn Esgob Llandaf ar adeg y cais;
3. Plentyn sy'n mynychu ysgol yr Eglwys yng Nghymru;
4. Plentyn sy'n mynychu ysgol ffydd, heblaw am yr Eglwys yng Nghymru; a
5. Plentyn sy'n mynychu ysgol gymunedol o fewn dinas Caerdydd sy'n dymuno cael addysg ffydd.

2.9 Lle enwir Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf mewn datganiad o angen addysgol arbennig a/neu Gynllun Datblygu Unigol, mae dyletswydd ar lywodraethwyr i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

2.10 Mae'r ysgol yn rhan o broses dderbyn gydlynol awdurdod lleol Caerdydd ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau ffurflen ar-lein, yn ogystal i ffurflen yr ysgol ei hun, fel rhan o'r broses. Rhaid i riant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr sy'n gwneud cais am le ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol fynegi dewis am le yn yr ysgol ar Borth Derbyn i Ysgolion y Cyngor a hefyd lenwi ffurflen gais yr ysgol, y gellir ei chael drwy www.bishopofllandaff.org/195/admissions. Mae'r ffurflen hon yn storio'r manylion sylfaenol a ddefnyddir i gefnogi gwirio cyfeiriad cartref yr ymgeisydd a'r POLISI DERBYN A GORDANYSGRIFIO Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf Tudalen 3 o 3 yn cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ceisiadau i ysgolion lluosog (e.e. Esgob Llandaf, ysgol ffydd arall a/neu ysgolion cymunedol). Bydd methu â chwblhau'r ddwy ffurflen, o fewn yr amserlen ddynodedig, yn golygu na chaiff lle ei gynnig.

### 3. Gweithdrefn Apelio

3.1 Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'r llywodraethwyr wedi sefydlu gweithdrefn apelio. Gall rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr plant na chawsant eu derbyn apelio yn erbyn y penderfyniad.

3.2 Penodir y panel gan Esgobaeth Llandaf ac mae'n gwbl annibynnol ar yr ysgol a'r awdurdod lleol. Dylid anfon hysbysiad o fwriad i apelio at y Swyddog Derbyn yn yr ysgol a fydd wedyn yn hysbysu Swyddfa Addysg yr Esgobaeth. Darperir manylion gwrandawiadau apelio gan yr ysgol. Fodd bynnag, mae unrhyw ganlyniad i apêl annibynnol yn cael ei gyfleu gan glerc y panel.

### 4. Cywirdeb gwybodaeth

Byddwch yn ymwybodol, os canfyddir bod rhieni/gofalwyr wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol neu dwyllodrus yn rhan o'r cais, tynnir y cynnig o le yn ôl ac mae'n debygol y bydd yn arwain at ddileu lle ar ôl i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol.
Dyddiad Adolygu: Yr Hydref

## Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Yng Nghymru Teilo Sant

### Cais Derbyn i Flwyddyn 7 (Ar Gyfer Medi 2024)

### Cyflwyniad

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant yn ysgol gyfun sy'n bodoli'n bennaf i wasanaethu anghenion rhieni'r Eglwys yng Nghymru sydd am i'w plant gael addysg mewn system sy'n cyflwyno'r disgybl i ddealltwriaeth o fywyd yn seiliedig ar y ffydd Gristnogol fel y'i addysgir gan arferion, defodau a dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r ysgol yn ceisio hyrwyddo addysg Gristnogol yn y gymuned ehangach. Fel ysgol gyfun, mae'r Llywodraethwyr yn derbyn plant heb gyfeirio at eu gallu na'u doniau. Bydd yr holl blant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu'r ysgol hon, yn amodol ar ddarpariaethau'r Deddfau Addysg, yn gallu gwneud hynny cyn belled nad yw'r nifer sy'n ceisio am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, sef 240 o leoedd ar y cam hwn. Yn unol â'r gofynion statudol, mae gan y Llywodraethwyr ddyletswydd i dderbyn, ar ôl derbyn cais priodol, Blant sy'n Derbyn Gofal a phlant lle mae'r ysgol wedi'i henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn unol â'r meini prawf derbyn cyhoeddedig.

Bydd y Llywodraethwyr yn derbyn hyd at 240 o blant i Flwyddyn 7 bob mis Medi; bydd hyn yn cynnwys 160 o Leoedd Sefydledig ac 80 o Leoedd Agored. Cytunwyd ar y terfyn derbyn hwn mewn egwyddor gan y Llywodraethwyr ac Awdurdod Addysg Lleol Caerdydd ac fe'i defnyddir pan gytunir ar newidiadau statudol eraill o ran derbyn i ysgolion a'u gweithredu. Llywodraethwyr ysgolion a gynorthwyir sy'n gyfrifol am y trefniadau derbyn, ond rhaid iddynt ymgynghori â'r AALl cyn gwneud unrhyw newidiadau. Mae pob rhiant sy'n gwneud cais am le yn gwneud hynny gan wybod mai nod yr ysgol yw cynnig addysg yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol ac felly mae'r Llywodraethwyr yn disgwyl i'r holl ddisgyblion gymryd rhan mewn addoliad Cristnogol yn yr ysgol, mynychu pob gwers addysg grefyddol a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd addysgol arall.

## RHESTR WIRIO DERBYNIADAU

Cynghorir pob ymgeisydd i:

- Gwylio anerchiad byr y Pennaeth yn www.stteilos.com/about/admissions/.
- Cofrestru dewis o bum ysgol yn 'Derbyniadau Ysgolion Ar-lein' drwy ymweld â www.caerdydd.gov.uk cyn y dyddiad cau.
- Llenwi ffurflen dderbyniadau ar-lein Sant Teilo cyn y dyddiad cau.
- Darparu'r holl dystiolaeth ategol angenrheidiol ar ffurf copi caled i'r ysgol cyn y dyddiad cau.
- Sicrhau eich bod yn gwirio'r cyfeiriad e-bost a roddwyd gennych ar eich ffurflen gais yn gyson. Dyma sut bydd yr ysgol yn cadw mewn cysylltiad â chi ynglŷn â'ch cais.

## Cwestiynau Cyffredin

**A ddylwn i wneud cais am Le Sefydledig neu Le Agored?**

Rhaid i rieni/gofalwyr wneud y penderfyniad hwn. Wrth ddewis 'Lle Sefydledig' rydych yn gwneud cais am le sy'n seiliedig ar ffydd ac yn cadarnhau eich bod chi a'ch plentyn yn mynychu addoldy yn rheolaidd neu fod eich plentyn eisoes yn mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru. Os nad ydych yn dymuno gwneud cais am le sefydledig, dylech ddewis 'Lle Agored'. Os byddwch yn gwneud mwy nag un cais i'r ysgol ar gyfer yr un plentyn, dim ond y cais ar-amser diweddaraf fydd yn cael ei ystyried.

**A allaf wneud cais am Le Sefydledig a Lle Agored?**

Na. Mae'n rhaid i chi ddewis un opsiwn yn unig.

**Rwy'n gwneud cais am Le Sefydledig. A oes angen i mi siarad â fy offeiriad/gweinidog/arweinydd ffydd?**

Oes. Bydd yr ysgol yn cysylltu â'ch arweinydd ffydd, a gofynnir iddynt gwblhau geirda felly dylech gael eu caniatâd yn gyntaf. Ni all eich arweinydd ffydd argymell eich plentyn i gael lle ond gofynnir iddynt gadarnhau maint ymwneud eich plentyn â'r gymuned ffydd. Ni fydd eich cais yn cael ei ystyried yn gyflawn nes i'r geirda hwn gael ei ddychwelyd.

**A oes angen i mi ddarparu unrhyw ddogfennau i gefnogi fy nghais?**

Os oes angen addysgol neu feddygol cymhellol gan eich plentyn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol, rheolwr gwaith cymdeithasol neu seicolegydd addysg sydd heb fod dros chwe mis cyn dyddiad cyflwyno'r cais. Rhaid i'r dystiolaeth hon egluro (i) pa anawsterau penodol y mae'r plentyn yn eu cael, (ii) pam mai Teilo Sant yw'r ysgol fwyaf addas a (iii) yr anawsterau a fyddai'n cael eu hachosi wrth fynychu ysgol arall. Nid yw'r Llywodraethwyr yn ystyried gallu academaidd felly nid oes angen llythyrau cefnogaeth gan benaethiaid presennol. Mae'n annhebygol y bydd llythyrau gan Feddygon Teulu yn ddigonol i ddangos angen meddygol cymhellol.

**Sut byddaf yn gwybod eich bod wedi derbyn fy nghais?**

Bydd derbyn eich cais yn cael ei gydnabod yn awtomatig drwy e-bost. Sicrhewch fod eich cais yn cynnwys cyfeiriad e-bost cyfredol. Os na fyddwch yn derbyn cydnabyddiaeth e-bost, nid ydych wedi cyflwyno'ch cais yn gywir.

**Rwyf wedi colli'r dyddiad cau! Beth sy'n digwydd nawr?**

Er mwyn ystyried eich cais, rhaid ei gyflwyno ar-lein erbyn y dyddiad cau. Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau hwn yn cael eu trin fel ceisiadau hwyr.

**Should I apply for another school as well as St Teilo's?**

Dylech. Cynghorir rhieni/gofalwyr yn gryf i wneud cais am bedair ysgol arall er mwyn osgoi sefyllfa lle nad yw plentyn yn cael lle mewn ysgol uwchradd.

**Pryd fyddaf yn gwybod a yw fy nghais wedi bod yn llwyddiannus?**

Bydd y Panel Derbyn yn cwrdd ym mis Ionawr. Fe'ch hysbysir o'u penderfyniad drwy e-bost ddechrau mis Mawrth.

**A gaf i apelio yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr?**

Gallwch. Os yw eich cais wedi bod yn aflwyddiannus a'ch bod yn dymuno apelio, rhaid i chi ddychwelyd y slip ateb sydd ynghlwm wrth eich e-bost gan roi'r rhesymau dros eich apêl. Rhaid i chi ddychwelyd hwn i'r ysgol o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad yr e-bost.

**Pryd mae'r apeliadau yn cael eu clywed?**

Mae'r Panel Apeliadau yn annibynnol ar yr ysgol a'r Llywodraethwyr ac fel arfer yn cyfarfod rhywbryd yn ystod Tymor yr Haf. Fel chi, gwahoddir yr ysgol i fynychu gwrandawiad apêl drwy lythyr.

**Roedd fy nghais yn aflwyddiannus. A allaf gael fy ychwanegu at restr aros?**

Gallwch. Mae'r ysgol yn gweithredu 'cronfa' aros, ac os bydd eich cais yn aflwyddiannus, cewch gynnig cyfle i osod enw eich plentyn yn y 'gronfa' hon. Os bydd lleoedd yn dod ar gael, byddant yn cael eu cynnig gan y Panel Derbyn yn ôl y meini prawf derbyn.

**A oes modd i mi wybod lle ydw i ar y rhestr aros?**

Na. Ni chynigir llefydd ar sail y 'cyntaf i'r felin'. Os bydd lle ar gael, bydd pob cais yn y 'gronfal' aros yn cael ei ystyried yn unol â'r meini prawf derbyn.

## Trosglwyddo i Addysg Uwchradd

Darllenwch y nodiadau hyn cyn cwblhau'r Ffurflen Gais am le yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, a chadwch y nodiadau hyn tan ar ôl i chi dderbyn canlyniad eich Cais neu Apêl.

1. Mae Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant ac Esgob Llandaf yn derbyn disgyblion Blwyddyn 7 yn unol â'r terfyn derbyn y cytunwyd arno gyda'r esgobaeth a'r awdurdod addysg lleol (AALl). Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf fel arfer yn gwasanaethu'r rheiny sy'n byw yn yr ardal i'r gorllewin o Heol Caerffili/Heol y Gogledd gan gynnwys yr Eglwys Newydd, Gabalfa, Llandaf, Ystum Taf, Tongwynlais, Penarth, y Barri a thu hwnt, yn ogystal â'r Dociau. Fel arfer mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant yn gwasanaethu'r rheiny sy'n byw yn yr ardal i'r dwyrain o Heol Caerffili/Heol y Gogledd gan gynnwys Draenen Pen-y-graig, Llanisien, Llys-faen a thu hwnt, yn ogystal â Grangetown.
2. Gellir cael llyfryn yn cynnwys gwybodaeth i rieni am ddarpariaeth Addysg Uwchradd Sir Caerdydd gan AALl Sir Caerdydd, y Swyddfeydd Addysg, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd. Gellir gweld 'prosbectws' ysgol rhithwir sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant ar ein gwefan.
3. Pan fyddwch wedi cwblhau'r cais ar-lein, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth awtomatig trwy e-bost. Os na dderbyniwch gydnabyddiaeth, nid ydych wedi cyflwyno eich cais yn gywir a rhaid i chi roi cynnig arall.
4. Bydd yr ysgol ond yn derbyn un cais am bob plentyn. Os byddwch yn cyflwyno sawl cais ar gyfer yr un plentyn, dim ond y cais diweddaraf (a gyflwynir cyn y dyddiad cau) fydd yn cael ei ystyried. Bydd pob cais blaenorol yn cael ei ddiystyru.
5. Caiff eich cais ei ystyried yn ofalus ac yn ystyriol gan y Llywodraethwyr, ond nid yw cwblhau Ffurflen Gais yn sicrhau y caiff eich plentyn le awtomatig yn Teilo Sant.
6. Nid yw'r Llywodraethwyr, wrth ystyried cais eich plentyn am le yn yr Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru hon, yn ystyried gallu academaidd. Ond pe bai mwy o geisiadau na lleoedd byddent yn ystyried cysylltiad eich teulu, hynny yw y tad, y fam a'r plentyn â'r Eglwys yng Nghymru (Anglicanaidd). Fe'ch cynghorir i ddarllen y 'Meini Prawf Gordanysgrifio'.

7. Os bydd y Llywodraethwyr yn cynnig lle ac y caiff ei dderbyn, fel arfer ni chaiff lle ei gadw yn yr Ysgol Sir Uwchradd sy'n gwasanaethu'r ardal lle rydych yn byw.
8. Rhaid dychwelyd y slip cydnabyddiaeth, yn derbyn neu wrthod y lle a gynigir, ar unwaith i Ysgol Uwchradd Eglwys yng Nghymru Teilo Sant.
9. Os, ar ôl derbyn, nad ydych am gymryd y lle sydd wedi'i gadw yn yr Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, rhaid i chi ysgrifennu ar unwaith at y Llywodraethwyr gan fod rhestr aros fel arfer ar gyfer unrhyw leoedd gwag a allai godi.
10. Os nad yw'r Llywodraethwyr yn cynnig lle i'ch plentyn, bydd Awdurdod Addysg Sir Caerdydd yn anfon llythyr atoch yn nodi Ysgol Uwchradd y Sir sydd â lle wedi'i gadw ar gyfer eich plentyn. Os ydych yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr, rhaid i chi ysgrifennu at y Llywodraethwyr ar unwaith gan roi eich rhesymau dros apelio (dylech gynnwys unrhyw lythyrau neu wybodaeth arall o gefnogaeth ar gyfer eich apêl, er enghraifft llythyrau gan Offeiriad Plwyf, Cynghorwyr lleol neu athrawon). Caiff eich llythyr apêl ei gydnabod, ond os na chewch y gydnabyddiaeth hon o fewn 28 diwrnod dylech gysylltu â'r ysgol oherwydd gallai eich apêl fod wedi mynd ar goll. Mewn amgylchiadau o'r fath, cewch wybod yn ddiweddarach pa bryd yr ystyrir eich apêl gan y Pwyllgor Apeliadau a gaiff ei gynnull yn arbennig.
11. Ni chaniateir cais arall ar ôl gwrthod lle ac apêl aflwyddiannus, ac ni chaiff cais o'r fath ei ystyried.
12. Caiff trefniadau trafnidiaeth ar gyfer disgyblion i'r Ysgol Uwchradd eu hanfon at rieni yn ddiweddarach.

## Meini Prawf Gordanysgrifio

**Lleoedd Sefydledig**

Bydd y Llywodraethwyr yn cynnig 160 o Leoedd Sefydledig bob blwyddyn academaidd. Os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio, cynigir lleoedd yn unol â'r categorïau a nodir isod. Ym mhob categori rhoddir blaenoriaeth gyntaf i:-

1. Y rheiny sy'n bodloni'r maen prawf yn llawn, ond sydd hefyd â brawd neu chwaer sydd eisoes yn mynychu'r ysgol (gweler nodyn 1 isod).
2. Y rheiny sy'n bodloni'r maen prawf yn llawn, a'r pellter o gartref y teulu i'r ysgol (gweler nodyn 2 isod).

**MEINI PRAWF DERBYN LLE SEFYDLEDIG**

A. Plant sy'n derbyn gofal, a phlant lle caiff yr ysgol ei henwi mewn datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, y mae eu teuluoedd yn bodloni'r gofynion ar gyfer lle Sefydledig (gweler nodyn 3 isod).
B. Plant sydd wedi'u bedyddio ac sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru ac y mae eu teuluoedd yn aelodau mewn gair a gweithred* fel rhan o'r Gymuned Anglicanaidd.
C. Plant sydd wedi'u bedyddio ac sy'n mynychu unrhyw Ysgol Gynradd arall y mae eu teuluoedd yn aelodau mewn gair a gweithred* fel rhan o'r Gymuned Anglicanaidd.
D. Plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru.
E. Plant y mae eu teuluoedd yn aelodau mewn gair a gweithred* yn rhan o un o enwadau prif ffrwd eraill y ffydd Gristnogol.
F. Plant y mae eu teuluoedd yn aelodau mewn gair a gweithred* yn rhan o ffydd prif ffrwd arall.

**Nodiadau am Leoedd Sefydledig:**

Dyrennir lleoedd Sefydledig ar sail y dystiolaeth a nodir ar y Ffurflen Gais gan y teulu ac a gadarnheir gan y glerigiaeth/y gweinidog neu arweinydd ffydd o ran pa mor aml y mynychir yr eglwys ac y cyfrannir at fywyd, gwaith a thystio'r eglwys neu'r man addoli. Ni fydd cais am Le Sefydledig yn cael ei ystyried yn gyflawn nes i'r geirda gael ei ddychwelyd. Ni fydd yr ysgol yn mynd ar drywydd geirdaon sydd heb eu dychwelyd. Ni ellir addasu ceisiadau ar ôl eu cyflwyno.

Hefyd, ym mhob categori, ystyrir plant teuluoedd sy'n rhoi tystiolaeth ar adeg y cais bod gan y plentyn angen addysgol, cymdeithasol neu feddygol penodol y gellir ei fodloni yn arbennig o dda o fewn amgylchedd Cristnogol gofalgar Ysgol Teilo Sant, ac sydd eisoes yn derbyn cymorth gan yr eglwys wrth fodloni'r anghenion hynny. Caiff lleoedd eu dyrannu ar sail y dystiolaeth a roddir gan y teulu mewn datganiad personol ac a gadarnheir gan y glerigiaeth/y gweinidog/yr eglwys neu gan arweinydd ffydd ac ymgynghorydd proffesiynol fel y bo'n briodol.

**Pennir mynychu gwasanaethau ac addoli drwy gyfeirio at yr atebion i'r cwestiynau ar y Ffurflen Gais, ac mae hyd y cyfnod o addoli yr un mor bwysig â pha mor aml yr addolir. O leiaf, disgwylir presenoldeb o leiaf bob mis ac am o leiaf ddwy flynedd. Nid yw mynychu addoldy yn rhinwedd mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn bodloni'r diffiniad o 'fynychu gwasanaethau ac addoli'. Os oes llai na 160 o ymgeiswyr cymwys ar gyfer Lleoedd Sefydledig bydd unrhyw leoedd sydd heb eu llenwi yn dod yn Lleoedd Agored ychwanegol.*

1. Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd/chwaer fiolegol, hanner brawd/chwaer, llys-frawd/chwaer, brawd/chwaer fabwysiedig/faeth. Yn achos plant genedigaeth luosog, bydd y corff llywodraethu yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael ei dderbyn er mwyn osgoi gwahanu teuluoedd.

2. Mae agosrwydd yn cyfeirio at y pellter sy'n cael ei fesur drwy gyfrifo'r milltiroedd o'r ysgol i gyfeiriad cartref y rhiant/gofalwr. Mae'r ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Cyngor Caerdydd i gyfrifo pellter y cartref i'r ysgol mewn milltiroedd i'r ddau le degol agosaf.

3. Plant sy'n derbyn gofal yw plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (fel y'u diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (fel y'u diffinnir gan ddogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru).

Mae'r Llywodraethwyr yn dyrannu 80 o leoedd bob blwyddyn fel Lleoedd Agored i'w cynnig i blant nad ydynt yn gymwys am Leoedd Sefydledig, ond y mae eu rhieni wedi dewis yr ysgol am y math o addysg a gynigir. Pan fo gordanysgrifio o ran lleoedd, cynigir y lleoedd yn unol â'r categorïau isod. O fewn y categorïau hynny defnyddir y pellter o gartref y teulu i'r ysgol (lle bo angen) i bennu'r dyraniad (gweler nodyn 1 isod).

**OPEN PLACE ADMISSION CRITERIA**

A. Plant sy'n derbyn gofal, a phlant lle enwir ys ysgol mewn datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, nad yw eu teulu yn bodloni'r meini prawf derbyn ar gyfer Lle Sefydledig (gweler nodyn 2 isod).
B. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol nad yw eu teulu yn bodloni'r meini prawf derbyn ar gyfer Lle Sefydedig (gweler nodyn 3 isod).
C. Plant sy'n mynychu - ac y mae eu cartrefi teuluol o fewn dalgylchoedd - Ysgolion Cynradd Bryn Celyn, Glyncoed, Llanedern a Springwood, nad yw eu teuluoedd yn bodloni'r meini prawf derbyn ar gyfer Lle Sefydedig.
D. Unrhyw blant eraill nad yw eu teuluoedd yn bodloni'r meini prawf derbyn ar gyfer Lle Sefydledig.

**Nodiadau ar Leoedd Agored:**
Ym mhob categori, ystyrir plant teuluoedd sy'n rhoi tystiolaeth broffesiynol ar adeg gwneud y cais bod gan y plentyn angen addysgol, cymdeithasol neu feddygol penodol y gellir ei fodloni yn arbennig o dda o fewn amgylchedd Cristnogol gofalgar Ysgol Uwchradd Teilo Sant. Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn seiliedig ar dystiolaeth a roddir gan y teulu mewn datganiad ysgrifenedig ar adeg y cais gan weithiwr meddygol proffesiynol, gweithiwr cymdeithasol neu seicolegydd addysg sy'n egluro (a) pa anawsterau penodol sydd gan y plentyn (b) pam y credir mai Teilo Sant yw'r ysgol fwyaf addas ac (c) yr anawsterau fyddai'n cael eu hachosi drwy fynychu ysgol arall.

1. Mae agosrwydd yn cyfeirio at y pellter sy'n cael ei fesur drwy gyfrifo'r milltiroedd o'r ysgol i gyfeiriad cartref y rhiant/gofalwr. Mae'r ysgol yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) Cyngor Caerdydd i gyfrifo pellter cartref i'r ysgol mewn milltiroedd i'r ddau le degol agosaf.
2. Plant sy'n derbyn gofal yw plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (fel y'u diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989) neu blant a arferai dderbyn gofal (fel y'u diffinnir gan ddogfen rhif 005/2-13 Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru).
3. Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd/chwaer fiolegol, hanner brawd/chwaer, llys-frawd/chwaer, brawd/chwaer fabwysiedig/faeth. Yn achos plant genedigaeth luosog, bydd y corff llywodraethu yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael ei dderbyn er mwyn osgoi gwahanu teuluoedd

# Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi

**POLISI DERBYN 2024**
**Dyddiad Cymeradwyo gan Lywodraethwyr: 22 Mawrth 2023**

## CYFLWYNIAD
Mae'r Polisi hwn yn cyfeirio at dderbyniadau ym mis Medi 2024 i Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi sy'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir a sefydlwyd gan Archesgobaeth Caerdydd. Gan y Corff Llywodraethu'n unig y mae'r cyfrifoldeb am dderbyniadau i'r Ysgol a rhaid iddi dderbyn disgyblion i nifer derbyn yr ysgol, sef 215.

## Egwyddorion Allweddol
Dim ond y corff llywodraethol all dderbyn ac ni all unrhyw gynrychiolaeth a wneir gan unrhyw berson gan gynnwys llywodraethwr, aelod staff, clerigwyr neuunrhyw un a etholwyd gan yr awdurdod lleol neu a gyflogir ganddo gael ei hystyried gan arwydd o gynnig neu addewid o le. Dim ond cynnig ysgrifenedig gan y corff llywodraethu y gellir ei dderbyn fel cynnig derbyn. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhoi hawl i rieni fynegi ysgol ddewis ar gyfer eu plant. Gwneir derbyniadau i'r Ysgol yn unol â dewis rhieni os oes lleoedd ar gael. Pan fo mwy na 215 o ymgeiswyr, bydd derbyniadau yn cael eu gwneud yn unol â threfn blaenoriaeth yn y meini prawf gordanysgrifio a'r weithdrefn a nodir isod. Mae'r polisi hwn yn ystyried ac yn dilyn Cod Derbyn Llywodraeth Cymru 005/2013.

**MEINI PRAWF DERBYN**
**Dalgylch**

| Plwyfi Dynodedig | Ysgolion Catholig Cynradd Dynodedig |
|---|---|
| Crist y Brenin | Crist y Brenin |
| y Teulu Sanctaidd *(ond DIM OND y rhan honno sydd i'r gogledd o reilffordd ac i'r gogledd a'r gorllewin o Western Ave)* | y Teulu Sanctaidd |
| Sant Teilo gyda Ein Harglwyddes o Lourdes | St Bernadette |
| St Brigid a St Paul | St Joseff |
| St Joseff | St Pedr |
| St Pedr | St Philip Evans |
| St Philip Evans | |

Dangosir manylion ffiniau allanol ar fap a gedwir yn yr ysgol a gellir cael copïau o'r adran berthnasol ar gais. Nid yw'r drefn y rhestrwyd plwyfi ac ysgolion yn arwyddocaol.

## Meini Prawf Gordanysgrifio Trefn Plant â Blaenoriaeth
Caiff plant eu derbyn yn ôl y flaenoriaeth ganlynol. Penderfynir ar gymhwysedd mewn categori ar yr adeg y caiff y cais ei ystyried gan y llywodraethwyr neu, os oes apêl, ar ddyddiad penderfynu'r apêl. Os na all y llywodraethwyr dderbyn pob ymgeisydd o fewn categori penodol, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol a fesurir gan Gyngor Caerdydd gan ddefnyddio'r dull a nodir ym Mholisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Caerdydd.

1 Plant sy'n Derbyn Gofal neu a Arferai Dderbyn Gofal.
2. Plant Catholig wedi'u bedyddio (A) sy'n byw yn y dalgylch a (b) sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig ddynodedig.
3. Brodyr neu chwiorydd sydd eisoes yn yr ysgol ar adeg y penderfyniad ac a fydd yn ddisgyblion ar yr adeg y bydd yr ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol.
4. Plant Catholig wedi'u bedyddio (A) sy'n byw yn y dalgylch a (b) sy'n mynychu Ysgol Gynradd nas dynodir yn Gatholig.
5. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw yn y dalgylch.
6. Plant Catholig eraill sydd wedi'u bedyddio.
7. Plant (a) sy'n byw yn y dalgylch a (b) sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig ddynodedig.

8. Plant (a) sy'n byw yn y dalgylch a (b) sy'n mynychu Ysgol Gynradd nas dynodir yn Gatholig.
9. Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n gallu dangos gyda llythyr o gefnogaeth gan weinidog neu berson mewn awdurdod, yn enwedig yn y flwyddyn flaenorol, eu bod wedi mynd ati i gefnogi enwad Cristnogol.
10. Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n gallu dangos gyda llythyr o gefnogaeth gan berson mewn awdurdod, eu bod wedi cymryd rhan weithredol yn y flwyddyn flaenorol i gefnogi ffydd nad yw'n Gristnogol.
11. Plant arall sy'n byw yn y dalgylch.
12. Plant eraill sy'n dymuno derbyn addysg ffydd yn Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi

Ar gyfer categorïau 2, 4, 5 a 6 rhaid i'r ymgeisydd fod wedi'i fedyddio'n Gatholig. Yng nghategorïau 1, 3, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 nid oes yn rhaid i blentyn fod yn Gatholig Bedyddiedig. Plant sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU) wedi'i ariannu sy'n enwi Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi fel yr ysgol ddynodedig yn cael ei derbyn.

Mae brodyr a chwiorydd yn cynnwys plant gydag o leiaf un rhiant cyffredin [gan gynnwys plant mabwysiedig]. Caiff plant genedigaethau lluosog i gyd eu derbyn i un flwyddyn os oes modd cynnig lle i un ohonynt.

Mae angen prawf bod plentyn wedi'i Fedyddio'n Gatholig gyda phob cais. Mae copi o'r dystysgrif fedyddio yn brawf [ac yn ofynnol oni bai nad yw ar gael am reswm da pan fydd yn rhaid cyflwyno tystiolaeth arall].

Mae angen prawf o gyfeiriad preswyl y plentyn adeg y cais hefyd.

**Rhestr Aros**

Cedwir cais pob ymgeisydd sydd heb gael ei dderbyn, pryd bynnag y cafodd ei wneud yn ystod y flwyddyn berthnasol, ar restr aros. Bydd ymgeiswyr yn cael eu rhoi mewn trefn ar y rhestr yn ôl blaenoriaethau gordanysgrifio'r Polisi Derbyn. Bydd ceisiadau ar gyfer Blwyddyn 7 yn cael eu cadw ar y rhestr aros tan 31 Rhagfyr ar ôl derbyn y cais. Caiff ceisiadau yn ystod y flwyddyn, pryd bynnag y cawsant eu gwneud yn ystod y flwyddyn berthnasol, eu cadw ar y rhestr aros tan 31 Awst ar ôl iddynt ddod i law.

Os daw lle ar gael fe'i neilltuir i'r ymgeisydd sydd uchaf ar y rhestr aros ar y pryd oni bai bod lle wedi'i gynnig i ymgeisydd sy'n uwch ar y rhestr ond nas derbyniwyd o fewn y cyfnod gofynnol. Bydd methu i ymateb am unrhyw reswm yn cael ei drin fel gwrthodiad a bydd y lle yn mynd i'r ymgeisydd nesaf ar y rhestr a fydd yn derbyn.

Ar ôl 31 Rhagfyr (ceisiadau Blwyddyn 7) neu 31 Awst (ceisiadau o fewn y flwyddyn) bydd y rhestr aros yn cael ei dileu a bydd yr holl ymgeiswyr ar y rhestr aros yn cael eu trin fel rhai sydd heb wneud cais. Bydd unrhyw le yn y dyfodol a fydd ar gael yn cael ei ddyrannu i'r ymgeisydd nesaf am le neu, os bydd mwy nag un, drwy gyfeirio at y meini prawf cyhoeddedig. Rhaid i ymgeiswyr ddeall trefn flaenoriaeth y rhestr aros yn newid wrth i fwy o ymgeiswyr wneud cais ac wrth i amgylchiadau newid. Os yw ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r llywodraethwyr yn ysgrifenedig o unrhyw newid sylweddol perthnasol o ran amgylchiadau yna bydd hyn yn cael ei ystyried gan y llywodraethwyr ac mae'n bosibl y caiff y safle ar y rhestr aros ei newid yn unol â hynny

**Gweithdrefnau Pellach**

1. Mae'r penderfyniad i gynnig lle i ymgeisydd yn un i'r corff llywodraethu yn unig (yn amodol ar apêl).
2. Penderfynwyd ar y dyddiadau cau ar gyfer penderfynu ar dderbyniadau a rhoi gwybod amdanynt ar ôl ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Y dyddiadau ar gyfer 2023 yw:

| | |
|---|---|
| Ceisiadau derbyn yn agor: | Dydd Llun, 25 Medi 2023 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: | Dydd Llun, 20 Tachwedd 2023 |
| Hysbysiad o gynigion: | Dydd Gwener, 1 Mawrth 2024 |
| Dyddiad derbyn neu wrthod cynigion ysgol: | Dydd Gwener, 15 Mawrth 2024 |
| Rhaid dychwelyd apeliadau statudol erbyn: | Dydd Gwener 15 Mawrth 2024 |

3. Ar gyfer ceisiadau Blwyddyn 7 yn y rownd dderbyn arferol, mae'n rhaid cwblhau dau gais – cais ar-lein Awdurdod Lleol (ALl) a chais ar-lein Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi.
   a. Rhaid i'r cais i'r ALl gael ei gyflwyno trwy Wasanaeth Ceisiadau Ar-lein y Cyngor (gweler Llyfryn Derbyn i Ysgolion Cyngor Caerdydd).
   b. Cyflwynir cais ar-lein Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi trwy wefan yr ysgol.

Ar gyfer ceisiadau Blwyddyn 7 y tu allan i'r rownd dderbyn arferol a phob cais arall yn ystod y flwyddyn, dim ond cais i Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi sydd ei angen. Dylai rhieni/gofalwyr gysylltu â'r ysgol i ofyn am ffurflen gais.

4. Mae'n rhaid i ffurflenni cais wedi'u llenwi ddod i law ysgolion a'r ALlar y dyddiad neu cyn y dyddiad penodedig.
5. Mae'n rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir ar adeg y cais. Gall diofyn arwain at le a gynigir yn cael ei dynnu'n ôl yn unol â pharagraffau 3.40-3.41 y Cod Derbyn.
6. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad y cais yn ysgrifenedig gan y llywodraethwyr ar y dyddiad a bennir ym mharagraff 2 uchod. Os bydd cais derbyn yn cael ei wrthod, mae gan y rhiant/gofalwr hawl i arfer ei hawl i apelio. Bydd manylion y drefn yn cael eu rhoi gyda phob gwrthodiad. Bydd enw'r ymgeisydd yn aros ar y rhestr aros er gwaethaf apêl.
7. Caiff CEISIADAU HWYR a wneir yn y rownd dderbyn arferol ond eu hystyried gyda cheisiadau prydlon dim ond os rhoddir rheswm dilys am oedi ym mhob amgylchiad, neu fel arall dim ond ar ôl penderfynu ar yr holl geisiadau a wnaed o fewn yr amser . Caiff ceisiadau a wneir y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol eu hystyried a cheir hysbysiad o benderfyniad ymhen pa un bynnag ddaw gyntaf, 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr. Gellir apelio yn erbyn pob gwrthodiad. [cod 3.17]. Gwybodaeth Bellach Ym mis Medi 2023, y nifer derbyn safonol ar gyfer mynediad i Flwyddyn 7 oedd 215; cafodd 245 o ddisgyblion eu derbyn ar gais Cyngor Caerdydd a gwnaeth 398 o ddisgyblion gais am fynediad ym mis Medi 2022, y nifer derbyn safonol ar gyfer mynediad i Flwyddyn 7 oedd 215; cafodd 245 o ddisgyblion eu derbyn ar gais Cyngor Caerdydd a gwnaeth 409 o ddisgyblion gais am fynediad ym mis Medi 2021, y nifer derbyn safonol ar gyfer mynediad i Flwyddyn 7 oedd 215 gyda 400 o ddisgyblion wedi gwneud cais am fynediad. Ym mis Medi 2020, y nifer derbyn ym Mlwyddyn 7 oedd 215 a gwnaeth 370 o ddisgyblion gais am le.

# Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog

**Polisi Derbyn a Gordanysgrifio**
**Cyflwyniad**
Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at dderbyniadau ym mis Medi 2024 i Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog. Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol. Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros benderfynu derbyniadau i'w 'Bwyllgor Derbyn'.

Dim ond y corff llywodraethu all gynnig lleoedd i'r ysgol ac ni all unrhyw sylw a wneir gan unrhyw berson gan gynnwys llywodraethwr, aelod staff, clerigwyr neu unrhyw un a etholwyd gan yr awdurdod lleol neu a gyflogir ganddo gael ei ystyried fel arwydd neu gynnig o le. Dim ond cynnig ysgrifenedig gan y corff llywodraethu sy'n cael ei ystyried fel cais llwyddiannus am le yn yr ysgol. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002) yn rhoi hawl i rieni fynegi ysgol ddewis i'w plentyn.

## Ein Hysgol
Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog sy'n gweithredu o dewn darpariaeth gyffredinol Archesgobaeth Caerdydd. Mae'r ysgol yn parchu'n llwyr ddaliadau rhieni a phlant o bob cefndir crefyddol ac, wrth gwrs, y rhai heb gefndir crefyddol. Mae'r Llywodraethwyr yn gofyn i unrhyw rieni sy'n gwneud cais am leoedd i'w plant gefnogi ethos a chymeriad yr ysgol gyda'i gwerthoedd Efengylaidd fel 'gofal, tosturi a maddau eraill', sydd hefyd yn gyffredin i lawer o grefyddau. O ganlyniad mae disgyblion yn Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog yn dysgu parch a goddefgarwch tuag at eraill ac mae darpariaeth drwy'r rhaglen addysg grefyddol i archwilio sawl ffydd wahanol yn y byd.

## Dalgylch
Sefydlwyd Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog i wasanaethu'r gymuned Gatholig a heb fod yn Gatholig yng ngorllewin Caerdydd. Mae'r ysgol yn cynnig addysg uwchradd i blant o'i theulu Catholig o ysgolion, ac fel arfer mae'r plant hyn yn byw o fewn ffiniau'r plwyfi a nodir isod.

| Plwyf Dynodedig | Ysgol Gynradd Gatholig Ddynodedig |
|---|---|
| Y Teulu Sanctaidd | Sant Cuthbert |
| Sant Ffransis | Sant Ffransis |
| Santes Fair yr Angylion | Y Santes Fair |
| Sant Padrig | Sant Padrig |

**Nodyn**
Nid yw'r drefn y rhestrwyd plwyfi ac ysgolion dynodedig yn arwyddocaol.

## MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO

I wneud cais am le ym mis Medi 2024, **Mae'n rhaid i chi gwblhau dwy ffurflen.** Y cyntaf yw ffurflen dderbyn yr ysgol sydd i'w gweld ar-lein (www.maryimmaculate.org.uk) – rhaid dychwelyd hon i'r ysgol drwy e-bost neu ei chwblhau ar-lein. Rhaid i bob rhiant hefyd lenwi Ffurflen Dderbyn Awdurdod Lleol Caerdydd drwy'r Porth (www.caerdydd.gov.uk) Mae'n bwysig iawn bod rhieni yn cwblhau'r ddwy ffurflen neu efallai na fydd y cais i Mair Ddihalog yn gyflawn ac efallai na chaiff ei ystyried.
Y nifer derbyn safonol yw 159 y flwyddyn. Caiff lleoedd eu dyrannu hyd at nifer derbyn yr ysgol heb osod unrhyw amodau. Pan fo gordanysgrifio, sef mwy o geisiadau na lleoedd (h.y. mwy o geisiadau na'r nifer derbyn), defnyddir y meini prawf canlynol, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth.

1. Plant sydd yn (neu y dynodwyd eu bod wedi) 'Derbyn Gofal';
2. Plant Catholig bedyddiedig sy'n mynychu un o'n hysgolion cynradd Catholig dynodedig;
3. Plant Catholig bedyddiedig nad ydynt yn mynychu un o'n hysgolion cynradd Catholig dynodedig ond sydd â brawd neu chwaer yn ysgol Mair Ddihalog;
4. Plant Catholig bedyddiedig nad ydynt yn mynychu un o'n hysgolion cynradd Catholig dynodedig;
5. Plant eraill sy'n mynychu un o'n hysgolion cynradd Catholig dynodedig;
6. Plant nad ydynt yn Gatholig ac nad ydynt yn mynychu un o'n hysgolion cynradd Catholig dynodedig, ond sydd â brawd neu chwaer ym Mair Ddihalog;
7. Plant enwad Cristnogol, ac eithrio un Catholig, fel arfer yn berthnasol i draddodiadau Protestannaidd neu Uniongred, sy'n dymuno derbyn addysg ffydd yn ysgol Mair Ddihalog;
8. Plant o draddodiad crefyddol, a ddiffinnir fel crefydd byd ac eithrio'r grefydd Gristnogol, sydd am gael addysg ffydd yn ysgol Mair Ddihalog;
9. Unrhyw blant eraill sy'n dymuno derbyn addysg ffydd yn ysgol Mair Ddihalog

**Nodiadau**
1. Plant 'Catholig' yw rhai sydd wedi'u bedyddio'n aelodau o'r Eglwys Gatholig. Bydd angen tystiolaeth o fedydd. Mewn achos cais o'r fath, gall yr offeiriad plwyf lle bedyddiwyd y plentyn roi tystiolaeth. Bydd angen y dystysgrif hon.
2. Diffinnir brawd/chwaer yn yr achos hwn fel brawd neu chwaer fiolegol, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer wedi'i fabwysiadu, llys-frawd neu lys-chwaer neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac a fydd yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol ar yr amser derbyn. Yn achos plant genedigaeth luosog, bydd y Corff Llywodraethu yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael ei dderbyn er mwyn osgoi gwahanu teuluoedd
3. Efallai y bydd angen tystiolaeth, fel llythyr ategol gan weinidog neu Imam, ar gyfer ceisiadau gan blant o enwadau Cristnogol eraill a/neu draddodiadau crefyddol eraill.
4. Os bydd angen torglwm, h.y. lle mae mwy o geisiadau gan blant sydd â maen prawf na'r capasiti sydd ar gael a bod y gofynion tystiolaeth wedi'u bodloni, rhoddir blaenoriaeth i'r plant hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol (a fesurir gan Gyngor Sir Caerdydd gan ddefnyddio'r dull a nodir ym Mholisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Caerdydd 2019/20 [adran 7.7 agosrwydd]).
5. Bydd plant sydd â Datganiad ADY / CDU Awdurdod Lleol sy'n dynodi Mair Ddihalog yn glir yn cael eu derbyn.
6. Mae'n bwysig bod gwybodaeth yn gywir ar adeg y cais. Os oes newidiadau mewn amgylchiadau sy'n digwydd rhwng y broses ymgeisio a'r penderfyniad derbyn, dim ond ar sail unigol y bydd y rhain yn cael eu hystyried. Efallai y bydd angen mwy o dystiolaeth ac esboniadau.

## Ceisiadau Hwyr
Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried ar ôl y ceisiadau a gyflwynwyd yn brydlon erbyn y dyddiad cau. Os yw nifer y cynigion wedi cyrraedd y rhif derbyn yn y rownd gyntaf, yna bydd pob cais hwyr yn cael ei ystyried a'u rhoi ar y rhestr aros tan ddiwedd mis Medi, ond ar ôl hynny byddai'n rhaid adnewyddu ceisiadau.

## Gweithdrefnau Pellach
1 Mae'r penderfyniad i gynnig lle i ymgeisydd yn un i'r corff llywodraethu yn unig (yn amodol ar apêl). Penderfynwyd ar y dyddiadau cau ar gyfer penderfynu ar dderbyniadau a rhoi gwybod amdanynt ar ôl ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Caiff ymgeiswyr wybod

am ganlyniad eu cais yn ysgrifenedig gan y Corff Llywodraethu ar ddyddiad y cynnig sef Dydd Gwener 1 Mawrth 2024, heblaw eich bod wedi cael cynnig un o'ch dewisiadau uwch drwy'r broses derbyniadau cydlynol.

Dyddiadau tymor ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24 yw:

| | |
|---|---|
| Anfon Gwybodaeth am Dderbyniadau i rieni/ysgolion | |
| Dyddiad cau dychwelyd ceisiadau | Dydd Llun 20 Tachwedd 2023 |
| Hysbysu'r canlyniadau i'r Awdurdod Lleol | |
| Hysbysu'r rhieni o ganlyniad ceisiadau | Dydd Gwener 1 Mawrth 2024 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn neu wrthod gan y rhiant | |
| Dyddiad cau dychwelyd apeliadau statudol | |
| Gwrandawiadau apêl | |

2 Rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein (trwy'r wefan) neu yn ysgrifenedig, wedi'u llofnodi gan riant/gofalwr ar y ffurflenni cais sydd hefyd ar gael gan yr ysgol neu Bennaeth ysgol gynradd Gatholig ddynodedig. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr gwblhau dwy ffurflen gais – ffurflen ar-lein Awdurdod Lleol (lle mae'n rhaid i chi nodi Mair Ddihalog fel eich dewis ysgol) a ffurflen ysgolion Catholig werdd ar gyfer Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog (sydd i'w gael ar wefan yr ysgol neu drwy'r ysgol).

3 Mae'n rhaid i ffurflenni cais wedi'u llenwi ddod i law ysgolion a'r ffurflen Awdurdod Lleol wedi ei llenwi ar-lein ar neu cyn y dyddiad penodedig. Dylid dychwelyd pob cais i Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog yn uniongyrchol erbyn y dyddiad cau ac i'r Awdurdod Lleol gan ddefnyddio eu porth derbyn.

4 Rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir. Gall methu â chyflwyno dogfennaeth berthnasol (e.e. tystysgrifau bedydd) olygu bod lle yn cael ei dynnu'n ôl.

5 Os bydd cais am le yn cael ei wrthod, mae gan y rhiant/gofalwr hawl i arfer ei hawl i apelio.

**Y Weithdrefn Apelio**

1. Rhaid i ffurflen apêl, sydd ar gael gan Glerc y Llywodraethwyr, gael ei chwblhau a chyrraedd yr ysgol 14 diwrnod ar ôl yr hysbysiad gwrthod;

2. Bydd Panel Apeliadau Annibynnol yn cael ei gynnull cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i benderfynu ar yr apêl;

3. Bydd tri unigolyn ar y Panel Apeliadau, yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd llywodraethwyr yr ysgol a'r apelydd wedi eu rhwymo i'r penderfyniad annibynnol;

4. Caiff y Panel Apeliadau weld unrhyw ohebiaeth flaenorol ond gall yr apelydd hefyd fynychu'r gwrandawiad a siarad â'r panel wyneb yn wyneb;

5. Fel arfer caiff yr apelydd rybudd o 14 diwrnod o leiaf cyn y Gwrandawiad Apêl.

6. Bydd enw'r ymgeisydd yn aros ar y rhestr aros er gwaethaf apêl.



# Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant

## POLISI YSGOL UWCHRADD GATHOLIG ILLTUD SANT AR GYFER DERBYN MYFYRWYR I FLWYDDYN 7 MEDI 2024

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am dderbyn i'r ysgol. Mae 176 o fyfyrwyr yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7 bob mis Medi.

Mae'r polisi hwn yn disgrifio sut y bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ym Mlwyddyn 7 yn 2024. Mae'n disgrifio sut y dylai rhieni wneud cais am le yn Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant a hefyd yn amlinellu'r meini prawf blaenoriaeth a ddefnyddir os bydd llywodraethwyr yn cael mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael.
Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant sy'n gweithredu yn narpariaeth gyffredinol Archesgobaeth Caerdydd. Nod y Llywodraethwyr yw cynnig addysg Gatholig, gan ofyn y bydd unrhyw gais gan rieni am leoedd i'w plant yn cefnogi ethos a chymeriad Catholig yr ysgol. Serch hynny, mae'r ysgol yn parchu daliadau rhieni a phlant o bob enwad a chefndir ffydd. Caiff disgyblion yn Ysgol Uwchradd Illtyd Sant eu haddysgu i barchu a goddef eraill ac mae darpariaeth yn y rhaglen addysg grefyddol ar gyfer dysgu am grefyddau gwahanol.
Sefydlwyd Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant i wasanaethu cymuned Gatholig Dwyrain Caerdydd. Mae'r ysgol yn cynnig parhad addysgol uwchradd i blant sy'n cael eu tynnu o'i hysgolion cynradd partner Catholig sy'n dymuno trosglwyddo am addysg 11 oed a hŷn. Fel rheol, mae'r plant hyn yn byw yn ffiniau plwyfi Catholig yr ardal ddaearyddol a leolir i'r dwyrain o afon Taf ac yn ne'r ddinas (gweler isod):

| Plwyf Dynodedig | Ysgol Gynradd Gatholig Ddynodedig |
|---|---|
| Sagrafen Bendigaid | Sant Alban |
| Sant Alban | Sain Cadog |
| Sain Cadog | Sant Cuthbert |
| Sant Cuthbert | Sant John Lloyd |
| Eglwys Gadeiriol Tyddewi | Sant Pedr |
| Sant John Lloyd | Sant Pedr |

### Gweithdrefnau Derbyn

Rhaid gwneud pob cais am le ar-lein yn: www.stilltyds.org.uk/admissions
Y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ac felly mae'n gyfrifol am ddyrannu pob lle yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtyd.

Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau a ddaw erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig, sef dydd Llun 20 Tachwedd 2023. Os bydd mwy o geisiadau na'r nifer derbyn safonol cyhoeddedig, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried yn nhrefn blaenoriaeth ar ôl i'r ceisiadau hynny sydd wedi dod i law ar amser. Cedwir rhestr aros tan 30 Medi 2024.

Rydym am i'n rhieni wneud dewisiadau hyddysg o ran ysgol uwchradd ac rydym yn annog teuluoedd i ymweld â'n hysgol i ddysgu mwy am ein trefniadau dysgu yn Ysgol Uwchradd Gatholig Illtyd Sant. Fodd bynnag, ni fydd eich ymweliad yn rhan o'r broses o benderfynu pa blant y cynigir lle iddynt.

Bydd y Llywodraethwyr yn derbyn ceisiadau am leoedd Blwyddyn 7 ym mis Medi 2024 ar ran plant a aned rhwng 1 Medi 2012 a 31 Awst 2013.

Bydd ceisiadau yn ystod y flwyddyn ar gyfer unrhyw grwp blwyddyn yn cael eu hystyried dan yr un polisi a'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

### Categorïau Derbyn

Caiff 176 o ddisgyblion eu derbyn i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2024. Lle bo mwy na 176 o geisiadau, dyrennir 176 o leoedd i blant y daw ceisiadau cychwynnol eu rhieni erbyn y dyddiad cau. Caiff ceisiadau eu hystyried yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

| RHIF CATEGORI | DISGRIFIAD | TYSTIOLAETH SYDD EI HANGEN |
|---|---|---|
| 1 | Plant sy'n Derbyn Gofal (ar hyn o bryd neu'n flaenorol) | Hysbysiad gan Awdurdod Lleol |
| 2 | Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig ddynodedig | Copi o'r Dystysgrif Bedydd |
| 3 | Plant Catholig wedi'u bedyddio nad ydynt wedi cofrestru mewn Ysgol Gynradd Gatholig ddynodedig ac sy'n byw yn y dalgylch | Copi o'r Dystysgrif Bedydd |
| 4 | Brodyr neu chwiorydd Catholig wedi'u bedyddio disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol ar adeg y penderfyniad ac a fydd yn ddisgyblion ar yr adeg y bydd yr ymgeisydd yn dechrau yn yr ysgol. | Copi o'r Dystysgrif Bedydd |
| 5 | Plant Catholig eraill wedi'u bedyddio | Copi o'r Dystysgrif Bedydd |
| 6 | Plant enwadau eraill, sydd â brawd neu chwaer hŷn ar y gofrestr ar 1 Medi 2024 | Enw a grŵp dosbarth y brawd neu chwaer. |
| 7 | Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig ddynodedig. | Cadarnhad gan ysgol gynradd |
| 8 | Plant enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni yn mynychu eglwys. | Tystiolaeth ysgrifenedig o arfer addoli gan Offeiriad, Gweinidog neu Barchedig cydnabyddedig. |
| 9 | Plant o gefndir di-ffydd y mae eu rhieni'n dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Gatholig. | Llythyr a ysgrifennwyd gan riant/gofalwr yn nodi rheswm dros gais |

10. Caiff y llywodraethwyr dderbyn unrhyw blentyn heb ystyried y meini prawf uchod (ond nid er mwyn rhoi blaenoriaeth dros unrhyw ymgeisydd yng nghategori 1) y mae ei gais yn dangos rhesymau meddygol eithriadol. Rhaid i'r cais ddod ynghyd â thystiolaeth ar ffurf datganiad a gefnogir ag unrhyw ddogfennau megis adroddiad meddygol neu lythyr i gefnogi gan feddyg neu weithiwr iechyd neu wasanaethau cymdeithasol proffesiynol arall. Bydd y cais yn esbonio pam mae Illtud Sant yn fwyaf addas ac yn disgrifio'r anawsterau os oes angen i fynd i ysgol wahanol.

* Rhaid darparu copi o'r dystysgrif geni gyda phob categori.

**Nodiadau**
Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd o fewn categori, defnyddir pellter uniongyrchol cartref y plentyn i'r ysgol i ddod i benderfyniad terfynol. Bydd y pellter yn cael ei fesur gan wybodaeth GPS sydd ar gael ar y pryd o ddrws ffrynt cyfeiriad cartref y plentyn (gan gynnwys fflatiau) i brif fynedfa'r ysgol.

Os oes mwy o ymgeiswyr na lleoedd yna bydd y rhai nad ydynt yn cael eu derbyn ac sy'n gwneud cais yn cael eu rhoi ar restr aros tan 30 Medi 2024. Bydd trefn ar y rhestr aros yn cael ei phennu gan y polisi gordanysgrifio. Mae'r broses hon yn berthnasol i bontio i ysgolion uwchradd o ysgolion cynradd yn unig. Bydd derbyniadau yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried yn ôl categori ar adeg pob cyfarfod.

Yn achos plant sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid (pan na fydd o reidrwydd dystiolaeth bapur o fedydd neu ymrwymiad i enwad neu ffydd arall), mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth gan asiantaeth berthnasol neu rywun arall.

At ddibenion y polisi hwn, mae "brawd neu chwaer" yn cyfeirio at frawd neu chwaer, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer fabwysiedig, llysfrawd neu chwaer, neu blentyn y rhiant/gofalwr partner, ac ym mhob achos, dylai'r plentyn fod yn byw yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad.

Mae gan rieni na chynigir lle i'w plentyn hawl statudol i wrandawiad apelio gerbron pwyllgor annibynnol. Dylai rhieni sydd am apelio wneud hyn yn ysgrifenedig. Dylid anfon yr apêl at Glerc y Llywodraethwyr o fewn 14 diwrnod o gael gwybod am y penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn.

**Sut i Wneud Cais**
Trwy ein system ar-lein ar gyfer ceisiadau Blwyddyn 6 yn unig www.stilltyds.org.uk/applications Ar gyfer ceisiadau yn ystod y flwyddyn mae ffurflen gais ar gael o'n gwefan www.stilltyds.org.uk Bydd Panel Apeliadau'r Corff Llywodraethu yn cwrdd i benderfynu ar Dderbyniadau yn unol â'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod drwy e-bost am ganlyniad cyfarfod y Panel Derbyniadau ar 1 Mawrth 2024.

**Yr Hawl i Apelio**
Mae gan rieni nad ydynt yn cael cynnig lle hawl statudol i apelio yn erbyn penderfyniad cyrff llywodraethu mewn perthynas â derbyniadau ysgol. Mae'r Panel Apeliadau'n hollol annibynnol ar y Llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol. Gellir cael ffurflen apelio o Swyddfa'r Ysgol. Dylid ei chwblhau a'i hanfon at Glerc y Llywodraethwyr o fewn 14 diwrnod o gael gwybod am y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Yna bydd y Panel Apeliadau yn cyfarfod i ystyried yr Apêl ac unrhyw wybodaeth atodol a ddarperir o fewn 30 diwrnod i dderbyn yr apêl.

# YSGOL SEFYDLEDIG

## Ysgol Uwchradd (Sefydledig) Yr Eglwys Newydd

**Polisi Derbyn 2024/25**

### 1 Derbyn disgyblion

1.1 Mae Ysgol Uwchradd (Sefydledig) yr Eglwys Newydd (YUEN) yn ysgol gyfun lle caiff disgyblion eu derbyn i Flynyddoedd 7-11 waeth beth fo'u gallu. Mae'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i sicrhau ysgol gynhwysol a bod derbyniadau yn adlewyrchu amrywiaeth eang y gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.

1.2 Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am dderbyniadau, dan gyfarwyddyd y Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru. Mae'r Polisi Derbyn hwn wedi'i lunio'n unol â "Dogfen Cod Statudol 002/2009: Cod Derbyn i Ysgolion" Llywodraeth Cymru ac mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol, Cyngor Sir Caerdydd a phartïon eraill â diddordeb.

1.3 Is-bwyllgor Derbyniadau'r Llywodraethwyr sy'n delio â derbyniadau i YUEN ac maent yn ddarostyngedig i'r Polisi Derbyn sy'n berthnasol ar yr adeg honno. Ceir meini prawf derbyn gwahanol mewn perthynas â mynediad i:
- Blynyddoedd 7 i 11
- Blynyddoedd 12 a 13 (manylion pellach ar wefan yr ysgol: www.whitchurchhs.wales)
- Tŷ Calon, y Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) (rhagor o fanylion ar wefan yr ysgol: www.whitchurchhs.wales)

1.4 Nifer derbyn YUEN yw:
- 390 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn (Blynyddoedd 7 i 11)
- Hyd at 330 o ddisgyblion ar gyfer Blwyddyn 12 oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gofyn fel arall
- 12 - 15 disgybl fesul grŵp blwyddyn yn Nhŷ Calon yn ddibynnol ar ddatganiad o angen dysgu ychwanegol.

### 2 Derbyniadau i Dŷ Calon

2.1 Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn gweithredu Tŷ Calon, canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol/difrifol. Mae'r uned yn derbyn hyd at 100 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o bob rhan o Gaerdydd.

2.2 Rheolir derbyniadau i ddarpariaeth arbenigol gan y Cyngor, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). O dan y Cod ADY, bydd y lleoliad yn destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

2.3 Os yw rhiant disgybl sydd â datganiad AAA yn dymuno apelio yn erbyn yr ysgol a enwir yn y datganiad, neu'r ffaith nad oes ysgol wedi'i henwi, cyfeirir yr apêl i: Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC), E-bost: tribiwnlysaddysg@llyw.cymru 2 I Tudalen

2.4 Mae YUEN yn gweithio'n agos â Chyngor Sir Caerdydd i sicrhau bod disgyblion yn cael eu derbyn i Dŷ Calon yn llwyddiannus unwaith y mae Panel Cynghori ar Achosion yr Awdurdod Lleol wedi cytuno ar leoedd.

### 3 Gwneud cais ma le ym Mlwyddyn 7

3.1 Bydd plant yn symud i ysgol uwchradd y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 11 oed. Yn Nhymor yr Hydref, gwahoddir rhieni/gofalwyr Blwyddyn 6, gan gynnwys rhai o'n hysgolion

cynradd partner, i wneud cais i gael eu derbyn yn y flwyddyn academaidd ganlynol. Ein hysgolion partner yw:

- Ysgol Gynradd Llwynbedw
- Ysgol Gynradd Coryton
- Ysgol Gynradd Gabalfa
- Ysgol Gynradd Hawthorn
- Ysgol Gynradd Llanisien Fach
- Ysgol Gynradd Rhiwbeina
- Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd

Mae gan rieni/gofalwyr yr hawl i fynegi ffafriaeth i'w plentyn fynychu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a fydd yn cael ei hystyried yn unigol a'i fodloni pryd bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae'r ysgol fel arfer wedi'i gordanysgrifio. Bydd dewisiadau rhieni/gofalwyr yn dal i gael eu hystyried ond bydd y blaenoriaethau a osodwyd gan y Llywodraethwyr, a amlinellir isod, yn cael eu cymhwyso. Wrth benderfynu pa blant i'w derbyn, mae'r Llywodraethwyr yn cymhwyso'r meini prawf yn nhrefn y flaenoriaeth a ddangosir (1. yw'r uchaf) ac yn archwilio rhinweddau pob achos drwy ystyried rhesymau a gyflwynir i gefnogi unrhyw ddewis a fynegwyd. Ni fydd y Llywodraethwyr fel arfer yn derbyn mwy na Nifer Derbyn yr ysgol, sef 390.
Gallwch wneud ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion uwchradd (Blwyddyn 7) o Ddydd Llun 4 Medi, 2023 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Llun 20 Tachwedd, 2023.

**Sylwer bod Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn rhan o broses dderbyn gyffredin Cyngor Caerdydd ar gyfer ceisiadau Blwyddyn 7. Mae hyn yn golygu y gall rhieni/gofalwyr wneud un cais ac y gallant wneud hyn ar-lein; gall rhieni nodi hyd at bum ysgol wahanol y maent am wneud cais amdanynt; os na fyddant yn cael cynnig lle ar gyfer y dewis cyntaf, byddai rhieni/gofalwyr yn cael eu hystyried yn awtomatig ar gyfer eu hail ddewis, ac yn y blaen.** *Noder nad yw rhai ysgolion uwchradd ffydd yn rhan o'r broses dderbyn gyffredin hon, a byddai'n rhaid i rieni/gofalwyr wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgolion hyn pe byddai'r rhain yn ddewis a ffefrir.*

Gan fod YUEN yn rhan o'r broses dderbyn gyffredin, gellir gwneud ceisiadau i'r ysgol ar-lein drwy wefan Cyngor Caerdydd www.caerdydd.gov.uk. Os nad oes modd gwneud cais ar-lein, gwnewch hynny'n ysgrifenedig drwy gysylltu â'r Tîm Derbyn yng Nghyngor Caerdydd am ffurflen gais.

### 3.2 Meini prawf gordanysgrifio (Blwyddyn 7 -11)

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd, defnyddir y meini prawf derbyn canlynol, yn y drefn hon:

1. Disgyblion sydd yn - neu a arferai – dderbyn gofal (mewn gofal cyhoeddus)
2. Disgyblion sy'n destun Cynllun Datblygu Unigol (CDU), lle mae ysgol benodol yn cael ei henwi.
3. Disgyblion sydd ar y gofrestr yn un o ysgolion cynradd partner Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (gweler 3.1)
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd yr ysgolion cynradd partner gyda brawd neu chwaer hŷn yn mynychu YUEN ar adeg eu derbyn i'r ysgol, h.y. yn B7-B11 ym mis Medi 2024.
5. Disgyblion nad ydynt ar y gofrestr yn unrhyw un o'r ysgolion cynradd partner ond a fyddai, drwy rinwedd eu cyfeiriad, fel arfer yn cael eu haddysgu yn un o'r ysgolion hyn gan eu bod yn byw yn nalgylchoedd yr ysgolion cynradd partner.
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylchoedd yr ysgolion cynradd partner gyda brawd neu chwaer yn mynychu YUEN ar adeg eu derbyn i'r ysgol, h.y. yn B7-B11 ym mis Medi 2024
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylchoedd yr ysgolion cynradd partner.

## General Notes

Pan fo nifer y dewisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn unrhyw faen prawf uwch, defnyddir agosrwydd i benderfynu pa ddisgyblion sy'n cael eu derbyn. Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) y Cyngor, y cyfeirir ati fel 'Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig' (ITN), sydd wedi ei ffurfweddu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a meini prawf pennu llwybr y Ddarpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllaw Gweithredol 2014.
Mae'r llwybr diogel byrraf sydd ar gael (fel y'i diffinnir gan 'Ddarpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllaw Gweithredol Mehefin 2014 Llywodraeth Cymru') yn cael ei gyfrifo (i 4 lle degol) o gyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd (a benderfynir drwy ddefnyddio data pwynt cyfeiriad y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol [LLPG]), i'r gât ysgol agored agosaf gan ddefnyddio data llwybrau'r Arolwg Ordnans (AO).

a) Lle nad oes llwybr diogel ar gael, defnyddir y pwynt agosaf ar y RhTI i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd i gyfrifo'r llwybr gyrru byrraf i'r gât ysgol agored agosaf.
b) Dyrannu'r lleoedd olaf: Lle mae fflatiau'n defnyddio'r un cyfesurynnau pwynt cyfeiriad LLPG, penderfynir ar yr asesiad llwybr o'r fynedfa flaen i bob fflat.

Ar gyfer ceisiadau ar gyfer disgyblion sy'n byw o fewn tir mawr y DU ond y tu allan i'r ardal a gwmpesir gan y rhwydwaith trafnidiaeth integredig (RhTI), cyfrifir pellteroedd o'r man preswylio i'r ysgol fel y pellter gyrru byrraf fel y'i gwerthusir gan ddefnyddio Google Maps. Lle mae ymgeiswyr yn byw y tu allan i dir mawr Prydain, pennir pellteroedd llwybrau fel y llwybr byrraf fel y penderfynir gan ddefnyddio Google Maps gan ddefnyddio'r mathau o drafnidiaeth sydd ar gael.
Os yw disgybl yn byw mewn gwahanol gyfeiriadau yn ystod yr wythnos, y cyfeiriad lle mae'n treulio'r nifer fwyaf o nosweithiau yn ystod yr wythnos fydd yn cael ei ystyried.
Caiff ceisiadau gan efeilliaid, tripledi a genedigaethau lluosog eraill eu hystyried gyda'i gilydd yn unol â'r meini prawf uchod. Os bodlonir y meini prawf, derbynnir y ddau efell, pob un o'r tripledi ac ati, i'r ysgol.
Bydd angen i geisiadau derbyn gan blant aelodau o luoedd arfog y DU fodloni gofynion preswyl drwy gadarnhau lleoliad.

## Pontio i Addysg Uwchradd

Dim ond ceisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ceisiadau fydd yn cael eu hystyried yn ystod y cylch cychwynnol o ddyrannu lleoedd. Gellir gwneud cais i drosglwyddo i addysg uwchradd 4 l Tudalen ym mis Medi 2024 ar-lein drwy wefan Cyngor Caerdydd www.caerdydd.gov.uk, yn weithredol o 4 Medi, 2023. Cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau bod cais yn cael ei wneud erbyn y dyddiad cau, sef 20 Tachwedd, 2023. Bydd ceisiadau a wneir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr.

### 3.3 Amserlen Derbyn Blwyddyn 7

Mae dyddiadau cau yn cyfeirio at y dyraniad blynyddol o leoedd i'r grŵp oedran Blwyddyn 7 ym Medi 2024.

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am dderbyniadau'n cael ei chyflwyno i rieni Bydd Gwasanaeth ymgeisio ar-lein Cyngor Caerdydd yn agor | Dydd Llun 4 Medi, 2023 |
| Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais | **Dydd Llun 20 Tachwedd, 2023** *Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad hwn sy'n cael eu hystyried yn rownd gychwynnol dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni eraill yn cael eu hystyried yn geisiadau hwyr.* |
| Hysbysiad o ganlyniad i gais erbyn | Dydd Gwener 1 Mawrth, 2024 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn lleoedd a gynigir | Pythefnos ar ôl hysbysiad, dydd Gwener 15 Mawrth, 2024 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn apêl statudol l | Dydd Gwener 15 Mawrth, 2024 |
| Gwrandawiadau apeliadau | Clywir apeliadau gan Banel Apeliadau Annibynnol a drefnir trwy Gyngor Sir Caerdydd. |

3.4 Dim ond ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau, sef 20 Tachwedd, 2023, fydd yn cael eu hystyried yn y rownd gychwynnol o ddyrannu lleoedd a bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais ddydd Gwener 1 Mawrth, 2024.

3.5 Mae ffenestr o bythefnos ar gyfer derbyn lle/lleoedd, sef erbyn 15 Mawrth, 2024, ar gyfer y rownd gychwynnol o ddyrannu lleoedd.

3.6 Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried pan roddir rheswm da dros oedi neu lle bônt yn cyfeirio at blentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Bydd ceisiadau hwyr eraill yn cael eu hystyried ar ôl i'r dyraniad cychwynnol o leoedd gael ei wneud ar 1 Mawrth, 2024. Bydd yr Is-Bwyllgor Derbyniadau'n cyfarfod yn ystod wythnos yn dechrau ar 18 Mawrth, 2024 ac yn fisol wedi hynny, os oes angen, tan ddiwedd tymor yr haf 2024. Bydd unrhyw geisiadau a gaiff eu gwrthod yn dilyn y rownd ddyrannu gyntaf ynghyd ag unrhyw geisiadau hwyr yn cael eu hystyried gyda'i gilydd, ac yn erbyn y meini prawf derbyn, os daw unrhyw leoedd ar gael.

3.7 Pan fo cais derbyn wedi'i wrthod, mae gan rieni/gofalwyr yr hawl i apelio i banel apeliadau annibynnol (gweler Yr Hawl i Apelio isod).

3.8 Lle mae lle wedi'i wrthod, bydd YUEN yn gweithredu rhestr aros. Bydd ceisiadau a gafwyd yn ystod y rownd dderbyn arferol yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi, 2024. Os daw lleoedd i'r amlwg tra bod y rhestr aros yn weithredol, cânt eu dyrannu yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio, a nodir yn adran 3.2 (1 i 7). Nid yw rhoi enw plentyn ar restr aros yn effeithio ar hawl rhiant/gofalwr i apelio yn erbyn cais aflwyddiannus.

3.9 Bydd unrhyw geisiadau derbyn i YUEN y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn cael ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf a bydd hon yn cael ei hystyried yn ddi-oed. 5 l Tudalen Bydd y penderfyniad i gynnig neu wrthod lle yn cael ei roi o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, p'un bynnag sydd gynharaf. Mae gan rieni/gofalwyr y mae eu cais yn cael ei wrthod hawl i apelio at banel apeliadau annibynnol.

3.10 Bydd ceisiadau a geir nad ydynt yn rhan o'r broses flynyddol o ddyrannu lleoedd ar gyfer derbyniadau yn ystod y flwyddyn yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo. Ar ôl yr amser hwn disgwylir i rieni/gofalwyr gyflwyno cais derbyn arall.

### 4 Hawl i Apelio

4.1 Mae gan unrhyw riant/gofalwr (ac eithrio un y mae ei blentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol) y gwrthodir lle i'w blentyn yn YUEN hawl statudol i apelio i banel apeliadau annibynnol. Mae gan rieni/gofalwyr neu bobl ifanc sydd wedi cael cynnig o le wedi'i dynnu'n ôl hawl i apelio hefyd. Darperir manylion y weithdrefn apelio gydag unrhyw lythyr sy'n nodi bod cais wedi'i wrthod.

### Nodiadau canllaw i rieni/gofalwyr

**Cyfeiriad parhaol**

Sicrhewch fod y manylion yn gywir ac mai dyma gyfeiriad cartref parhaol eich plentyn, NID cyfeiriad busnes, perthynas, ffrind, gwarchodwr plant, cyfeiriad dros dro neu gyfeiriad rydych yn gobeithio symud iddo.

**Preswyliaeth**

Os ydych yn bwriadu symud a bod hyn yn cynnwys prynu eiddo, bydd angen i chi ddarparu llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau cyfnewid contractau a'r dyddiad cwblhau gwirioneddol. Ni all YUEN dderbyn llythyr yn cadarnhau eich bwriad i brynu eiddo.

Os yw'r symudiad yn cynnwys rhentu eiddo, bydd angen i chi ddarparu copi o'ch cytundeb tenantiaeth gan asiantaeth gosod eiddo gydnabyddedig, gwerthwr tai neu gyfreithiwr yn cadarnhau dyddiad dechrau a gorffen y brydles.

Os yw'r symudiad yn golygu dychwelyd i fyw mewn eiddo rydych eisoes yn berchen arno, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r dyddiad y byddwch yn symud yn ôl i'r eiddo. Os ydych wedi rhentu eich eiddo i rywun arall, bydd angen i chi hefyd ddarparu tystiolaeth eich bod wedi rhoi rhybudd i'ch tenantiaid adael.

Os nad ydym yn fodlon gyda'r dystiolaeth rydych wedi ei darparu, mae'n bosib y byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol. Os na fyddwn yn derbyn tystiolaeth foddhaol ni fydd YUEN yn derbyn eich cais o'r cyfeiriad newydd.

**Ceisiadau hwyr**

Ar ôl y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd, caiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn unol â'r meini prawf derbyn. Bydd unrhyw geisiadau a gaiff eu gwrthod yn dilyn y cylch dyrannu cyntaf ynghyd â cheisiadau hwyr dilynol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd os daw unrhyw leoedd ar gael maes o law.

**Brodyr a Chwiorydd**

At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant ag un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer, sef pan mae dau blentyn yn perthyn gan fod eu rhieni wedi priodi, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad.

**Cyfrifoldeb a rennir**

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb dros blentyn a bod y plentyn yn byw yng ngwahanol gyfeiriadau'r rhieni am wahanol rannau o'r wythnos ysgol, y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo

am y rhan fwyaf o'r wythnos. Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y cyfeiriad y dymunant ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu.  Mewn achosion o anghydfod, lle mae gan rieni gyfrifoldeb ar y cyd, rhaid i'r ddau riant gytuno ar geisiadau.

**Rhestrau Aros**
Pan fo cais yn cael ei wrthod, bydd y plentyn yn cael ei roi ar restr aros. Bydd ceisiadau'n aros ar y rhestr aros tan 30 Medi, 2024. Ar ôl yr amser hwn disgwylir i rieni gyflwyno cais arall.

**Y Broses Apelio**
Os yw rhieni'n anfodlon ar ganlyniad cais, gellir cyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Statudol Annibynnol. Os na fydd yr apêl yn llwyddiannus, ni fydd ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol yn cael eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd.

**Tynnu lleoedd yn ôl**
Caiff unrhyw le a gymeradwywyd ar sail man preswylio ei dynnu'n ôl os nad yw'r disgybl yn preswylio'n barhaol yn y cyfeiriad cartref a nodwyd yn y cais mwyach ar ddechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo (dyddiadau tymhorau wedi'u cyhoeddi yn y Llyfryn Derbyn i Ysgolion). Y cyfeiriad cartref yw prif a gwir breswylfa'r disgybl a'i riant/gofalwr ar y dyddiad a gyhoeddwyd h.y. ble maen nhw'n byw fel arfer ac yn rheolaidd.

Os yw disgybl yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau na wnelent â gwarcheidiaeth) ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau neu berthnasu ei ystyried at ddibenion dyrannu lleoedd. Pan fydd rhieni'n rhoi gwybodaeth anwir yn fwriadol er mwyn ceisio sicrhau lle i'w plentyn yn YUEN, na fyddai ganddynt hawl iddo fel arall, ceidw'r Cyngor yr hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Gallai rhieni fod yn agored i gael eu herlyn dan Adran 5(b) Deddf Anudon 1911.

